

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

09/07/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)
[Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)
[Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol](#)
[Questions to the Counsel General](#)

[Datganiad: Bil Sector Amaethyddol \(Cymru\)](#)
[Statement: The Agricultural Sector \(Wales\) Bill](#)

[Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Cyfleusterau Sefyll Ddiogel yn Stadia Chwaraeon yng Nghymru](#)
[Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): Safe Standing at Sports Stadiums in Wales](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy](#)
[The Environment and Sustainability Committee's Report on its Inquiry into Sustainable Land Management](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Cod Gweinidogol](#)
[Welsh Conservatives Debate: The Ministerial Code](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Y Daith at Ddysg: Y Ddarpariaeth o Drafnidiaeth i Ysgolion a Cholegau yng Nghymru](#)
[Short Debate: The Drive to Education: The Provision of Transport to Schools and Colleges in Wales](#)

[Dadl Fer a Ohiriwyd o 18 Mehefin 2014: Llais—Siarad ar ran Pobl sy'n Byw gyda Chlefyd Niwronau Motor yng Nghymru](#)
[Short Debate Postponed from 18 June 2014: Voice—Speaking up for People Living with Motor Neurone Disease in Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru .

Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Questions to the Minister for Health and Social Services

Oriau Agor Fferyllfeydd

Pharmacy Opening Hours

13:30 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oriau agor fferyllfeydd? OAQ(4)0473(HSS)

1. Will the Minister make a statement on pharmacy opening hours? OAQ(4)0473(HSS)

13:30 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Mae'r fframwaith contract fferyllfeydd cymunedol yn nodi bod yn rhaid i bob fferyllfa fod ar agor am 40 o oriau craidd. Gellid cynyddu neu leihau'r oriau agor hyn drwy wneud cais i'r bwrdd iechyd lleol perthnasol.

The community pharmacy contractual framework sets out that each pharmacy must open for 40 core hours. Changes to increase or reduce these opening hours can be made by application to the relevant local health board.

- 13:30 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch i chi am eich ateb. Bythefnos yn ôl cafodd etholwr i mi o Wrecsam bresgripsiwn am 'antibiotics' gan y gwasanaeth meddygol tu allan i oriau arferol yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Roedd hi wedi 5 p.m. ar nos Sul a'r ddwy fferyllfa agosaf wedi cau. Er hynny, cafodd y dewis o deithio 80 milltir i'r Rhyl ac yn ôl neu fynd i Gaer i gael ei bresgripsiwn. Dewisodd ef fynd i Gaer ond, wrth gwrs, o ganlyniad, bu'n rhaid iddo dalu ffi presgripsiwn i NHS Lloegr o £8.05. A ydych yn gwybod, Weinidog, faint o bobl yng Nghymru sy'n gorfod talu am bresgripsiwn yn Lloegr ar ôl i'r presgripsiwn hwnnw gael ei ysgrifennu yng Nghymru a beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod gwell darpariaeth fferyllol ar gael y tu allan i oriau arferol?
- Thank you for your answer. Two weeks ago a constituent of mine from Wrexham was prescribed antibiotics by the out-of-hours medical service at Wrexham Maelor Hospital. It was after 5 p.m. on a Sunday and the two nearest pharmacies were closed. However, he was given a choice of travelling 80 miles to Rhyl and back or go to Chester to collect his prescription. He chose to go to Chester but, of course, as a result, he had to pay a prescription charge of £8.05 to NHS England. Do you know, Minister, how many people in Wales have to pay for a prescription in England when it was issued in Wales and what is the Government doing to ensure that better pharmaceutical provision is available out of hours?
- 13:31 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch i Llyr Gruffydd am y cwestiwn. Rwy'n gyfarwydd â'r achos, ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weld a yw hynny wedi digwydd fwy nag unwaith. Mae'r dystiolaeth a ddaeth yn ôl yn dangos nad yw hynny'n digwydd o gwbl fel arfer. Nid ydym yn meddwl bod pobl yn mynd dros y ffin i dalu am bresgripsiwn am nad ydynt yn gallu ei gael yng Nghymru. Mae tua 10% o fferyllfeydd ar agor ar ddydd Sul yng Nghymru. Mae'r nifer wedi cynyddu ychydig bach ar ôl i archfarchnadoedd fel Tesco ddechrau darparu gwasanaethau. Rydym yn gweithio gyda 'Community Pharmacy Wales' i geisio cynyddu'r nifer yn y dyfodol hefyd.
- I thank Llyr Gruffydd for the question. I am familiar with the case, and I have asked my officials to see whether that has happened more than once. The evidence that came back shows that that is not happening at all as a matter of course. We do not think that people are crossing the border to pay for a prescription because they are not able to obtain it in Wales. About 10% of pharmacies are open on Sundays in Wales. The number has increased slightly after supermarkets like Tesco started providing services. We are working with Community Pharmacy Wales to try to increase the number in the future.
- 13:32 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, it is worth acknowledging that pharmacists are the most accessible health professionals, being available without appointment or registration. There is a chemist on nearly every high street in Wales, both in deprived communities and in vibrant, modern shopping centres. They serve healthy people as well as ill people. Do you not consider that you should make more money available so that there would be extended opening hours?
- Weinidog, mae'n werth cydnabod mai fferyllwyr yw'r gweithwyr iechyd proffesiynol mwyaf hygyrch, gan eu bod ar gael heb apwyntiad a heb gofrestru. Mae fferyllwyr ar bron bob stryd fawr yng Nghymru, mewn cymunedau difreintiedig ac mewn canolfannau siopa bywiog, modern. Maent yn gwasanaethu pobl iach yn ogystal â phobl sâl. A ydych yn ystyried y dylech ryddhau mwy o arian er mwyn ymestyn oriau agor?
- 13:32 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I entirely agree with the points that William Graham has made strongly on behalf of the community pharmacy network in Wales. It is a very strong network, with over 700 community pharmacies, and they really do provide services in every part of the country. We work closely with them. I do not think that the issue is necessarily one of funding. There are other ways in which we are able to work with the network to do just that—to extend their opening hours—particularly at those pinch points in the week of the sort that Llyr Gruffydd identified.
- Cytunaf yn llwyr â'r pwyntiau cryf a wnaeth William Graham ar ran y rhwydwaith fferylliaeth gymunedol yng Nghymru. Mae'n rhwydwaith cryf iawn, gyda thros 700 o fferyllfeydd cymunedol, ac maent yn darparu gwasanaethau ym mhob rhan o'r wlad yn wir. Rydym yn gweithio'n agos gyda hwy. Nid wyf yn credu mai ymwneud â chyllid y mae'r mater o reidrwydd. Mae yna ffyrdd eraill y gallwn weithio gyda'r rhwydwaith i wneud yn union hynny—ymestyn eu horiau agor—yn enwedig ar yr adegau anodd o'r wythnos o'r math a nododd Llyr Gruffydd.
- 13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

13:33

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, constituents of mine have complained about hospital pharmacy opening hours across the Cardiff and Vale University Local Health Board. The latest that any hospital pharmacy in our area is open is 5.45 p.m., which is described as 'the emergency service' but many others are open for only two hours a day or are closed at lunchtime during the working day. Do you think that this is acceptable in terms of access?

Weinidog, mae rhai o fy etholwyr wedi cwyno am oriau agor fferyllfeydd ysbyty ar draws Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Y diweddaraf y bydd unrhyw fferyllfa ysbyty yn ein hardal ar agor yw 5:45pm, a disgrifir hwn fel 'gwasanaeth brys' ond mae llawer o rai eraill yn agored am ddwy awr y dydd yn unig neu ar gau amser cinio yn ystod y diwrnod gwaith. A ydych yn credu bod hyn yn dderbyniol o ran mynediad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:33

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The service provided by pharmacies in hospitals is a very important one. They are often exceptionally busy in dealing with demands that come their way. They have been extensively modernised over recent years by successive Governments investing in robotic pharmacy facilities, which are now widely available across Wales. I have not in the many visits that I have made to hospitals and to pharmacies in hospitals come across the issue that the Member has raised but I am happy to consider it further on the basis of what she said this afternoon.

Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan fferyllfeydd mewn ysbytai yn un pwysig iawn. Maent yn aml yn eithriadol o brysur yn ymdrin â'r galwadau sydd arnynt. Maent wedi cael eu moderneiddio'n helaeth dros y blynyddoedd diwethaf gan Lywodraethau olynol yn buddsoddi mewn cyfleusterau fferyllfa robotig, sydd ar gael yn eang ar draws Cymru. Yn y llu o ymweliadau a wneuthum ag ysbytai a fferyllfeydd mewn ysbytai, nid wyf wedi dod ar draws y mater y mae'r Aelod wedi'i godi ond rwy'n fodlon ei ystyried ymhellach ar sail yr hyn a ddywedodd y prynhawn yma.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:34

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Patients for some chronic conditions, such as HIV, are obliged to have their medication dispensed at a hospital pharmacy. As I say, in Cardiff that is only during working hours or they can arrange a delivery, which is also during working hours. Either option impinges on that patient's confidentiality, which for a HIV patient in particular, is very important. I have raised this issue with you before but nothing has changed in the Cardiff and Vale LHB, so we have an inflexible 28-day prescribing regime and pharmacies or deliveries only during the working day. Do you really believe that Cardiff and Vale LHB is doing everything that it can to enable people with chronic conditions to manage their illnesses with dignity and, more importantly, with discretion as well?

Mae'n rhaid i gleifion sy'n dioddef o rai cyflyrau cronig, megis HIV, gael eu meddyginiaeth wedi'i ddarparu drwy fferyllfa ysbyty. Fel y dywedais, yng Nghaerdydd, dim ond yn ystod oriau gwaith y bydd hynny'n digwydd neu gallant drefnu iddo gael ei ddarparu, sydd hefyd yn digwydd yn ystod oriau gwaith. Mae'r naill opsiwn neu'r llall yn amharu ar gyfrinachedd y claf, sy'n bwysig iawn, yn enwedig i glaf HIV. Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda chi o'r blaen ond nid oes dim wedi newid yn BILL Caerdydd a'r Fro, felly mae gennym drefn ragnodi a fferyllfeydd neu ddarpariaeth 28 diwrnod sy'n anhyblyg ac yn digwydd yn ystod y diwrnod gwaith yn unig. A ydych yn credu mewn gwirionedd fod BILL Caerdydd a'r Fro yn gwneud popeth o fewn ei allu i alluogi pobl sydd â chyflyrau cronig i reoli eu salwch gydag urddas ac yn bwysicach, gyda chyfrinachedd hefyd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:35

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am a firm supporter of the 28-day prescription rule. We know that it is both a more clinically effective and a cost effective way of delivering prescriptions—75 million prescriptions were provided in primary care in Wales alone last year. We have to provide services in a way that meets people's needs while, at the same time, protecting the resources of the system. I am very well aware of the issue that Eluned Parrott raises, having corresponded with her and with the local health board on it. I do expect local health boards to exercise discretion in individual cases where they know that someone has a very stable condition, where they know that their compliance with medication regimes is strong, and where a longer prescription would be suitable for them.

Rwy'n cefnogi'r rheol presgripsiwn 28 diwrnod yn gadarn. Rydym yn gwybod ei bod yn fwy effeithiol yn glinigol ac yn ffordd gost-effeithiol o ddarparu presgripsiynau—cafodd 75 miliwn o bresgripsiynau eu darparu mewn gofal sylfaenol yng Nghymru yn unig y llynedd. Mae'n rhaid inni ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion pobl gan ddiogelu adnoddau'r system ar yr un pryd. Rwy'n ymwybodol iawn o'r mater y mae Eluned Parrott yn ei godi, ar ôl gohebu gyda hi a gyda'r bwrdd iechyd lleol yn ei gylch. Rwyf yn disgwyl i fyrdau iechyd lleol arfer disgrisiwn mewn achosion unigol lle y byddant yn gwybod bod rhywun yn dioddef o gyflwr sefydlog iawn, lle y byddant yn gwybod eu bod yn cydymffurfio'n agos â gweithdrefnau meddyginiaeth a lle y byddai presgripsiwn hwy yn addas ar eu cyfer.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol

Individual Patient Funding Requests

- 13:36 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu i fyrdau iechyd lleol ar Geisiadau Cyllido Cleifion Unigol? OAQ(4)0467(HSS)*
- 2. Will the Minister provide an update on the guidance that the Welsh Government has provided to local health boards on Individual Patient Funding Requests? OAQ(4)0467(HSS)*
- 13:36 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- An all-Wales individual patient funding request policy was adopted in 2011. The policy has recently been the subject of a Welsh-Government-commissioned review, and consultation concluded on 25 June. I will make a statement on the findings of the review once the analysis of the consultation responses is complete.
- Mabwysiadwyd polisi Cymru gyfan ar gyfer ceisiadau cyllido cleifion unigol (IPFR) yn 2011. Mae'r polisi wedi bod yn destun adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 25 Mehefin. Byddaf yn gwneud datganiad ar ganfyddiadau'r adolygiad pan fydd y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyflawn.
- 13:36 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area, all applications for the following drugs—I apologise if I pronounce them wrongly—bevacizumab for colorectal cancer and ovarian cancer, cabazitaxel, siltuximab, enzalutamide, imantinib mesylate, pomalidomide and sorafenib, which were applied for through the IPFR, were refused during the 12-month period of 2013-14. Given that those applications are made on the advice of the consultant in charge of that patient, how can you guarantee that the recommendations of the consultant for access to those drugs are being properly assessed?
- Yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, gwrthodwyd yr holl geisiadau ar gyfer y cyffuriau canlynol y gwnaed cais amdanynt drwy'r IPFR yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis yn 2013-14—rwy'n ymddiheuro os wyf yn eu hynganu'n anghywir—bevacizumab ar gyfer canser y colon a'r rhefr a chanser yr ofari, cabazitaxel, siltuximab, enzalutamide, imantinib mesylate, pomalidomide a sorafenib. O ystyried bod y ceisiadau wedi'u gwneud ar gyngor y meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol am y claf, sut y gallwch sicrhau bod argymhellion y meddyg ymgynghorol ynghylch mynediad at y cyffuriau hyn yn cael eu hasesu'n gywir?
- 13:37 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The policy review group that was set up to look at the IPFR process concluded in its report that the way that panels operate in Wales is already in line with rational and evidence-based decision making for those treatments that are not routinely available. The Member will be aware, having seen the report that she has quoted from, that 70% of all IPFR applications to the panel in the Betsi Cadwaladr area were successful. That does not suggest to me that the system is not taking proper account of the views of consultants.
- Daeth y grŵp adolygu polisi a sefydlwyd i edrych ar broses yr IPFR i'r casgliad yn ei adroddiad bod y ffordd y mae'r paneli yn gweithredu yng Nghymru eisoes yn cydymffurfio â phroses o wneud penderfyniadau rhesymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y triniaethau hynny nad ydynt ar gael fel mater o drefn. Bydd yr Aelod yn ymwybodol, ar ôl gweld yr adroddiad a ddyfynnodd ohono, bod 70% o'r holl geisiadau IPFR i'r panel yn ardal Betsi Cadwaladr yn llwyddiannus. Nid yw hynny'n awgrymu nad yw'r system yn rhoi ystyriaeth briodol i farn meddygon ymgynghorol.
- 13:38 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In our recent inquiries in the committee, we have heard from clinicians who have expressed concern about the concept of exceptionality. Some of the drugs mentioned are perhaps in relation to cohorts that exist. Will you be looking at the guidance, and will you be giving some strong guidance to these panels to look at the cohort concept, not just an individual concept?
- Yn ein hymchwiliadau diweddar yn y pwyllgor, clywsom gan glinigwyr sydd wedi mynegi pryder am y cysyniad o eithriadoldeb. Efallai fod rhai o'r cyffuriau y sonnir amdanynt yn gysylltiedig â chohortau sy'n bodoli. A fyddwch yn edrych ar y canllawiau, ac a fyddwch yn rhoi arweiniad cryf i'r paneli hyn i edrych ar y cysyniad o gohort, nid yn unig y cysyniad o unigolyn?

13:38

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

David Rees makes an important point and it was one that the review panel grappled with, namely how to ensure that we have an all-Wales approach to drugs that are frequently pursued through the IPFR panel. Its advice, which we have consulted on, is that the All Wales Therapeutics and Toxicology Centre should be put at the heart of the IPFR process. That would mean that it would get notification of all the applications that go through the panel. Where there are multiple applications for the same medicine, that would be identified early, and they would be able to be progressed to full appraisal or an interim evidence-based summary, so that an all-Wales consensus could be reached. The report that I mentioned to Antoinette Sandbach showed that one medicine was asked for 54 times through the IPFR process in Wales last year, and it is exactly that sort of drug being asked for many times that might be better decided on a cohort basis.

Mae David Rees yn gwneud pwynt pwysig ac roedd yn un yr aeth y panel adolygu i'r afael ag ef, sef sut i sicrhau bod gennym ymagwedd Cymru gyfan tuag at gyffuriau a geisir yn aml drwy'r panel IPFR. Ei gyngor, yr ymgynghorasom yn ei gylch, yw y dylid gwneud Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan yn rhan ganolog o'r broses IPFR. Byddai hynny'n golygu y câi ei hysbysu am yr holl geisiadau sy'n mynd drwy'r panel. Os oes ceisiadau lluosog am yr un feddyginiaeth, byddai hynny'n cael ei nodi'n gynnar, a byddai modd eu symud ymlaen at arfarniad llawn neu grynodedb interim yn seiliedig ar dystiolaeth, fel y gellid ffurfio consensws ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r adroddiad a grybwyllais wrth Antoinette Sandbach yn dangos bod cais am un feddyginiaeth wedi'i gyflwyno 54 gwaith drwy'r broses IPFR yng Nghymru y llynedd, ac mae'n union y math o gyffur y gofynnir amdano sawl gwaith ac y gellid penderfynu yn ei gylch yn well ar sail cohort.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:39

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Un o'r problemau gyda cheisiadau cyllid cleifion unigol yw bod cleifion yn gorfod profi bod eu hamgylchiadau yn eithriadol—nid yw hynny'n hawdd i'w profi na'i ddiffinio ychwaith. Rydym yn gwybod bod anghysonderau, yn gyffredinol, o ardal i ardal, rhwng gwahanol fyrddau iechyd, hefo cleifion yn methu â chael triniaeth mewn rhai lleoedd y gallent fod yn ei gael mewn lleoedd eraill. A yw'r Gweinidog yn cytuno y gallai'r anghysonderau daearyddol gael eu dileu yn gyffredinol drwy edrych ar asesiadau canolog?

One of the problems with individual patient funding requests is that patients need to prove that their circumstances are exceptional—that is not easy to prove nor to define. We know that there are discrepancies, in general, from area to area, between different health boards, with patients being denied treatment in some places that they might get in other places. Does the Minister agree that central assessments could lead to the general removal of geographical disparities?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:40

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is exactly that issue of standard procedures, across the different panels that the review group looked at. It specifically considered a national panel, and rejected that as the best way of achieving what Rhun ap Iorwerth is pointing at. It looks to the centre to provide that expert advice and early identification, and then to reinforce consistent decision making, so that a patient pursuing treatment in one part of Wales is being treated in the same way as they would elsewhere.

Yr union fater hwnnw o weithdrefnau safonol ar draws y paneli gwahanol yr edrychodd y grŵp adolygu arno. Yn benodol, ystyriodd banel cenedlaethol, a gwrthod hynny fel y ffordd orau o gyflawni'r hyn y mae Rhun ap Iorwerth yn ei nodi. Mae'n dibynnu ar y ganolfan i ddarparu'r cyngor arbenigol a dull adnabod cynnar, ac yna i atgyfnerthu'r broses o wneud penderfyniadau cyson, fel bod claf sy'n cael triniaeth mewn un rhan o Gymru yn cael yr un driniaeth ag a gâi yn unrhyw le arall.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:41

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As chair of the cross-party group on haemophilia and contaminated blood, I would like to ask the Minister to provide an update about access to the drug sofosbuvir, for patients with hepatitis C. Obviously, our group is particularly concerned about those who acquired the disease through contaminated blood products.

Fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar haemoffilia a gwaed halogedig, hoffwn ofyn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fynediad at y cyffur sofosbuvir ar gyfer cleifion â hepatitis C. Yn amlwg, mae ein grŵp yn arbennig o bryderus ynghylch pobl a ddaliodd y clefyd drwy gynhyrchion gwaed halogedig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:41

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I begin by congratulating Julie Morgan on the work that she does as chair of that important cross-party group? It is a group, I know, that is strongly supported by Members from other parties in the Chamber. The issue of access to sofosbuvir was raised in the last meeting of the cross-party group. It is a drug that allows people who have a very serious condition, associated with hepatitis C, to have a new drug that has a major impact on their health. We will not know from the National Institute for Health and Care Excellence until October whether it is to be approved by it. However, having had advice from the All Wales Medicines Strategy Group, and through the Welsh Health Specialised Services Committee, I have decided that we should, on an interim basis, make that drug available in Wales. The deputy chief medical officer is pursuing that with health board chief executives, and that drug will be available to those people for whom it is a life-changing therapy.

A gaf fi ddechrau drwy longyfarch Julie Morgan ar y gwaith y mae'n ei wneud fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol pwysig hwn? Rwy'n gwybod ei fod yn grŵp sy'n cael ei gefnogi'n gadarn gan Aelodau o bleidiau eraill yn y Siambr. Codwyd mater mynediad at sofosbuvir yng nghyfarfod diwethaf y grŵp trawsbleidiol. Mae'n gyffur sy'n galluogi pobl â chyflwr difrifol iawn, yn gysylltiedig â hepatitis C, i gael cyffur newydd sy'n cael effaith fawr ar eu hiechyd. Ni chawn wybod gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal tan fis Hydref pa un a fydd yn ei gymeradwyo. Fodd bynnag, ar ôl cael cyngor gan Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan, a thrwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, rwyf wedi penderfynu y dylem, ar sail dros dro, sicrhau bod y cyffur ar gael yng Nghymru. Mae'r dirprwy brif swyddog meddygol yn mynd ar ôl hyn gyda phrif weithredwyr byrddau iechyd a bydd y cyffur ar gael i'r bobl hynny y mae'n therapi sy'n newid bywydau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ymwrthedd i Wrthfotigau

Antibiotic Resistance

13:42

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â mynd i'r afael ag ymwrthedd i wrthfotigau? OAQ(4)0471(HSS)

3. What discussions has the Minister had with the UK Government in relation to tackling antibiotic resistance? OAQ(4)0471(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Lynne Neagle for that question. Tackling antimicrobial resistance is a key priority for the Welsh Government and the NHS in Wales. Together, we support the five-year UK antimicrobial resistance strategy, which has been developed through cross-government collaboration. Wales is developing our own action plan to support the implementation of this strategy.

Diolch i Lynne Neagle am y cwestiwn. Mae mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru. Gyda'n gilydd, rydym yn cefnogi strategaeth ymwrthedd gwrthficrobaidd pum mlynedd y DU a ddatblygwyd drwy gydweithio ar draws y llywodraethau. Mae Cymru yn datblygu ein cynllun gweithredu ein hunain i gefnogi'r broses o weithredu'r strategaeth hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. It is clear that, however much David Cameron likes to talk about dividing lines at Offa's Dyke, when it comes to global challenges like antimicrobial resistance, cross-border collaboration is more important than it has ever been. Indeed, I personally welcome the fact that the Prime Minister's intervention has put this hugely important issue back into the spotlight, because we face a stark reality, where existing antibiotics are becoming less effective. As the Minister knows, no new class of antibiotic has been developed in the last 25 years, and the development pipeline for new treatments is at an all-time low. Minister, by building on the work taking place through initiatives like the UK-wide antimicrobial resistance strategy, will you commit to ensuring that the Welsh Government plays a full and active role in helping to meet this great health challenge of our age?

Diolch i chi, Weinidog. Waeth faint y bydd David Cameron yn hoffi siarad am linellau terfyn ar Glawdd Offa, pan ddaw i heriau byd-eang fel ymwrthedd gwrthficrobaidd, mae'n amlwg fod cydweithredu trawsffiniol yn bwysicach nag erioed. Yn wir, yn bersonol rwy'n croesawu'r ffaith bod ymyrraeth y Prif Weinidog wedi rhoi'r mater hynod bwysig hwn yn ôl ar ganol y llwyfan, gan ein bod yn wynebu realiti llwm, lle y mae gwrthfotigau sydd eisoes yn bodoli yn mynd yn llai effeithiol. Fel y gwyr y Gweinidog, ni ddatblygwyd dosbarth newydd o wrthfotig yn ystod y 25 mlynedd diwethaf ac mae'r ffynnon ddatblygu triniaethau newydd ar ei lefel isaf erioed. Weinidog, drwy adeiladu ar y gwaith sy'n digwydd drwy gynlluniau megis strategaeth ymwrthedd gwrthficrobaidd y DU, a wnewch chi ymrwymo i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan lawn a gweithredol wrth helpu i oresgyn yr her fawr hon i iechyd ein hoes?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I share Lynne Neagle's welcome for the Prime Minister's intervention on this matter. I have received a very constructive letter from the Secretary of State for Health at the UK Government. He is very positive about the work that has gone on in Wales already on this matter, and offers us a full participation in the work that is now being set in hand.

There are two things that we need to do in this area. One is to support the search for new drugs. The other is to use the antibiotics that we currently have in a proper way. Public Health Wales tells us that 30% of the antibiotics that are prescribed in Wales were not necessary. It is through the over-use of the antibiotics that we currently have that we have the resistance developing to them, and there is a great deal more that we can do already to make an effort to address that.

Rwy'n rhannu croeso Lynne Neagle i ymyrraeth y Prif Weinidog ar y mater hwn. Rwyf wedi derbyn llythyr adeiladol iawn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd yn Llywodraeth y DU. Mae'n gadarnhaol iawn ynghylch y gwaith a wnaed yng Nghymru eisoes ar y mater hwn ac mae'n cynnig ein bod yn cael ein cynnwys yn llawn yn y gwaith sydd bellach yn cael ei roi ar y gweill.

Mae dau beth y mae angen inni ei wneud yn y maes hwn. Un yw cefnogi'r gwaith o chwilio am gyffuriau newydd. Y llall yw defnyddio'r gwrthfotigau sydd gennym ar hyn o bryd mewn ffordd briodol. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn dweud wrthym nad oes angen 30% o'r gwrthfotigau a ragnodir yng Nghymru. Drwy orddefnyddio'r gwrthfotigau sydd gennym ar hyn o bryd y deilliodd yr ymwrthedd iddynt ac mae llawer mwy y gallwn ei wneud yn barod i ymdrechu i fynd i'r afael â hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful for that last point that you made, Minister. I am sure that you are aware that the British Veterinary Association has been running a campaign and that around half of all of the antibiotics prescribed in Europe are in fact prescribed to animals. So, I would be grateful if you could outline what steps you are taking to ensure that the Chief Veterinary Officer for Wales coordinates with the Chief Veterinary Officer in the UK and on a European-wide basis, because it would be a ridiculous situation if antibiotic resistance being tackled, as it were, by appropriate use in humans was then undermined by inappropriate use in animals.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y pwynt olaf a wnaethoch, Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod Cymdeithas Milfeddygon Prydain wedi bod yn cynnal ymgyrch a bod tua hanner yr holl wrthfotigau a ragnodir yn Ewrop mewn gwirionedd yn cael eu rhagnodi ar gyfer anifeiliaid. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod Prif Swyddog Milfeddygol Cymru yn cydgyssylltu â Phrif Swyddog Milfeddygol y DU ac ar sail Ewrop gyfan, oherwydd byddai'n sefyllfa hurt pe bai'r frwydr yn erbyn ymwrthedd gwrthfotig drwy ddefnydd priodol mewn pobl yn cael ei thanseilio wedyn drwy ddefnydd amhriodol mewn anifeiliaid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is an important point that the Member raises. The Prime Minister's statement is very specific in pointing to the need for action on a global scale in relation to antimicrobial resistance. The resistance to antibiotics has, in part, been created by their overuse in animal health as much as in human health. I will ensure that the work that we do in Wales in human and in animal health is fully part of the UK effort.

Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig. Mae datganiad y Prif Weinidog yn tynnu sylw penodol iawn at yr angen i weithredu ar raddfa byd-eang mewn perthynas ag ymwrthedd gwrthficrobaidd. Yn rhannol, crëwyd ymwrthedd i wrthfotigau gan eu gorddefnyddio ym maes iechyd anifeiliaid lawn cymaint â'u defnyddio ym maes iechyd pobl. Byddaf yn sicrhau bod y gwaith a wnawn yng Nghymru ym maes iechyd pobl ac anifeiliaid yn rhan lawn o ymdrech y DU.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will be aware of the high rates of C. difficile that happened in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area in previous years, which resulted in some very sad cases of deaths of patients there. The rates of infection have been falling recently and that is thanks, in large part, to the good use of those antibiotics across the health board area. There is still much more to be done to prevent the spread of C. difficile in hospital situations. However, I am sure that you would want to join with me to welcome the improvement that Betsi Cadwaladr health board has made in this area and we hope to see more continuation of the improvements.

Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r cyfraddau uchel o C. difficile a ddigwyddodd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn blynyddoedd a fu, a arweiniodd at rai achosion trist iawn o farwolaethau cleifion yno. Mae cyfraddau'r haint wedi bod yn gostwng yn ddiweddar, diolch, i raddau helaeth, i'r defnydd da o'r cyfryw wrthfotigau ar draws ardal y bwrdd iechyd. Mae llawer mwy i'w wneud i atal lledaeniad C. difficile mewn ysbytai. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydddech am ymuno â mi i groesawu'r gwelliant y mae bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi'i gyflawni yn y maes a gobeithiwn weld y gwelliannau'n parhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do welcome the progress that has been made in Betsi Cadwaladr and she is right to say that there is certainly more to do. However, Professor Brian Duerden's review, which Betsi Cadwaladr commissioned, pointed very specifically to the impact of the inappropriate prescription of antibiotics on the rise in *C. difficile* and MRSA infections in that part of Wales. The latest figures are provisional and they are from surveillance data from Public Health Wales, but they suggest that the first quarter of this financial year, compared with the first quarter of the last financial year, is showing a 14% further drop in cases of MRSA in Wales and a drop of a third in cases of *C. difficile*. When the Public Accounts Committee took evidence yesterday and was considering the report by Healthcare Inspectorate Wales and the Wales Audit Office on Betsi Cadwaladr, it very specifically commented positively on the work that has been done at Betsi Cadwaladr, both clinically and at board level, to bear down on these conditions.

Rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed yn Betsi Cadwaladr ac mae hi'n iawn i ddweud bod mwy i'w wneud yn sicr. Fodd bynnag, amlygodd adolygiad yr Athro Brian Duerden, a gomisiynwyd gan Betsi Cadwaladr, yn benodol at effaith rhoi presgripsiynau gwrthfotigau amhriodol ar y cynnydd mewn heintiau *C. difficile* ac MRSA yn y rhan honno o Gymru. Mae'r ffigurau diweddaraf yn rhai dros dro a dônt o ddata goruchwyllo gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond maent yn awgrymu bod 14% o ostyngiad pellach yn yr achosion o MRSA yng Nghymru a gostyngiad o draean yn nifer yr achosion o *C. difficile* yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon o'i gymharu â chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Pan glywodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dystiolaeth ddoe ac wrth iddo ystyried yr adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar Betsi Cadwaladr, gwnaeth sylwadau cadarnhaol penodol iawn ar y gwaith a wnaed yn Betsi Cadwaladr, yn glinigol ac ar lefel y bwrdd, i gael gwared ar yr heintiau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, my question follows on from Antoinette Sandbach's because, yesterday, the author and doctor, Max Pemberton, argued that resistance to antibiotics is being driven by our diet. He has said that demand for cheap meat has led to animals living in unnaturally close proximity where infections can spread like wildfire, necessitating the heavy use of antibiotics and therefore fuelling the resistance to antibiotics. Do you believe that there is a valid argument for all forms of factory farming to be banned, and that antibiotic use in animals should stop as a matter of a public health debate that we could have here in Wales?

Weinidog, mae fy nghwestiwn yn dilyn un Antoinette Sandbach oherwydd, ddoe, dadleuodd yr awdur a'r meddyg, Max Pemberton, fod ymwrthedd i wrthfotigau yn cael ei ysgogi gan ein deiet. Mae wedi dweud bod y galw am gig rhad wedi arwain at anifeiliaid yn byw'n annaturiol o agos at ei gilydd lle y gall heintiau ledaenu'n gyflym eithriadol, sy'n galw am ddefnydd trwm o wrthfotigau ac felly'n cymell ymwrthedd i wrthfotigau. A ydych yn credu bod dadl ddilys dros wahardd pob math o ffermio gorddwys ac y dylid rhoi diwedd ar y defnydd o wrthfotigau mewn anifeiliaid fel dadl iechyd cyhoeddus y gallem ei chael yma yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree with the Member that this is a matter of public health debate and it is an important discussion that we have with the public. I am advised by the Food Standards Agency primarily in this area. It has not put advice to me to suggest that a ban on factory farming would be a proportionate way of responding to the problem, but the connection between the way that animal health is treated and its impact on human health, and the way that antibiotics play their part in that, is an important debate and one worth having.

Rwy'n cytuno â'r Aelod fod hwn yn destun dadl iechyd y cyhoedd ac mae'n drafodaeth bwysig rhyngom a'r cyhoedd. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn bennaf sy'n rhoi cyngor imi yn y maes hwn. Nid yw wedi rhoi cyngor imi sy'n awgrymu y byddai gwahardd ffermio gorddwys yn ffordd gymesur o ymateb i'r broblem, ond cafodd y cysylltiad rhwng y ffordd y mae iechyd anifeiliaid yn cael ei drin a'i effaith ar iechyd pobl, a rhan gwrthfotigau yn hynny, yn ddadl bwysig ac yn un sy'n werth ei chael.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, would you agree with those commentators who argue that the failure of the pharmaceutical industry to come forward with new antibiotics demonstrates a failure of the market? Do you agree with me that this is further evidence of why our NHS should not be left to the destructive forces of marketisation?

Weinidog, a fydddech yn cytuno â sylwebwyr sy'n dadlau bod methiant y diwydiant fferyllo i gynnig gwrthfotigau newydd yn dangos methiant y farchnad? A ydych yn cytuno â mi fod hyn yn dystiolaeth bellach o pam na ddylai grymoedd dinistriol y farchnad gael eu bachau ar ein GIG?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

It was a striking part of the letter that I received from Jeremy Hunt, I felt, when he said that the root cause of the failure to come forward with new antibiotics was one of 'market failure'—his phrase, not mine. I think that the public generally believes that what has happened in the last couple of decades is that the pharmaceutical industry has been working away hard to try to find new forms of antibiotic, and sadly it has failed to come up with one. However, the truth is, as the letter that he sent to me states, that most major pharmaceutical companies have cut back or stopped altogether their investment in this area because they do not see it as something that they can make a profit out of. I absolutely agree with Mick Antoniw that it is a very good lesson indeed with regard to the fact that you cannot rely on market mechanisms to provide public services of this sort.

Rhan drawiadol o'r llythyr a gefais gan Jeremy Hunt, rwy'n teimlo, oedd lle y mae'n dweud mai gwraidd y methiant i gynnig gwrthfotigau newydd yw 'methiant y farchnad'—ei ymadrodd ef, nid fy un i. Credaf fod y cyhoedd yn gyffredinol o'r farn mai'r hyn a ddigwyddodd dros y ddau ddegawd diwethaf yw bod y diwydiant fferyllol wedi bod o gweithio'n galed i geisio dod o hyd i ffurfiau newydd o wrthfotig, ac yn anffodus, wedi methu â dod o hyd i un. Fodd bynnag, fel y dywedai'r llythyr a anfonodd ataf, y gwir yw bod y rhan fwyaf o gwmnïau fferyllol mawr wedi torri eu buddsoddiad yn y maes neu ei atal yn gyfan gwbl gan nad ydynt yn ei weld fel rhywbeth y gallant wneud elw ohono. Cytunaf yn llwyr â Mick Antoniw ei bod yn wers dda iawn yn wir o ran y ffaith na allwch ddibynnu ar systemau'r farchnad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o'r math hwn.

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Question 4, OAQ(4)0472(HSS), has been withdrawn. Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ (4) 0472 (HSS), yn ôl.

Cynghorau Iechyd Cymunedol

Community Health Councils

13:50 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Cynghorau Iechyd Cymunedol yn nhermau cefnogi profiad y claf yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0474(HSS)

5. Will the Minister provide an update on the work of Community Health Councils in terms of supporting the patient experience in west Wales? OAQ(4)0474(HSS)

13:50 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr am y cwestiwn. Mae cynghorau iechyd cymunedol yn darparu gwybodaeth a chymorth cyfrinachol am ddim i gleifion sydd â phryderon am wasanaethau iechyd. Mae ganddynt ddyletswydd statudol i gynrychioli cleifion a'r cyhoedd yn eu hardaloedd ac i gysylltu â'r gymuned a darparwyr gofal iechyd i sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Thank you very much for that question. Community health councils provide free, confidential advice and support to patients who have concerns about health services. They have a statutory duty to represent both patients and the public in their areas, and to engage with the community and healthcare providers to ensure that people get the services they require.

13:51 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn gwybod, ar ôl cwrdd â Chyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, ei fod wedi datblygu llawlyfr gofal cleifion ar gyfer cleifion â chanser. A ydych yn cytuno â mi y bydd hwn yn gwella profiad cleifion yng ngorllewin Cymru a'i fod yn esiampl dda o ymrwymiad y cynghorau iechyd cymunedol?

Minister, I am sure that you will be aware, having met Hywel Dda Community Health Council, that it has developed a patient care handbook for cancer patients. Do you agree with me that this will improve patient experience in west Wales and that it is a good example of the commitment shown by the community health councils?

13:51

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Roeddwn yn ddiolchgar iawn i gael y cyfle i gwrdd â chriw o bobl yn Llanelli sydd wedi gweithio ar y llawlyfr. Cwrddais â Dr Sian Lewis o'r bwrdd iechyd a Helen Williams o'r CHC. Gyda'i gilydd, maen nhw wedi gweithio ar lawlyfr sy'n dod at y pwnc hwn o safbwynt y claf. Rydym wedi siarad am y mater hwn yn barod yn y Cynulliad ac mae Andrew R.T. Davies wedi codi'r pwnc o 'written care plans'. Dywedodd y bobl yn Llanelli wrthyf mai'r peth sy'n hollbwysig yw cael rhywbeth y mae cleifion yn gallu ei ddefnyddio. Dyna beth maen nhw wedi ei baratoi. Maen nhw wedi cael cyfarfod gyda fy swyddogion i ac maen nhw'n mynd i weithio gyda Macmillan Cancer Support yn y dyfodol i weld a yw'n bosibl i ddatblygu'r hyn maen nhw wedi ei wneud yn barod a dosbarthu hynny ledled Cymru.

I was very grateful to have the opportunity to meet the group of people in Llanelli who have worked on the handbook. I met Dr Sian Lewis from the health board and Helen Williams from the CHC. Together, they collaborated on the handbook, which approaches this subject from the patient's point of view. We have already discussed this matter in the Assembly and Andrew R.T. Davies has raised the subject of written care plans. The people in Llanelli told me that it is vital that they have something that patients are able to use. That is what they have prepared. They have had a meeting with my officials and they are going to work with Macmillan Cancer Support in the future to see whether it is possible to build upon what they have done and to distribute that throughout Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the case of west Wales, I believe that the local community health council has been courageous and persistent in standing up for patients and for the local community, especially when it comes to protecting services at Withybush General Hospital. Does the Minister agree with me that the strength of community health councils lies in their independent status as a patient representative body? Will he commit to preserving the independence of community health councils? After all, they should be patients' champions that are there to speak up for local communities, and not for the Government of the day.

Yn achos gorllewin Cymru, rwy'n credu bod y cyngor iechyd cymuned lleol wedi bod yn ddewr ac yn ddyfal wrth sefyll dros gleifion a thros y gymuned leol, yn enwedig o ran diogelu gwasanaethau yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi mai cryfder y cyngorau iechyd cymuned yw eu statws annibynnol fel cyrff sy'n cynrychioli cleifion? A fydd yn ymrwmo i gadw annibyniaeth y cyngorau iechyd cymuned? Wedi'r cyfan, dylent fod yn hyrwyddwyr dros gleifion ac yno i siarad dros gymunedau lleol, nid dros ba bynnag lywodraeth sydd mewn grym.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly agree that the independence of community health councils is fundamental to their activity. They need, as the Williams commission said, to deploy that independence constructively and objectively.

Rwy'n sicr yn cytuno bod annibyniaeth cyngorau iechyd cymuned yn hanfodol i'w gweithgaredd. Fel y dywedodd comisiwn Williams, maent angen defnyddio'r annibyniaeth honno yn adeiladol ac yn wrthrychol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Un o'r ardaloedd lle roedd y cyngor iechyd cymuned lleol wedi bod yn bositif iawn oedd Dinbych-y-pysgod, lle cytunodd y cyngor â symud yr uned man anafiadau o Ysbyty Bwthyn Dinbych-y-pysgod ar y sail y byddai'r meddygon teulu yn camu i'r adwy ac yn cynnig darpariaeth. Ni ddigwyddodd hynny'r llynedd, ac nid yw'n digwydd eto eleni. Yn lle hynny, mae'r Groes Goch a gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaeth sydd, yn fy nhyb i, yn eilradd ac nad yw gystal â'r hyn yr oedd y cyngor iechyd cymuned wedi gofyn amdano ac yr oeddech chi, Weinidog, wedi cydsynio iddo ar sail cynlluniau bwrdd iechyd Hywel Dda. Felly, gan fod y cytundeb â'r cyngor iechyd cymuned wedi ei dorri a'i danseilio gan y bwrdd iechyd, pa gamau y medrwn chi eu cymryd fel Gweinidog i gryfhau llais y cyngor iechyd cymuned a diwallu anghenion trigolion drwy sicrhau bod darpariaeth gan feddygon teulu?

One of the areas where the community health council had been very positive was in the Tenby area, where it agreed to the moving of the minor injuries unit from Tenby Cottage Hospital on the basis that GPs could stand in and make that provision. However, that did not happen last year, nor is it happening this year. Instead, we have the Red Cross and volunteers providing a service that, in my opinion, is second rate and not as good as the service that the community health council had asked for and that you, Minister, had agreed to on the basis of the Hywel Dda health board plans. Therefore, as the agreement with the community health council had been breached and undermined by the health board, what steps can you take as Minister to strengthen the voice of the community health council and to meet the needs of local people by ensuring that this provision is made by GPs?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The local community health council did not refer the Tenby MIU issue to me. The implementation of the plans of the local health board needs to be carried forward with the CHC and with other important local participants. I was pleased to see that the CHC was a full participant in the review of last year's service that was provided by the Red Cross in Tenby. The independent evaluation of that service was very positive among users and providers. The health board is to provide it again this year; it is to be an extended service during the working week, as well as on weekends and bank holidays. I think that it has all the makings of a successful service.

Ni chyfeiriodd y cyngor iechyd cymuned lleol fater Uned Mân Anafiadau Dinbych at fy sylw. Mae angen symud ymlaen gyda'r cyngor iechyd cymuned a chyfranogwyr lleol pwysig eraill ar y gwaith o weithredu cynlluniau'r bwrdd iechyd lleol. Roeddwn yn falch o weld bod y cyngor iechyd cymuned yn cymryd rhan lawn yn yr adolygiad o wasanaeth y llynedd a ddarparwyd gan y Groes Goch yn Ninbych-y-pysgod. Roedd y gwerthusiad annibynnol o'r gwasanaeth hwnnw'n gadarnhaol iawn ymysg defnyddwyr a darparwyr. Mae'r bwrdd iechyd i'w ddarparu eto eleni; y bwriad yw iddo fod yn wasanaeth estynedig yn ystod yr wythnos waith, yn ogystal ag ar benwythnosau a gwyliau banc. Rwy'n meddwl ei fod yn argoeli i fod yn wasanaeth llwyddiannus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I think that it would be fair to say that the relationship between the community health council and Hywel Dda health board has not always been an easy one. However, given the recent appointment of a new chair of the health board, Minister, will you do all that you can to help to encourage goodwill between the two sides and, to coin a phrase, give it a fresh start, because that is particularly important to the people of that area?

Weinidog, rwy'n credu y byddai'n deg dweud nad yw'r berthynas rhwng y cyngor iechyd cymuned a bwrdd iechyd Hywel Dda wedi bod yn un hawdd bob amser. Fodd bynnag, o ystyried penodiad cadeirydd newydd i'r bwrdd iechyd yn ddiweddar, Weinidog, a wnewch chi bopeth o fewn eich gallu i helpu i annog ewyllys da rhwng y ddwy ochr ac os goddefir yr ymadrodd, i roi dechrau newydd iddo, gan fod hynny'n arbennig o bwysig i bobl yr ardal honno?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Joyce Watson for that question. I think it is quite proper that the relationship between a CHC and its local health board should from time to time be a challenging one, but it needs to be a constructive one as well. There is a new chair of the local community health council in the Hywel Dda area, as well as of the health board. I was encouraged in my meeting with the new chair of the LHB that she had gone out of her way in her first week in that post to have a meeting with the CHC. A new and constructive engagement between those two organisations can only be in the best interest of patients in the area.

Diolch i Joyce Watson am y cwestiwn. Credaf ei bod yn hollol briodol fod y berthynas rhwng cyngor iechyd cymuned a'r bwrdd iechyd lleol yn un heriol o bryd i'w gilydd, ond mae angen iddi fod yn un adeiladol hefyd. Mae cadeirydd newydd gan y cyngor iechyd cymuned lleol yn ardal Hywel Dda, fel sydd gan y bwrdd iechyd. Cefais fy nghalonogi yn fy nghyfarfod gyda chadeirydd newydd y BILL ei bod wedi mynd allan o'i ffordd yn ystod ei wythnos gyntaf yn y swydd i gyfarfod â'r cyngor iechyd cymuned. Bydd ymgysylltiad newydd ac adeiladol rhwng y ddau sefydliad er budd gorau cleifion yn yr ardal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Pobl Hŷn

Elderly People

13:56

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran cynyddu nifer y bobl hyn bregus sydd yn cael eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain ar ôl gadael yr ysbyty? OAQ(4)0462(HSS)

6. Will the Minister outline what progress is being made to increase the number of frail elderly people who, on leaving hospital, are being enabled to stay in their own home? OAQ(4)0462(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services

Thank you for that question. Ensuring that frail elderly people receive appropriate care and support to maintain independence in their homes is one of my key priorities. The £50 million intermediate care fund that was announced last December is specifically focused on stimulating greater collaborative working between health, social services and housing to facilitate that aim.

Diolch i chi am y cwestiwn. Mae sicrhau bod pobl oedranus fregus yn derbyn gofal a chymorth priodol i gadw'n annibynnol yn eu cartrefi yn un o fy mlaenoriaethau allweddol. Mae'r gronfa gofal canolraddol gwerth £50 miliwn a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf yn canolbwyntio'n benodol ar ysgogi mwy o gydweithio rhwng y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thai i hwyluso'r nod hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:57 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that response, Deputy Minister. The advantages of reablement services are well documented; not only do they help people make the transition back to life at home quicker or to resume their independence in daily living, but they also help to reduce demand on acute medical services and inappropriate admissions to residential care. Will the Welsh Government therefore prioritise preventative healthcare services such as reablement, and give further direction to local authorities and local health boards to ensure that investment in reablement services is maintained and further developed?
- Diolch i chi am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Mae manteision gwasanaethau ail-alluogi wedi'u cofnod'n dda; nid yn unig maent yn helpu pobl i wneud y newid yn ôl i fyw yn y cartref yn gyflymach neu i ailddedrau eu hannibyniaeth yn eu bywydau bob dydd, ond hefyd maent yn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau meddygol aciwt a derbyniadau amhriodol i ofal preswyl. Felly, a wnaiff Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwasanaethau gofal iechyd ataliol megis ail-alluogi a rhoi arweiniad pellach i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i sicrhau bod buddsoddiad mewn gwasanaethau ail-alluogi yn cael ei gynnal a'i ddatblygu ymhellach?
- 13:58 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The White Paper 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' set out the policy position on the importance of reablement as a model of service delivery, and my clear commitment to ensure that it was further developed and provided across the whole of Wales. That commitment has been reflected in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. The Welsh Government has invested considerable sums of money in supporting health, social services and third sector organisations to develop effective shared service models of reablement as a key element of promoting wellbeing and independent living. In July 2013, the Minister for Health and Social Services and I issued a joint written statement setting out the intention to integrate health and social care services at scale and pace to meet the needs of older people with complex needs. The integration framework for older people with complex needs was subject to public consultation in July 2013, and was subsequently published to the Welsh Government website in March 2014.
- Nodir y safbwynt polisi ar bwysigrwydd ail-alluogi fel model ar gyfer darparu gwasanaeth yn y Papur Gwyn, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu', a fy ymrwymiad dir i sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu ymhellach a'i gyflwyno ledled Cymru. Adlewyrchwyd yr ymrwymiad hwnnw yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi arian sylweddol i gynorthwyo'r maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau trydydd sector i ddatblygu modelau cydwasaethau effeithiol ar gyfer ailalluogi fel elfen allweddol o hybu lles a byw'n annibynnol. Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau ddatganiad ysgrifenedig ar y cyd yn nodi'r bwriad i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar raddfa a chyflymder i ddiwallu anghenion pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth. Roedd y fframwaith integreiddio ar gyfer pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2013 a chafodd ei gyhoeddi wedyn ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2014.
- 13:59 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Deputy Minister, will you agree that one of the barriers to people being able to live an independent life at home can often be the inability to access, within a reasonable timescale, the disabled facilities grant? What action are you taking, along with colleagues in Government, to ensure that disabled facilities grants are delivered in a timely fashion in all parts of Wales on a consistent basis?
- Ddirprwy Weinidog, a gytunwch efallai mai un o'r pethau sy'n aml yn rhwystro pobl rhag gallu byw'n annibynnol yn y cartref yw anallu i gael mynediad at y grant cyfleusterau i'r anabl o fewn amser rhesymol? Pa gamau rydych yn eu cymryd, gyda'ch cydweithwyr yn y Llywodraeth, i sicrhau bod grantiau cyfleusterau i'r anabl yn cael eu darparu mewn modd amserol ac yn gyson ym mhob rhan o Gymru?
- 13:59 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I agree that the timely provision of the disabled facilities grant is important. It is not in my portfolio, of course, but you will know that we have a cross-Government commitment to develop integrated services. I will pass on your question to the appropriate Minister and ask for a written response to be given to you.
- Rwy'n cytuno bod darparu grant cyfleusterau i'r anabl yn amserol yn bwysig. Nid yw yn fy mhortffolio, wrth gwrs, ond byddwch yn gwybod bod gennym ymrwymiad ar draws y Llywodraeth i ddatblygu gwasanaethau integredig. Byddaf yn trosglwyddo eich cwestiwn i'r Gweinidog priodol ac yn gofyn am ymateb ysgrifenedig ar eich cyfer.
- 14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Plaid Cymru spokesperson, Lindsay Whittle.
- Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Lindsay Whittle.

- 14:00 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Minister, even for frail elderly people, there is a possibility of reablement in order to improve their ability to cope with tasks of everyday living. However, budgets for reablement vary considerably across Wales. What are you doing to make sure that reablement does not become a postcode lottery in Wales, please?
- Diolch, Lywydd. Weinidog, hyd yn oed i bobl oedrannus bregus, mae posibilrwydd o ailalluogi er mwyn gwella eu gallu i ymdopi â thasgau bywyd bob dydd. Fodd bynnag, mae cyllidebau ar gyfer ailalluogi yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Beth rydych yn ei wneud i sicrhau nad yw ailalluogi yn dod yn loteri cod post yng Nghymru, os gwelwch yn dda?
- 14:00 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I believe that we have shown this through the way that the £50 million integration fund has been allocated now. I do, of course, recognise the role of Plaid Cymru and the Liberal Democrats in securing that intermediate care fund. I believe that, in that process, we have had quite a lot of participation and collaboration from local government. Local partners have also developed statements of intent setting out how they will work together to deliver integrated services for older people, and, of course, that includes disabled people. Officials have received draft versions as starting points for discussion, although we are waiting for them to be signed off through partners' relevant internal political processes. The final statements of intent, which will deal with much of your question, are expected shortly and will be published on local authority websites.
- Wel, rwy'n credu ein bod wedi dangos hyn yn y ffordd y mae'r gronfa integreiddio gwerth £50 miliwn yn cael ei dyrannu nawr. Wrth gwrs, rwy'n cydnabod rôl Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn sicrhau'r gronfa gofal canolraddol. Yn y broses honno, credaf ein bod wedi cael cryn dipyn o gyfranogiad a chydweithrediad gan lywodraeth leol. Hefyd, mae partneriaid lleol wedi datblygu datganiadau o fwriad sy'n nodi sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn, ac mae hynny'n cynnwys pobl anabl wrth gwrs. Mae swyddogion wedi derbyn fersiynau drafft fel manau cychwyn ar gyfer trafodaeth, er ein bod yn aros iddynt gael eu llofnodi drwy brosesau gwleidyddol mewnol y partneriaid dan sylw. Disgwylir y datganiadau o fwriad terfynol yn fuan. Byddant yn ymdrin â llawer o'r hyn y mae eich cwestiwn yn ei ofyn, a chânt eu cyhoeddi ar wefannau'r awdurdodau lleol.
- 14:01 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- May I thank the Minister for her reply? Thank you also for recognising our role. I would be interested in what role you believe alternative therapy can and should play in helping elderly people to remain in their own homes for as long as possible, please.
- A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei hateb? Diolch hefyd am gydnabod ein rôl. Mae gennyf ddiddordeb mewn gwybod pa rôl y credwch chi y gallai, ac y dylai therapi amgen ei chwarae wrth helpu pobl oedrannus i aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd, os gwelwch yn dda.
- 14:01 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I am not sure what you mean by alternative therapy, but, of course, there is the complementary type and I have a personal view on that. Therapies in general, I think, can help the rehabilitation process and the wellbeing process, but that is far as I will go on that this afternoon. [Laughter.]
- Wel, nid wyf yn siŵr beth rydych yn ei olygu wrth therapi amgen, ond wrth gwrs, ceir math cyflenwol ac mae gen i farn bersonol ar hynny. Rwy'n credu y gall therapiau yn gyffredinol helpu'r broses adsefydlu a'r broses les, ond nid wyf am ymhelaethu ar hynny y prynhawn yma. [Chwerthin.]
- 14:02 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Deputy Minister, I hope that you share my concern regarding the tone of the question with regard to increasing the number of frail elderly people leaving hospital. Homecare is, of course, an ambition for many patients who relish their independence and homes. When people are able to be released from hospital, and not before, what assessment is in place to ensure that there is sufficient capacity and resources in the homecare teams to deal with additional patients? Anecdotally, I have had major concerns about the pressure on homecare teams and have challenged Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board about this when it looked to close Fairwood Hospital and Gellinudd Hospital. Can you allay these concerns for me, please?
- Ddirprwy Weinidog, rwy'n gobeithio eich bod yn rhannu fy mhryder ynghylch tôn y cwestiwn o ran cynyddu nifer y bobl oedrannus bregus sy'n gadael yr ysbyty. Wrth gwrs, mae gofal cartref yn uchelgais i lawer o gleifion sy'n mwynhau eu hannibyniaeth a'u cartrefi. Pan fydd pobl yn gallu cael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac nid cyn hynny, pa asesiad sydd ar waith i sicrhau bod digon o allu ac adnoddau gan y timau gofal cartref i ymdrin â chleifion ychwanegol? Yn anecdotaidd, rwyf wedi bod yn bryderus iawn ynghylch y pwysau ar dimau gofal cartref ac wedi herio Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ynglŷn â hyn pan oedd yn ystyried cau Ysbyty Fairwood ac Ysbyty Gellinudd. A allwch leddfu'r pryderon hyn, os gwelwch yn dda?

14:02

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we have set out clear expectations in the 65-plus assessment process that was brought in before the end of last year. It is a requirement that that assessment is carried out in accordance with the guidance. Also, we have published jointly—the Minister and I—the integration framework. I have already mentioned the statements of intent. I think that your question is answered in my answer to the previous question. As you said, assessment is of the utmost importance and this is dealt with quite in detail in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. I have evidence that the assessment process is improving, and it now includes carers, which is a very important part of the assessment process.

Wel, rydym wedi nodi disgwyliadau clir yn y broses asesu 65+ a gyflwynwyd cyn diwedd y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n ofynnol bod yr asesiad yn cael ei gynnal unol â'r canllawiau. Hefyd, cyhoeddodd y Gweinidog a minnau ar y cyd y fframwaith integreiddio. Rwyf eisoes wedi sôn am y datganiadau o friad. Rwy'n meddwl bod eich cwestiwn wedi'i ateb yn fy ateb i'r cwestiwn blaenorol. Fel y dywedasoch, mae asesu'n hollbwysig ac ymdrinnir â hyn yn fanwl yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gennyf dystiolaeth bod y broses asesu'n gwella, ac mae bellach yn cynnwys gofalwyr, sy'n rhan bwysig iawn o'r broses asesu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gwasanaeth Gwaed Cymru

The Welsh Blood Service

14:03

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Wasanaeth Gwaed Cymru? OAQ(4)0469(HSS)

7. Will the Minister make a statement on the Welsh Blood Service? OAQ(4)0469(HSS)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:03

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Blood Service plays a fundamental role in supporting healthcare provision. Working with communities, hospitals and professionals, it ensures that the gift of donation is transformed into safe, effective blood components, enabling NHS Wales to save the lives of many patients in Wales every year.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o gefnogi'r ddarpariaeth ofal iechyd. Gan weithio gyda chymunedau, ysbytai a gweithwyr proffesiynol, mae'n sicrhau bod gwaed a roddir yn cael ei drawsnewid yn gydrannau gwaed diogel, effeithiol, gan alluogi GIG Cymru i achub bywydau llawer o gleifion yng Nghymru bob blwyddyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:03

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. With the Welsh Blood Service advertising that it only has around four days' worth of blood group O in stock, do you not agree that everything must be done to maximise the number of people who can safely give blood? All blood donated is tested and, in light of this, do you agree that the effective ban on gay and bisexual men giving blood can seem backward-looking and anachronistic? Will you look into whether anything can be done to reform this practice and stop the blood service restricting the pool from which it can draw?

Diolch i chi, Weinidog. Gyda hysbysebion Gwasanaeth Gwaed Cymru yn dweud mai gwerth dim ond tua phedwar diwrnod o waed grŵp O sydd ganddo wrth gefn, onid ydych yn cytuno bod yn rhaid gwneud popeth er mwyn uchafu nifer y bobl sy'n gallu rhoi gwaed yn ddiogel? Profir yr oll waed a roddir, ac yng ngoleuni hyn, a ydych yn cytuno y gall y gwaharddiad i bob pwrpas ar ddyinion hoyw a deurywiol rhag rhoi gwaed ymddangos yn hen ffasiwn ac yn anacronistig? A wnewch chi edrych i weld a ellir gwneud rhywbeth i newid yr arfer ac atal y gwasanaeth gwaed rhag cyfyngu ar faint o waed y gall ei gymryd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:04

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I certainly agree with Christine Chapman that we want to encourage everybody who is able to give blood to do so, and we are very lucky in Wales to have a very loyal and dedicated large group of people who do exactly that. The decision on how blood is donated is not, I believe, made on the basis of ethics or morality. The issue that is considered is one of safety. You heard earlier in a question from Julie Morgan about the catastrophic effects that there have been in the NHS when blood safety issues have not been fully attended to. I do not think it is accurate either to say that gay and bisexual men are barred from donating. A change happened in the recommendations of the advisory committee on the safety of blood within the last 12 months. I was very pleased, on behalf of Wales, to agree a change in the rules that means that men who have sex with men are able to become blood donors after a temporary deferral of 12 months. That has not been agreed in all parts of the United Kingdom, but it is agreed here in Wales and, when advice comes forward that allows us safely to make further developments in that area, I will be very supportive of them.

Wel, rwy'n sicr yn cytuno â Christine Chapman ein bod eisiau annog pawb sy'n gallu rhoi gwaed i wneud hynny ac rydym yn ffodus iawn yng Nghymru bod gennym grŵp mawr ffyddlon ac ymroddedig iawn o bobl sy'n gwneud hynny. Yn fy marn i, ni wneir y penderfyniad ynghylch sut y caiff gwaed ei roi ar sail moeseg neu foesoldeb. Y mater sy'n cael ei ystyried yw diogelwch. Clywsoch yn gynharach mewn cwestiwn gan Julie Morgan am yr effeithiau trychinebus a gafwyd yn y GIG pan nad aed i'r afael yn iawn â materion diogelwch gwaed. Nid wyf yn credu chwaith ei bod yn gywir dweud bod dynion hoyw a deurywiol yn cael eu gwahardd rhag rhoi gwaed. Cafwyd newid yn argymhellion y pwyllgor ymgynghorol ar ddiogelwch gwaed o fewn y 12 mis diwethaf. Ar ran Cymru, roeddwn yn falch iawn i gytuno ar newid yn y rheolau sy'n golygu y gall dynion sy'n cael rhyw gyda dynion roi gwaed ar ôl cyfnod dros dro o 12 mis. Nid yw hynny wedi'i gytuno yma yng Nghymru, a phan gyflwynir cyngor sy'n caniatáu inni wneud datblygiadau pellach yn ddiogel yn y maes hwn, byddaf yn gefnogol iawn iddynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I asked your predecessor some time ago—very much on this issue, actually—whether she had had any conversations with the UK Government about the outright ban on blood donations from those who had had a blood transfusion before 1980. I am thinking more particularly of transfusion bans post CJD, actually, rather than HIV/AIDS, but I wonder whether you could tell us whether there have been any advances in blood screening and research that might encourage Governments on both sides of the border to perhaps revisit this particular ban.

Weinidog, gofynnais i'ch rhagflaenydd beth amser yn ôl-ynghylch y mater hwn, mewn gwirionedd a oedd hi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r gwaharddiad llwyr ar roi gwaed gan bobl a oedd wedi cael trallwysiad gwaed cyn 1980. Rwy'n meddwl yn fwyaf penodol am waharddiadau ar drallwysyadau yn sgil CJD, yn hytrach na HIV/AIDS mewn gwirionedd, ond tybed a allwch ddweud wrthym a fu unrhyw ddatblygiadau ym maes sgrinio gwaed ac ymchwil a allai annog Llywodraethau ar y ddwy ochr i'r ffin i ailedrych ar y gwaharddiad penodol hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Suzy Davies is absolutely right that there are developments all the time in the screening of blood. I visited the Welsh Blood Service at Talbot Green some months ago and I was hugely impressed by the incredible lengths that are gone to to screen blood that is donated and to make sure that it is safe for onward use in the NHS. Those techniques are developing all the time; they are kept under review by the advisory committee and, where it is possible to include a wider group of people as donors, I know that that is its aim. However, it has to balance that against what we know about the consequences that there have been in other people's lives when contaminated blood has made its way into use; those effects have been genuinely catastrophic in the lives of the people affected.

Mae Suzy Davies yn llygad ei lle fod datblygiadau drwy'r amser ym maes sgrinio gwaed. Ymwelais â Gwasanaeth Gwaed Cymru yn Nhonysguboriau rai misoedd yn ôl a gwnaed argraff arnaf fawr gan y gwaith anhygoel a wneir yn sgrinio gwaed sy'n cael ei roi ac yn sicrhau ei fod yn ddiogel ar gyfer ei ddefnyddio yn y GIG. Mae'r technegau hynny'n datblygu drwy'r amser; cânt eu cadw dan arolwg gan y pwyllgor cyngori ac os yw'n bosibl cynnwys grŵp ehangach o bobl fel rhoddwyr, rwy'n gwybod mai dyna yw ei nod. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso hynny â'r hyn a wyddom am y canlyniadau a fu ym mywydau pobl eraill pan wnaed defnydd o waed halogedig; mae'r effeithiau hynny wedi bod yn wirioneddol drychinebus ym mywydau'r bobl a effeithiwyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r gwasanaeth gwaed yn y gogledd yn gweithio allan o ddwy ganolfan—un yn Wrecsam a'r llall ym Mangor. Mae'r ddau wasanaeth hynny'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr oherwydd y cysylltiadau lleol. A allwch chi gadarnhau nad oes bwriad i newid y patrwm hwnnw yn y dyfodol?

The blood service in north Wales works out of two centres—one in Wrexham and one in Bangor—and both of those services are very much appreciated because of their local links. Will you confirm that there is no intention to change that pattern in the future?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Wel, un peth rydym yn ei wneud, wrth gwrs, yw creu gwasanaeth Cymru gyfan ac rydym yn dod â'r gwasanaethau sydd gennym yn y gogledd a'r de at ei gilydd. Un o'r rhesymau pwysig pam rydym yn gwneud hynny yw i allu cadarnhau i bobl yn y gogledd ein bod eisiau bwrw ymlaen gyda'r gwasanaeth sydd gennym yno yn barod a sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw yn hollol o dan ein rheolaeth ni yn y Cynulliad, ac wedi ei ddarparu yng Nghymru.</p>	<p>Well, one thing that we are doing, of course, is creating a service for Wales as a whole and combining the service that we have in north Wales with the one that we have in south Wales. One of the important reasons for doing that is to confirm to people in north Wales that we want to maintain the service that we have already in place there and ensure that that service is entirely under our control here in the Assembly, and provided in Wales.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Amseroedd Aros		Waiting Times	
14:08	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p><i>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amseroedd aros ar gyfer triniaeth yng Nghymru? OAQ(4)0476(HSS)</i></p>	<p><i>8. Will the Minister make a statement on waiting times for treatment in Wales? OAQ(4)0476(HSS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>The latest published figures on waiting times for treatment in Wales show that nine out of 10 patients are waiting less than 26 weeks from referral to treatment, while the standard wait stands at 10 weeks.</p>	<p>Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd am amseroedd aros ar gyfer triniaeth yng Nghymru yn dangos bod naw o bob 10 o gleifion yn aros llai na 26 wythnos rhwng cael eu hatgyfeirio a chael triniaeth, tra bod yr amser aros safonol yn 10 wythnos.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. In fact, in a letter dated 1 April, you reconfirmed the Welsh Government policy of 26-week and 36-week waiting times and you said that you expected patients to be seen in accordance with clinical priority, which is for the relevant consultant to decide. How, therefore, do you respond to correspondence received by constituents from Betsi Cadwaladr within the last two months confirming that it is working to a 52-week referral-to-treatment pathway, and further confirming very recently—two weeks ago—that it is actually working to 52 weeks from going on the waiting list rather than from referral? There is also a letter from a consultant to a GP saying:</p> <p>'Neither I nor my secretary have control over the waiting list. As soon as the health board places your constituent on the waiting list, I'm happy to do the operation.'</p>	<p>Diolch yn fawr. Yn wir, mewn llythyr dyddiedig 1 Ebrill, rydych yn ail-gadarnhau polisi amseroedd aros Llywodraeth Cymru o 26 wythnos a 36 wythnos a dywedasoch eich bod yn disgwyl i gleifion gael eu gweld yn ôl blaenoriaeth glinigol, sy'n fater i'r meddyg ymgynghorol perthnasol ei benderfynu. Sut felly rydych yn ymateb i ohebiaeth a ddaeth i law gan etholwyr yn ardal Betsi Cadwaladr o fewn y ddau fis diwethaf yn cadarnhau fod y bwrdd yn gweithio yn ôl llwybr atgyfeirio i driniaeth o 52 wythnos, ac yn cadarnhau ymhellach yn ddiweddar iawn—bythefnos yn ôl—ei fod mewn gwirionedd yn gweithio yn ôl llwybr 52 wythnos o fynd ar y rhestr aros yn hytrach nag o'r amser atgyfeirio? Mae yna lythyr hefyd gan feddyg ymgynghorol at feddyg teulu sy'n dweud:</p> <p>'Nid oes gennyf fi na fy ysgrifennydd reolaeth dros y rhestr aros. Cyn gynted ag y bydd y bwrdd iechyd yn gosod eich etholwr ar y rhestr aros, rwy'n hapus i wneud y llawdriniaeth.'</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, it is quite impossible for me to respond to extracts from letters that I have not seen that are read out in Plenary, as the Member very well knows. There are conditions for which Betsi Cadwaladr is currently unable to provide treatment within the 26-week and 36-week periods that we lay down. My officials are working very closely with it to ensure that it is in a position to do that in the future.</p>	<p>Wel, mae'n gwbl amhosibl i mi ymateb i ddyfyniadau o lythyrau nad wyf wedi'u gweld sy'n cael eu darllen allan yn y Cyfarfod Llawn, fel y gwyr yr Aelod yn dda iawn. Ar hyn o bryd, mae yna amgylchiadau lle na all Betsi Cadwaladr ddarparu triniaeth o fewn y cyfnodau a osodwn o 26 wythnos a 36 wythnos. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r bwrdd i sicrhau ei fod mewn sefyllfa i wneud hynny yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:10

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will the Minister join me in congratulating Velindre Cancer Centre and Aneurin Bevan Local Health Board on winning the Developing a Flexible and Sustainable Workforce Award last week for setting up a dedicated service for patients with cancer-related issues? In the first seven months of that service, the majority of the patients waited only 24 hours to see a specialist, compared with an average previous waiting time of six days. Does he not think that this is a very good move in the reduction of waiting times in cancer services?

A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i longyfarch Canolfan Ganser Felindre a Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan ar ennill Gwobr Datblygu Gweithlu Hyblyg a Chynaliadwy yr wythnos diwethaf am sefydlu gwasanaeth penodol ar gyfer cleifion â phroblemau sy'n gysylltiedig â chanser? Yn ystod saith mis cyntaf y gwasanaeth, dim ond 24 awr y bu'r rhan fwyaf o'r cleifion yn aros i weld arbenigwr, o'i gymharu gyda chyfartaledd amser aros blaenorol o chwe diwrnod. Onid yw'n meddwl bod hyn yn syniad da iawn o ran lleihau amseroedd aros mewn gwasanaethau canser?

14:10

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I certainly join Julie Morgan in her congratulations. I was very pleased indeed to be able to attend the NHS awards on 2 July. There were fantastic entries in all eight categories of awards that day from all over Wales. Joint working across borders of health boards and with the NHS and other services was one of the hallmarks of this year's award, and this was an award jointly shared by Velindre and Aneurin Bevan health board. The impact it makes on cancer waiting times, which are already well developed in Wales, will be very welcome.

Rwy'n sicr yn ategu llongyfarchiadau Julie Morgan. Roeddwn yn falch iawn o allu mynychu gwobrau'r GIG ar 2 Gorffennaf. Cafwyd ceisiadau gwych ym mhob un o'r wyth categori o wobrau y diwrnod hwnnw o bob cwr o Gymru. Roedd gweithio ar y cyd ar draws ffiniau byrddau iechyd a gyda'r GIG a gwasanaethau eraill yn un o nodweddion y wobwr eleni, ac roedd hon yn wobwr a rennir ar y cyd gan Felindre a bwrdd iechyd Aneurin Bevan. Bydd yr effaith y mae'n ei chael ar amseroedd aros canser, sydd eisoes wedi datblygu'n dda yng Nghymru, yn cael croeso mawr.

14:11

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Un o'r meysydd lle mae oedi difrifol, Weinidog, yw gwasanaeth gofal iechyd meddwl, yn Gymraeg yn benodol—rwy'n gwybod ein bod ni wedi codi hyn gyda chi o'r blaen—ac yn ardal Betsi Cadwaladr yn arbennig. Roeddwn i'n syfrdan, felly, o sylweddoli bod cyn-brif weithredwr Betsi Cadwaladr wedi derbyn taliad o £200,000, sydd, yn fy marn i, yn gwobrwyo methiant. A oes unrhyw fodd i'r Llywodraeth gael dychwelyd yr arian hwn i wasanaethau iechyd meddwl yn y gogledd?

One of the areas where there are serious delays, Minister, is in mental health services, specifically through the medium of Welsh—I know that we have raised this with you in the past—and in the Betsi Cadwaladr area in particular. I was shocked, therefore, to realise that the former chief executive of Betsi Cadwaladr had been given a payment of £200,000, which, in my opinion, is rewarding failure. Is there any way in which the Government can reclaim this funding for mental health services in north Wales?

14:11

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That is not a matter at all for the Government. It is a matter for the local health board and then through non-Government arrangements here at the Assembly.

Nid mater ar gyfer y Llywodraeth yw hyn o gwbl. Mae'n fater i'r bwrdd iechyd lleol ac yna drwy drefniadau anllywodraethol yma yn y Cynulliad.

Rwy'n cytuno â'r Aelod ynghylch yr hyn y mae wedi'i ddweud heddiw a'r hyn y mae wedi'i ddweud o'r blaen am y problemau sy'n codi o ran darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes iechyd meddwl. Rwyf wedi trafod hyn â'r comisiynydd iaith a chadeirydd presennol bwrdd Betsi Cadwaladr. Mae mwy y gallwn ei wneud. Yr hyn yr ydym yn ei drafod yn awr yw ceisio ehangu nifer y bobl sy'n gallu rhoi gwasanaethau ym maes iechyd meddwl, nid dim ond dibynnu ar 'consultants' lle maent yn brin ac mae problemau i'w cael i wneud pethau yn Gymraeg, ond defnyddio grŵp ehangach o staff gyda'r sgiliau penodol ym maes iechyd meddwl sy'n gallu siarad Cymraeg ac yn gallu ymateb i bobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl.

I do agree with the Member in terms of what he has said today and what he said in the past about the problems that arise in terms of providing services through the medium of Welsh in the area of mental health. I have discussed this with the language commissioner and with the current chair of the board of Betsi Cadwaladr. There is more that we can do. What we are talking about now is trying to expand the number of people who are able to provide services in the mental health area, not just depending on consultants where they are few and far between and there are problems in recruiting those able to use the Welsh language, but using the wider workforce with specific skills in mental health who are able to speak Welsh and can respond to people who have mental health problems in Welsh.

14:13

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae'n rhaid imi ddweud mai'r dystiolaeth y cafodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddoe oedd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno â'r setliad efo'r cyn-brif weithredwr, ac nid oedd yn fater i'r bwrdd iechyd yn unig. Fodd bynnag, gadewch inni fynd yn ôl at yr amseroedd aros. Rwy'n siŵr eich bod wedi derbyn copi o adroddiad yr ombwdsmon yr wythnos diwethaf am Ms A, yn sôn am oedi afresymol ar ran bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Rydych chi hefyd yn gwybod fy mod wedi anfon llythyrau atoch—a diolch am yr ymateb—ynglŷn â gwasanaethau ophthomegol yn y gogledd lle mae rhestr aros ar hyn o bryd o dros 50 o wythnosau. Yn eich llythyr ataf dyddiedig 8 Mehefin, dywedoch, lle mae triniaeth yn cael ei dileu gan y bwrdd iechyd â llai na wyth diwrnod o rybudd, fod yn rhaid i'r bwrdd iechyd yn yr achosion hynny, os yw'n digwydd ddwywaith, sicrhau bod y claf yn cael y driniaeth o fewn pythefnos. Nid yw hynny wedi digwydd. Felly, beth rydych yn ei wneud fel Llywodraeth i wneud yn sicr bod bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn ymwneud â'ch canllawiau chi?

Minister, I must say that the evidence that the Public Accounts Committee heard yesterday was that the Welsh Government had agreed to the settlement with the former chief executive and that it was not just a matter for the health board. However, to return to waiting times, I am sure that you have received a copy of the ombudsman's report last week on Ms A, talking about an unreasonable delay on the part of the Betsi Cadwaladr health board. You are also aware that I have corresponded with you—and thank you for the response—on ophthalmological services in north Wales, where there is a waiting time of over 50 weeks now. In your letter dated 8 June, you stated that, where treatment is cancelled by the health board with less than eight days' notice, the health board in those cases, if that occurs twice, must ensure that the patient receives that treatment within a fortnight. This has not happened, so what are you doing as a Government to ensure that the Betsi Cadwaladr health board sticks to your guidelines?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The commitment that the Member points to is an important one. Considerable efforts have been made within the Welsh NHS, working with NWIS—the NHS Wales Informatics Service—to develop a reporting mechanism so that we can have accurate information about the extent to which that commitment is being delivered in the Welsh NHS. I think we are now in a position where that information is more reliable than it was. It shows a mixed picture. The number of operations that are cancelled twice and not rescheduled, with a patient's permission, within 14 days varies from one part of Wales to another, but now that we have the raw information that allows us to track it accurately, it is a matter that I will be pursuing directly with health boards with a renewed focus.

Mae'r ymrwymiad y mae'r Aelod yn ei nodi yn un pwysig. Gwnaethpwyd ymdrechion sylweddol o fewn GIG Cymru, gan weithio gyda NWIS—Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru—i ddatblygu system adrodd fel y gallwn gael gwybodaeth gywir yn glŷn ag i ba raddau y mae'r ymrwymiad hwnnw yn cael ei gyflawni yn GIG Cymru. Rwy'n meddwl ein bod bellach mewn sefyllfa lle y mae'r wybodaeth honno'n fwy dibynadwy nag y bu. Mae'n dangos darlun cymysg. Mae nifer y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ddwywaith ac na chânt eu haildrefnu o fewn 14 diwrnod gyda chaniatâd y claf, yn amrywio o un rhan o Gymru i'r llall, ond gan fod gennym y wybodaeth grai bellach sy'n ein galluogi i olrhain hyn yn gywir, mae'n fater y byddaf yn mynd ar ei ôl yn syth gyda'r byrddau iechyd gyda ffocws newydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the national survey for Wales shows that nine out of every 10 people who receive NHS care are very satisfied with that care. For me and some of my constituents, that must mean that the Labour Government in Wales is doing something right within the NHS. I think that, sometimes, we find it difficult to think of that when we hear the criticisms. However, in the light of recent celebrations for Armed Forces Day, and the fact that we will have servicemen and women returning, what can we do to ensure that those returning servicemen and women who have mental health issues do not face unnecessarily long waiting times or, in fact, distressing waiting times in order to get the best possible treatment, which they deserve?

Weinidog, mae'r arolwg cenedlaethol ar gyfer Cymru yn dangos bod naw o bob 10 o bobl sy'n derbyn gofal GIG yn fodlon iawn â'r gofal hwnnw. I mi, a rhai o fy etholwyr, rhaid bod hynny'n golygu bod y Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn gwneud rhywbeth yn iawn o fewn y GIG. Rwy'n meddwl ein bod weithiau'n ei chael hi'n anodd meddwl am hynny pan fyddwn yn clywed beirniadaeth. Fodd bynnag, yng ngoleuni dathliadau Diwrnod y Llwoedd Arfog yn ddiweddar, a'r ffaith y bydd gennym filwyr sy'n dychwelyd, beth y gallwn ei wneud i sicrhau nad yw'r milwyr sy'n dychwelyd sydd â phroblemau iechyd meddwl yn wynebu amseroedd aros hir yn ddiangen neu amseroedd aros sy'n peri gofid, er mwyn cael y driniaeth orau bosibl, sef yr hyn a haeddant?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Ann Jones for that important question. The recent Nuffield four nations report, which we discussed extensively in the Chamber, found that satisfaction levels with the NHS in Wales are the highest in any of the four UK home nations. Since we established a national veterans service in Wales, dealing with mental health issues, waiting times for treatment have fallen very steadily, but I am aware that there is more that we need to do, because now the success of that service means that referrals into it are growing quickly, and I think that that is a mark of its success. Last month, I announced £485,000 extra a year to support psychological therapies in Wales, and, of that, £100,000 is going to be used specifically for reducing and equalising waiting lists across Wales for veterans needing mental health care.

Diolch i Ann Jones am ei chwestiwn pwysig. Canfu adroddiad pedair gwlad Nuffield yn ddiweddar, a drafodwyd yn helaeth gennym yn y Siambr, mai lefelau boddhad â GIG Cymru yw'r uchaf yn unrhyw un o bedair gwlad y DU. Ers inni sefydlu gwasanaeth cyn-filwyr cenedlaethol yng Nghymru sy'n ymdrin â materion iechyd meddwl, mae amseroedd aros am driniaeth wedi gostwng yn gyson iawn, ond rwy'n ymwybodol bod angen inni wneud rhagor, oherwydd erbyn hyn, mae llwyddiant y gwasanaeth hwnnw'n golygu bod nifer yr atgyfeiriadau ato yn cynyddu'n gyflym, ac rwy'n credu bod hynny'n arwydd o lwyddiant. Y mis diwethaf, cyhoeddais £485,000 ychwanegol y flwyddyn i gefnogi therapiau seicolegol yng Nghymru, ac o hwnnw, bydd £100,000 yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer lleihau a chydaddoli rhestrau aros ledled Cymru ar gyfer cyn-filwyr sydd angen gofal iechyd meddwl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on opposition spokesperson, Darren Millar.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Darren Millar.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the problems that the NHS is facing, and it is having an impact on waiting times in some specialities, is the huge recruitment challenges that some specialities face. Of course, these can be addressed through changes in pay and conditions and changes through the NHS Wales consultant contract. So, will you join me, Minister, in recognising that the one opportunity that you have to address these challenges through pay and conditions is one that you seem to be throwing away in terms of the competitive advantage that Wales could have by not implementing the recommendation of the review body on doctors and dentists on their remuneration packages, which recommended a 1% increase. The British Medical Association Wales has told me that that has resulted in it being swamped by e-mails—more than 450 e-mails—from demoralised, undervalued and unappreciated consultants working in hospitals across Wales.

Un o'r problemau y mae'r GIG yn eu hwynebu, ac mae'n cael effaith ar amseroedd aros mewn rhai arbenigeddau, yw'r heriau enfawr o ran recriwtio mewn rhai meysydd arbenigol. Wrth gwrs, gellir mynd i'r afael â'r rhain drwy newidiadau i gyflogau ac amodau a newidiadau drwy gontract meddygon ymgynghorol GIG Cymru. Felly, a wnewch chi ymuno â mi, Weinidog, i gydnabod mai'r un cyfle sydd gennych i fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy gyflogau ac amodau yw'r un rydych i'w weld yn ei ddiystyru o ran y fantais gystadleuol y gallai Cymru ei chael drwy beidio â gweithredu argymhelliad y corff adolygu ar becynnau tâl meddygon a deintyddion, a oedd yn argymhell cynnydd o 1%. Dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru) wrthyf fod hynny wedi peri iddo gael ei lethu gan negeseuon e-bost—dros 450 e-bost—gan feddygon ymgynghorol mewn ysbytai ledled Cymru sydd wedi digalonni ac yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let me make three points in answer to that question. First of all, 96% of all vacancies in NHS Wales were filled in April, so the idea that there is a huge general problem of recruitment in the Welsh NHS is not the case. I have been very disappointed that the BMA in Wales, despite repeated requests, has declined to enter into negotiations over a renewed Welsh consultant contract. It has been unable to come to the negotiating table. I have concluded that we have to have a consultant contract in Wales. We will therefore join, as full partners, in the discussions that are going on between the English and the Northern Irish health services with consultants, where the BMA is at the table. Consultants in Wales will enjoy every single advantage that their English and Northern Irish colleagues have. I think that that is a very fair deal to offer them. Personally, what I want to do much more is to put on record today the fact that, as a result of the announcement that we have made, 2,400 of the lowest paid staff in NHS Wales will now enjoy the living wage—and that is as a result of our discussions with the trade unions—whereas their colleagues in England will be left well below it.

Gadewch imi wneud tri phwynt yn ateb i'r cwestiwn hwnnw. Yn gyntaf oll, roedd 96% o'r holl swyddi gwag yn GIG Cymru wedi'u llenwi ym mis Ebrill, felly nid yw'r syniad fod gan GIG Cymru broblem gyffredinol enfawr o ran recriwtio yn wir. Cefais fy siomi'n fawr iawn fod y BMA yng Nghymru, er gwaethaf ceisiadau niferus, wedi gwrthod cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch adnewyddu contract meddygon ymgynghorol Cymru. Nid yw wedi gallu dod at y bwrdd i drafod. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod yn rhaid inni gael contract ar gyfer meddygon ymgynghorol yng Nghymru. Felly byddwn yn ymuno, fel partneriaid llawn, yn y trafodaethau sydd ar y gweill rhwng y gwasanaethau iechyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a meddygon ymgynghorol, lle y mae'r BMA wedi dod at y bwrdd i drafod. Bydd meddygon ymgynghorol Cymru yn mwynhau pob mantais y mae eu cydweithwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ei chael. Rwy'n meddwl bod honno'n fargen deg iawn i'w chynnig iddynt. Yn bersonol, yr hyn rwy'n llawer mwy awyddus i'w wneud yw dweud hyn ar goedd heddiw: o ganlyniad i'r cyhoeddiad a wnaethom, bydd 2,400 o'r staff sy'n cael eu talu leiaf yn GIG Cymru yn awr yn mwynhau cyflog byw—ac mae hynny o ganlyniad i'n trafodaethau gyda'r undebau llafur—tra bydd eu cydweithwyr yn Lloegr yn cael cryn dipyn yn llai na'r cyflog byw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to put on record the fact that we welcome, on these benches, the move towards a living wage in the Welsh NHS very much indeed. However, Minister, that does not take away the fact that consultants in Scotland are getting an increase, and will be at a competitive advantage compared with those consultants in Wales who are not going to benefit. You have criticised BMA Wales for not coming to the table, and yet you attached preconditions that it would have to accept a pay cut for consultants, before it even arrived at the table, which, as you fully already know, is why it refused to turn up. Will you give us a commitment, Minister, that, given that you are reviewing NHS finances, with your colleague the Minister for Finance, over the summer, should there be an opportunity to allow for an improvement in the pay and rewards for consultants in Wales, as a result of your work with the Minister for Finance, to look at that as an opportunity to bring BMA Wales back to the table and get an agreed deal made so that patients in Wales are not disadvantaged by a demoralised and undervalued workforce?

Hoffwn gofnodi'r ffaith ein bod, ar y meinciau hyn, yn croesawu'r symudiad tuag at gyflog byw yn GIG Cymru yn fawr iawn yn wir. Fodd bynnag, Weinidog, nid yw hynny'n cael gwared ar y ffaith bod meddygon ymgynghorol yn yr Alban yn cael codiad cyflog, a bydd ganddynt fantais gystadleuol o gymharu â meddygon ymgynghorol yng Nghymru nad ydynt yn mynd i elwa. Rydych wedi beirniadu BMA Cymru am beidio â dod at y bwrdd, ac eto gosodwyd rhag-amodau gennych y byddai'n rhaid iddo dderbyn toriad cyflog i feddygon ymgynghorol cyn iddo gyrraedd y bwrdd hyd yn oed, a gwyddoch yn iawn eisoes mai dyna pam y gwrthododd drafod. A wnewch chi roi ymrwymiad inni, Weinidog, o ystyried eich bod yn adolygu cyllid y GIG gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog Cyllid, dros yr haf, os oes cyfle i wella cyflogau a thaliadau i feddygon ymgynghorol Cymru o ganlyniad i'ch gwaith gyda'r Gweinidog Cyllid, eich bod yn edrych ar hynny fel cyfle i ddod â BMA Cymru yn ôl at y bwrdd a dod i gytundeb fel nad yw cleifion Cymru yn cael eu rhoi dan anfantais gan weithlu digalon nad yw'n cael ei werthfawrogi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let me make it plain that it is absolutely untrue to claim that there was any precondition—[Interruption.]

Gadewch imi ei gwneud yn glir eich bod yn gwbl anghywir yn honni bod unrhyw rag-amod—[Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Excuse me, Darren Millar. You have had two questions. We do not need any more comments, thank you.

Esgusodwch fi, Darren Millar. Rydych wedi cael dau gwestiwn. Nid oes angen rhagor o sylwadau arnom, diolch i chi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wonder whether I could make it clear, because I am the Minister responsible for this, that absolutely no precondition of that sort was ever made. I have made it clear to the BMA that a contribution from the pay bill is essential if we are to go on being able to afford the NHS in Wales. That is exactly what the Nuffield report said, which we debated here only two weeks ago: the lowest-paid members of the NHS in Wales—the 'Agenda for Change' staff—have agreed some difficult changes to terms and conditions as a contribution to making sure that their members continue to be employed in the Welsh NHS. I cannot expect those people who are the least well paid to make a contribution, and for those who have the broadest shoulders and the highest pay in the Welsh NHS to think that there is no contribution that they are able to make in return.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Banciau Bwyd

14:22

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o fanciau bwyd sydd yng Nghymru? OAQ(4)0210(CTP)

14:22

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for Tackling Poverty

I understand that the Trussell Trust has at least 29 food banks operating in Wales, with a number of distribution centres attached to those food banks. There are also others operating as part of community programmes. For example, in north Wales, Môn Communities First, Citizens Advice and Barnardo's have worked together to develop a food bank to address food poverty in Anglesey.

14:22

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is also a new one in my constituency, in Bon-y-maen, which you visited fairly recently. It was set up due to the problems that exist in that area. Does the Minister not agree with me that, for so many people, relying on food banks in twenty-first century Wales is a damning indictment against the Westminster coalition Government's policy, which is causing so much hardship? They are the soup kitchens of the twenty-first century, caused by the Tory Government at Westminster and their little helpers, the Liberal Democrats.

14:23

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member's analysis is spot on. There is no denying the fact that there has been an explosion in food-bank usage since 2011. Around 80,000 people were fed in Wales last year by food banks. It is not just the numbers that we should be worried about, but the reasons why people go to them. The overwhelming majority of reasons why people go there are because of welfare reform and low wages. That accounts for 68% of the people who access support from food banks.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Tybed a gaf fi ei gwneud yn glir, gan mai fi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am hyn, na wnaed unrhyw ragamod o'r fath erioed. Rwyf wedi gwneud yn glir i'r BMA fod cyfraniad o'r bil cyflog yn hanfodol os ydym am barhau i allu fforddio GIG Cymru. Dyna'n union a ddywedodd adroddiad Nuffield, a drafodwyd gennym yma bythefnos yn ôl yn unig: mae'r aelodau sy'n cael y cyflogau isaf yn GIG Cymru—staff yr 'Agenda ar gyfer Newid'—wedi cytuno ynghylch rhai newidiadau anodd i'w telerau ac amodau fel cyfraniad at wneud yn siŵr bod eu haelodau yn parhau i gael eu cyflogi gan GIG Cymru. Ni allaf ddisgwyl i'r bobl sy'n cael eu talu leiaf gyfrannu, a bod y rhai sydd â'r ysgwyddau lletaf a'r cyflogau mwyaf yn GIG Cymru yn feddwl nad oes cyfraniad y gallant hwy ei wneud yn ogystal.

Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

Food Banks

1. Will the Minister state how many food banks there are in Wales? OAQ(4)0210(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n deall bod gan Ymddiriedolaeth Trussell o leiaf 29 o fanciau bwyd gweithredol yng Nghymru, gyda nifer o ganolfannau dosbarthu yn gysylltiedig â'r banciau bwyd hynny. Mae eraill hefyd yn gweithredu fel rhan o raglenni cymunedol. Er enghraifft, yng ngogledd Cymru, mae Cymunedau yn Gyntaf Môn, Cyngor ar Bopeth a Barnardo's wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu banc bwyd i fynd i'r afael â thlodi bwyd ar Ynys Môn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae yna fanc bwyd newydd yn fy etholaeth hefyd, ym Mon-y-maen, yr ymwelsoch ag ef yn gymharol ddiweddar. Cafodd ei sefydlu oherwydd y problemau sy'n bodoli yn yr ardal honno. I gynnifer o bobl, onid yw'r Gweinidog yn cytuno â mi bod dibynnu ar fanciau bwyd yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain yn feirniadaeth ddamniol o bolisi Llywodraeth y glymblaid yn San Steffan, sy'n achosi cymaint o galedi? Y rhain yw ceginau cawl yr unfed ganrif ar hugain, a achoswyd gan y Llywodraeth Doriaidd yn San Steffan a'u cynorthwywyr bach, y Democratiaid Rhyddfrydol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae dadansoddiad yr Aelod yn taro'r hoelen ar ei phen. Ni ellir gwadu'r ffaith y bu cynnydd eithriadol yn y defnydd o fanciau bwyd ers 2011. Cafodd tua 80,000 o bobl eu bwydo gan fanciau bwyd yng Nghymru y llynedd. Nid y niferoedd yn unig y dylem fod yn poeni yn eu cylch, ond y rhesymau pam y mae pobl yn mynd iddynt. Mae mwyafrif llethol y rhesymau pam y mae pobl yn mynd yno yn ymwneud â diwygio lles a chyflogau isel. Dyna sydd i gyfrif am 68% o'r bobl sy'n cael cymorth gan fanciau bwyd.

14:23

Suzy Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Of course, everyone in the Chamber recognises the value of food banks, and is concerned about the rising number of people using them. However, the overt politicisation of the existence of food banks has made it genuinely difficult, I think, to assess how much of the demand is driven by extra publicity, extra supply, and lack of controls on repeat visits, all of which, added together, disguise the actual demand that the Trussell Trust intended to meet. As an Assembly Member, I know that I am not expert enough to distinguish between genuine cases and those playing the system and giving out referral vouchers to constituents. I think that it is a cause for concern when the trust admits to factoring in a level of at least 10% of inappropriate use of the food banks when delivering the service. Bearing in mind that value, how do you think that the Governments on both sides of the border could advise and assist such independent charities in protecting themselves against the misuse of their service in order to help them to retain the confidence of their volunteers and donors?

Wrth gwrs, mae pawb yn y Siambr yn cydnabod gwerth banciau bwyd ac yn pryderu am y nifer cynyddol o bobl sy'n eu defnyddio. Fodd bynnag, rwy'n credu bod y gwleidyddoli amlwg ynghylch bodolaeth banciau bwyd wedi ei gwneud hi'n wirioneddol anodd asesu faint o'r galw sy'n cael ei yrru gan gyhoeddusrwydd ychwanegol, darpariaeth ychwanegol a diffyg rheolaeth ar ymweliadau dro ar ôl tro, ac mae pob un o'r rhain gyda'i gilydd yn cuddio'r galw gwirioneddol y bwriadwyd i Ymddiriedolaeth Trussell ei ddiwallu. Fel Aelod Cynulliad, rwy'n gwybod nad wyf yn ddigon o arbenigwr i wahaniaethu rhwng achosion dilys a'r rhai sy'n chwarae'r system ac yn rhoi talebau atgyfeirio i etholwyr. Yn fy marn i, mae'n destun pryder pan fo'r ymddiriedolaeth yn cyfaddef ei bod yn ffactoreiddio lefel o 10% fan lleiaf o ddefnydd amhriodol o'r banciau bwyd wrth gyflwyno'r gwasanaeth. Gan gadw'r ffigur hwn mewn cof, sut rydych chi'n meddwl y gallai'r Llywodraethau ar ddwy ochr y ffin gynghori a chynorthwyo elusennau annibynnol o'r fath i amddiffyn eu hunain yn erbyn camddefnydd o'u gwasanaeth er mwyn eu helpu i gadw hyder eu gwirfoddolwyr a chyfranwyr?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:24

Vaughan Gething [Bywgraffiad Biography](#)

The problem facing food banks is not the misuse of their services; it is that their services are required. That is what we should all be outraged about. When the Member refers to the politicisation of food banks, I say that every party should have a view on food poverty. Every Minister in this Government certainly has a view on food poverty, and every member of my party certainly has a view on food poverty. When you want to talk about the politicisation of the issue, the Department for Work and Pensions, referring to the Trussell Trust, said that it was

Nid camddefnydd o'u gwasanaethau yw'r broblem sy'n wynebu banciau bwyd; y broblem yw bod angen eu gwasanaethau. Dyna'r hyn y dylem i gyd fod yn ddiog yn ei gylch. Pan fydd yr Aelod yn cyfeirio at wleidyddoli banciau bwyd, rwy'n dweud y dylai pob plaid gael safbwynt ar dlodi bwyd. Yn sicr mae gan bob Gweinidog yn y Llywodraeth hon safbwynt ar dlodi bwyd, ac yn sicr mae gan bob aelod o fy mhlaid safbwynt ar dlodi bwyd. Gan eich bod eisiau siarad am wleidyddoli'r mater, dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau am Ymddiriedolaeth Trussell ei bod yn

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'misleading and emotionally manipulative publicity-seeking'.

'chwilio am gyhoeddusrwydd, yn gamarweiniol ac yn ystrywgar yn emosïynol'.

That is what the DWP said. It is quite right that we stand up for the fact that food banks are necessary in today's Britain, and that is a matter of shame. The shouting from Conservative Members does not disguise the fact that they are responsible for nearly 1 million people in Britain requiring emergency help from food banks. That is a shame and that is disgraceful.

Dyna a ddywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n hollol iawn ein bod yn sefyll dros y ffaith bod banciau bwyd yn angenrheidiol ym Mhrydain heddiw, a bod hynny'n destun cywilydd. Nid yw'r gweiddi gan Aelodau Ceidwadol yn cuddio'r ffaith mai arnynt hwy y mae'r bai fod bron i 1 filiwn o bobl ym Mhrydain sydd angen cymorth brys gan fanciau bwyd. Mae hynny'n gywilydd ac mae hynny'n warthus.

14:26

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

Deputy Minister, do you agree with me that the Tory legacy of the 1980s was the number of young people sleeping on the streets in poverty, and the legacy of this current Tory Government in Westminster is people who, in the fifth richest country in the world, cannot afford to eat without the support of the generosity of ordinary people who give their food to assist them? It is the destruction of the welfare state by the Tories that we have to rectify next May with the return of a Labour Government.

Ddirprwy Weinidog, a ydych yn cytuno â mi mai'r hyn a etifeddwyd gan y Torïaid yn yr 1980au oedd nifer y bobl ifanc a oedd yn cysgu ar y stryd mewn tlodi, a'r hyn a etifeddir gan y Llywodraeth Doriïaidd gyfredol yn San Steffan yw pobl, yn y bumed wlad gyfoethocaf yn y byd, na allant fforddio bwyta heb gymorth drwy haelioni pobl gyffredin sy'n rhoi eu bwyd i'w cynorthwyo? Dinistr y wladwriaeth les gan y Torïaid yw'r hyn sy'n rhaid inni ei gywiro fis Mai nesaf gyda dychweliad Llywodraeth Lafur.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:26	Vaughan Gething Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I quite agree with the Member, especially on the last point. It is fair to recognise the generosity of people who give their time to volunteer in food banks, and those people who donate. I think that part of the difficulty when discussing food banks is the way in which food bank users are vilified, and the kind of language that refers to them as being indigent or lazy or drug addicts is really unacceptable. Most of the people who go to food banks are ashamed of the fact that they need to go to ask for help to feed their family. The issue here is how we tackle the use of food banks and how we tackle the problem, not one of attacking people who use those facilities.</p>	<p>Rwy'n cytuno â'r Aelod, yn enwedig ar y pwynt olaf. Mae'n deg cydnabod haelioni pobl sy'n rhoi o'u hamser i wirfoddoli mewn banciau bwyd, a'r bobl sy'n cyfrannu. Rwy'n meddwl mai rhan o'r anhawster wrth drafod banciau bwyd yw'r ffordd y mae'r bobl sy'n eu defnyddio yn cael eu difrio, ac mae'r math o iaith sy'n cyfeirio atynt fel pobl dlawd neu ddiog, neu gaeth i gyffuriau yn wirioneddol annerbyniol. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n mynd i fanciau bwyd â chywilydd o'r ffaith bod angen iddynt fynd i ofyn am help i fwydo eu teuluoedd. Mae'r mater yn ymwneud â sut yr awn i'r afael â'r defnydd o fanciau bwyd a sut yr awn i'r afael â'r broblem, yn hytrach nag ymosod ar bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau hynny.</p>
	Benthycwyr Llog Uchel	High-interest Lenders
14:27	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>2. <i>A wnaiffy Gweinidog ddatganiad ar effeithiau benthycwyr llog uchel ar gymunedau tlotach yng Nghymru?</i> OAQ(4)0195(CTP)</p>	<p>2. <i>Will the Minister make a statement on the effects of high interest lenders on poorer communities in Wales?</i> OAQ(4)0195(CTP)</p>
14:27	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty</i></p>	
	<p>I thank the Member for that question. I am concerned at the impact that high-interest lenders are having on all communities across Wales. The regulation of these lenders is not devolved to the Welsh Government, but the work we support through credit unions and advice services will help people who have been affected.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rwy'n pryderu am effaith benthycwyr llog uchel ar holl gymunedau Cymru. Nid yw rheoleiddio'r benthycwyr hyn wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ond bydd y gwaith rydym yn ei gefnogi drwy undebau credyd a gwasanaethau cyngor yn helpu pobl sydd wedi cael eu heffeithio.</p>
14:27	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer. Minister, recent news that Wonga issued fake solicitors' letters was very troubling. Have you any idea whether such letters were issued in Wales, and will you join me in roundly condemning this practice?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb. Weinidog, roedd y newyddion diweddar fod Wonga wedi cyhoeddi llythyrau ffug gan gyfreithwyr yn destun gofid mawr. A oes gennych unrhyw syniad a gyhoeddwyd llythyrau o'r fath yng Nghymru, ac a wnewch chi ymuno â mi i gondemnio'r arfer hwn yn hallt?</p>
14:27	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes, I am very happy, of course, to condemn the practice that has been discovered and exposed concerning Wonga and others in terms of fake solicitors' letters. I have no information at this point as to whether people in Wales have received such letters, but I do intend to write to the Financial Conduct Authority to find out if that is the case.</p>	<p>Gwnaf wrth gwrs, rwy'n hapus iawn i gondemnio'r arfer a ganfuwyd ac a ddatgelwyd ynghylch Wonga ac eraill o ran llythyrau ffug gan gyfreithwyr. Nid oes gennyf wybodaeth ar hyn o bryd a oes pobl wedi derbyn llythyrau o'r fath yng Nghymru, ond rwy'n bwriadu ysgrifennu at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gael gwybod.</p>
14:28	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, I have spoken before about the practices of high-interest lenders in my region of North Wales. Research published two years ago showed that nearly two thirds of people do not understand what the term 'APR' means. Will you therefore look at the steps that you can take? I know that Bethan Jenkins has spoken on this matter extensively and has a financial inclusion Bill, but it is really important that people understand and have the tools to be able to work out the impact of their taking out loans with these high-interest lenders.</p>	<p>Weinidog, rwyf wedi siarad o'r blaen am arferion benthycwyr llog uchel yn fy rhanbarth, sef gogledd Cymru. Mae ymchwil a gyhoeddwyd ddwy flynedd yn ôl yn dangos nad oedd bron i ddwy ran o dair o bobl yn deall beth yw ystyr y term 'cyfradd ganrannol flynyddol'. A wnewch chi edrych felly ar y camau y gallwch eu cymryd? Gwn fod Bethan Jenkins wedi siarad yn helaeth ar y mater hwn a'r Bil cynhwysiant ariannol, ond mae'n bwysig iawn bod pobl yn deall ac yn meddu ar yr adnoddau i allu rhagweld effaith cael benthyciadau gan y benthycwyr llog uchel hyn.</p>

- 14:29 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for that question. Financial inclusion and literacy, of course, is extremely important. That is why we have invested in free and independent advice services and we are of course supporting credit unions to provide that level of advice for some of the poorest communities in our country.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae cynhwysiant a llythrennedd ariannol yn eithriadol o bwysig wrth gwrs. Dyna pam rydym wedi buddsoddi mewn gwasanaethau cyngor annibynnol am ddim ac wrth gwrs, rydym yn cynorthwyo undebau credyd i ddarparu cyngor ar gyfer rhai o gymunedau tlotaf ein gwlad.
- 14:29 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n falch o weld cefnogaeth i'r hyn yr wyf yn ei wneud gan bleidiau eraill. Weinidog, mae benthycwyr llog uchel yn anodd eu rheoleiddio ac mae ganddynt wreiddiau dwfn yn ein cymunedau. Er enghraifft, rwyf wedi siarad â lot o bobl sy'n siarad am 'providence' neu'r 'profi', lle caiff pobl ac arnynt angen symiau cymharol fach o arian eu recriwtio—rhywbeth sy'n cael ei alw weithiau yn 'fenthycfa ffens yr ardd'. A yw'ch Llywodraeth chi wedi cael unrhyw fath o drafodaethau ynghylch sut i reoleiddio'r math hwn o weithred, a hefyd unrhyw drafodaeth i geisio cael pŵer dros y system hon yma yng Nghymru, fel y gallwn ehangu ar yr hyn yr ydym yn gallu ei wneud i stopio'r math hwn o weithredu ar lawr gwlad?
- I am pleased to see support for my actions from other parties. Minister, high-interest lenders are difficult to regulate and they have roots in our communities. For example, I have spoken to many people who talk about 'providence', where people are recruited who want relatively small sums of money—something that is sometimes called 'garden fence borrowing'. Has your Government had any discussions on how to regulate this kind of borrowing and lending, and also any discussions on getting powers for this system here in Wales, so that we can enhance what we can do to stop this kind activity on the ground, as it were?
- 14:30 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for that question. I understand her interest, of course, in financial inclusion. We do not have powers in terms of the type of loans that she is referring to. I do know, however, that the Financial Conduct Authority is preparing new laws to cap the cost of pay-day loans and high-interest-rate loans. We do not yet know what that level of cap will be, but that will be announced by 2 January next year. However, this is exactly why we encourage people to use credit unions as a far more viable and affordable form of borrowing.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rwy'n deall ei diddordeb mewn cynhwysiant ariannol wrth gwrs. Nid oes gennym bwerau o ran y math o fenthyciadau y mae'n cyfeirio atynt. Rwy'n gwybod, fodd bynnag, fod yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn paratoi deddfau newydd i gapio cost benthyciadau diwrnod cyflog a benthyciadau llog uchel. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd lefel y cap, ond caiff ei gyhoeddi erbyn 2 Ionawr y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, dyma'n union pam rydym yn annog pobl i ddefnyddio undebau credyd fel ffurf lawer mwy hyfyrw a fforddiadwy ar fenthycfa.
- 14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Galwaf ar lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 14:30 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, can you say what steps you are taking to ensure that credit unions have access to the public service broadband aggregate?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, a allwch ddweud pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod undebau credyd yn cael mynediad at gydgasglu band eang y gwasanaethau cyhoeddus?
- 14:31 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will write to the Member on that particular point [Laughter]. Look, we are working very well with the credit union movements across Wales. We are organising next week a national joint conference between the credit union movement and us. I will make sure that I find out that information specifically and send it on to you.
- Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ar y pwynt penodol hwnnw [Chwerthin]. Edrychwch, rydym yn gweithio'n dda iawn gyda mudiadau undebau credyd ledled Cymru. Rydym yn trefnu cynhadledd genedlaethol yr wythnos nesaf rhwng y mudiad undebau credyd a ninnau ar y cyd. Byddaf yn sicrhau fy mod yn dod o hyd i'r wybodaeth honno'n benodol ac yn ei hanfon atoch.

14:31 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. I will give you a little bit of help: the public service broadband aggregate enables satellite working and closer co-operation between credit unions, and it enables them to reduce risk in terms of securing their data in the cloud. You may know that the Gateway credit union in Torfaen is already on it, care of the local council, but there has been some resistance to other credit unions using that aggregate. I think it would be very helpful in making credit unions more sustainable and in helping to develop them if they all had access to it.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rhoddaf ychydig bach o help i chi: mae cynllun cydgasglu band eang y gwasanaethau cyhoeddus yn galluogi gweithio lloeren a chydweithredu agosach rhwng undebau credyd, ac mae'n eu galluogi i leihau'r risg o ran diogelu eu data yn y cwmwl. Efallai y byddwch yn gwybod bod undeb credyd Gateway yn Nhorfaen eisoes yn gweithio arno, drwy gymorth y cyngor lleol, ond bu rhywfaint o wrthwynebiad i undebau credyd eraill ddefnyddio'r cynllun cydgasglu. Rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol iawn o ran gwneud undebau credyd yn fwy cynaliadwy a helpu i'w datblygu pe bai ganddynt oll fynediad ato.

14:31 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

I will still, nevertheless, check it with my officials if you do not mind and I will come back to you to be absolutely clear about our view on that. As I have said, our relationship with credit unions is good. We obviously want them to collaborate. That was the purpose of the grants that we have recently awarded, particularly to the north Wales credit union, in order to help expand the membership base and, of course, to develop a greater understanding of the role and value of credit unions.

Serch hynny, byddaf yn dal i'w wirio gyda fy swyddogion os nad oes ots gennych a byddaf yn dod yn ôl atoch er mwyn bod yn gwbl glir ynghylch ein safbwynt ar hynny. Fel rwyf wedi dweud, mae ein perthynas gydag undebau credyd yn dda. Mae'n amlwg ein bod am iddynt gydweithio. Dyna oedd pwrpas y grantiau rydym wedi'u rhoi yn ddiweddar, yn enwedig i undeb credyd gogledd Cymru, er mwyn helpu i ehangu'r aelodaeth ac wrth gwrs, i ddatblygu gwell dealltwriaeth o rôl a gwerth undebau credyd.

Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol

Social Security Benefits

14:32 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

3. Pa effaith y mae diwygiadau i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol ers 2010 wedi'i chael ar faint o arian sy'n cylchredeg yng Nghaerdydd? OAQ(4)0205(CTP)

3. What impact has the reform of social security benefits since 2010 had on the amount of money circulating in Cardiff? OAQ(4)0205(CTP)

14:32 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for that question. We estimate that, in Cardiff, some of the key UK Government welfare reforms will result in a loss of £100 million in 2015-16 alone. Although losses will vary depending on individual circumstances, the average annual loss per working-age adult in Cardiff is estimated to be around £430.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rydym yn amcangyfrif y bydd rhai o ddiwygiadau lles allweddol Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd, yn arwain at golled o £100 miliwn yn 2015-16 yn unig. Er y bydd colledion yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir bod cyfartaledd y golled flynyddol i bob oedolyn o oedran gweithio yng Nghaerdydd oddeutu £430.

14:33 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

These are telephone numbers, of course, for most people. However, I note the Sheffield Hallam University work that estimates it equates to £480 per working-age adult. Obviously, that is not as severe as the £720 per working-age adult in Merthyr Tydfil, which is the highest. However, overall, would you agree with me, Minister, that the message from the UK Government is that the poor get poorer and that the rich, individually, get richer?

Rhifau ffôn yw'r rhain i'r rhan fwyaf o bobl wrth gwrs. Fodd bynnag, rwy'n nodi gwaith Prifysgol Sheffield Hallam sy'n amcangyfrif ei fod yn cyfateb i £480 i bob oedolyn o oedran gweithio. Yn amlwg, nid yw hynny mor ddifrifol â'r £720 i bob oedolyn o oedran gweithio ym Merthyr Tudful, sef yr uchaf. Fodd bynnag, at ei gilydd, a fyddech yn cytuno â mi, Weinidog, mai'r neges gan Lywodraeth y DU yw bod y tlawd yn mynd yn dlotach a bod y cyfoethog, fel unigolion, yn mynd yn gyfoethocach?

- 14:33 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I certainly agree with your points. It is clearly the most vulnerable in our communities that are being targeted here. Our own knowledge and analytical services research, and it has been supported by the Institute for Fiscal Studies, is that the total loss to the Welsh economy as a result of these reforms will exceed £900 million. That is obviously going to have a knock-on effect on the private sector as people are less able to purchase goods and services. The average loss across Wales per working-age adult will be in the order of £500.
- Ydw, rwy'n sicr yn cytuno â'ch pwyntiau. Mae'n amlwg mai'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau sy'n cael eu targedu yma. Dengys ein gwybodaeth ein hunain ac ymchwil gwasanaethau dadansoddol, sydd wedi'i chefnogi gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, y bydd cyfanswm y golled i economi Cymru o ganlyniad i'r diwygiadau hyn yn fwy na £900 miliwn. Mae hynny'n amlwg yn mynd i gael effaith ganlyniadol ar y sector preifat gan fod pobl yn llai abl i brynu nwyddau a gwasanaethau. Bydd y golled ar gyfartaledd ar draws Cymru i bob oedolyn o oedran gweithio oddeutu £500.
- 14:34 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
- Obviously, Minister, one of the greatest ways to increase circulation of money in any city is a thriving economy. Would you welcome the moves that the UK Government has made to make sure that we have a vibrant economy in the UK and in Wales, and in particular that we have record employment and a growing opportunity for people to lift themselves out of poverty through getting into work and earning a weekly wage?
- Yn amlwg, Weinidog, un o'r ffyrdd gorau o gynyddu cylchrediad arian mewn unrhyw ddinas yw economi sy'n ffynnu. A fydddech yn croesawu'r camau a wnaeth Lywodraeth y DU i wneud yn siŵr bod gennym economi sy'n ffynnu yn y DU ac yng Nghymru, ac yn benodol, fod gennym fwy o bobl nag erioed o'r blaen mewn gwaith a chyfle cynyddol i bobl dynnu eu hunain allan o dlodi drwy fynd i weithio ac ennill cyflog wythnosol?
- 14:34 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, I want to encourage people to get into work for the right level of jobs. That is why I fully support the skills programme of the Welsh Government, the Jobs Growth Wales programme, the apprenticeships programmes and, of course, our own work on city regions.
- Wrth gwrs, rwy'n awyddus i annog pobl i gael gwaith ar gyfer y lefel gywir o swyddi. Dyna pam rwy'n llwyr gefnogi rhaglen sgiliau Llywodraeth Cymru, rhaglen Twf Swyddi Cymru, y rhaglenni prentisiaethau ac wrth gwrs, ein gwaith ein hunain ar ddinas-ranbarthau.
- 14:35 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*
- Minister, benefit reform has clearly reduced the disposable income of many people in Cardiff, as you outlined in your previous answers, and the increase in food banks is testament to that. By the way, it is worth pointing out that the first food banks were opened under a Labour Government. I was alarmed, therefore, Minister, to hear about Labour's plans to tackle social security reform and take it further than the Tories by threatening to cut the unemployment benefit of young people. Some areas of Cardiff have youth unemployment affecting as many as one in three people. What is your assessment of the impact that the reform of this support for young unemployed people will have on top of the existing benefit changes, and will you endorse or distance yourself from the right-wing youth unemployment policy of your party leader in London?
- Weinidog, mae diwygio budd-daliadau yn amlwg wedi lleihau incwm gwario llawer o bobl yng Nghaerdydd, fel yr amlinellwyd gennych yn eich atebion blaenorol, ac mae'r cynnydd yn nifer y banciau bwyd yn dystiolaeth o hynny. Gyda llaw, mae'n werth nodi mai o dan Lywodraeth Lafur yr agorodd y banciau bwyd cyntaf. Felly Weinidog, cefais ddychryn wrth glywed am gynlluniau Llafur i fynd i'r afael â diwygio nawdd cymdeithasol a mynd â hynny ymhellach na'r Toriaid drwy fygwth torri budd-dal diweithdra pobl ifanc. Mae rhai ardaloedd o Gaerdydd yn profi diweithdra ymhlith pobl ifanc sy'n effeithio ar gymaint ag un o bob tri o bobl. Beth yw eich asesiad o'r effaith y bydd diwygio'r cymorth hwn i bobl ifanc ddi-waith yn ei chael ar ben y newidiadau presennol i fudd-daliadau, ac a fyddwch yn cefnogi neu'n ymbellhau oddi wrth bolisi diweithdra ieuencid adain dde arweinydd eich plaid yn Llundain?
- 14:36 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I do not accept your analysis. I know that the proposals by the national Labour Party also include very much encouragement to take up training and work placement opportunities. However, what I am concerned with is what the Welsh Government does here, and Jobs Growth Wales and the Lift programme really show that we are serious about helping young people back into employment.
- Nid wyf yn derbyn eich dadansoddiad. Gwn fod cynigion y Blaid Lafur genedlaethol hefyd yn cynnwys llawer iawn o anogaeth i fanteisio ar hyfforddiant a chyfluoedd lleoliad gwaith. Fodd bynnag, yr hyn rwy'n bryderus yn ei gylch yw beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yma, ac mae Twf Swyddi Cymru a rhaglen Esgyn yn dangos ein bod yn wirioneddol o ddifrif ynglŷn â helpu pobl ifanc yn ôl i gyflogaeth.

- 14:36 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 4. *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd tuag at gwrdd â thargedau Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0198(CTP)*
 4. *Will the Minister make a statement on progress towards meeting the Welsh Government's Digital Inclusion Delivery Plan targets? OAQ(4)0198(CTP)*
- 14:36 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 Positive progress has been made towards meeting our digital inclusion targets—79% of Welsh adults now use the internet compared with an estimated 66% in 2010. To build on this progress, I have set out ambitious, revised targets in our recently updated and published digital inclusion delivery plan.
 Gwnaed cynnydd cadarnhaol tuag at gyrraedd ein targedau cynhwysiant digidol—mae 79% o oedolion Cymru bellach yn defnyddio'r rhyngwrwd o gymharu ag amcangyfrif o 66% yn 2010. Er mwyn adeiladu ar y cynnydd hwn, rwyf wedi gosod targedau diwygiedig uchelgeisiol yn ein cynllun cyflawni ar gynhwysiant digidol sydd wedi'i ddiweddarau a'i gyhoeddi yn ddiweddar.
- 14:37 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 Your announcement to help more people in Wales to gain basic digital skills is to be welcomed because we cannot escape the fact that more and more services are being placed online. These services include Government services here and in the UK. However, I recently received a complaint from a constituent concerned about being able to obtain information regarding benefit by means other than the internet. Minister, not everyone has a computer, or access to the internet, particularly some in older age groups and disadvantaged people, and some people just do not know how to do it and perhaps will not be able to use it in future. That being the case, can I be assured that the Welsh Government will continue to offer information through other means as well as the internet until we are confident that Wales is completely digitally inclusive?
 Mae eich cyhoeddiad ynghylch helpu mwy o bobl yng Nghymru i feithrin sgiliau digidol sylfaenol i'w groesawu oherwydd ni allwn ddianc rhag y ffaith bod mwy a mwy o wasanaethau yn cael eu gosod ar-lein. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau'r Llywodraeth hon a Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, yn ddiweddar derbyniais gŵyn gan etholwr a oedd yn bryderus na allai gael gwybodaeth am fudd-daliadau drwy ddulliau ar wahân i'r rhyngwrwd. Weinidog, nid oes gan bawb gyfrifiadur, neu fynediad at y rhyngwrwd, yn enwedig rhai mewn grwpiau oedran hŷn a phobl dan anfantais. Nid yw rhai pobl yn gwybod sut i wneud hynny ac efallai na fyddant yn gallu defnyddio'r rhyngwrwd yn y dyfodol. Os felly, a allwch fy sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig gwybodaeth drwy ddulliau eraill yn ogystal â'r rhyngwrwd hyd nes y byddwn yn hyderus bod Cymru yn gwbl gynhwysol yn ddigidol?
- 14:38 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 I thank the Member very much for that supplementary question, where she raises important points. We recognise, of course, that not everybody is able, or indeed willing, to go online, although we will certainly continue to encourage the maximum number to do so. That is why I was very pleased to attend, together with the Minister for Culture and Sport, Grangetown library recently, where we extended Communities 2.0 to the remaining parts of Wales.
 Diolch yn fawr iawn i'r Aelod am y cwestiwn atodol, lle mae'n codi pwyntiau pwysig. Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, nad yw pawb yn gallu, neu'n wir yn barod, i fynd ar-lein, er y byddwn yn sicr yn parhau i annog cynifer â phosibl i wneud hynny. Dyna pam roeddwn yn falch iawn o fod yn bresennol, gyda'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn llyfrgell Grangetown yn ddiweddar, lle'r aethom ati i ymestyn Cymunedau 2.0 i'r rhannau sy'n weddill o Gymru.
 We cannot ignore the fact that the digital world is increasing its presence in everyday life and that includes public services. So, we do want people to take advantage, but we recognise also that it will not be right for everybody at this point. Universal credit, which has begun its roll-out in Wales, is meant to be an internet-based service. Although it is quite possible for people to do it by phone, this has not been made generally known, and I do not know for how long that facility will be present. So, we cannot control that, and that is why we encourage people to get online and develop the skills that are necessary, which is why our Communities 2.0 programme is so important.
 Ni allwn anwybyddu'r ffaith bod y byd digidol yn cynyddu ei bresenoldeb mewn bywyd bob dydd ac mae hynny'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus. Felly, rydym am i bobl i fanteisio arno, ond rydym yn cydnabod hefyd na fydd yn addas i bawb ar y pwynt hwn. Y bwriad yw i'r credyd cynhwysol, sydd wedi dechrau cael ei gyflwyno yng Nghymru, fod yn wasanaeth ar y rhyngwrwd. Er ei bod yn gwbl bosibl i bobl ei wneud dros y ffôn, nid roddwyd hysbysrwydd cyffredinol i hyn, ac ni wn am ba hyd y bydd y cyfleuster hwnnw ar gael. Felly, ni allwn reoli hynny, a dyna pam rydym yn annog pobl i fynd ar-lein a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen, a dyna pam y mae ein rhaglen Cymunedau 2.0 mor bwysig.

- 14:39 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In your recent delivery plan update, you talk about the cross-cutting nature of the plan. Given the Government's drive to deliver a number of agriculture payment services online, how are you targeting rural farm businesses, and farmers themselves, to embrace, upskill and exploit digital technology, which, of course, is a key LEADER priority in the rural development plan?
- Yn y diweddariad o'ch cynllun cyflawni yn ddiweddar, rydych yn sôn am natur drawsbynciol y cynllun. O ystyried ymgyrch y Llywodraeth i ddarparu nifer o wasanaethau taliadau amaethyddol ar-lein, sut rydych yn targedu busnesau fferm yng nghefn gwlad, a ffermwyr eu hunain, i'w cymell i groesawu, meithrin sgiliau a manteisio ar dechnoleg ddigidol sydd wrth gwrs yn un o flaenoriaethau allweddol LEADER yn y cynllun datblygu gwledig?
- 14:39 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We obviously want to make sure that all parts of Wales are able to access the internet. In fact, the rural parts of Wales tend to be better, on average, than the urban parts of Wales, in terms of being online. If you are aware of any particular problems in certain communities within Wales—agricultural or not—please let me know, and I will talk to our Communities 2.0 team in order to see what further work we can do.
- Rydym yn amlwg yn awyddus i wneud yn siŵr bod pob rhan o Gymru yn gallu cael mynediad at y rhyngwyd. Mewn gwirionedd, mae'r rhannau gwledig o Gymru yn tueddu i fod yn well, ar gyfartaledd, na rhannau trefol o Gymru, o ran bod ar-lein. Os ydych yn ymwybodol o broblemau penodol mewn rhai cymunedau yng Nghymru—amaethyddol neu beidio—gadewch i mi wybod, os gwelwch yn dda, i mi gael siarad â'n tîm Cymunedau 2.0 er mwyn gweld pa waith pellach y gallwn ei wneud.
- 14:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.
- Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.
- 14:40 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid cael sicrwydd am gyllid rhaglen Cymunedau 2.0 y tu hwnt i Fawrth 2015 os yw'r Llywodraeth am allu cadw at ei thargedau ar gyfer cynhyssedd digidol?
- Thank You, Presiding Officer. Does the Minister agree that there must be certainty about the funding of Communities 2.0 beyond March 2015 if the Government is to stick to its targets for digital inclusion?
- 14:40 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. We are in the process of considering what needs to be done for a follow-up programme, and announcements will be made in due course.
- Diolch yn fawr. Rydym yn y broses o ystyried beth sydd angen ei wneud ar gyfer rhaglen ddilynol, a bydd cyhoeddiadau yn cael eu gwneud maes o law.
- 14:40 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y perygl o gollir cynllun hwn, ar ôl Mawrth 2015, yn ôl un o'r partneriaid sy'n delifro'r cynllun, sef Canolfan Cydweithredol Cymru, mewn adroddiad yr wythnos hon, yw y bydd llawer o'r arbenigedd sydd wedi cael ei ddatblygu yn cael ei gollu, y bydd cefnogaeth yn mynd yn dameidiog, y bydd ansawdd cefnogaeth yn dirywio, ac y bydd cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn dod i ben. A yw'r Gweinidog yn cytuno â'r asesiad hwnnw?
- The risk of losing this scheme, after March 2015, according to a report this week by one of the scheme's delivery partners, namely the Wales Co-operative Centre, is that much of the expertise that has been developed will be lost, that the support will become patchy, that the quality of support will decline, and that the progress that has been made will cease. Does the Minister agree with that assessment?
- 14:41 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, we recognise that there is more work to be done. Some 42,000 individuals, incidentally, have been helped by Communities 2.0, and 800 community groups. So, clearly, they have benefited. It is a rolling programme, and the need for it will reduce, as more and more people—and more and more champions as well, if you like—get online and are able to assist in that work. However, there will be a need for a form of programme once Communities 2.0 comes to its end. Of course, I have to stress that all of this depends very largely on budget considerations and what we are able to pay for. The signs are at the moment—certainly from the UK Government—that there are no increases on the way.
- Yn amlwg, rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud. Gyda llaw, mae tua 42,000 o unigolion wedi cael cymorth gan Cymunedau 2.0, a 800 o grwpiau cymunedol. Felly mae'n amlwg eu bod wedi elwa. Mae'n rhaglen dreigl a bydd yr angen am y rhaglen yn lleihau wrth i fwy a mwy o bobl—a mwy a mwy o hyrwyddwyr, yn ogystal, os mynnwch—fynd ar-lein a gallu helpu yn y gwaith hwnnw. Fodd bynnag, bydd angen am raglen o ryw fath pan ddaw Cymunedau 2.0 i ben. Wrth gwrs, rhaid i mi bwysleisio bod hyn i gyd yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar ystyriaethau cyllidebol a'r hyn y gallwn dalu amdano. Mae'r arwyddion ar hyn o bryd—yn sicr o gyfeiriad Llywodraeth y DU—yn dynodi nad oes unrhyw gynnydd ar y ffordd.

Gwirfoddoli Cymunedol

Community Volunteering

- 14:42 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog gwirfoddoli o fewn cymunedau? OAQ(4)0196(CTP)
5. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is encouraging volunteering within communities? OAQ(4)0196(CTP)
- 14:42 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
I thank the Member for that question. We support volunteers in many ways. I have committed £7.2 million in 2014-15 to support an integrated infrastructure for voluntary organisations and volunteers, including just over £200,000 for Interlink, the county voluntary council and volunteer centre for Rhondda Cynon Taf. We are also developing a new volunteering policy with third sector partners.
Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rydym yn cefnogi gwirfoddolwyr mewn sawl ffordd. Rwyf wedi ymrwymo £7.2 miliwn yn 2014-15 i gefnogi seilwaith integredig ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr, gan gynnwys ychydig dros £200,000 ar gyfer Interlink, y cyngor gwirfoddol sirol a'r ganolfan wirfoddolwyr ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Rydym hefyd yn datblygu polisi gwirfoddoli newydd gyda phartneriaid trydydd sector.
- 14:42 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer, Minister. You will be aware of the Time for Healthy Communities initiative that is being trialled within the Pontypridd Communities First cluster. An important part of the scheme is the awarding of time credits to those who volunteer to help to improve the health and wellbeing of others. Involving businesses in the scheme, in order that time credits can be cashed, is key. So, would the Minister consider discussing how schemes of this sort could be promoted to the business community, with the Minister for Economy, Science and Transport?
Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o fenter Time for Healthy Communities sy'n cael ei threialu gan glwstwr Cymunedau yn Gyntaf Pontypridd. Rhan bwysig o'r cynllun yw dyfarnu credydau amser i'r rhai sy'n gwirfoddoli i helpu i wella iechyd a lles pobl eraill. Mae cynnwys busnesau yn y cynllun, er mwyn gallu cyfnewid credydau amser, yn allweddol. Felly, a fyddai'r Gweinidog yn ystyried trafod sut y gellid hyrwyddo cynlluniau o'r math hwn i'r gymuned fusnes gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth?
- 14:43 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
I am clearly happy to have discussions. I am aware of time banking and time credits, of course. I will ask officials to give me more information about how the particular schemes that you have alluded to are actually working. However, I will give an assurance that I will discuss this matter further.
Rwy'n amlwg yn hapus i gael trafodaethau. Rwy'n ymwybodol o fancio amser a chredydau amser, wrth gwrs. Byddaf yn gofyn i swyddogion roi mwy o wybodaeth imi ynglŷn â sut y mae'r cynlluniau penodol rydych wedi cyfeirio atynt yn gweithio. Fodd bynnag, gallaf roi sicrwydd y byddaf yn trafod y mater hwn ymhellach.
- 14:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
I call on the opposition spokesperson, Mark Isherwood. Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Mark Isherwood.
- 14:43 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Diolch. Minister, how did you, or how did the Welsh Government, respond to last August's response by the Wales Council for Voluntary Action on refreshing the relationship between the Welsh Government and the third sector in Wales, which identified scope for local authorities, health boards and the third sector to work much more imaginatively to develop better services that are closer to people, more responsive to needs and add value by drawing on community resources?
Diolch. Weinidog, sut y gwnaethoch chi, neu sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i'r ymateb a roddwyd fis Awst y llynedd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ynghylch adnewyddu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector yng Nghymru, a oedd yn nodi bod lle i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector weithio'n llawer mwy dychmygus er mwyn datblygu gwasanaethau gwell sy'n agosach at bobl, yn fwy ymatebol i anghenion ac yn ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio adnoddau cymunedol?

14:44 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that is the work that we are doing through our volunteering policy. We have an excellent relationship with the WCVA, and with the third sector partnership council, and our discussions are fruitful. We have a clear vision to ensure that there is excellent partnership between the Welsh Government and appropriate voluntary organisations. The matters that you have referred to are matters that we discuss. If you are aware of any other concerns or complaint, please ask the relevant organisations to contact me directly.

Wel, dyna'r gwaith rydym yn ei wneud drwy ein polisi gwirfoddoli. Mae gennym berthynas ardderchog gyda CGGC, a chyngor partneriaeth y trydydd sector, ac mae ein trafodaethau yn ffrwythlon. Mae gennym weledigaeth glir i sicrhau bod partneriaeth ardderchog rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau gwirfoddol priodol. Mae'r materion rydych wedi cyfeirio atynt yn faterion rydym yn eu trafod. Os gwyddoch am unrhyw bryder neu gŵyn arall, gofynnwch i'r sefydliadau perthnasol gysylltu â mi yn uniongyrchol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:44 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. In fact, I think that you are the most relevant organisation in this respect.

Given that Co-production Wales has described co-production, which is the word being used for what the WCVA described, as not just a nice add-on, but a new way of operating, and that Community Links has said that we either cut to crisis-led services, or deliver systemic change, why has the Welsh Government brought in house services provided by the third sector, such as Careers Wales and energy advice, and why are health boards cutting support for palliative care or bereavement counselling or local authorities for relationship counselling, each of which can deliver more for less and add value focused on better outcomes and true community empowerment?

Diolch yn fawr. Yn wir, rwy'n meddwl mai chi yw'r sefydliad mwyaf perthnasol yn hyn o beth.

Disgrifiodd Cydgynhyrchu Cymru y broses o gyd-gynhyrchu, sef y gair sy'n cael ei ddefnyddio am yr hyn a ddisgrifiodd CGGC fel ffordd newydd o weithredu yn hytrach na dim ond ychwanegiad cyfleus, a dywedodd Cysylltiadau Cymunedol ein bod naill ai'n troi at ddarparu gwasanaethau a arweinir gan argyfwng yn unig, neu gyflwyno newid systemig. Felly pam y mae Llywodraeth Cymru wedi dod â gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector, fel Gyrfa Cymru a chyngor ar ynni i mewn yn fewnol, a pham y mae byrddau iechyd yn torri cymorth ar gyfer gofal lliniarol neu wasanaeth cyngori mewn profedigaeth, ac awdurdodau lleol yn torri cymorth ar gyfer cwnsela cydberthynas, y gallai pob un ohonynt gyflawni mwy am lai ac ychwanegu gwerth sy'n canolbwyntio ar well canlyniadau a grymuso cymunedau go iawn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:45 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There will be a real focus in terms of discussions between Ministers and the relevant voluntary organisations that relate to their portfolios as part of the whole process of refreshing the relationship and developing an improved and more focused relationship; it also works with the third sector scheme and the code of practice for funding. Some organisations like Careers Wales have always been an arm of Government and not of the voluntary sector. So, I really feel that those issues are being properly addressed by our approach to the third sector.

Bydd ffocws gwirioneddol o ran trafodaethau rhwng Gweinidogion a'r sefydliadau gwirfoddol perthnasol sy'n ymwneud â'u portffolios fel rhan o'r broses gyfan o adnewyddu'r berthynas a datblygu perthynas well gyda mwy o ffocws; mae hefyd yn gweithio gyda'r cynllun trydydd sector a'r cod ymarfer ar gyfer cyllido. Mae rhai sefydliadau fel Gyrfa Cymru bob amser wedi bod yn rhan o'r Llywodraeth yn hytrach na'r sector gwirfoddol. Felly, rwyf wir yn teimlo bod y materion hynny'n cael sylw priodol drwy ein hymagwedd tuag at y trydydd sector.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:46 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Un o'r mudiadau trydydd sector a fydd yn colli arian yn y dyfodol agos yw'r Ddraig Ffyfinci, gan fod y Llywodraeth wedi penderfynu peidio ag ariannu'r rhaglen i'r dyfodol. Mae hon yn rhaglen sy'n ehangu ac yn hyrwyddo dealltwriaeth pobl ifanc o'r broses ddemocrataidd ac mae rhai o fy etholwyr wedi bod yn gofyn pam fod y Llywodraeth wedi gwneud hynny. Gan gofio bod mudiadau neu gyrff tebyg yn gweithredu mewn gwledydd eraill ym Mhrydain, pam fod y Llywodraeth wedi troi ei chefn ar bobl ifanc fel hyn a beth yw bwriadau'r Llywodraeth i'r dyfodol?

One of the third sector organisations that will lose money in the near future is Funky Dragon, because the Government has decided not to fund the program in future. This is a programme that broadens and encourages young people's understanding of the democratic process and some of my constituents have been asking why the Government has done this. Bearing in mind that similar bodies or organisations operate in other British nations, why has the Government turned its back on young people like this and what are its intentions for the future?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:46 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that you are referring to the unsuccessful bid to the children and families development grant. Whether Funky Dragon, in whatever form it wishes to continue, does continue or not is not really a matter for me. There was an open bidding process and it was not successful. Children in Wales was the successful organisation in terms of the engagement strand and we expect the work to continue. I see no reason why Funky Dragon should not continue; it is a registered charity and it does not have to rely solely on Welsh Government funding. It knew a long time ago that its current funding from the Welsh Government would end at the end of September.

Rwy'n meddwl eich bod yn cyfeirio at y cais aflwyddiannus am y grant datblygu plant a theuluoedd. Nid mater i mi yw pa un a yw Draig Ffyni, ar ba ffurf bynnag y mae'n dymuno parhau, yn parhau ai peidio. Roedd y broses ymgeisio yn un agored ac nid oedd yn llwyddiannus. Plant yng Nghymru oedd y sefydliad llwyddiannus o ran y maes ymgysylltu ac rydym yn disgwyl i'r gwaith barhau. Ni welaf unrhyw reswm pam na ddylai Draig Ffyni barhau; mae'n elusen gofrestredig ac nid oes raid iddi ddiwynnu'n llwyr ar gyllid Llywodraeth Cymru. Roedd yn gwybod amser maith yn ôl y byddai ei chyllid presennol gan Lywodraeth Cymru yn dod i ben ddiwedd mis Medi.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:47 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A constituent of mine, Will Harry, of Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant recently won parent-teacher association volunteer of the year award 2014 for his work in revitalising and energising that school's PTA. I am sure that you will join with me in congratulating him, but I am sure that you will also agree that a vibrant PTA can be a hugely beneficial link between a school and its wider community. What discussions have you had with the Minister for Education and Skills about the role of PTAs and school volunteers more generally in revitalising communities and encouraging positive intergenerational links between the communities?

Yn ddiweddar, enillodd etholwr i mi, Will Harry, o Ysgol Gynradd Gymunedol Llantrisant wobwr gwirfoddolwr y flwyddyn y gymdeithas rhieni ac athrawon ar gyfer 2014 am ei waith yn adfywio ac yn egnïo Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol honno. Rwy'n siŵr eich bod yn ymuno â mi i'w longyfarch, ond rwy'n siŵr y byddwch hefyd yn cytuno y gall Cymdeithas Rhieni ac Athrawon fywiog fod yn gyswllt hynod fuddiol rhwng ysgol a'i chymuned ehangach. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch rôl Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon a gwirfoddolwyr ysgol yn fwy cyffredinol yn adfywio cymunedau ac yn annog cysylltiadau cadarnhaol sy'n pontio'r cenedlaethau rhwng y cymunedau?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:48 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand absolutely the importance of what you say and I will certainly join you in congratulating him and the work of PTAs, but PTAs are not part of my responsibility; they are that of the Minister for Education and Skills. However, I will be happy to know more about how PTAs work with volunteers to see if there is joint work that we can progress.

Rwy'n deall yn llwyr pa mor bwysig yw'r hyn a ddywedwch ac rwy'n sicr yn ymuno â chi i'w longyfarch ef a gwaith Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon, ond nid yw Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon yn rhan o fy nghyfrifoldeb; cyfrifoldeb y Gweinidog Addysg a Sgiliau ydynt. Fodd bynnag, byddwn yn falch o wybod mwy ynglŷn â sut y mae Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i weld a oes gwaith ar y cyd y gallwn ei symud ymlaen.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:48 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The cadet movement has been around in one form or another in this country for over 154 years now; it is one of the UK's oldest, largest and most successful youth organisations, running the Duke of Edinburgh Award scheme, for example. It has a long and proud history of preparing youngsters for all walks of life and encouraging an active involvement in local communities. It depends hugely on volunteers as I know myself, having been involved. Given the widespread nature and activities in the community of the cadet force, and its infrastructure, what specific programmes and assistance—I realise that it is not entirely in your gift—do you offer to support the movement and will you join me in congratulating these volunteers?

Mae'r mudiad cadét wedi bod mewn bodolaeth mewn un ffurf neu'i gilydd yn y wlad hon ers dros 154 o flynyddoedd bellach; mae'n un o fudiadau ieuencid hynaf, mwyaf a mwyaf llwyddiannus y DU, a dyma'r mudiad sy'n trefnu cynllun Gwobr Dug Caeredin, er enghraifft. Mae ganddo hanes hir a balch o baratoi pobl ifanc ar gyfer pob math o lwybrau mewn bywyd ac o annog ymwneud gweithgar mewn cymunedau lleol. Mae'n dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr fel rwy'n gwybod fy hun, ar ôl bod yn gysylltiedig â gwaith y mudiad. O ystyried natur eang a gweithgareddau cymunedol y llu cadetiaid, a'i seilwaith, pa raglenni a chymorth penodol—rwy'n sylweddoli nad yw'n gyfan gwbl yn eich dwylo chi i'w roi—a ydych yn cynnig cynorthwyo'r mudiad ac a wnech chi ymuno â mi i longyfarch y gwirfoddolwyr hyn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:49	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I will certainly join in congratulating all volunteers for the important contribution that they make. I need to write to you in terms of this specific organisation and the type of support available to it. However, I can tell you that we support GwirVol in Wales, which promotes volunteering among young people, and, of course, we have our own direct volunteering policy that we develop through the third sector partnership council and the Wales Council for Voluntary Action to ensure that volunteering has that high priority. I will write to you on the specifics of the organisation that you refer to.</p>	<p>Rwy'n sicr yn llongyfarch yr holl wirfoddolwyr am y cyfraniad pwysig y maent yn ei wneud. Mae angen imi ysgrifennu atoch o ran y sefydliad penodol hwn a'r math o gymorth sydd ar gael iddo. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrthyich ein bod yn cefnogi GwirVol yng Nghymru, sy'n hyrwyddo gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc, ac wrth gwrs, mae gennym ein polisi gwirfoddoli uniongyrchol eu hunain rydym yn ei ddatblygu drwy gyngor partneriaeth y trydydd sector a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i sicrhau bod gwirfoddoli'n cael y flaenoriaeth uchel honno. Byddaf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â gwybodaeth fanwl am y sefydliad rydych yn cyfeirio ato.</p>
	Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	The Well-being of Future Generations (Wales) Bill
14:50	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)? OAQ(4)0207(CTP)</p>	<p>6. Will the Minister make a statement on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill? OAQ(4)0207(CTP)</p>
14:50	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I was pleased to make a statement yesterday introducing the Well-being of Future Generations (Wales) Bill.</p>	<p>Roeddwn yn falch o gael gwneud datganiad ddoe yn cyflwyno Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).</p>
14:50	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Mae'r Bil am greu comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol—rhywbeth sy'n cael ei groesawu er, wrth gwrs, eich bod am i'r comisiynydd hwnnw neu honno fod yn atebol i'r Llywodraeth, tra bo nifer ohonom am weld hynny'n gyfrifoldeb i'r Cynulliad. Fodd bynnag, sonioch echdoe, yn eich ymddangosiad yn Abertawe, am gomisiynydd a fyddai'n gweithio law yn llaw â Gweinidog; 'co-operation and collaboration' oedd y term a ddefnyddioch. A allwch ddweud wrthym, felly, sut fydd annibyniaeth y comisiynydd yn cael ei sicrhau? A fydd modd i unigolion a grwpiau perthnasol ddod â chwynion gerbron y comisiynydd hwnnw?</p>	<p>The Bill will create a commissioner for future generations—something that is welcomed although, of course, you want the commissioner to be accountable to the Government, while many of us want to see that become the responsibility of the Assembly. However, the day before yesterday, in your appearance in Swansea, you talked about a commissioner who would work hand in hand with the Minister; 'co-operation and collaboration' was the term used. Can you tell us, therefore, how the commissioner's independence is to be secured? Will relevant individuals and groups be able to bring complaints before the commissioner?</p>
14:50	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The commissioner will be independent, as are the other commissioners, even though they are appointed by the Welsh Government. Certainly, I would hope that we had a system where there was good collaboration and communication so that there was a shared understanding. The commissioner will be supported by an advisory panel. He or she will not be dependent on the whims of Government, but will make recommendations in terms of supporting the sustainable development agenda for all relevant public sector bodies.</p>	<p>Bydd y comisiynydd yn annibynnol, fel y mae'r comisiynwyr eraill, er eu bod yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru. Yn sicr, byddwn yn gobeithio cael system gyda chydweithredu a chyfathrebu da i sicrhau cyd-ddealltwriaeth. Bydd y comisiynydd yn cael ei gefnogi gan banel ymgynghorol. Ni fydd yn ddibynnol ar fympwyon Llywodraeth, ond bydd yn gwneud argymhellion o ran cefnogi agenda datblygu cynaliadwy ar gyfer yr holl gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus.</p>

14:51	Julie Morgan Bywgraffiad Biography Obviously, the future generations Bill is going to be addressing the long-term wellbeing of people in Wales, and public bodies are going to have to start thinking in a different way. How is the Minister going to ensure that this new way of thinking—long-term thinking—will be embedded in the way that organisations approach all of the issues that have come before them, so that we try to move away from short-term solutions to long-term sustainable solutions?	Yn amlwg, mae Bil cenedlaethau'r dyfodol yn mynd i'r afael â lles hirdymor pobl Cymru ac mae cyrff cyhoeddus yn mynd i ofod dechrau meddwl mewn ffordd wahanol. Sut y mae'r Gweinidog yn mynd i sicrhau bod y ffordd newydd hon o feddwl—meddwl hirdymor—yn cael ei hymgorffori yn y modd y mae sefydliadau yn ymagwedu tuag at yr holl faterion eraill a gyflwynwyd iddynt, fel ein bod yn ceisio symud oddi wrth atebion tymor byr i atebion hirdymor cynaliadwy?	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography I will not take as long as I did with some questions on this matter yesterday.	Nid wyf am gymryd cymaint o amser ag y gwneuthum ar rai o'r cwestiynau ar y mater hwn ddoe.	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I am really glad of that. [Laughter.]	Rwy'n wirioneddol falch o hynny. [Chwerthin.]	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography The whole basis of the work of the future generations Bill will be a statutory basis for the public services boards to collaborate and identify how they are going to achieve the statutory goals—the six that are on the face of the Bill. The goals demand that they draw up their own wellbeing plans, so the culture will have to change dramatically. The crucial issue here, of course, is that it will be the work of the commissioner that will help to drive that forward. However, the plans will belong to those local public services boards, and that, in turn, will demand a shift in attitudes.	Bydd holl sylfaen waith Bil cenedlaethau'r dyfodol yn sail statudol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gydweithio arni a nodi sut y maent yn mynd i gyflawni'r nodau statudol—y chwech sydd ar wyneb y Bil. Mae'r nodau yn mynnu eu bod yn llunio eu cynlluniau lles eu hunain, felly bydd yn rhaid i'r diwylliant newid yn ddramatig. Y mater hollbwysig yma, wrth gwrs, yw mai gwaith y comisiynydd fydd yn helpu i yrru hynny ymlaen. Fodd bynnag, bydd y cynlluniau yn perthyn i fyrddau'r gwasanaethau cyhoeddus lleol hynny, a bydd gofyn newid agweddau o ran hynny yn ei dro.	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Russell George Bywgraffiad Biography One of the key aspects of the new Bill will be how it tackles the key causes of poverty. Can you tell me, Minister, where the synergies will be between this Bill and the rural development plan in tackling rural poverty? How will you be using the Bill and levered-in RDP funding to achieve cost-cutting policy objectives?	Un o agweddau allweddol y Bil newydd fydd y modd y mae'n mynd i'r afael ag achosion allweddol tlodi. A allwch ddweud wrthyf, Weinidog, lle y bydd y synergeddau rhwng y Bil hwn a'r cynllun datblygu gwledig o ran trechu tlodi gwledig? Sut y byddwch yn defnyddio'r Bil a chyllid ysgogol y Cynllun Datblygu Gwledig i gyflawni amcanion polisi sy'n arbed costau?	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography This Bill will apply to all parts of Wales—rural, semi-rural, urban and semi-urban. It will be a requirement that all Welsh Government policies dovetail with the requirements of the Bill. That is the value of the Bill—to bring the key theme of sustainable development into one direction. You are quite right that tackling poverty will be a crucial part of many of the goals. That is why one of the goals is very much about building a prosperous Wales.	Bydd y Bil hwn yn berthnasol i bob rhan o Gymru—gwledig, lled-wledig, trefol a lled-drefol. Bydd yn ofynnol i bob un o bolisiau Llywodraeth Cymru gydwedu â gofynion y Bil. Dyna yw gwerth y Bil—dod â thema allweddol datblygu cynaliadwy i mewn i un cyfarwyddyd. Rydych yn gwbl iawn i ddweud y bydd trechu tlodi yn rhan hanfodol o lawer o'r nodau. Dyna pam y mae un o'r amcanion yn ymwneud llawer iawn ag adeiladu Cymru lewyrchus.	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Question 7, OAQ(4)0193(CTP), and question 8, OAQ(4)0194(CTP), have been withdrawn.	Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ (4) 0193 (CTP), a chwestiwn 8, OAQ (4) 0194 (CTP), yn ôl.	Senedd.tv Fideo Video

Y Dreth Ystafell Wely

The Bedroom Tax

- 14:53 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
9. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y dreth ystafell wely ar drigolion Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0208(CTP)
9. What assessment has the Minister made of the effect of the bedroom tax on the residents of Mid and West Wales? OAQ(4)0208(CTP)
- 14:53 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the Member for that question. In February, we published an assessment of the impact of the UK Government's welfare reforms in Wales. This included the impact of the bedroom tax, which is estimated to reduce incomes in Mid and West Wales by around £3 million in 2015-16.
Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Ym mis Chwefror, cyhoeddassom asesiad o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Roedd yn cynnwys effaith y dreth ystafell wely, yr amcangyfrifir ei bod wedi arwain at oddeutu £3 miliwn yn llai o incwm yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn 2015-16.
- 14:54 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Ers cyhoeddi'r asesiad gan y Llywodraeth, gwelwyd cyhoeddi adroddiad pellach o'r enw 'Un Dydd ar y Tro' ddoe yn y Cynulliad gan Cyngor ar Bopeth. Roedd yr adroddiad hwnnw yn dangos yn benodol fod dau o bob tri chartref yr effeithir arnynt gan y gosb hon yn cynnwys rhywun gydag anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir. Mae hynny'n cynnwys un teulu adnabyddus yn fy ardal i, sef teulu Rutherford yng Nghlunderwen, sy'n byw mewn tŷ wedi'i addasu ar gost y trethdalwyr ar gyfer eu hŵyr anabl. Bellach, mae nifer o dai sydd wedi'u haddasu gydag arian cyhoeddus, sy'n bwrpasol ar gyfer pobl gydag anabledd, dan fygythiad oherwydd y dreth hon. Felly, ymhellach i'r gwaith yn gynharach eleni, a ydych wedi gwneud astudiaeth benodol o faint o dai sydd wedi eu haddasu ar gyfer pobl anabl a fydd, o bosibl, yn cael eu colli o'r stoc tai cyhoeddus?
I thank the Minister for that reply. Since the publication of the assessment by the Government, a further report entitled 'One Day at a Time' was launched in the Assembly yesterday by Citizens Advice. That report shows that two out of every three homes affected by this tax will include someone with a disability or a long-term health condition. That includes a well-known family in my area, the Rutherfords of Clunderwen, who live in a house adapted at taxpayers' expense for their disabled grandson. Now, a number of homes that have been adapted with public money, tailored for people with a disability, are under threat because of this tax. Therefore, further to the work done earlier this year, have you made a particular study of how many houses that have been adapted for disabled people may be lost from the public housing stock?
- 14:55 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I will raise those specific questions with my colleague the Minister for Housing and Regeneration, in terms of an assessment of the homes that could be affected. However, you are right; two thirds of those affected by this reform are expected to be disabled, and that is according to the Department for Work and Pension's estimates. So, clearly, there is an imbalance in this particular tax. Let me make it clear: I am fully behind UK Labour's policy to abolish the bedroom tax as the only way of dealing with this iniquitous tax on people, especially those who are among the most vulnerable.
Byddaf yn codi'r cwestiynau penodol hynny gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Tai ac Adfywio, o ran asesu'r cartrefi a allai fod wedi'u heffeithio. Fodd bynnag, rydych yn gywir; y disgwyl yw bod dwy ran o dair o'r rhai a effeithir gan y diwygio hwn yn anabl, ac mae hynny'n yn ôl amcangyfrifon yr Adran Gwaith a Phensiynau. Felly, yn amlwg, ceir anghydbwysedd yn y dreth benodol hon. Gadewch imi ei gwneud yn glir: rwy'n cymeradwyo polisi Llafur y DU i ddiddymu'r dreth ystafell wely fel yr unig ffordd o ymdrin â'r dreth anghyfiawn hon ar bobl, yn enwedig y rhai sydd ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed.
- 14:56 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
You will be aware that the Department for Work and Pensions has issued guidance on more than one occasion to every local authority regarding discretionary housing payments. Sadly, only three out of the 22 local authorities spent even half of the discretionary housing payments halfway through the last financial year, even though, as you know, unspent money has to go back to the Treasury. What discussions have you had with your colleague the Minister for housing, on discretionary housing payments, and what discussions have you had with local authorities, especially in mid and west Wales, on this issue? What is the Welsh Government doing to ensure that money is being used and not being returned to the Treasury?
Byddwch yn ymwybodol bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi canllawiau ar fwy nag un achlysur i bob awdurdod lleol ynglŷn â thaliadau tai yn ôl disgrisiwn. Yn anffodus, dim ond tri o'r 22 awdurdod lleol a oedd wedi gwario hyd yn oed hanner y taliadau tai yn ôl disgrisiwn hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, er bod yn rhaid dychwelyd yr arian nas gwariwyd i'r Trysorlys, fel y gwyddoch. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog tai, ar daliadau tai yn ô disgrisiwn, a pha drafodaethau a gawsoch gydag awdurdodau lleol ar y mater hwn, yn enwedig yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio ac nad yw'n cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys?

- 14:56 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A discussion with local authorities about discretionary housing payments is not a matter for me; that is something that ought to be addressed to the Minister for local government and/or the Minister for housing. However, the demand for discretionary housing payments in 15 Welsh local authorities increased by 260% since the bedroom tax was introduced in 2013-14.
- Nid yw trafodaeth gydag awdurdodau lleol am daliadau tai yn ôl disgrisiwn yn fater i mi; mae hynny'n rhywbeth y dylid ei gyfeirio at y Gweinidog Llywodraeth leol a/neu 'r Gweinidog tai. Fodd bynnag, cynyddodd y galw am daliadau tai yn ôl disgrisiwn 260% mewn 15 o awdurdodau lleol yng Nghymru ers i'r dreth ystafell wely gael ei chyflwyno yn 2013-14.
- Tlodi Plant** **Child Poverty**
- 14:57 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
10. Beth yw strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru o ran dileu tlodi plant erbyn 2020? OAQ(4)0200(CTP)
10. What is the Welsh Government's overall strategy for eradicating child poverty by the year 2020? OAQ(4)0200(CTP)
- 14:57 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The tackling poverty action plan carries forward the strategic objectives from the 2011 child poverty strategy. We recognise that, in attempting to tackle child poverty, we need to support families as a whole. The biggest challenges to our target of eliminating child poverty are creating more work and better paid work, and UK Government choices on welfare reform.
- Mae'r cynllun gweithredu ar drechu tlodi yn dwyn ymlaen yr amcanion strategol o strategaeth tlodi plant 2011. Wrth geisio trechu tlodi plant, rydym yn cydnabod bod angen inni gefnogi teuluoedd yn gyffredinol. Yr heriau mwyaf i'n targed o ddileu tlodi plant yw creu mwy o waith a gwaith sy'n talu'n well, a dewisiadau Llywodraeth y DU ar ddiwygio lles.
- 14:57 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The briefing that we received less than one hour ago says that Wales has the highest rate of child poverty of all the United Kingdom nations; 200,000 children are now affected. You could fill the national stadium almost three times. Save the Children has stated that politicians in Wales should be honest with the public about the possibility of eradicating child poverty. I am not suggesting that you are not honest, but what contingency plans does the Welsh Government have if the target is not reached?
- Mae'r papur briffio a gawsom lai nag awr yn ôl yn dweud mai Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o dlodi plant o holl wledydd y Deyrnas Unedig; mae 200,000 o blant yn cael eu heffeithio yn awr. Gallech lenwi'r stadiwm genedlaethol bron i dair gwaith. Mae Achub y Plant wedi datgan y dylai gwleidyddion yng Nghymru fod yn onest gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r posibilrwydd o ddileu tlodi plant. Nid wyf yn awgrymu nad ydych yn onest, ond pa gynlluniau wrth gefn sydd gan Lywodraeth Cymru os na chyrhaeddir y targed?
- 14:58 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That is a fair question. I have been upfront with Members, Save the Children and all of the campaigning children and families' organisations that are desperately keen to see Government commitment in Wales and Westminster to tackle child poverty. I have always said, and I will stick to this: we will keep the target and the goal that we have to eradicate child poverty by 2020. We should be properly held to account for all that we could and should do to help to meet that target. I do not think that we will help a single extra child out of poverty by removing the target. We will keep the target and strive towards it. Then, if we do not achieve that target, we need to honestly understand what we have done and what we could have done to lift more children and their families out of poverty, and, at the same time, understand the impact on what we do of what is done by the UK Government. Every single children and families non-governmental organisation says that welfare reform is the biggest barrier to lifting people out of poverty. Let us be honest about the whole range of Government responsibility here and at a UK level.
- Mae'n gwestiwn teg. Rwyf wedi bod yn agored gyda'r Aelodau, Achub y Plant a'r holl fudiadau ymgyrchu dros blant a theuluoedd sy'n ofnadwy o awyddus i weld ymrwymiad ar ran y Llywodraethau yng Nghymru a San Steffan i drechu tlodi plant. Rwyf wedi dweud erioed, a byddaf yn cadw at hyn: byddwn yn cadw'r targed a'r nod sydd gennym i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Dylem gael ein dwyn i gyfrif yn briodol am bob dim y gallem ac y dylem ei wneud i'n helpu i gyrraedd y targed. Nid wyf yn meddwl y byddwn yn helpu'r un plentyn ychwanegol allan o dlodi drwy gael gwared ar y targed. Byddwn yn cadw'r targed ac yn ymdrechu i'w gyrraedd. Yna, os na chyrhaeddw y targed, mae angen inni ddeall yn onest yr hyn a wnaethom a'r hyn y gallem fod wedi'i wneud i dynnu mwy o blant a'u teuluoedd allan o dlodi, ac ar yr un pryd, bydd angen inni ddeall effaith yr hyn a wneir gan Lywodraeth y DU ar beth rydym yn ei wneud. Mae pob sefydliad anllywodraethol dros blant a theuluoedd yn dweud mai diwygio lles yw'r rhwystr mwyaf i dynnu pobl allan o dlodi. Gadewch inni fod yn onest ynghylch yr ystod gyfan o gyfrifoldebau Llywodraeth, yma ac ar lefel y DU.

14:59

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was good to hear you say that we will strive to keep that target, because I believe that we have a duty to those people and children who are in poverty to do something about it. I was pleased to hear you say that.

I think that the job is made more difficult, as you touched on, by the UK Government's welfare reform, and it is quite clear that the UK Government, under its present colours, is not doing anything to assist us. So, it will be that long and lonely furrow that we, or you, will plough as a Government, but it will be supported by NGOs and others in society. Education is the best route for any child out of poverty and, for me, education is a must. It is there; it is a right. It is not something that we should be looking at as an option; it is a necessity for those young people to be able to go out and carve out their futures. Therefore, will you update us as to how you are working with other colleagues from the Cabinet, including the Deputy Minister for Skills and Technology, to tell us what you are doing to reduce the gap between those who have poor attainment levels because of their poverty and those who are able to fly because they have a better start in life?

Roedd yn dda eich clywed yn dweud y byddwn yn ymdrechu i gadw'r targed, oherwydd rwy'n credu bod gennym ddyletswydd i'r bobl a'r plant sy'n byw mewn tlodi i wneud rhywbeth am y peth. Roeddwn yn falch o'ch clywed yn dweud hynny.

Fel y crybwyllwyd gennych, credaf fod y gwaith yn cael ei gwneud yn anos gan ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU, ac mae'n eithaf amlwg nad yw Llywodraeth y DU, yn ei lliwiau presennol, yn gwneud unrhyw beth i'n helpu. Felly, dyna'r gwaith hir ac unig sy'n ein hwynebu fel Llywodraeth, ond caiff ei gefnogi gan gyrff anllywodraethol ac eraill yn y gymdeithas. Addysg yw'r llwybr gorau i dynnu plentyn allan o dlodi ac i mi, mae addysg yn hanfodol. Mae yno; mae'n hawl. Nid yw'n rhywbeth y dylem edrych arno fel opsiwn; mae'n anghenraid er mwyn i bobl ifanc allu mynd allan a naddu eu dyfodol. Felly, a wnewch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynglŷn â sut rydych yn gweithio gyda chydweithwyr eraill yn y Cabinet, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, i ddweud wrthym beth rydych yn ei wneud i leihau'r bwlch rhwng y rhai sydd â lefelau cyrhaeddiad gwael oherwydd eu tlodi a'r rhai sy'n gallu anelu'n uchel oherwydd eu bod yn cael dechrau gwell mewn bywyd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the question. I work with the Department for Education and Skills on a range of different initiatives. The important point is that our mission on tackling child poverty and tackling poverty is a whole-Government mission. Good examples of joint work with the Department for Education and Skills are the pupil deprivation grant, the Communities First match fund, Schools Challenge Cymru and Flying Start. In terms of the Deputy Minister for skills' responsibilities, we definitely have a conversation around Jobs Growth Wales and, in particular, the 750 opportunities that are specifically set aside for people from Communities First backgrounds. It is not just about having resources and having a plan; it is about having an appropriate way to target those resources to make the biggest possible difference. I only wish that the same approach was taken by the UK Government.

Diolch i chi am y cwestiwn. Rwy'n gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau ar ystod o fentrau gwahanol. Y pwynt pwysig yw bod ein cenhadaeth i drechu tlodi plant a threchu tlodi yn genhadaeth ar gyfer y Llywodraeth gyfan. Enghreifftiau da o waith ar y cyd â'r Adran Addysg a Sgiliau yw'r grant amddifadedd disgyblion, arian cyfatebol Cymunedau yn Gyntaf, Her Ysgolion Cymru a Dechrau'n Deg. O ran cyfrifoldebau'r Dirprwy Weinidog sgiliau, rydym yn bendant yn trafod Twf Swyddi Cymru ac yn benodol, y 750 o gyfleoedd sydd wedi'u neilltuo'n benodol ar gyfer pobl o gefndiroedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n ymwneud â mwy na chael adnoddau a chael cynllun; mae'n ymwneud â chael ffordd briodol o dargedu adnoddau ar gyfer gwneud y gwahaniaeth mwyaf posibl. Byddai'n dda gennyf pe bai agwedd Llywodraeth y DU yr un fath.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In that case, Minister, I am sure that you would be delighted to appreciate that the UK Government is trying to put more money back into the pockets of parents. It has increased the minimum wage by 3%; it has taken 155,000 of the lowest paid workers in Wales out of tax; and it has allowed 1.2 million people in Wales to benefit from the changes to the personal tax allowances while, at the same time, making sure that those who earn the most pay the most. Do you not agree that putting money back into the pockets of working parents—and, in the rural areas that I represent, rural poverty is mainly in-work poverty—is the best way to deal with the issue of child poverty?

Os felly Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn gwerthfawrogi bod Llywodraeth y DU yn ceisio rhoi mwy o arian yn ôl ym mhocedi rhieni. Mae wedi codi'r isafswm cyflog 3%; mae wedi eithrio 155,000 o'r gweithwyr â'r cyflogau isaf yng Nghymru rhag gorfod talu treth; ac mae wedi caniatáu i 1.2 miliwn o bobl Cymru i fanteisio ar y newidiadau i'r lwfansau treth personol, gan wneud yn siŵr ar yr un pryd mai'r rhai sy'n ennill fwyaf sy'n talu fwyaf. A ydych yn cytuno mai rhoi arian yn ôl ym mhocedi rhieni sy'n gweithio yw'r ffordd orau o ymdrin â thlodi plant—gan gofio mai tlodi mewn gwaith yw tlodi gwledig yn bennaf yn yr ardaloedd gwledig rwy'n eu cynrychioli?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If only that was what the UK Government was doing as a full picture. You will have noted the research by the Institute for Fiscal Studies, published on 2 July, which set out the scale of losses to working parents as well as non-working parents when you take into account all of the tax and benefit changes. I will give you a figure: it says that single-earner couples with children will lose £32 per week, or 5.4% of their net income, on average. I would like to see the UK Government come up with a serious and meaningful commitment to tackle child poverty. Only the most die-hard supporters of David Cameron's Government would suggest that this UK Government has such a commitment. Look at what it is doing. The reality is that families with children, in work and out of work, are suffering the most as a result of the deliberate choices made by this Conservative Government. I want to see a change in direction and I want to see a real commitment to tackling child poverty. That will not happen with David Cameron as Prime Minister. I look forward to next May and a change of Government.

Mae'n drueni nad dyna'r darllun llawn o ran yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud. Byddwch wedi nodi'r ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, a gyhoeddwyd ar 2 Gorffennaf, a oedd yn nodi maint y colledion i rieni sy'n gweithio yn ogystal â rhieni nad ydynt yn gweithio wrth ystyried yr holl newidiadau i drethi a budd-daliadau. Rhoddaf un ffigur i chi: mae'n dweud y bydd cyplau â phlant, lle y mae un o'r ddau yn ennill cyflog, yn colli £32 yr wythnos, neu 5.4% o'u hincwm net ar gyfartaledd. Hoffwn weld Llywodraeth y DU yn cynnig ymrwymiad difrifol ac ystyrlon i drechu tlodi plant. Dim ond cefnogwyr mwyaf selog Llywodraeth David Cameron a fyddai'n awgrymu bod gan Lywodraeth bresennol y DU ymrwymiad o'r fath. Edrychwch ar yr hyn y mae'n ei wneud. Y realiti yw mai teuluoedd â phlant, mewn gwaith ac yn ddi-waith, sy'n dioddef fwyaf o ganlyniad i'r dewisiadau bwriadol a wneir gan y Llywodraeth Geidwadol. Rwyf am weld newid cyfeiriad ac rwyf am weld ymrwymiad gwirioneddol i drechu tlodi plant. Ni fydd hynny'n digwydd gyda David Cameron yn Brif Weinidog. Rwy'n edrych ymlaen at fis Mai nesaf a newid Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:03

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that those listening to this will think that we are taking the matter a lot further in the debate today. The OECD and Save the Children comment that we are not short on strategies or legislative powers in Wales. However, the evaluation report that was published today states that, while the scale of programming as far as the Welsh Government is concerned is sufficient to meet the challenge, and the duties placed on local authorities and other public bodies should ensure that the issue is tackled more effectively, to date there has been a limited impact in terms of new programming or, in fact, the targeting of resources by those local authorities and public bodies to meet the problem and to tackle the issue. Therefore, what do you think the Government needs to do as a result of this evaluation report to perhaps ensure a greater focus as far as those local authorities and other public sector bodies are concerned?

Rwy'n siŵr y bydd y rheini sy'n gwrando ar hyn yn meddwl ein bod yn cymryd y mater lawer ymhellach yn y ddatlled hddiw. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac Achub y Plant yn dweud nad ydym yn brin o strategaethau neu bwerau deddfu yng Nghymru. Fodd bynnag, er bod graddau'r rhaglenni o safbwynt Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â'r her ac y dylai'r dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill sicrhau bod y mater yn cael ei drin yn fwy effeithiol, mae'r adroddiad gwerthuso a gyhoeddwyd heddiw yn nodi mai cyfyngedig fu'r effaith hyd yn hyn o ran rhaglenni newydd, neu dargedu adnoddau gan yr awdurdodau lleol a'r cyrrff cyhoeddus hynny ar gyfer goresgyn y broblem a mynd i'r afael â'r mater. Felly, beth rydych chi'n meddwl sydd angen i'r Llywodraeth ei wneud o ganlyniad i'r adroddiad gwerthuso er mwyn sicrhau mwy o ffocws efallai o ran yr awdurdodau lleol hynny a chyrrff eraill y sector cyhoeddus?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:04

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have obviously read and considered the evaluation of the child poverty strategy here in Wales. It is fair to point out that it refers back to a point in time. There is an issue regarding the time-lag between the evaluation being published and the point that it is examining. Since that work was done, we have had another year and there is a much greater commitment across the public sector to tackling child poverty. It is part of the point about having a whole-Welsh-Government approach, but it has to be an approach that is taken right across the public, private and voluntary sectors, because there has to be a real sense of shared mission. I think that we are much further along that road as a result. That does not mean that we are perfect; we still have very real challenges about what we could and should do in Wales, and I will not shy away from that. So, I still expect more to be done, more impact to be created and very real outcomes for people currently living in poverty. However, you cannot avoid the context of what is happening on a UK level, and the choices—these are deliberate choices—that are being made that make our task here much more difficult, and mean that the people living in poverty are much less likely to be lifted out of poverty than they should be.

Rwyf wedi darllen ac wedi ystyried y gwerthusiad o'r strategaeth tlodi plant yma yng Nghymru wrth gwrs. Mae'n deg nodi ei fod yn cyfeirio yn ôl at bwynt mewn amser. Mae problem o ran y gwahaniaeth rhwng amser cyhoeddi'r gwerthusiad a'r pwynt y mae'n edrych arno. Ers i'r gwaith hwnnw gael ei wneud, mae blwyddyn arall wedi mynd heibio ac mae llawer mwy o ymrwymiad ar draws y sector cyhoeddus i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae'n rhan o'r pwynt ynglŷn â chael dull Llywodraeth Cymru gyfan, ond mae'n rhaid iddo fod yn ddull o weithredu a ddefnyddir ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, oherwydd rhaid cael gwir ymdeimlad o rannu cenhadaeth. Credaf ein bod yn llawer pellach ar hyd y ffordd honno o ganlyniad. Nid yw hynny'n golygu ein bod yn berffaith; mae gennym heriau real iawn o hyd o ran yr hyn y gallm ac y dylem ei wneud yng Nghymru, ac ni fyddaf yn gochel rhag hynny. Felly, rwy'n dal i ddisgwyl i ragor gael ei wneud, i fwy o effaith gael ei chreu a chanlyniadau go iawn i bobl sy'n byw mewn tlodi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni allwch osgoi cyd-destun yr hyn sy'n digwydd ar lefel y DU, a'r dewisiadau a wneir—mae'r rhain yn ddewisiadau bwriadol—sy'n gwneud ein tasg yma yn llawer anos, gan olygu bod y bobl sy'n byw mewn tlodi yn llawer llai tebygol o gael eu tynnu allan o dlodi nag y dylent fod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Trosglwyddo Gwybodaeth am Ddatblygu Cynaliadwy

Sustainable Development Knowledge Transfer

15:05

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd trosglwyddo gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol? OAQ(4)0206(CTP)

11. Will the Minister make a statement on the importance of sustainable development knowledge transfer to future generations? OAQ(4)0206(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:05

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. Enabling future generations to understand their place in the world and the contribution that they can make is essential in achieving a sustainable Wales. Many young people in Wales take an active interest in sustainability and I want them to play a role in shaping the Wales they want.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae galluogi cenedlaethau'r dyfodol i ddeall eu lle yn y byd a'r cyfraniad y gallant ei wneud yn hanfodol er mwyn sicrhau Cymru gynaliadwy. Mae llawer o bobl ifanc yng Nghymru â diddordeb gweithredol mewn cynaliadwyedd ac rwyf am iddynt chwarae rhan yn y broses o lunio'r Gymru y maent ei heisiau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:06

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister very much for that response. As you will be aware, Minister, Estyn recently published the long-awaited review into education for sustainable development and global citizenship, and that publication is to be much welcomed, as are a number of the recommendations. Given your cross-cutting responsibility for the delivery of sustainable development within Government, will you undertake to issue in the near future a written statement on the Government's response to that matter in partnership with your colleague the Minister for Education and Skills?

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ymateb. Fel y byddwch yn ymwybodol, Weinidog, yn ddiweddar cyhoeddodd Estyn yr adolygiad hirddisgwyliedig ar addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, ac mae'r cyhoeddiad i'w groesawu'n fawr fel y mae nifer o'r argymhellion. O ystyried eich cyfrifoldeb trawsbynciol dros gyflawni datblygu cynaliadwy o fewn y Llywodraeth, a wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn y dyfodol agos ar ymateb y Llywodraeth i'r mater mewn partneriaeth â'ch cydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:06 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- What I think you are pointing out in reality is a matter for the Minister for Education and Skills to lead on, because matters relating to Estyn and issues to perhaps be added to the curriculum are matters for him. However, I understand the point that you make, and issues of sustainability and the associated education are matters that affect society in general. So, I will happily discuss this with my colleague the Minister.
- Rwy'n meddwl fod yr hyn rydych yn tynnu sylw ato mewn gwirionedd yn fater i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ei arwain, gan mai materion iddo ef yw materion yn ymwneud ag Estyn a materion sydd efallai i'w hychwanegu at y cwricwlwm. Fodd bynnag, rwy'n deall y pwynt rydych yn ei wneud, ac mae cynaliadwyedd a'r addysg gysylltiedig yn faterion sy'n effeithio ar gymdeithas yn gyffredinol. Felly, rwy'n fodlon trafod hyn gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog.
- 15:07 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, looking again at the links between sustainable development and the rural development plan, how does the Government envisage using the RDP to develop educational research programmes with regard to knowledge transfer?
- Weinidog, gan edrych eto ar y cysylltiadau rhwng datblygu cynaliadwy a'r cynllun datblygu gwledig, sut y mae'r Llywodraeth yn rhagweld y caiff y Cynllun Datblygu Gwledig ei ddefnyddio i ddatblygu rhaglenni ymchwil addysgol mewn perthynas â throsglwyddo gwybodaeth?
- 15:07 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Matters in terms of educational research programmes are very much matters for my colleague the Minister for Education and Skills, and I can discuss that issue with him. As I said in response to an earlier question, the whole emphasis of the Well-being and Future Generations (Wales) Bill is all about embedding sustainable development in all that we do. So, I see no contradiction or difficulty in ensuring that rural areas, whether it is through the RDP or by any other means, are properly included in that work.
- Yn bendant, materion ar gyfer fy nghydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yw rhaglenni ymchwil addysgol, a gallaf drafod y mater hwnnw gydag ef. Fel y dywedais mewn ymateb i gwestiwn cynharach, mae holl bwyslais Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud ag ymgorffori datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wnawn. Felly, ni welaf unrhyw wahaniaeth neu anhawster o ran sicrhau bod ardaloedd gwledig, boed hynny drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig neu drwy unrhyw ddull arall, yn cael eu cynnwys yn briodol yn y gwaith hwnnw.
- 15:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister.
- Diolch i chi, Weinidog.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Cyfraith Arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd

Questions to the Counsel General

Proposed European Union Law

- 15:08 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 1. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Swyddogion y Gyfraith ynglŷn ag effaith cyfraith arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd ar Gymru? OAQ(4)0066(CG)*
- 1. Will the Counsel General make a statement on any discussions that he has had with Law Officers regarding the impact of proposed European Union law on Wales? OAQ(4)0066(CG)*
- 15:08 **Theodore Huckle** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*
- Good afternoon, everyone; thank you very much. As I have previously mentioned, it is not my intention to make statements about discussions that I have had with UK law officers or to disclose the content of any such discussions. This is an established convention designed to preserve the integrity of those discussions and the relationship between law officers.
- Prynhawn da, bawb; diolch yn fawr iawn. Fel rwyf wedi crybwyll o'r blaen, nid yw'n fwrriad gennyf wneud datganiadau am y trafodaethau rwyf wedi'u cael gyda swyddogion cyfraith y DU na datgelu cynnwys unrhyw drafodaethau o'r fath. Dyma gonfensiwn sefydledig a luniwyd i gynnal uniondeb y trafodaethau hynny a'r berthynas rhwng swyddogion y gyfraith.

15:08

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol am ei ateb; mae'n gonfensiwn fy mod i'n gofyn hefyd, Lywydd. Mae'n rhaid i mi godi un peth gyda chi, serch hynny. Rwyf eisiau gweld a oes gennych farn ar hyn. Mae cyfraith newydd ddoed i'r fei sydd am wahardd y defnydd o rwydi driff gan bysgotwyr yng Nghymru, a daeth hynny o 'nulle, fel petai; roedd fel petai neb yn Llywodraeth Cymru na'r Cynulliad yn ymwybodol ohono. Digwyddodd jest cyn yr etholiadau Ewropeaidd, felly nid oedd unrhyw un o Aelodau Senedd Ewrop yn llwyr ymwybodol ohono. Dyma gyfraith a fydd yn cael effaith andwyol iawn ar fy rhanbarth i, ac yn gyffredinol ar bysgotwyr o'r math sydd gennym yng Nghymru, sydd yn wahanol efallai i'r math o bysgotwyr mae'r Undeb Ewropeaidd yn trio delio â hwy yn ôl y gyfraith arfaethedig hon. Y rheswm rwy'n gofyn yw ei bod yn amlwg fod modd i hyn ddioglydd heb ein bod yn cael digon o gyfle i graffu ar effeithiau posibl y gyfraith hon o Ewrop ar Gymru yn y pen draw, achos dyna fydd yn rhaid i ni wneud—trosglwyddo'r cyfarwyddyd hwn i mewn i'n cyfraith ni. A ydych felly o'r farn fod gennym ddigon o bethau i ddiogelu'r ffordd mae'r Undeb Ewropeaidd yn gweithio a chynigion gan y Comisiwn, a bod digon o staff ac adnoddau gennych chi a'r Llywodraeth i gadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn ar lefel y Comisiwn Ewropeaidd?

I thank the Counsel General for his answer; it is also a convention that I ask these questions, Presiding Officer. I have to raise one issue with you, however. I want to ask if you have an opinion on this. There is a new law that has just emerged that wants to prohibit the use of drift nets by fishermen in Wales, and that emerged from nowhere, as it were; no-one in the Welsh Government or the Assembly seemed to be aware of it. It happened immediately before the European elections, so none of the Members of the European Parliament were fully aware of it. This is a law that will have a very detrimental effect on my region, and in general on the fishermen of the kind that we have in Wales, where the fishing is different in nature to the kind of fishing that the European Union is trying to deal with through this proposed law. The reason that I ask is that it is obvious that this can happen without us having adequate opportunity to scrutinise the potential impacts that European law could have on Wales, because that is what we will have to do—transpose this directive into our own laws. Are you of the opinion that we have the necessary steps in place to safeguard the actions of the European Union and the proposals of the Commission, and that you and the Government have adequate staff and resources to keep a close eye on these developments at the European Commission level?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:10

Theodore Huckle

The first thing for me to say is that I too am unaware of the particular development that you mention. As you will be aware, and as I am aware from the recent report by the Constitutional and Legislative Affairs Committee about the engagement with the development of law at European level, most of these matters operate at the policy level rather than at the level for which I am directly responsible. I am happy to look into the matter to which you advert, but I cannot give you an answer here and now.

Y peth cyntaf i'w ddweud yw fy mod innau hefyd yn ymwybodol o'r datblygiad penodol y soniwyd amdano. Fel y byddwch yn ymwybodol, ac fel rwy'n ymwybodol o adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn ag ymgysylltiad â datblygiadau cyfraith ar lefel Ewropeaidd, mae'r rhan fwyaf o'r materion hyn yn gweithredu ar lefel polisi yn hytrach nag ar y lefel rwy'n uniongyrchol gyfrifol amdani. Rwy'n hapus i edrych i mewn i'r mater rydych yn cyfeirio ato, ond ni allaf roi ateb i chi yma'n awr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Goruchaf Lys

The Supreme Court

15:10

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi diweddariad ar unrhyw sylwadau y mae wedi'u gwneud mewn perthynas ag achosion sydd gerbron y Goruchaf Lys?
OAQ(4)0067(CG)

2. Will the Counsel General provide an update on any representations he has made in relation to cases that are before the Supreme Court? OAQ(4)0067(CG)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:10

Theodore Huckle

I am very pleased to confirm that the Supreme Court has today unanimously held that the Agricultural Sector (Wales) Bill is within the Assembly's legislative competence. This Bill will now proceed to Royal Assent. Judgment in the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill reference is still awaited.

Rwy'n falch iawn o gadarnhau bod y Goruchaf Lys wedi cadarnhau'n unfryd heddiw bod Bil Sector Amaethyddol (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Bydd y Bil yn awr yn symud ymlaen i gael Cydsyniad Brenhinol. Rydym yn dal i ddisgwyl dyfarniad ynghylch y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru).

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:11

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol am yr ateb hwnnw. Roeddwn i o'r farn bod y ddau Fil yn mynd i gael eu trafod gyda'i gilydd, felly byddwn yn leicio cael diweddariad ynglŷn â'r Bil asbestos. Ond, a gaf i'n benodol groesawu'r datganiad heddiw ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru), llongyfarch y Cwnsler Cyffredinol a'i dim ar waith a oedd yn amlwg yn waith cymer gerbron y Goruchaf Lys, a chroesawu'r ffaith bod y Goruchaf Lys wedi cadarnhau'r dehongliad sydd gennym yn y fan hon o'r ffiniau annelwig braidd sydd i'r setliad cyfansoddiadol presennol? A ydych yn cytuno â mi, Gwnsler Cyffredinol, bod hwn yn benderfyniad sylweddol gan y Goruchaf Lys, gan fod ei ddehongliad o faes o dan yr 20 maes sydd wedi'u datganoli, a'i ddehongliad o'r ffordd mae'r maes yn cael ei drin, yn un sydd yn cyfiawnhau'r agwedd o wthio yn erbyn y ffiniau hynny? A ydych chi bellach yn gresynu nad oedd modd ystyried rhoi cytundebau dim oriau yn y Bil hwnnw, gan ei fod yn amlwg fod cytundebau o'r fath hefyd o fewn cymhwysedd Cymru mewn perthynas â phwnc sydd wedi ei ddatganoli?

I thank the Counsel General for that response. I was of the opinion that both Bills were to be discussed together, so I would like an update on the asbestos Bill. However, may I specifically welcome the statement made today on the Agricultural Sector (Wales) Bill, congratulate the Counsel General and his team on work that was obviously well done before the Supreme Court, and welcome the fact that the Supreme Court has confirmed our interpretation of the slightly ambiguous boundaries of our constitutional settlement as it currently stands? Do you agree with me, Counsel General, that this is a significant decision by the Supreme Court, because its definition of a field under the 20 fields that are devolved, and its definition of the way that a field is dealt with, is one that justifies the approach of actually pushing against those boundaries? Do you now regret the fact that it was not possible to consider including zero-hours contracts within that Bill, because it is obvious that such contracts are also within the competence of Wales in relation to a field that is devolved?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:12

Theodore Huckle

Well, I cannot deal with the issue of zero-hours contracts today. First, may I place on record as well my thanks to the team that has supported me so well in the work that we have done in upholding the Bill? I should say in passing that the suggestion that a problem or some of the problems associated with the reference of this Bill are to do with rushed legislation or sloppy law-making causing doubts over competence and months of uncertainty for Welsh farmers, I utterly reject. There was nothing particularly, we thought, difficult about this particular reference, apart from the fact that there is a controversy about whether there are subjects, if I can put it that way, that are reserved in some way or impliedly excepted when the Government of Wales Act 2006 does not say that. We are very glad to have had a very clear decision from the Supreme Court, completely aligned with the arguments that we made. However, again, as I said the last time that this happened, I am far from complacent. We could go again and lose, but we won again five-nil, and I am very pleased about that. I think that this is a very important decision because it upholds the breadth of the devolution settlement even in its current form.

Wel, ni allaf ymdrin â chontractau dim oriau heddiw. Yn gyntaf, a gaf fi gofnodi fy niolch hefyd i'r tîm sydd wedi fy nghefnogi mor dda yn y gwaith rydym wedi'i wneud yn cynnal y Bil? Dylwn ddweud wrth fynd heibio fy mod yn gwrthod yn llwyr yr awgrym fod y broblem neu rai o'r problemau sy'n gysylltiedig â chyfeirio'r Bil hwn yn ymwneud â deddfwriaeth wedi'i rhuthro neu ddeddfu blêr sy'n creu amheuan ynghylch cymhwysedd a misoedd o ansicrwydd i ffermwyr Cymru. Ni chredem fod unrhyw beth yn arbennig o anodd am y cyfeiriad penodol hwn, ar wahân i'r ffaith bod yna ddadlau ynglŷn ag a oes pynciau, os caf ei roi felly, sy'n cael eu cadw'n ôl mewn rhyw ffordd neu eu heithrio yn ymhlyg pan nad yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dweud hynny. Rydym yn falch iawn o fod wedi cael penderfyniad clir iawn gan y Goruchaf Lys, sy'n cydfynd yn llwyr â'r dadleuon a wnaethom. Eto i gyd, fel y dywedais y tro diwethaf y digwyddodd hyn, rwy'n bell o fod yn hunanfodlon. Gallem fynd eto a cholli, ond rydym wedi ennill eto o bump i ddim, ac rwy'n falch iawn o hynny. Rwy'n meddwl fod hwn yn benderfyniad pwysig iawn gan ei fod yn cadarnhau ehangder y setliad datganoli hyd yn oed ar ei ffurf bresennol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:13

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Counsel General, do you have any indication as to what this particular challenge by the UK Government has actually cost the public purse?

Gwnsler Cyffredinol, a oes gennych syniad faint y mae'r her benodol hon gan Lywodraeth y DU wedi'i gostio i'r pwrw cyhoeddus mewn gwirionedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:13

Theodore Huckle

'No' is the answer to that. I am afraid that I do not know. I certainly do not know anything about the costs as far as the UK Government is concerned. Members will be aware, of course, that the costs on our side are limited by the fact that I, as an office holder, do the main advocacy myself.

'Na' yw'r ateb i hynny. Mae arnaf ofn nad wyf yn gwybod. Yn sicr nid wyf yn gwybod dim am y costau o ran Llywodraeth y DU. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol, wrth gwrs, bod y costau ar ein hochr ni'n cael eu cyfyngu gan y ffaith fy mod i, fel deiliad swydd, yn gwneud y prif waith hyrwyddo fy hun.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:14

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Counsel General.

Diolch i chi, Gwnsler Cyffredinol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:14 **Datganiad: Bil Sector
Amaethyddol (Cymru)**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the First Minister.

**Statement: The Agricultural Sector Y
(Wales) Bill**

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar y Prif Weinidog.

15:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Further to the Counsel General's answer to Simon Thomas just now, I wish to make a statement about today's decision of the Supreme Court on the Agricultural Sector (Wales) Bill. The statement touches on both the future of the agriculture sector in Wales and constitutional issues arising from the judgment.

The sector was supported for many years by the Agricultural Wages Board and the provisions in agricultural wages Orders for England and Wales. As we all remember, the Agricultural Wages Board was abolished by the UK Government on 25 June 2013. That was done without the consent of the National Assembly for Wales, and it destroyed a well-functioning system that was beneficial to the agriculture industry in Wales.

To provide a continuous level of support to the industry, the Welsh Government introduced the Agricultural Sector (Wales) Bill on 8 July 2013 to the Assembly. The Bill was referred to the Supreme Court in August by the Attorney General for England and Wales, who stated that he was not convinced that certain provisions of the Bill were within the legislative competence of the Assembly. During a two-day hearing before the Supreme Court on 17 and 18 February this year, the Counsel General argued strongly that the provisions of the Bill were within the legislative competence of the Assembly.

I am delighted to confirm today that the Supreme Court has ruled in favour of the competence of the National Assembly to enact the provisions of the Agricultural Sector (Wales) Bill. The Bill preserves the bespoke statutory regime for agricultural workers in Wales, as prescribed in the Agricultural Wages (England and Wales) Order 2012, it allows Welsh Ministers to create an agricultural advisory panel, enables Welsh Ministers to make future wages Orders and promote skills development and career progression in the agricultural sector.

The Bill will shortly be submitted to Her Majesty the Queen for Royal Assent and it is expected to become an Act later this month. Until a new Order is made by Welsh Ministers, the provisions of the 2012 agricultural wages Order will remain active in Wales. Following Royal Assent of the Bill, we will launch a 12-week formal public consultation on the proposed constitution and functions of the agricultural advisory panel. The Act, when given Royal Assent, will preserve a system that already supports professional development and growth and rewards skills and experience by adhering to a career matrix designed specifically for that industry.

Yn dilyn ateb y Cwnsler Cyffredinol i gwestiwn Simon Thomas yn awr, rwy'n dymuno gwneud datganiad am benderfyniad y Goruchaf Lys heddiw ar Fil Sector Amaethyddol (Cymru). Mae'r datganiad yn cyffwrdd ar ddyfodol y sector amaethyddol yng Nghymru a materion cyfansoddiadol sy'n codi o'r dyfarniad.

Cafodd y sector ei gefnogi am nifer o flynyddoedd gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol a'r darpariaethau yn y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr. Fel rydym i gyd yn cofio, diddymwyd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol gan Lywodraeth y DU ar 25 Mehefin 2013. Gwnaethpwyd hynny heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a dinistriodd system a oedd yn gweithredu'n dda ac a oedd o fudd i'r diwydiant amaeth yng Nghymru .

Er mwyn darparu lefel barhaus o gefnogaeth i'r diwydiant, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Sector Amaethyddol (Cymru) i'r Cynulliad ar 8 Gorffennaf 2013. Cafodd y Bil ei gyfeirio at y Goruchaf Lys ym mis Awst gan y Twrnai Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr, a ddywedodd nad oedd yn argyhoeddedig bod darpariaethau penodol yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn ystod gwrandawriad deuddydd gerbron y Goruchaf Lys ar 17 a 18 o Chwefror eleni, dadleuodd y Cwnsler Cyffredinol yn gryf fod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Mae'n bleser gennyf gadarnhau heddiw fod y Goruchaf Lys wedi dyfarnu o blaid cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu darpariaethau Bil Sector Amaethyddol (Cymru). Mae'r Bil yn cadw'r drefn statudol bwrpasol ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru, fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru greu panel cynghori amaethyddol, yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Gorchymynion cyflogau yn y dyfodol ac yn hybu datblygu sgiliau a chamu ymlaen mewn gyrfau yn y sector amaethyddol.

Bydd y Bil yn cael ei gyflwyno cyn bo hir i'r Frenhines ar gyfer cael Cydsyniad Brenhinol a disgwylir iddo ddod yn Ddeddf yn ddiweddarach y mis hwn. Hyd nes y gwneir Gorchymyn newydd gan Weinidogion Cymru, bydd darpariaethau Gorchymyn cyflogau amaethyddol 2012 yn parhau mewn grym yng Nghymru. Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i'r Bil, byddwn yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol dros 12 wythnos ar gyfansoddiad a swyddogaethau arfaethedig y panel cynghori amaethyddol. Bydd y Ddeddf, pan roddir Cydsyniad Brenhinol iddi, yn gwarchod system sydd eisoes yn cefnogi datblygiad proffesiynol a thwf ac yn gwobrwyo sgiliau a phrofiad drwy gadw at fatrics gyrfau a luniwyd yn benodol ar gyfer y diwydiant hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The agricultural sector is crucial to the overall development of the Welsh economy. Land used for agricultural purposes accounts for approximately 84% of the total land area in Wales and the sector alone is worth over £150 million in gross value added to the Welsh economy. That figure does not reflect anything like the full value added to the Welsh economy when we take into account food production, environmental management, services and other economic multipliers arising from agriculture. Therefore, it is very important to see an increasingly resilient and sustainable agricultural industry in Wales, with well-trained workers and professionally run farm businesses that will not only help the industry address present and future challenges, but also take advantage of the many opportunities. This can only be achieved by promoting upskilling and introducing a bespoke statutory regime that is tailored to the needs of the agricultural industry in Wales.

Llywydd, the Agricultural Sector (Wales) Bill was the second Assembly Bill referred to the Supreme Court by the Attorney General, questioning the legislative competence of the Assembly. As such, while this is a welcome decision, this clearly shows that the current devolution settlement lacks the necessary clarity regarding the powers and remit of the National Assembly. We, as a Government, fully support the Silk commission's recommendation that the Welsh devolution settlement should be recast to a reserved-powers model, and, of course, we further endorse the conclusion of the commission that by making such a recommendation—and we know—there is no case for the removal of existing powers from the Assembly. It makes perfect sense to ensure that there is greater clarity in the future for the good of all concerned. In the meantime, however, we welcome this exceptionally important judgment.

Mae'r sector amaethyddol yn hanfodol i ddatblygiad cyffredinol economi Cymru. Tir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol yw tua 84% o gyfanswm arwynebedd tir Cymru ac mae'r sector ei hun yn werth dros £150 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros i economi Cymru. Nid yw'r ffigur yn adlewyrchu unrhyw beth tebyg i'r gwerth ychwanegol llawn i economi Cymru o ystyried cynhyrchu bwyd, rheoli'r amgylchedd, gwasanaethau a lluosyddion economaidd eraill sy'n deillio o amaethyddiaeth. Felly, mae'n bwysig iawn gweld diwydiant amaethyddol cynyddol wydn a chynaliadwy yng Nghymru, gyda gweithwyr wedi'u hyfforddi'n dda a busnesau fferm sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol a fydd nid yn unig yn helpu'r diwydiant i fynd i'r afael â heriau presennol ac yn y dyfodol, ond hefyd yn manteisio ar y cyfleoedd niferus. Gellir ond cyflawni hyn drwy hyrwyddo uwchsgilio a chyflwyno trefn statudol bwrpasol wedi'i theilwra i anghenion y diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

Lywydd, Bil Sector Amaethyddol (Cymru) oedd yr ail Fil Cynulliad i'r Twrnai Cyffredinol ei gyfeirio at y Goruchaf Lys yn cwestiynu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fel y cyfryw, er bod hwn yn benderfyniad i'w groesawu, mae'n dangos yn glir nad yw'r setliad datganoli cyffredol yn meddu ar ddigon o'r eglurder sydd ei angen ynghylch pwerau a chylch gwaith y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym ni, fel Llywodraeth, yn llwyr gefnogi argymhelliad comisiwn Silk a dylid ail-lunio setliad datganoli Cymru yn ôl y model cadw pwerau, ac wrth gwrs, rydym yn ategu ein cefnogaeth i gasgliad y comisiwn nad oes achos dros ddileu pwerau presennol y Cynulliad drwy wneud argymhelliad o'r fath—gwyddom hynny. Mae'n gwneud synnwyr perffaith i sicrhau bod mwy o eglurder yn y dyfodol er lles pawb. Yn y cyfamser, fodd bynnag, rydym yn croesawu'r dyfarniad eithriadol o bwysig hwn.

15:18

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I thank the First Minister for his statement and welcome today's Supreme Court decision? It brings doubt and worry to an end. First Minister, I appreciate that you were not the lead Minister when this legislation was rushed through the National Assembly. The fact that this Bill was pushed through the Assembly using the emergency procedure, which stopped wider engagement and scrutiny, is, of course, very regrettable. That is the view of this side of the Chamber. I do not agree that the agricultural wages board was a well-functioning system that was beneficial to the agricultural industry in Wales. That is the view of us on this side of the Chamber and many others throughout the industry. Our views are well recorded in that regard and I will not reiterate them any further.

I would like to ask whether you think that the emergency procedures were now the wrong path to go down. In the future, will the Welsh Government use the normal procedures that we, as Assembly Members, should expect? May I also ask, now that we have clarity on this issue, whether you think that further referrals of this nature will perhaps not be made to the Supreme Court? Do you think that this judgment today sets a precedent for future disputes over competence? I would just appreciate your views on that.

A gaf fi ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad a chroesawu penderfyniad y Goruchaf Lys heddiw? Mae'n rhoi diwedd ar amheuaeth a phryder. Brif Weinidog, rwy'n gwerthfawrogi nad chi oedd y Gweinidog arweiniol pan ruthrwyd y ddeddfwriaeth hon drwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r ffaith bod y Bil wedi'i wthio drwy'r Cynulliad gan ddefnyddio'r weithdrefn frys, a ataliodd ymgysylltu a chraffu ehangach, yn anffodus iawn wrth gwrs. Dyna'r farn ar yr ochr hon i'r Siambr. Nid wyf yn cytuno bod y bwrdd cyflogau amaethyddol yn system a weithiai'n dda er budd y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Dyna farn y rheini ohonom sydd ar yr ochr hon i'r Siambr a llawer o rai eraill ar draws y diwydiant. Mae ein barn wedi'i chofnodi'n dda yn y cyswllt hwn ac nid wyf am ei haildrodd ymhellach.

Hoffwn ofyn a ydych yn credu yn awr mai'r gweithdrefnau brys oedd y llwybr anghywir i'w ddilyn. Yn y dyfodol, a fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r gweithdrefnau arferol y dylem, fel Aelodau Cynulliad, eu disgwyl? Gan ein bod bellach wedi cael eglurder ar y mater hwn, a gaf fi ofyn hefyd a ydych yn credu efallai na cheir cyfeiriadau pellach o'r natur hwn i'r Goruchaf Lys? A ydych o'r farn fod y dyfarniad hwn heddiw yn gosod cysnail ar gyfer anghydfodau yn y dyfodol ynglŷn â chymhwysedd? Byddwn yn gwerthfawrogi eich barn ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Following the 12-week formal consultation that you talked about with regard to the constitution and functions of the agricultural advisory panel, when do you expect the Assembly to be further updated? When may we expect you to introduce these measures?

Finally, I would be interested in your view on this: what are the implications for decisions in other areas with regard to pay and conditions, such as teachers' pay? I know that that is not devolved—I understand that—but are there wider implications, do you think, that we should be aware of?

15:21

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First, may I thank the Member for welcoming the judgment in a way that the Secretary of State did not in Parliament? All he said today was that he would consider the implications, which carries a slightly sinister overtone, some might say, in terms of what he is going to do next, because he said that he would come back to the House. However, I noticed that Stephen Crabb did welcome the judgment, and I thank him for that.

I would remind the Member that the issue of the emergency procedure was well discussed at the time. It was forced on us by the UK Government's own timetable. It was the UK Government that looked to abolish the board without the consent of the Assembly. Therefore, there was no choice but to attempt to fill that lacuna as quickly as possible, and that is why the emergency procedure was used: it was because of a timetable that was forced on the Assembly by the UK Government. I have to remind the Member that many on his side told us that we did not have the competence to do this, and they have been proven wrong. His colleague, Antoinette Sandbach, who may or may not speak later—I do not know—said on many, many occasions that this was outside the competence of the National Assembly. She was wrong. The Supreme Court has now ruled on that, and I welcome very much what that ruling has told us.

It is an important ruling in this sense. From my understanding of it, what it says is that, in order for the Assembly to have legislative competence, it does not have to show that a proposed piece of legislation is entirely within a devolved area as long as it comes within one of the fields specified in Schedule 7. So, as the Supreme Court said in the judgment, it is possible to argue that the issue of agricultural wages sits in the field of agriculture or, indeed, sits within the purview of employment law. What the Supreme Court seemed to suggest is that, as long as it can be brought within Schedule 7 of the Government of Wales Act 2006, it is within the Assembly's legislative competence. It does not have to be fully within devolved legislative competence in order for it to be within the competence of the Assembly.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos y siaradoch amdano o ran cyfansoddiad a swyddogaethau'r panel cynghori amaethyddol, pryd rydych chi'n disgwyl y gellir rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad? Pryd y gallwn ddisgwyl i chi gyflwyno'r mesurau hyn?

Yn olaf, byddai gennyf ddi-ddordeb yn eich barn ar hyn: beth yw'r goblygiadau o ran penderfyniadau mewn meysydd eraill mewn perthynas â thâl ac amodau, megis cyflogau athrawon? Rwy'n gwybod nad yw hynny wedi'i ddatganoli—rwy'n deall hynny—ond a oes goblygiadau ehangach, yn eich barn chi, y dylem fod yn ymwybodol ohonynt?

Yn gyntaf, a gaf fi ddiolch i'r Aelod am groesawu'r dyfarniad mewn ffordd na wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Senedd? Y cyfan a ddywedodd heddiw oedd y byddai'n ystyried y goblygiadau, sy'n cynnig isdestun ychydig yn sinistr, byddai rhai'n ei honni, o ran yr hyn y mae'n mynd i'w wneud nesaf, oherwydd dywedodd y byddai'n dod yn ôl at y Tŷ ynghylch hynny. Fodd bynnag, sylwais fod Stephen Crabb wedi croesawu'r dyfarniad, a diolch iddo am hynny.

Hoffwn atgoffa'r Aelod fod y weithdrefn frys wedi'i thrafod yn drwyadl ar y pryd. Cafodd ei gorfodi arnom gan amserlen Llywodraeth y DU ei hun. Llywodraeth y DU oedd yn ceisio diddymu'r bwrdd heb ganiatâd y Cynulliad. Felly nid oedd unrhyw ddewis ond ceisio llenwi'r bwloch cyn gynted ag y bo modd, a dyna pam y defnyddiwyd y weithdrefn frys: oherwydd amserlen a gafodd ei gorfodi ar y Cynulliad gan Lywodraeth y DU. Rhaid imi atgoffa'r Aelod fod llawer ar ei ochr wedi dweud wrthym nad oedd gennym gymhwysedd i wneud hyn, ac maent wedi cael eu profi yn anghywir. Dywedodd ei gydweithiwr, Antoinette Sandbach, a fydd efallai'n siarad yn nes ymlaen—nis gwn—ar sawl, sawl achlysur fod hyn y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd hi'n anghywir. Mae'r Goruchaf Lys bellach wedi dyfarnu ar hynny ac rwy'n croesawu'n fawr yr hyn y mae'r dyfarniad hwnnw wedi'i ddweud wrthym.

Mae'n ddyfarniad pwysig yn yr ystyr hwn. O fy nealltwriaeth ohono, yr hyn y mae'n ei ddweud yw nad oes rhaid i'r Cynulliad ddangos bod deddfwriaeth arfaethedig yn gyfan gwbl o fewn maes wedi'i ddatganoli er mwyn iddo gael cymhwysedd deddfwriaethol cyn belled â'i bod wedi'i chynnwys yn un o'r meysydd a nodir yn Atodlen 7. Felly, fel y dywedodd y Goruchaf Lys yn y dyfarniad, mae'n bosibl dadlau bod cyflogau amaethyddol yn perthyn i faes amaethyddiaeth neu'n wir, i faes cyfraith cyflogaeth. Yr hyn roedd y Goruchaf Lys i'w weld yn awgrymu oedd ei fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad cyn belled ag y gellir ei gynnwys o fewn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid oes rhaid iddo fod yn gyfan gwbl o fewn cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i ddatganoli er mwyn iddo fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the 12-week consultation, well, of course, there will be an announcement once that consultation has come to an end in due course. Teachers' pay and conditions are specifically not devolved; they are, to use the proper legal terminology, not conferred on the National Assembly. I do not see that there will be any benefit to this other than to the workers themselves who will now have their benefits protected. At the end of the day, we took this through in order to make sure that some of the lowest-paid workers in Wales were in a position where their wage rates were protected, and I am very glad to see that the Supreme Court has ensured that the Assembly, in its desire to protect those workers, is now able to do so. I am not surprised that the party opposite does not see that as a priority.

O ran yr ymgynghoriad 12 wythnos, wel wrth gwrs, gwneir cyhoeddiad wedi i'r ymgynghoriad hwnnw ddod i ben maes o law. Nid yw cyflog ac amodau athrawon yn benodol wedi'u datganoli; i ddefnyddio'r derminoleg gyfreithiol briodol, nid ydynt wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol. Nid wyf yn gweld y bydd unrhyw fudd i hyn ac eithrio i'r gweithwyr eu hunain a fydd yn awr yn cael eu buddion wedi'u diogelu. Ar ddiwedd y dydd, bwriasom ymlaen â hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod rhai o'r gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf yng Nghymru mewn sefyllfa lle y caiff eu cyfraddau cyflog eu gwarchod, ac rwy'n falch iawn o weld bod y Goruchaf Lys wedi sicrhau bod y Cynulliad, yn ei awydd i ddiogelu'r gweithwyr hynny, yn awr yn gallu gwneud hynny. Nid wyf yn synnu nad yw'r blaidd gyferbyn yn gweld hynny fel blaenoriaeth.

15:23

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the decision of the Supreme Court to unanimously dismiss the Tory challenge to the agricultural wages Bill is, as you say, a stunning and overwhelming victory for the Welsh Government's principled stand, taken to protect agricultural workers in Wales. It was a very, very good day for democracy in Wales. As you have already outlined, the judgment goes further than many of us would have anticipated in that it clearly comes as close as the Supreme Court could possibly come to effectively endorsing a reserved-powers model in respect of how legislation should be dealt with within the Assembly. Hopefully, that will be an instigation to proper legislative reform.

I think that it is also important, First Minister, and I am sure that you would agree, to recognise the battle for this being fought by the young farmers, the Farmers' Union of Wales, Unite the Union, and the commitment of the former Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies, who actually made this legislation happen. First Minister, I think that it is also important to recognise that, throughout this whole process, the Tories stood hand in glove with the landowners and fought every inch of the way to prevent working people in the agricultural industry from getting the sort of protection that existed from the AWB, even to the extent of submitting and writing an argument at every stage that this was out of competence and that it would be damaging to the industry. We heard the representations that were made in the committee investigating this, which, basically, were along the lines that the reason why, for example, the NFU wanted to see an end to the AWB was so that it could increase wages. First Minister, I think that it is also worth recognising—

Brif Weinidog, fel y dywedwch, mae penderfyniad y Goruchaf Lys i wrthod yn unfrydol her y Torïaid i'r Bil cyflogau amaethyddol, yn fuddugoliaeth syfrdanol a llethol i safiad egwyddorol Llywodraeth Cymru, a gymerwyd i ddiogelu gweithwyr amaethyddol yng Nghymru. Roedd yn ddiwrnod da iawn, iawn i ddemocratiaeth yng Nghymru. Fel rydych eisoes wedi amlinellu, mae'r dyfarniad yn mynd ymhellach nag y byddai llawer ohonom wedi rhagweld yn yr ystyr ei fod yn amlwg yn dod mor agos ag y gallai'r Goruchaf Lys i gymeradwyo model cadw pwerau i bob pwrpas o ran sut y dylai'r Cynulliad ymdrin â deddfwriaeth. Gobeithio y bydd hynny'n gychwyn ar ddiwygio deddfwriaethol go iawn.

Rwy'n meddwl hefyd, Brif Weinidog, ac rwy'n siŵr y byddech yn cytuno, ei bod yn bwysig cydnabod i'r frwydr dros hyn gael ei hymladd gan y ffermwyr ifanc, Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Unite, ac ymrwymiad y cyn-Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies, a sicrhodd mewn gwirionedd fod y ddeddfwriaeth hon yn digwydd. Brif Weinidog, rwy'n meddwl ei bod hefyd yn bwysig inni gydnabod fod y Torïaid, drwy gydol yr holl broses hon, wedi sefyll law yn llaw â'r tirseiddianwyr ac wedi ymladd bob cam o'r ffordd i atal pobl sy'n gweithio yn y diwydiant amaethyddol rhag cael y math o amddiffyniad a fodolai o dan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, hyd yn oed i'r graddau eu bod wedi cyflwyno ac ysgrifennu ar bob cam fod hyn y tu allan i gymhwysedd ac y byddai'n niweidiol i'r diwydiant. Clywsom y sylwadau a wnaed yn y pwyllgor a ymchwilai i'r mater hwn a oedd yn y bôn yn awgrymu mai'r rheswm pam, er enghraifft, fod Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr am weld diwedd ar y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol oedd er mwyn gallu codi cyflogau. Brif Weinidog, rwy'n meddwl ei bod hefyd yn werth cydnabod —

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:25

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you coming to some questions?

A ydych yn dod at gwestiynau?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:25

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will come to a question, Presiding Officer—

Rwy'n dod at gwestiwn, Lywydd—

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:25

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, that will be helpful.

Diolch i chi, byddai hynny'n help.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:25

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is to recognise the fact that there is a commitment now from the Labour Party in Westminster to reinstate the AWB. Do you agree that the model that we have now for agriculture in Wales and the protections that we have established could now be re-established throughout the whole of the UK when Labour wins the general election in May?

Mae'n werth cydnabod y ffaith bod ymrwymiad yn awr gan y Blaid Lafur yn San Steffan i adfer y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. A ydych yn cytuno y gellid ailsefydlu'r model sydd gennym yn awr ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru a'r amddiffyniadau rydym wedi'u sicrhau, ledled y DU pan fydd Llafur yn ennill yr etholiad cyffredinol ym mis Mai?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:26

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, I do. I think that there is much to be learned from the model that we are going to put in place in Wales. I hesitate to call it a victory, because I think that the Bill was referred by the Attorney General in what I thought was a genuine attempt to try to clarify what is a difficult Part, among many difficult Parts, of the Government of Wales Act 2006. It was important, and the Member is right to say, that the judgment goes well beyond, in many respects, what we would have thought, because it does make it quite clear, in my view, that there is a greater flexibility for this Assembly than perhaps was originally thought before this judgment came through. It certainly helps to inform the situation with regard to zero-hours contracts, for example, in a way that was not available to us at the time when the social services Bill came through, and I think that it is now worth examining the judgment carefully to see what might be done in that field. Certainly, that clarity is most welcome, and it was not there before.

Ydw, rwy'n cytuno. Credaf fod llawer i'w ddysgu o'r model rydym yn mynd i'w roi ar waith yng Nghymru. Rwy'n oedi rhag ei galw'n fuddugoliaeth, oherwydd credaf fod y Bil wedi'i gyfeirio gan y Twrnai Cyffredinol mewn ymgais ddilys i geisio egluro Rhan anodd, ymysg llawer o Rannau anodd, o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Roedd yn bwysig, ac mae'r Aelod yn iawn i ddweud, fod y dyfarniad ar lawer ystyr yn mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn y byddem wedi'i feddwl, oherwydd ei fod yn ei gwneud yn gwbl glir, yn fy marn i, bod mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad hwn nag y byddem wedi'i gredu'n wreiddiol cyn y dyfarniad hwn efallai. Mae'n sicr yn helpu i lywio'r sefyllfa o ran contractau dim oriau, er enghraifft, mewn ffordd nad oedd ar gael inni ar y pryd pan gyflwynwyd y Bil gwasanaethau cymdeithasol, ac rwy'n meddwl bellach ei bod yn werth edrych ar y dyfarniad yn ofalus i weld beth y gellir ei wneud yn y maes hwnnw. Yn sicr, mae'r eglurder hwn i'w groesawu'n fawr ac nid oedd yno o'r blaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, again, I join with the Member in saying that this is an important and landmark piece of legislation that will help to protect many agricultural workers. I am more than pleased to see that the Supreme Court has agreed with our view and has ensured that at least some more clarity is introduced into the devolution settlement, although, of course, there is more that could be done.

Fodd bynnag, unwaith eto, rwy'n ymuno â'r Aelod i ddweud bod hon yn ddeddfwriaeth bwysig a nodedig a fydd yn helpu i ddiogelu llawer o weithwyr amaethyddol. Rwy'n falch tu hwnt o weld bod y Goruchaf Lys wedi cytuno â'n safbwynt ac wedi sicrhau bod o leiaf rywfaint yn fwy o eglurder wedi'i gyflwyno i'r setliad datganoli, er y gellid gwneud rhagor, wrth gwrs.

15:27

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf innau hefyd ategu'r croeso i'r penderfyniad gan y Goruchaf Lys a'r ffaith y bydd yr hyn sydd yn y Bil yn awr, gobeithio, yn gallu symud yn ei flaen yn reit sydyn? Fodd bynnag, pa ffordd bynnag y byddai'r penderfyniad wedi mynd, mae pawb yn cydnabod, rwy'n gwybod, fod gormod o ddeddfwriaeth Gymreig yn mynd i'r Goruchaf Lys. Rwy'n siŵr, Brif Weinidog, y bydech chi'n cytuno â fi bod hynny yn arwain at ormod o oedi mewn dod â deddfwriaeth i rym a hefyd yn dod â gwastraff arian ac adnoddau gydag e.

May I also endorse the welcome given to the decision of the Supreme Court and the fact that what is contained within the Bill now, hopefully, can proceed relatively swiftly? However, whichever way the decision would have gone, everyone acknowledges, I know, that too much Welsh legislation ends up in the Supreme Court. I am sure, First Minister, that you would agree with me that that leads to excessive delays in bringing legislation into force and also wastes money and resources.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The current devolution dispensation clearly is not fit for purpose and is far beyond its use-by date. The case for moving to a reserved-powers model, I believe, has been made, and has been accepted by all parties and reiterated again in your statement today, First Minister. However, do you not regret maybe that your party did not introduce a more robust and more sustainable devolution settlement in the first place? Maybe you could tell us what you now think about that. We as politicians obviously need clarity around what is within competence and what is reserved to Westminster, but, more importantly, the public needs that clarity as well. Only recently, a BBC poll showed us that the majority of the Welsh public believes that David Cameron runs the health service in Wales. Surely, a reserved-powers model would significantly move us forward in that respect.

You have already indicated in relation to zero-hours contracts that they are something that you might now wish to reflect upon, and I welcome that, because the Farmers' Union of Wales only today, following the decision of the Supreme Court, has called on you to reconsider your approach in light of the judgment. I would ask as well that you confirm that this is something that you would be happy to consider in relation to social care, which is another instance of Jocelyn Davies bringing forward amendments for that particular sector.

You have already suggested, I think, that you understand or believe that there will be wider implications following this judgment, so maybe you could indicate as well, First Minister, whether this judgment will now give the Welsh Government much more confidence and ambition in bringing a wider breadth of legislation forward in future.

Mae'n amlwg nad yw'r oddefeb ddatganoli bresennol yn addas at y diben ac mae wedi hen fynd heibio i'w dyddiad defnyddio. Yn fy marn i, mae'r achos dros symud at fodel cadw pwerau wedi'i brofi ac wedi'i dderbyn gan bob plaid a'i ailadrodd eto yn eich datganiad heddiw, Brif Weinidog. Fodd bynnag, onid ydych yn difaru efallai na chyflwynodd eich plaid setliad datganoli mwy cadarn a mwy cynaliadwy yn y lle cyntaf? Efallai y gallech ddweud wrthym beth yw eich barn am hynny bellach. Yn amlwg, rydym ni fel gwleidyddion angen eglurder o ran yr hyn sydd o fewn y cymhwysedd a'r hyn sy'n cael ei gadw yn San Steffan, ond yn bwysicach, mae angen i'r cyhoedd fod yn eglur ynglŷn â hyn hefyd. Yn ddiweddar, dangosodd arolwg barn y BBC fod y rhan fwyaf o'r cyhoedd yng Nghymru yn credu mai David Cameron sy'n rhedeg y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Yn sicr, byddai model cadw pwerau yn ein symud ymlaen gryn dipyn yn hynny o beth.

Rydych eisoes wedi dweud mewn perthynas â chontractau dim oriau eu bod yn rhywbeth y gallech eu hystyried yn awr, ac rwy'n croesawu hynny, gan fod Undeb Amaethwyr Gymru heddiw ddiwethaf, yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys, wedi galw arnoch i ailystyried eich dull o weithredu yng ngoleuni'r dyfarniad. Hoffwn ofyn i chi gadarnhau hefyd y bydd hyn yn rhywbeth y byddech yn hapus i'w ystyried mewn perthynas â gofal cymdeithasol, sy'n enghraifft arall o Jocelyn Davies yn cyflwyno gwelliannau ar gyfer y sector penodol hwnnw.

Rwy'n meddwl eich bod eisoes wedi awgrymu eich bod yn deall neu'n credu y bydd goblygiadau ehangach yn dilyn y dyfarniad, felly efallai y gallech nodi hefyd, Brif Weinidog, a fydd y dyfarniad hwn yn awr yn rhoi llawer mwy o hyder ac uchelgais i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth ehangach yn y dyfodol.

15:30

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I thank the Member for his comments. I think that it is fair to say that the current Government of Wales Act is past its sell by date. I have always said that. In fairness, devolution has been a process. Back in 1999, we had nothing like the powers that we have now and people may not have supported them at the time, but Welsh people have become more devolution friendly and more supportive over time. The LCO process, unlamented, is not something that we wish to return to, but it was a stepping stone at the time to allow Welsh Government and, indeed, this Assembly to get to grips with what appeared to be primary legislation, even though it was not. It served its purpose at the time, as did the Government of Wales Act. However, that time has gone now and we have to move forward with a new government of Wales Act that transfers more powers and, certainly, makes those powers, or boundaries rather, clearer.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod Deddf Llywodraeth Cymru fel y mae ar hyn o bryd wedi gweld ei dyddiau gorau. Rwyf bob amser wedi dweud hynny. A bod yn deg, mae datganoli wedi bod yn broses. Yn ôl yn 1999, nid oedd gennym ddim yn debyg i'r pwerau sydd gennym yn awr ac efallai na fyddai pobl wedi'u cefnogi ar y pryd, ond mae pobl Cymru wedi dod yn fwy cyfeillgar tuag at ddatganoli ac yn fwy cefnogol dros amser. Nid yw proses y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, gwynt teg ar ei ôl, yn rhywbeth rydym yn dymuno dychwelyd ati, ond roedd yn gam ar y ffordd ar y pryd i alluogi Llywodraeth Cymru, a'r Cynulliad hwn yn wir, i arfer â'r hyn a oedd i'w weld yn ddeddfwriaeth sylfaenol, er nad dyna ydoedd. Cyflawnodd ei bwrpas ar y pryd, fel y gwnaeth Deddf Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r amser hwnnw wedi mynd bellach ac mae'n rhaid inni symud ymlaen gyda Deddf Llywodraeth Cymru newydd sy'n trosglwyddo mwy o bwerau ac yn bendant, yn gwneud y pwerau hynny, neu'r terfynau yn hytrach, yn gliriach.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of running the health service, I think that it was 43% who said that they thought the Conservative Government ran the health service. It is still too high, I grant that. Nevertheless, it shows the difficulty that exists sometimes in terms of the fact that we do not have a strong national media in Wales that has the coverage that, for example, exists in Scotland. However, that is a debate for another day. There is no doubt in my mind that this judgment provides far greater clarity with regard to the issue, for example, of zero-hour contracts. The problem that we had with the Social Services and Well-being Bill was that we could not say whether the Supreme Court would take the view that it was an employment law matter or a social care matter. Now it is far clearer, of course. As I said in the Chamber at the time, or as the Minister said, we did not want to see the entire Bill—large as it was—delayed for months in the Supreme Court and so that was the reason we gave for not supporting the amendment that was made at the time. It does make it a lot clearer now. It is quite clear to me that as long as we can ensure that a piece of legislation fits within Schedule 7—even if it does not entirely fit within it—it will be within competence, even if it partially covers an area that is not devolved. That is an immense step forward. I would certainly welcome the greater clarity that that provides.

We will continue to be ambitious and push the boundaries. We have done it twice already. It may well be in the future that there are other Bills that end up in the Supreme Court. I hope not, because it is in no-one's interests that that should happen and that is why this is another step towards moving to a reserved-powers model that would enable us to have far greater clarity. We have to be careful though, because the judgment that was made today extends the breadth of devolution to the point that it may take us beyond the reserved-powers model. We have to make sure that if we have a reserved-powers model, we do not end up handing powers to Westminster. There are a few issues that will need to be resolved. As a judgment it is immensely clear, immensely important and certainly provides far more flexibility and clarity than was previously the case.

O ran rhedeg y gwasanaeth iechyd, rwy'n meddwl mai 43% a ddywedodd eu bod yn credu mai'r Llywodraeth Geidwadol sy'n rhedeg y gwasanaeth iechyd. Mae'n dal yn rhy uchel, rwy'n cyfaddef. Serch hynny, mae'n dangos yr anhawster sy'n bodoli weithiau oherwydd nad oes gennym gyfryngau cenedlaethol cryf yng Nghymru sy'n rhoi sylw tebyg i'r hyn a welir yn yr Alban er enghraifft. Fodd bynnag, mae honno'n ddadl ar gyfer diwrnod arall. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl fod y farn hon yn cynnig llawer mwy o eglurder ar gontractau dim oriau, er enghraifft. Y broblem a gawsom gyda'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant oedd na allem ddweud a fyddai'r Goruchaf Lys o'r farn ei fod yn fater cyfraith cyflogaeth neu'n fater gofal cymdeithasol. Mae'n llawer cliriach yn awr, wrth gwrs. Fel y dywedais yn y Siambr ar y pryd, neu fel y dywedodd y Gweinidog, nid oeddem am weld misoedd o oedi dros y Bil cyfan yn y Goruchaf Lys—er mor fawr ydoedd—ac felly dyna oedd y rheswm a roesom dros beidio â chefnogi'r gwelliant a wnaed ar y pryd. Mae'n ei wneud yn llawer cliriach erbyn hyn. Mae'n eithaf amlwg i mi, cyn belled ag y gallwn sicrhau bod deddfwriaeth yn cyd-fynd ag Atodlen 7—hyd yn oed os nad yw'n cymryd ei lle'n llwyr o'i fewn—y bydd o fewn y cymhwysedd, hyd yn oed os yw'n ymwneud yn rhannol â maes nad yw wedi'i ddatganoli. Mae hynny'n gam enfawr ymlaen. Rwy'n sicr yn croesawu'r eglurder pellach y mae hynny'n ei roi.

Byddwn yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac i wthio'r ffiniau. Rydym wedi gwneud hyn ddwywaith yn barod. Mae'n ddigon posibl yn y dyfodol y bydd Biliau eraill yn cyrraedd y Goruchaf Lys. Gobeithiaf na fydd, gan na fyddai hynny er budd i neb a dyna pam y mae hyn yn gam arall tuag at symud i fodel cadw pwerau a fyddai'n ein galluogi i gael llawer mwy o eglurder. Mae'n rhaid inni fod yn ofalus, serch hynny, gan fod y dyfarniad a gafwyd heddiw yn ymestyn ehangder datganoli i'r pwynt y gallai fynd â ni y tu hwnt i'r model cadw pwerau. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr os cawn fodel cadw pwerau nad ydym yn trosglwyddo pwerau i San Steffan yn y pen draw. Mae yna ychydig o faterion y bydd angen eu datrys. Fel dyfarniad, mae'n hynod glir, yn eithriadol o bwysig ac yn sicr yn darparu llawer mwy o hyblygrwydd ac eglurder nag o'r blaen.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the First Minister very much for bringing forward this statement this afternoon. It would obviously be churlish not to welcome the clarity that the Supreme Court judgment has brought, not just to this issue, but also to the wider constitutional matters to which the First Minister and others have referred. It is fair to say that this was a pretty bruising process, namely the consideration of this Bill, and it was also divisive when it came to the Chamber. It also brought division across Wales with the farming unions being split on the issue, the young farmers on the one side and the Tenant Farmers Association taking a different view. Therefore, we clearly now have closure on that particular issue and I think that that is important. However, we were, at that time, unable as a group to support the Bill and that was despite the combined efforts that were led by Antoinette Sandbach, Llyr Gruffydd and me in terms of bringing greater clarity to the Bill than was there in the original draft. We were unable to support it purely because of the refusal of the former Minister to listen to some specific concerns around one or two aspects of this. They concerned the wording that failed to make the distinction between 'wilful' and 'involuntary' conduct in relation to the Bill's implementation. The lack of that clarity and that distinction could lead, in our view, to the possibility of a farmer or grower who, in an emergency situation of his or her own, such as illness, being deprived of the protection and fair play to which he or she would normally have been entitled. As such, it would, in my view, have been irresponsible for us to have supported the legislation in that form without further investigation and appropriate amendment. This is something that could have occurred had the normal legislative procedures been allowed for and the option of a report stage admitted. Given this, First Minister, I ask you to comment on what investigation has since taken place on that matter, which is potentially a serious one for farmers and growers in Wales? If no such work has been done on that point, a point that the then Minister had not been considered until it was tabled during the Bill's discussion, will you commit to investigating what steps could be taken to mitigate it in terms of the Act's supporting guidance?

Finally, First Minister, will you give an assurance that, when the time comes for the new body to have its governance arrangements sorted out and have the appointments made, there will be no question of blackballing representatives of the Tenant Farmers Association and, indeed, the National Farmers Union, who, for their own legitimate reasons at the time, opposed the Government's direction in this matter?

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Prif Weinidog am gyflwyno'r datganiad hwn y prynhawn yma. Byddai'n amlwg yn anfoesgar peidio â chroesawu'r eglurder a ddarparwyd gan ddyfarniad y Goruchaf Lys, nid yn unig ar y mater hwn, ond hefyd ar y materion cyfansoddiadol ehangach y mae'r Prif Weinidog ac eraill wedi cyfeirio atynt. Mae'n deg dweud bod hon yn broses eithaf poenus, sef ystyried y Bil hwn, ac roedd hefyd yn ymrannol hefyd o ran y Siambr. Creodd raniadau ledled Cymru hefyd o ran bod yr undebau ffermio yn rhanedig ar y mater, gyda'r ffermwyr ifanc ar y naill ochr a Chymdeithas y Ffermwyr Tenant yn coleddu safbwynt gwahanol. Felly, mae'n amlwg bellach fod y mater penodol hwnnw wedi'i ddatrys ac rwy'n meddwl bod hynny'n bwysig. Fodd bynnag, ar y pryd, nid oeddem fel grŵp yn gallu cefnogi'r Bil ac roedd hynny er gwaethaf ymdrechion cyfunol a arweinwyd gan Antoinette Sandbach, Llyr Gruffydd a minnau o ran dod â mwy o eglurder i'r Bil nag a oedd yn y drafft gwreiddiol. Ni allem ei gefnogi oherwydd bod y cyn-Weinidog yn gwrthod gwrandao ar rai pryderon penodol ynghylch un neu ddau o'r agweddau. Roeddent yn ymwneud â'r geiriad a oedd yn methu â gwahaniaethu rhwng ymddygiad 'bwriadol' ac 'anwirfoddol' mewn perthynas â gweithrediad y Bil. Gallai'r diffyg eglurder hwn a gwahaniaethu o'r fath arwain, yn ein barn ni, at y posibilrwydd y byddai ffermwr neu dyfwr mewn sefyllfa o argyfwng, megis salwch, yn cael ei amddifadu o'r diogelwch a'r chwarae teg y mae ganddo hawl iddynt fel arfer. Fel y cyfryw, yn fy marn i, byddai wedi bod yn anghyfrifol inni gefnogi'r ddeddfwriaeth ar y ffurf honno heb ymchwilio pellach a diwygio priodol. Mae hyn yn rhywbeth a allai fod wedi digwydd pe bai'r gweithdrefnau deddfwriaethol arferol wedi'u caniatáu ac opsiwn o gyfnod adrodd wedi'i dderbyn. O ystyried hyn, Brif Weinidog, rwy'n gofyn i chi roi sylwadau ynglŷn â pha ymchwiliadau a gafwyd ar y mater hwnnw, a allai fod yn un difrifol i ffermwyr a thyfwr yng Nghymru? Os nad oes unrhyw waith o'r fath wedi'i wneud ar y pwynt hwnnw, pwynt nad oedd y Gweinidog ar y pryd wedi'i ystyried hyd nes y cafodd ei gyflwyno yn ystod y drafodaeth ar y Bil, a wnewch chi ymrwymo i ymchwilio i ba gamau y gellid eu cymryd i'w liniaru o ran canllawiau ategol y Ddeddf?

Yn olaf, Brif Weinidog, a wnewch chi roi sicrwydd, pan ddaw'r amser i ymdrin â threfniadau llywodraethu'r corff newydd a gwneud penodiadau, na fydd unrhyw gwestiwn o wrthod cynrychiolwyr Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn wir, a oedd yn gwrthwynebu cyfarwyddyd y Llywodraeth yn y mater oherwydd eu rhesymau dilys eu hunain ar y pryd?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am reluctant to reopen the Bill because that has gone now; the debate on that has passed. What the Member asked me was whether consideration could be given to the guidance. Of course, we will give consideration to what the guidance might show and try to be as flexible as possible. However, the Bill has passed and that is now something that will be dealt with when the Bill becomes an Act at the end of this month.

Rwy'n gyndyn i ailagor y Bil gan fod hwnnw wedi mynd yn awr; mae'r ddadl ar hynny wedi mynd heibio. Yr hyn y gofynnodd yr Aelod i mi oedd a ellid rhoi ystyriaeth i'r canllawiau. Wrth gwrs, byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r hyn y gallai'r canllawiau ei ddangos a cheisio bod mor hyblyg ag y bo modd. Fodd bynnag, mae'r Bil wedi pasio ac mae hynny bellach yn rhywbeth a fydd yn cael sylw pan ddaw'r Bil yn Ddeddf ddiwedd y mis.

There is no question of blackballing representatives. It is not the case in Wales that we would ever seek to do that. There are many in the Chamber who opposed devolution and who are here and we have not sought to blackball them in any way. Indeed, there are many who opposed devolution in other parties that have formed a very strong role in formulating Welsh Government policy outside of the Chamber when they have left front-line politics, as it were. There is no question of anybody being in that situation. That much I can assure Members.

Nid oes unrhyw gwestiwn o wrthod cynrychiolwyr. Nid yw'n wir yng Nghymru y byddem byth yn ceisio gwneud hynny. Mae llawer yn y Siambr a oedd yn gwrthwynebu datganoli ac sydd yma, ac nid ydym wedi ceisio eu gwrthod mewn unrhyw ffordd. Yn wir, mae llawer a oedd yn gwrthwynebu datganoli yn y pleidiau eraill wedi chwarae rôl gadarn iawn yn y gwaith o lunio polisi Llywodraeth Cymru y tu allan i'r Siambr ar ôl gadael gwleidyddiaeth y rheng flaen, fel petai. Nid oes unrhyw gwestiwn y byddai neb yn y sefyllfa honno. Gallaf sicrhau hynny i'r Aelodau.

15:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have had a speaker from each of the parties, so we will move now straight into questions. I call Antoinette Sandbach.

Rydym wedi cael siaradwr o bob un o'r pleidiau, felly symudwn yn syth at y cwestiynau yn awr. Galwaf ar Antoinette Sandbach.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:37 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do agree with you, First Minister, that the judgment from the Supreme Court takes the matter further than perhaps the reserved-powers model. Of course, it was looking at Schedule 7 to the Government of Wales Act, and not the process under which this Bill was brought forward. I have to say that I do agree with William Powell that the process was divisive and that the use of the emergency Bill procedure brought shame, in fact, on this Assembly, in the way that it was used and the way in which that legislation was attempted to be brought forward. There are going to be very real issues around cross-border farms—farms whose land straddles both sides of the English and Welsh border—and how that is going to be dealt with, because they will be subject to two separate legal regimes. So, maybe you could deal with that issue.

Rwy'n cytuno â chi, Brif Weinidog, fod y dyfarniad gan y Goruchaf Lys yn mynd â'r mater ymhellach na'r model cadw pwerau o bosibl. Wrth gwrs, roedd yn edrych ar Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac nid y broses y cyflwynwyd y Bil hwn drwyddi. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn cytuno â William Powell fod y broses yn ymrannol a bod y defnydd o'r weithdrefn frys ar gyfer y Bil wedi dwyn gwarth ar y Cynulliad hwn mewn gwirionedd, o ran y ffordd y cafodd ei defnyddio a'r ffordd y ceisiwyd cyflwyno'r ddeddfwriaeth honno. Mae problemau gwirioneddol yn mynd i godi gyda ffermydd trawsffiniol—ffermydd sy'n pontio'r ddwy ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr—a sut yr ymdrinnir â hynny, gan y byddant yn destun dwy gyfundrefn gyfreithiol wahanol. Felly, efallai y gallech ymdrin â'r mater hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of your comments about me being wrong, I spent 10 years, as you know, at the Bar, and I have always found that it is important to stand up. You do not always win your case. Of course, it is preferable, and I did have a very successful career at the Bar, First Minister—it was far longer than yours, I believe—

O ran eich sylwadau'n honni fy mod yn anghywir, treuliais 10 mlynedd yn gweithio fel bargyfreithiwr, fel y gwyddoch, ac rwyf bob amser wedi credu ei bod yn bwysig sefyll ar eich traed. Nid ydych bob amser yn ennill eich achos. Wrth gwrs, mae ennill yn well, a chefais yrfa lwyddiannus iawn fel bargyfreithiwr, Brif Weinidog—un a oedd yn llawer hwy na'ch un chi, rwy'n credu—

15:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

No; I was there for 11 and a half years.

Na; roeddwn i yno am un mlynedd ar ddeg a hanner.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:38 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—but I have no shame in accepting—
[Interruption.] I am perfectly prepared to accept that on this side of the benches, we were—. This is a badly drafted piece of legislation; this will not be the first challenge that happens to it. It is as badly drafted as the Government of Wales Act itself. It is a hallmark of Labour Governments that they introduce poorly drafted, lengthy and, very often, ineffective legislation. We look forward to seeing how this gets implemented in due course.

[Parhau.]—ond nid oes gennyf gywilydd derbyn—[Torri ar draws.] Rwy'n berffaith barod i dderbyn ar yr ochr hon i'r meinciau, ein bod—. Mae hon yn ddeddfwriaeth sydd wedi'i drafftio'n wael; nid dyma'r unig her y bydd yn ei hwynebu. Mae wedi'i drafftio mor wael â Deddf Llywodraeth Cymru ei hun. Mae'n nodweddiadol o Lywodraethau Llafur eu bod yn cyflwyno deddfwriaeth hir ac aneffeithiol yn aml iawn, sydd wedi'i drafftio'n wael. Edrychwn ymlaen at weld sut y caiff ei rhoi ar waith maes o law.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not sure whether there were many questions in there, First Minister, but please answer them if there were.

Nid wyf yn siŵr faint o gwestiynau a oedd wedi'u cynnwys, Brif Weinidog, ond os oedd cwestiynau, a wnewch chi eu hateb os gwelwch yn dda.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I was intrigued when I heard the Member say 'on this side of the benches, we were' and then she said nothing. 'We were' what? 'We were wrong'—I think that 'wrong' is the word she was looking for. Of course, you hold a position in politics and that is not always a position that subsequently proves to be right. I understand that that is the same in law, but she was strident that this was outside of competence and the reality is that she was incorrect in her submissions, if I can put it that way in terms of legal terminology. Again, I have to remind the Member that cross-border issues are well dealt with, and have been for more than 15 years. We have, of course, cross-border holdings. The rural payment system is very different between Wales and England—that has never been a particular problem; we resolve that. It is the same with this issue. If you use cross-border problems as a reason not to exercise competence in an area, then it is an argument, ultimately, against devolution itself, because there are problems with cross-border issues. They can be dealt with. We have done it for many, many years, in terms of common agricultural policy subsidy payments.

She did not quite say that she was incorrect in her submissions, but, nevertheless, I will be generous this afternoon, and welcome the fact that she has welcomed that there is greater clarity now. With regard to the Bill itself, clearly that is an issue that has been debated within the Chamber. I do not accept that it has brought shame to the Chamber at all; otherwise, all who took part in the debate are part of that shame. I do not think that any of us in the Chamber are part of that. As I said earlier on, the timetable was forced on us by her own party in Government—a timetable that we did not choose, and a timetable that would have meant that low-paid agricultural workers would have been left without protection, had we not taken the action that we took.

The emergency procedure is not to be used lightly; that much I know. However, we were not prepared to see a situation where, because of the actions of the UK Government, Welsh workers were needlessly left without protection, and today's judgment has justified that.

It is interesting to hear Antoinette Sandbach say that she had been at the Bar herself for 10 years. Just remind me never to ask Antoinette to represent me on any issues, because she has not had an awful lot of success while she has been over here. However, I just wanted to say that I think that this is a good day for agricultural workers. [Interruption.] Well, no; I would not have you anywhere near me, Antoinette. I would do it myself, I think, before I trusted you.

Roeddwn yn chwilfrydig pan glywais yr Aelod yn dweud 'ar yr ochr hon i'r meinciau ein bod' ac yna ni ddywedodd ddim. 'Ein bod' yn beth? 'Ein bod yn anghywir'—rwy'n credu mai 'anghywir' oedd y gair roedd hi'n chwilio amdano. Wrth gwrs, rydych yn arddel safbwynt mewn gwleidyddiaeth ac nid yw bob amser yn safbwynt sy'n cael ei brofi'n gywir wedyn. Rwy'n deall bod hynny yr un fath yn y gyfraith, ond roedd hi'n groch fod hyn y tu allan i gymhwysedd a'r realiti yw bod ei chyflwyniadau'n anghywir, os caf ei roi mewn terminoleg gyfreithiol. Unwaith eto, rhaid imi atgoffa'r Aelod fod materion trawsffiniol wedi cael eu trin yn dda ers dros 15 mlynedd. Wrth gwrs fod gennym ffermydd trawsffiniol. Mae'r system daliadau gwledig yn wahanol iawn rhwng Cymru a Lloegr—nid yw honno erioed wedi bod yn broblem arbennig; rydym yn ei datrys. Mae'r un fath gyda'r mater hwn. Os ydych yn defnyddio problemau trawsffiniol fel rheswm dros beidio ag arfer cymhwysedd mewn maes, yna mae'n ddadl yn erbyn datganoli ei hun yn y pen draw, oherwydd mae problemau gyda materion trawsffiniol. Gellir ymdrin â hwy. Rydym wedi gwneud hynny ers llawer iawn o flynyddoedd, o ran taliadau cymhorthdal y polisi amaethyddol cyffredin.

Ni lwyddodd i ddweud yn iawn fod ei chyflwyniadau'n anghywir, ond er hynny, byddaf yn hael y prynhawn yma, a chroesawu'r ffaith ei bod hi wedi croesawu'r eglurder pellach sydd gennym yn awr. O ran y Bil ei hun, mae'n amlwg fod hynny'n fater sydd wedi cael ei drafod yn y Siambr. Nid wyf yn derbyn ei fod wedi dwyn gwarth ar y Siambr o gwbl; fel arall, byddai pawb a gymerodd ran yn y ddadl yn rhan o'r gwarth. Nid wyf yn credu bod unrhyw un ohonom yn y Siambr yn rhan o hynny. Fel y dywedais yn gynharach, cafodd yr amserlen ei gorfodi arnom gan ei phlaid ei hun yn y Llywodraeth—amserlen na chafodd ei dewis gennym, ac amserlen a fyddai wedi golygu bod gweithwyr amaethyddol ar gyflog isel wedi cael eu gadael heb amddiffyniad, pe na baem wedi cymryd y camau a gymerwyd gennym.

Nid yw'r weithdrefn frys yn cael ei defnyddio ar chwarae bach; rwy'n gwybod cymaint â hynny. Fodd bynnag, nid oeddem yn barod i weld sefyllfa lle y câi gweithwyr Cymru eu gadael heb amddiffyniad, a hynny'n ddiangen, oherwydd gweithredoedd Llywodraeth y DU. Mae dyfarniad heddiw wedi cyfiawnhau hynny.

Mae'n ddiddorol clywed Antoinette Sandbach yn dweud ei bod wedi bod yn fargyfreithiwr ers 10 mlynedd. Atgoffwch fi i beidio byth â gofyn i Antoinette fy nghynrychioli ar unrhyw fater, gan nad yw wedi cael llawer iawn o lwyddiant ers iddi ddod yma. Fodd bynnag, yr hyn roeddwn i eisiau ei ddweud oedd fy mod yn credu bod hwn yn ddiwrnod da i weithwyr amaethyddol. [Torri ar draws.] Wel, na; ni fyddwn yn eich gadael yn agos ataf, Antoinette. Byddwn yn ei wneud fy hun, rwy'n meddwl, cyn y byddwn yn ymddiried ynoch chi.

So, I just wanted to ask the First Minister, given that he understood the terminology that was being used there—as barristers do—whether he thinks that Antoinette Sandbach should apologise to the people of north Wales for the remarks that she has made about us playing party politics with this particular Bill.

Felly, roeddwn i eisiau gofyn i'r Prif Weinidog, o ystyried ei fod yn deall y derminoleg a ddefnyddiwyd—fel y bydd bargyfreithwyr—a yw'n credu y dylai Antoinette Sandbach ymddiheuro i bobl gogledd Cymru am y sylwadau a wnaeth amdanom yn chwarae gwleidyddiaeth plaid gyda'r Bil penodol hwn.

15:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it clearly was not party politics. We wanted to protect low-paid workers, and we have done that. The UK Government took the view, which was subsequently shown to be incorrect, that this was outside the competence of the Assembly. We took the view that it was within competence, and five Supreme Court judges—5-0, which is not quite the same as last night in terms of a result—unanimously agreed that this was within our competence.

There is an argument for saying that the Bill had to be tested because of the lack of clarity in the Government of Wales Act, and I accept that. However, there is no doubt at all that there are many agricultural workers today who will be more than happy with the fact that we have taken this Bill forward, and the fact that it has been shown that Wales has the competence in this area that it should have.

I am not going to comment on the Member's legal prowess, because it is professional misconduct to do so, under the code of conduct of the Bar. Nevertheless, it has been shown that there are great perils to be had when Members in the Conservative benches opposite automatically take the London line. Today, that has been shown to be wrong.

Wel, mae'n amlwg nad oedd yn wleidyddiaeth plaid. Roeddem yn awyddus i ddiogelu gweithwyr ar gyflog isel, ac rydym wedi gwneud hynny. Safbwynt Llywodraeth y DU, y dangoswyd yn ddiweddarach ei fod yn safbwynt anghywir, oedd bod hyn y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad. Roeddem ni o'r farn ei fod o fewn ei gymhwysedd, a chytunodd y pum barnwr yn y Goruchaf Lys—5-0, nad yw'n union yr un fath â neithiwr o ran canlyniad—yn unfrydol fod hyn o fewn ein cymhwysedd.

Gellir ffurfio dadl dros ddweud bod yn rhaid i'r Bil gael ei brofi oherwydd y diffyg eglurder yn Neddff Llywodraeth Cymru, ac rwy'n derbyn hynny. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth o gwbl fod llawer o weithwyr amaethyddol heddiw a fydd yn fwy na bodlon gyda'r ffaith ein bod wedi cyflwyno'r Bil hwn, a'r ffaith y dangoswyd bod gan Gymru y cymhwysedd a ddylai fod ganddi yn y maes hwn.

Nid wyf yn mynd i roi sylwadau ar fedrusrwydd cyfreithiol yr Aelod, gan y byddai hynny'n gamymddwyn proffesiynol, o dan god ymddygiad y Bar. Serch hynny, dangoswyd y peryglon mawr sydd i'w cael pan fydd Aelodau meinciau'r Ceidwadwyr gyferbyn yn dilyn llwybr Llundain yn awtomatig. Heddiw, gwelwyd bod y llwybr hwnnw'n anghywir.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:43

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid wyf, Brif Weinidog, yn unrhyw ffan o ddeddfu brys fy hunan, ond mae'n wir dweud nad oes cyswllt rhwng deddfu brys yn y fan hon a chyfeiriadau at y Goruchaf Lys. Mae'r rhain yn cael eu gwneud ar sail yr egwyddor sy'n cael ei phrofi. Nid yw'n ddoeth ychwaith i Aelodau yn y fan hon i sôn am gost y broses hon, achos mae'r gost—wel, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi cyfeirio un Bil ei hunan i'r Goruchaf Lys. Mae'r gost yn codi oherwydd bod gennym setliad annelwig, ac mae hwnnw'n gorfod cael ei brofi dro ar ôl tro, yn annaturiol mewn ffordd. Pe bai gennym y setliad mwy cynhwysfawr y mae ef a minnau wedi cytuno arno, byddai hynny'n cael ei setlo, fel petai.

Wrth ddeddfu ar frys—. Os wyf yn cofio'n iawn, fe wnaethom ni basio'r Bil hwn gyda chymal machlud. Os ydych am ymgynghori ymhellach, a ydych yn mynd i ymgynghori, felly, a symud oddi wrth sefyllfa o gael cymal machlud mewn Bil i sefyllfa lle byddai hyn yn dod yn gyfraith barhaol, fel ein bod yn gallu—gyda'r sicrwydd o'r Goruchaf Lys—symud y tu hwnt i'r angen am gymal machlud?

Os caf i gyfeirio hefyd at yr hyn sydd yn nyfarniad y Goruchaf Lys—neu o leiaf yn y crynodeb, oherwydd, gan nad wyf yn fargyfreithiwr, rwy'n darllen y crynodeb, nid y dyfarniad llawn. Mae'n fy nharo i yn beth hynod sylweddol bod y Goruchaf Lys yn dweud—a dyfynnaf yn Saesneg:

First Minister, I am no great fan of the use of the emergency procedure in relation to legislation, but it is true to say that there is no link between emergency legislation here and references to the Supreme Court. Those are made on the principle of the issue. It is not wise either for Members here to discuss the cost of this process, because the cost—well, the Counsel General has referred one Bill himself to the Supreme Court. The cost arises because we have an ambiguous settlement, and that has to be tested time and again, unnaturally in a way. If we had a more comprehensive settlement that he and I agree on then that issue would be settled, as it were.

Now, in using emergency legislation—. If I recall correctly, we passed this Bill with a sunset clause. If you wish to consult further, are you going to consult, therefore, and move from a situation where you have a sunset clause in a Bill to a situation where this becomes permanent legislation, so that we can—with the assurances provided by the Supreme Court—move beyond that need for a sunset clause?

If I could refer to what is included in the Supreme Court's decision—or at least to what is in the summary, because, given that I am not a barrister, I read the summary, rather than the full decision. It strikes me as very significant that the Supreme Court states that

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'agriculture...should be understood in a broader sense as designating the industry or economic activity of agriculture in all its aspects...as it is to that broader subject matter that legislative activity is directed'.

I fi, mae hyn yn wir ar gyfer y pynciau eraill o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y mae ar hyn o bryd. Dyna pam, am wn i, mae'r Prif Weinidog yn dweud ei fod o bosib yn mynd y tu hwnt i'r hyn yr ydym wedi bod yn ei drafod hyd yn oed o dan fodel pwerau sy'n cael eu cadw. Y olaf, yn sgil cadarnhad y Bil hwn yn awr, pa gamau a gaiff eu galluogi o dan y Ddeddf, pan ddaw, er mwyn helpu i gynyddu sgiliau yn y sector amaethyddol? Pan wnaed y Bil, rwy'n cofio'r Gweinidog ar y pryd yn sôn nid yn unig am gyflogaeth yn y sector, ond am yr angen am hyfforddiant ac ymwneud ehangach ynghylch lefel y sgiliau yn y sector hefyd?

'agriculture...should be understood in a broader sense as designating the industry or economic activity of agriculture in all its aspects...as it is to that broader subject matter that legislative activity is directed'.

To me, that is true of the other subject areas contained within the Government of Wales Act 2006 as it currently stands. That is why I suppose that the First Minister is saying that it perhaps goes beyond what we have been discussing, even in terms of the reserved-powers model. Finally, in the light of the confirmation of this Bill, what steps will be enabled under the Act, as it will become, to help to improve and enhance skills within the agricultural sector? When the Bill was made, I remember that the Minister at the time talked not only about employment, but the need for training and a wider engagement with skills within the sector.

15:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Yn gyntaf, ynghylch y cymal machlud, wrth gwrs, bydd yn rhaid i hyn gael ei ystyried er mwyn sicrhau bod hyn yn dod yn ddeddfwriaeth barhaol; mae hynny'n wir. Er bod egwyddorion clir yma, fel mae'r gyfraith, nid yw wastad mor glir ynghylch manylion. Felly, rwyf yn siŵr y byddai'r Goruchaf Lys yn dweud bod yn rhaid iddo ystyried pob achos sydd o'i flaen wrth ystyried y manylion—wrth ddilyn yr egwyddorion ac wrth ystyried y manylion. Felly, nid yw mor glir â dweud, 'Rydym yn gallu gwneud hyn ym maes amaeth, felly mae'n dilyn y gallwn wneud popeth arall yn y meysydd eraill', er ei fod yn help mawr ynghylch yr egwyddorion.

Ynghylch sgiliau, mae hyn yn rhan o'r Bil ei hun. Soniais am y ffaith y bydd bwrdd ymgynghori yn cael ei greu ac y bydd ymgynghoriad o 12 wythnos yn digwydd hefyd. Mae'n bwysig dros ben, fel ym mhob maes, i sicrhau bod gan bobl y sgiliau ar gyfer y ganrif hon a'u bod yn gallu cael swyddi, ac i sicrhau bod Cymru yn cael ei ystyried fel lle i fuddsoddi ynddo. Mae hynny'n allweddol i'r ddeddfwriaeth, a bydd y Gweinidog yn gweithio ar hynny dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:47.

First, in terms of the sunset clause, that will need to be considered in order to ensure that this becomes permanent law; that much is true. Even though there are clear principles here, legislation is not always as clear in terms of the detail. So, I am sure that the Supreme Court would say that it would have to consider every case before it in its consideration of the details—in following the principles and in considering the detail. However, it is not as clear to say, 'We can do this in agriculture and, therefore, it follows that we can do it in every other area', even though this has been a great help in terms of the principles.

In terms of skills, this is part of the Bill itself. I mentioned the fact that a consultation board will be created and that a 12-week consultation will take place. It is very important, as it is in every area, to ensure that people have the skills for this century and that they can get jobs, and to ensure that Wales is considered as a location for investment. That is a key issue for the legislation, and that is something that the Minister will work on over the months and years to come.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:47.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:47

Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Cyfleusterau Sefyll Ddiogel yn Stadia Chwaraeon yng Nghymru

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Ann Jones to move the motion.

Cynnig NDM5552 Ann Jones, Andrew R.T. Davies, Aled Roberts, Bethan Jenkins.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r awydd llethol ymhlith cefnogwyr pêl-droed i weld cyfleusterau sefyll diogel yn cael eu cyflwyno;

Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Safe Standing at Sports Stadiums in Wales

Galwaf ar Ann Jones i gynnig y cynnig.

Motion NDM5552 Ann Jones, Andrew R.T. Davies, Aled Roberts, Bethan Jenkins.

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the overwhelming appetite amongst football supporters for the introduction of safe standing facilities;

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda chymdeithasau chwaraeon ac awdurdodau rheoleiddio i hyrwyddo cyfleusterau sefyll ddiogel yn stadia chwaraeon yng Nghymru; ac

Yn galw ar Lywodraeth y DU i ystyried cyflwyno cynllun peilot ar gyfer cyfleusterau sefyll diogel yng Nghymru.

Calls on the Welsh Government to work closely with sport associations and regulatory authorities to promote safe standing at sports stadia in Wales; and

Calls on the UK Government to consider the introduction of a pilot of safe standing in Wales.

15:47

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion.

I place on record my thanks to those Members who have co-tabled this motion alongside me.

Since the 1990s, major football clubs across the UK have been required to have all-seater stadiums, following several high-profile incidents. However, traditionally, most football grounds in the United Kingdom had terraces at each end, usually behind goals. Cardiff City football ground is a classic example of the areas where people stood behind the goals. Most supporters watched football standing up and, during the late 1980s, the average standing capacity in grounds was roughly twice that of seated provision.

Some football administrators saw the removal of the terraces as a solution to the problem of hooliganism and crowd control that had arisen during the 1970s. Coventry City Football Club's Highfield Road became England's first all-seater football stadium in 1981. However, it was clear that the all-seater stadium failed to prevent disorder or increase attendances and so, some two years later, seats were removed from part of the ground as it reverted back to its former configuration.

Football fans want, and deserve, a choice when it comes to sitting or standing. Ninety-two per cent of fans surveyed stated that they wanted the choice to either sit or stand. In England and Wales, all seating is a requirement of the Barclays Premier League and of the Football League for clubs that have been present in the championship for more than three seasons. However, other major sports now have allocated standing areas: St Helens Rugby League Football Club at Langtree Park, whose new stadium opened in 2012, has standing provision for almost 8,000 fans. Safe standing is officially supported by Cardiff City Football Club, Swansea City Association Football Club and the vast number of teams that make up the Welsh Premier League here within the Football Association of Wales's jurisdiction. We know that safe standing is a tried and tested method of ensuring fans' safety and of creating a world-class atmosphere for those fans. We need only look at how commonplace it is across the continent. I know that other Members will mention the issues there.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigïaf y cynnig.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Aelodau sydd wedi cyd-gyflwyno'r cynnig hwn gyda mi.

Ers y 1990au, mae wedi bod yn ofynnol i glybiau pêl-droed mawr ar draws y DU gael stadia seddi'n unig, yn dilyn nifer o ddigwyddiadau uchel eu proffil. Fodd bynnag, yn draddodiadol, roedd gan y rhan fwyaf o feysydd pêl-droed yn y Deyrnas Unedig derasau ar bob pen, y tu ôl i'r goliau fel arfer. Mae cae pêl-droed Dinas Caerdydd yn enghraifft glasurol o'r manau lle byddai pobl yn sefyll y tu ôl i'r goliau. Roedd y rhan fwyaf o gefnogwyr yn gwylio pêl-droed ar eu traed, ac yn ystod y 1980au hwyr, ar gyfartaledd, roedd dwywaith cymaint o le i gefnogwyr sefyll mewn meysydd pêl-droed ag a oedd o seddi.

Roedd rhai gweinyddwyr pêl-droed yn ystyried mai'r ateb i broblem hwlganiaeth a rheoli torfeydd a ddaethai'n amlwg yn ystod y 1970au oedd dileu'r terasau. Maes Clwb Pêl-droed Coventry City, Highfield Road, oedd y stadiwm pêl-droed seddi'n unig cyntaf yn Lloegr yn 1981. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg bod stadiwm seddi'n unig yn methu ag atal anhrefn na chynyddu niferoedd ac felly, tua dwy flynedd yn ddiweddarach, cafodd seddi eu tynnu allan o ran o'r maes wrth iddo gael ei newid yn ôl i'w gynllun blaenorol.

Mae cefnogwyr pêl-droed eisïau, ac yn haeddu, dewis o ran eistedd neu sefyll. Dywedodd naw deg dau y cant o gefnogwyr a holwyd eu bod am gael dewis rhwng eistedd a sefyll. Yng Nghymru a Lloegr, mae seddi'n un o ofynion Uwch Gynghrair Barclays a'r Gynghrair Bêl-droed ar gyfer clybiau sydd wedi bod yn y bencampwriaeth am fwy na thri thymor. Fodd bynnag, bellach mae gan chwaraeon mawr eraill fannau sefyll dynodedig: mae gan Glwb Rygbi'r Gynghrair St Helens yn Langtree Park, yr agorwyd eu stadiwm newydd yn 2012, ddarpariaeth sefyll ar gyfer bron i 8,000 o gefnogwyr. Mae sefyll diogel yn cael ei gefnogi'n swyddogol gan Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe a nifer helaeth o dimau sy'n ffurfio Uwch Gynghrair Cymru o dan awdurdodaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Rydym yn gwybod bod sefyll diogel yn ddull profedig o sicrhau diogelwch cefnogwyr ac o greu awyrgylch o safon fyd-eang ar gyfer y cefnogwyr hynny. Nid oes ond angen inni edrych ar ba mor gyffredin yw hyn ar draws y cyfandir. Gwn y bydd Aelodau eraill yn sôn am faterion sy'n codi yno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Without a doubt, more fans want to be able to channel their enthusiasm and support through the use of more safe standing areas. This enormous support proves that safe standing is not exclusive to one club, but that it is a need that is being expressed by more and more clubs that want to give their fans the best possible experience when they are turning up, through the turnstiles, to watch their teams play.

The rail seats configuration is the most common safe standing technique. It allocates a space for each fan, and that seat can be locked into place. They can also then be unlocked so that it becomes an all-seater configuration that can still be used if it is needed for UEFA competitions. It would not therefore lead to an overcrowding issue.

What is being suggested here is not a return to the terracing of the 1960s and 1970s. That era often just used occasional crush barriers, dotted around huge banks of steep terracing, meaning that any fan could be a dozen or more steps away from a fixed support. So, given what we know today in terms of crowd surging, we understand that you are more likely to have been hurt under that sort of terracing and standing on those terraces. However, modern safe standing areas would be smaller, shallower and have a waist-high rail between at least every two rows of fans or spectators. No fan would ever be more than an arm's length, or 15 inches away from a sturdy rail. Falling forward or getting squashed is then rendered almost impossible and so would, I believe, meet the needs of safety standards as is now being directed by the governing bodies.

Standing enhances the games' atmosphere. The large number of fans who prefer to sit to watch the football find themselves inconvenienced when fans stand up in front of them. I can testify to that. The installation of high-rail seats to create a designated standing area would remove standing fans from those designated seating areas, and it avoids potential conflict between those supporters.

Due to the excitement and drama of the game, many fans get to their feet to celebrate the goals, the near chances, and the more exciting moments of the game, or even just to point out the error of the referee or the linesperson at the time. Fans who stand in the current arrangements do so for those reasons, but they are not safe doing that and they could easily fall forward, taking others with them and so cause a major disruption to the fans, but, more importantly, they could be hurt. Stewards face that thankless task at games of trying to persuade their club's most passionate supporters to sit down. That creates a bad feeling between the fans and the stewards, and then fans are more likely to go on to ignore stewards should there be any more important safety matters. By introducing the high-rail safe standing areas in a dedicated part of the ground, this serves to please all of those sections of supporters. Safe standing allows those who wish to stand to do so in safety and to have peace of mind.

Heb os nac oni bai, mae mwy o gefnogwyr eisiau gallu sianelu eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth drwy ddefnyddio mwy o fannau sefyll diogel. Mae'r gefnogaeth enfawr hon yn profi nad mater sy'n ymwneud ag un clwb yn unig yw sefyll diogel, ond ei fod yn angen sy'n cael ei fynegi gan fwy a mwy o glybiau sy'n awyddus i roi'r profiad gorau posibl i'w cefnogwyr pan ddônt drwy'r giatiau tro i wyllo eu timau'n chwarae.

Cynllun seddi rheiliau yw'r dechneg ddiogel fwyaf cyffredin ar gyfer sefyll diogel. Mae'n neilltuo lle ar gyfer pob cefnogwr, a gellir cloi'r sedd i'w lle. Gellir eu datgloi hefyd wedyn er mwyn creu cynllun seddi'n unig y gellir ei ddefnyddio os oes ei angen ar gyfer cystadlaethau UEFA. Felly ni fyddai'n arwain at broblemau gorlenwi.

Nid dychwelyd at derasau'r 1960au a'r 1970au sy'n cael ei gynniog yma. Yn y cyfnod hwnnw, yn aml dim ond clwydi atal tyrfa hwnt ac yma ar hyd llethrau o derasau a gâi eu defnyddio, a olygai y gallai unrhyw gefnogwr fod dwsin neu fwy o gamau i ffwrdd o gynhaliad sefydlog. Felly, o ystyried yr hyn a wyddom heddiw o ran torfeydd yn ymchwyddo, rydym yn deall eich bod yn fwy tebygol o gael eich anafu ar y math hwnnw o deras a sefyll ar derasau felly. Fodd bynnag, byddai mannau sefyll diogel modern yn llai o faint, yn fwy bas a byddai rheiliau uchder y wasg rhwng o leiaf bob dwy res o gefnogwyr neu wylwyr. Ni fyddai unrhyw gefnogwr fwy na hyd braich, neu 15 modfedd i ffwrdd o gyrraedd rheilen gadarn ar unrhyw adeg. Bydd bron yn amhosibl i rywun syrthio ymlaen neu gael ei wasgu wedyn ac felly, rwy'n credu y byddai hyn yn bodloni gofynion y safonau diogelwch y mae'r cyrff llywodraethu yn eu mynnu bellach.

Mae sefyll yn gwella awyrgylch gemau. Mae'r nifer fawr o gefnogwyr sy'n well ganddynt eistedd i wyllo pêl-droed dan anfantais pan fydd cefnogwyr yn sefyll o'u blaenau. Gallaf dystio i hynny. Byddai gosod seddi rheiliau uchel i greu man sefyll dynodedig yn symud cefnogwyr sy'n sefyll o'r mannau eistedd dynodedig, ac yn osgoi gwrthdaro posibl rhwng y cefnogwyr hynny.

Oherwydd cyffro a drama'r gêm, mae llawer o gefnogwyr yn codi ar eu traed i ddathlu goliau, cyfleoedd i gorio, ac eiliadau mwy cyffrous y gêm, neu ddim ond i dynnu sylw at gamgymeriad y canolwr neu'r llumanwyr ar y pryd. O dan y trefniadau presennol, mae cefnogwyr sy'n sefyll yn gwneud hynny am resymau o'r fath, ond nid yw'n ddiogel iddynt wneud hynny, a gallent yn hawdd syrthio ymlaen, gan lusgo eraill gyda hwy gan amharu'n fawr ar fwynhad cefnogwyr, ond yn fwy pwysig, gallent gael anaf. Bydd stiwardiaid yn wynebu'r dasg ddiddiolch mewn gemau o geisio perswadio cefnogwyr mwyaf brwd eu clwb i eistedd. Mae hynny'n creu drwgdeimlad rhwng y cefnogwyr a'r stiwardiaid, a bydd cefnogwyr yn fwy tebygol o ddal ati i anwybyddu stiwardiaid pe bai materion diogelwch pwysicach yn codi. Drwy gyflwyno mannau sefyll diogel â rheiliau uchel mewn rhan benodol o'r maes, bydd modd plesio pawb o'r cefnogwyr hynny. Mae sefyll diogel yn galluogi'r rhai sy'n dymuno sefyll i wneud hynny'n ddiogel ac i gael tawelwch meddwl.

The Football Association of Wales, I believe, has a golden opportunity here. It has a real chance to show the fans who support football in Wales that there is a real chance to pioneer a trial period of safe standing within the Welsh Premier League. Many of the Welsh teams want it, so why not let them trial it? It has worked in other nations not dissimilar to Wales, and the demand, as I have demonstrated, is there.

Forever in sport we talk about the fans' experience. Let us, for once, put the fans first and let them have some safe standing areas. Then, let us re-evaluate that to go forward as a Government, as fans, but, as governing bodies, to make sure that we do make safe standing a must for all football stadiums across our country. Thank you.

15:54

Suzy Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Others will have quite a lot to say in addition to Ann's points today, so I do not want to speak for very long. I just thought that it might encourage those who are taking part in the debate today, particularly those who are sceptical about this idea, that at least one of us—and that is me—has changed their mind on the issue of safe standing. I did come at it initially very much from the position that we should do nothing that could reduce public protection from another Hillsborough disaster. Beyond that, bearing in mind that fervent support for your team can still manifest itself in hostile behaviour, I was not minded to support anything that would jeopardise football grounds becoming welcoming places for children, women, people with particular vulnerabilities or disabilities, or even parents like myself who are interested in taking their children and have never been to a football match before. Beyond that, I must admit that I looked at this from the point of view of being a short person. Experience at many a stadium music event has convinced me that standing in a crowd means that you cannot see the band, the people around you cannot see you, and everybody gets to the oxygen before you do. [Laughter.] So, I did feel that there was an element of unintended discrimination creeping into the argument, because shorties like me, children and other vulnerable people would not be able to enjoy in any meaningful way the opportunity of cheaper tickets that would be sold for standing areas. However, then I went to the Safe Standing Roadshow, when it visited the Senedd a couple of weeks ago, and I saw the protective structures that would form the infrastructure of standing areas—completely different from the death-trap terraces that I remember. I understood how people who use wheelchairs can be part of the crowd with their friends. I heard that they already work in grounds in continental Europe. The Bundesliga, which is well known even to people like me to have the loudest and most hostile crowd, has benefited greatly in terms of atmosphere, but, crucially, without compromising the safety of spectators.

Rwy'n credu bod cyfle euraid yma i Gymdeithas Bêl-droed Cymru. Dyma gyfle go iawn i ddangos i'r cefnogwyr sy'n cefnogi pêl-droed yng Nghymru fod cyfle gwirioneddol i arloesi drwy gyflwyno cyfnod prawf ar gyfer mannau sefyll diogel yn Uwch Gyngghrair Cymru. Mae llawer o dimau Cymru yn dymuno hynny, felly pam na ddylem adael iddynt ei dreialu? Mae wedi gweithio mewn gwledydd eraill nad ydynt yn annhebyg i Gymru, ac mae'r galw'n bodoli, fel rwyf wedi dangos.

Byth a hefyd mewn chwaraeon, siaradwn am brofiad y cefnogwyr. Am unwaith, gadewch inni roi'r cefnogwyr yn gyntaf a gadael iddynt gael mannau sefyll diogel. Yna, gadewch inni ei ail-werthuso wrth symud ymlaen fel Llywodraeth ac fel cefnogwyr, ond fel cyrff llywodraethu, gadewch inni wneud yn siŵr ein bod yn gwneud sefyll diogel yn rheidrywdd ar gyfer pob stadiwm pêl-droed ar draws ein gwlad. Diolch yn fawr.

Bydd eraill â chryn dipyn i'w ddweud yn ychwanegol at bwyntiau Ann heddiw, felly nid wyf am siarad yn hir iawn. Roeddwn yn meddwl y gallai annog y rhai sy'n cymryd rhan yn y ddadl heddiw, yn enwedig y rhai sydd yn amheus ynghylch y syniad hwn, fod o leiaf un ohonom—sef fi—wedi newid ei feddwl ar fater sefyll diogel. Yn wreiddiol, roeddwn o'r farn bendant na ddylem wneud dim a allai leihau diogelwch y cyhoedd rhag trychineb Hillsborough arall. Y tu hwnt i hynny, gan gadw mewn cof y gall cefnogaeth frwd i'ch tîm amlygu ei hun mewn ymddygiad gelyniaethus, nid oeddwn yn awyddus i gefnogi dim a fyddai'n peryglu'r ymdrech i wneud meysydd pêl-droed yn lleoedd croesawgar i blant, menywod, pobl sy'n agored i niwed neu ag anabledau penodol, neu bobl fel fi hyd yn oed sydd â diddordeb mewn mynd â'u plant ac erioed wedi bod mewn gêm bêl-droed o'r blaen. Y tu hwnt i hynny, mae'n rhaid imi gyfaddef fy mod wedi edrych ar hyn o safbwynt rhywun byr. Mae profiad o lawer o ddigwyddiadau cerddorol mewn stadia wedi fy argyhoeddi bod sefyll mewn torf yn golygu na allwch weld y band, ni all y bobl o'ch cwrpas eich gweld chi, ac mae pawb yn cyrraedd yr ocsigen cyn i chi wneud. [Chwerthin.] Felly, roeddwn yn teimlo bod yna elfen o wahaniaethu anfwriadol yn treiddio i'r ddadl, gan na fyddai pobl fyr fel fi, plant a phobl eraill sy'n agored i niwed yn gallu mwynhau'r cyfle i gael tocynnau rhatach ar gyfer mannau sefyll mewn unrhyw ffordd ystyrllon. Fodd bynnag, euthum i Sioe Deithiol Sefyll Diogel, pan ymwelodd â'r Senedd ddwy neu dair wythnos yn ôl, a gwelais y strwythurau amddiffynnol a fyddai'n ffurfio seilwaith mannau sefyll—cwbl wahanol i'r terasau brawychus a gofiaf. Deallais sut y gallai pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn fod yn rhan o'r dorff gyda'u ffrindiau. Clywais eu bod eisoes yn gweithio mewn meysydd ar gyfandir Ewrop. Mae'r Bundesliga sy'n adnabyddus i bobl fel fi hyd yn oed fel y gyngghrair sydd â'r tyrfaoedd mwyaf swnllyd a gelyniaethus, wedi elwa'n fawr o ran awyrgylch, ond yn hollbwysig, mae wedi gwneud hynny heb beryglu diogelwch gwylwyr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think that keeping home and away fans separated is still a necessary evil, it seems, and it is a very uncomfortable observation, I have to say, for someone like me who is much more familiar with the rugby atmosphere. Having said that, some rugby fans who also enjoy standing might benefit from this, because the introduction of safe standing could in future encourage ground sharing and a more efficient use of facilities. We are going to see one example of this at Ryan Jones's new stamping ground, as Bristol Rugby is set to kick off its new season at Bristol City Football Club's Ashton Gate Stadium, which has just installed a section of safe standing rail areas.

I am not saying that Welsh grounds should rush to safe standing, as it costs money to start ripping out existing infrastructure, but in planning for wider access and looking ahead to refurbishment or new uses for grounds, I hope that opportunities for installing safe standing will not be overlooked.

15:57

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is that the National Assembly for Wales

'Calls on the Welsh Government to work closely with sport associations and regulatory authorities to promote safe standing at sports stadia in Wales'.

Standing at football grounds is popular. Many remember standing in such areas as the Kop, the Shed and, of course, the North Bank at Swansea. Many football fans want to be able to stand. Anybody listening to the tannoy at a football ground would be aware that many still stand in seated areas. Fans want to be able to stand. It would increase the capacity of football grounds without the need for any additional building work and it would save clubs substantial sums of money. It is supported by the Football Supporters' Federation, which believes that pilot schemes would show that standing—outlawed after Hillsborough's Leppings Lane disaster, which is still being discussed today—is now a safe way to watch football. A number of clubs, including Cardiff City, support this. I stand most weeks to watch sport on a Saturday afternoon in my constituency, where the local rugby and soccer teams play. However, the largest crowd that I was in last year was the 400 who went to see Bonymaen defeat Pontypool—where is Lynne Neagle when I need her? [Laughter.]

Rwy'n meddwl fod cadw cefnogwyr cartref ac oddi cartref ar wahân yn dal i fod yn angenrheidiol, mae'n ymddangos, ac mae'n sylw anghyfforddus iawn, rhaid imi ddweud, i rywun fel fi sy'n llawer mwy cyfarwydd ag awyrgylch gemau rygbi. Wedi dweud hynny, efallai y byddai rhai cefnogwyr rygbi sydd hefyd yn mwynhau sefyll yn elwa o hyn, oherwydd gallai cyflwyno sefyll diogel yn y dyfodol annog pobl i rannu meysydd a defnyddio cyfleusterau'n fwy effeithlon. Byddwn yn gweld un enghraifft o hyn yn nghlwb newydd Ryan Jones, gan fod Bristol Rugby yn barod i ddechrau ar eu tymor newydd yn Ashton Gate, stadiwm Clwb Pêl-droed Bristol City, sydd newydd osod manau sefyll diogel gyda rheiliau.

Nid wyf yn dweud y dylai meysydd chwarae Cymru ruthro i greu manau sefyll diogel, gan fod dymchwel seilwaith presennol yn waith drud, ond wrth gynllunio ar gyfer ehangu mynediad ehangach ac edrych ymlaen at ailwampio neu ffyrdd newydd o ddefnyddio meysydd chwarae, rwy'n gobeithio na chaiff cyfleoedd i osod manau sefyll diogel eu hanwybyddu.

Y cynnig yw bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda chymdeithasau chwaraeon ac awdurdodau rheoleiddio i hyrwyddo cyfleusterau sefyll diogel yn stadia chwaraeon Cymru'.

Mae sefyll mewn meysydd pêl-droed yn boblogaidd. Mae llawer yn cofio sefyll mewn manau fel y Kop, y Shed ac wrth gwrs, y North Bank yn Abertawe. Mae llawer o gefnogwyr pêl-droed eisiau gallu sefyll. Byddai unrhyw un sy'n gwrando ar y tanoi mewn maes pêl-droed yn ymwybodol bod llawer yn dal i sefyll mewn manau eistedd. Mae cefnogwyr am allu sefyll. Byddai'n cynyddu capasiti meysydd pêl-droed heb fod angen gwaith adeiladu ychwanegol a byddai'n arbed arian sylweddol i glybiau. Mae'n cael ei gefnogi gan Ffederasiwn y Cefnogwyr Pêl-droed, sy'n credu y byddai cynlluniau peilot yn dangos bod sefyll—arfer sydd wedi'i wahardd ar ôl trychineb Leppings Lane, Hillsborough, sy'n dal i gael ei drafod heddiw—bellach yn ffordd ddiogel o wyllo pêl-droed. Mae nifer o glybiau, gan gynnwys Dinas Caerdydd, yn gefnogi hyn. Y rhan fwyaf o wythnosau, rwy'n sefyll i wyllo chwaraeon ar brynhawn Sadwrn yn fy etholaeth i, lle y mae'r timau rygbi a pêl-droed lleol yn chwarae. Fodd bynnag, y dorf fwyaf y bûm yn rhan ohoni y llynedd oedd y 400 a aeth i weld Bon-y-maen yn curo Pont-y-pŵl—ble mae Lynne Neagle pan fyddaf ei hangen hi? [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

When the ground is not full, there are huge advantages to standing. You can go up and down the ground, meet up with different groups of friends, and even when the ground is full, you can stay together as a group of friends, watching the game, rather than be restricted in where you can sit. With all those advantages, why am I against safe standing? First, it is because I believe that safe standing is an oxymoron. I do not believe it possible for grounds that are at, or are near, capacity to have safe standing. I will now address five points: the surge; the crush; overcrowding; hooliganism; and the charge. When a standing crowd surges, everyone moves forward, but the banks are tiered, or terraced. You thus—this is personal experience here—can be moving forward, pushed by the crowd with your feet off the ground, to be deposited, hopefully upright, when the surge either returns you to where you started or puts you down—7 February 1968, Swansea City versus Arsenal in the FA Cup, which other Members may know.

The crush is caused because even if there is room in the corners, fans quite rightly want the best standing positions they can get, so they aim for a central position on the ground. Those at the back push forward, and those at the front, who are against barriers, end up getting crushed. While the number of seats in a seating area limits the number who can enter, no such limit exists in a standing area. That is what happened at the Hillsborough disaster: people kept on coming in at the Leppings Lane end, vastly exceeding its capacity. I do not want to go into the reasons for it, but the actual problem was too many people in too small a space. There is a nominal capacity, but we all know that people are of different sizes—he says, breathing in—and when overcrowding occurs, you can have serious injuries and fatalities.

Hooliganism has been almost completely ended at football matches. I believe that one of the main reasons is that they know who bought each seat, and, if there is a problem, the purchaser can be identified. We had a problem at the Liberty Stadium recently—the season before last—where a spectator had behaved badly. They were immediately identified by who had bought the ticket.

When you have standing areas, people move around; you do not know who they are. We are all familiar with hoodies, balaclavas and other means of keeping people's faces covered. Obviously, with standing areas, you do not know who anyone is, and then the charge happens. For those who remember the Heysel disaster, it was caused by a charge. It became very popular at football matches to charge the opposition. However, you cannot do that when you are sitting down. You are stuck when you are sitting down; you cannot move around.

Pan na fydd y maes yn llawn, mae manteision mawr i sefyll. Gallwch fynd i fyny ac i lawr y cae, cyfarfod â gwahanol grwpiau o ffrindiau, a hyd yn oed pan fydd y maes yn llawn, gallwch aros gyda'ch gilydd fel grŵp o ffrindiau, gwylio'r gêm, yn hytrach na chael eich cyfyngu o ran lle y gallwch eistedd. Gyda'r holl fanteision hynny, pam rwyf i'n erbyn sefyll diogel? Yn gyntaf, oherwydd fy mod yn credu bod sefyll diogel yn ocsimoron. Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl i feysydd sy'n cyrraedd y capasiti, neu'n agos ato, allu cynnal manau sefyll diogel. Rwyf am drafod pum pwynt yn awr: yr ymchwydd; y wasgfa; gorlenwi; hwlighaniaeth; a hyrddio. Pan fydd torf sy'n sefyll yn ymchwyddo, bydd pawb yn symud ymlaen, ond mae'r llethrau ar ffurf stepiau llydan neu derasau. Felly gallwch fod yn symud ymlaen—rwy'n siarad o brofiad personol—wedi'ch gwthio gan y dyrfa gyda'ch traed oddi ar y ddaear, gan lanio ar eich traed, gobeithio, pan fo'r ymchwydd yn eich dychwelyd at y fan lle y dechreuoch neu'n eich rhoi i lawr—7 Chwefror, 1968, Dinas Abertawe yn erbyn Arsenal yng Nghwpan yr FA, fel y bydd Aelodau eraill yn gwybod o bosibl.

Mae'r wasgfa'n cael ei hachosi oherwydd hyd yn oed os oes lle yn y corneli, bydd cefnogwyr yn gwbl deg eisiau'r safleoedd sefyll gorau y gallant ddod o hyd iddynt, felly byddant yn anelu am safle canolog ar y llawr. Mae'r rhai yn y cefn gwthio ymlaen, a'r rhai yn y blaen, sydd yn erbyn clwydi, yn cael eu gwasgu. Er bod nifer y seddi mewn man eistedd yn cyfyngu ar y nifer sy'n gallu mynd i mewn, nid oes cyfyngiad o'r fath ar fan sefyll. Dyna beth a ddigwyddodd yn nhrychineb Hillsborough: roedd pobl yn dal i ddod i mewn ar ben Leppings Lane i'r maes, llawer mwy na'i gapasiti. Nid wyf am drafod y rhesymau drosto, ond y broblem mewn gwirionedd oedd bod gormod o bobl mewn gofod rhy fach. Mae yna gapasiti nominal, ond rydym i gyd yn gwybod bod pobl yn wahanol o ran maint—meddai, gan anadlu i mewn—a phan fo gorlenwi'n digwydd, gallwch wynebu anafiadau difrifol a marwolaethau.

Mae hwlighaniaeth bron iawn â dod i ben yn gyfan gwbl mewn gemau pêl-droed. Rwy'n credu mai un o'r prif resymau yw eu bod yn gwybod pwy brynodd bob sedd, ac os oes problem, gellir nodi pwy yw'r prynwr. Roedd gennym broblem yn Stadiwm Liberty yn ddiweddar—y tymor cyn y diwethaf—lle'r oedd gwylwr yn ymddwyn yn wael. Cafodd ei adnabod ar unwaith yn ôl pwy oedd wedi prynu'r tocyn.

Pan fydd gennych fannau sefyll, mae pobl yn symud o gwmpas; nid ydych yn gwybod pwy ydynt. Rydym i gyd yn gyfarwydd â hwdis, balaclafas a dulliau eraill o orchuddio wynebau pobl. Yn amlwg, gyda manau sefyll, nid ydych yn gwybod pwy yw neb, ac yna mae hyrddio'n digwydd. I'r rhai sy'n cofio trychineb Heysel, cafodd ei achosi gan hyrddio. Daeth yn boblogaidd iawn mewn gemau pêl-droed i hyrddio yn erbyn y gwrthwynebwyr. Fodd bynnag, ni allwch wneud hynny os ydych yn eistedd. Rydych yn sownd pan fyddwch yn eistedd; ni allwch symud o gwmpas.

16:01 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
May I make an intervention?

A gaf i ymyrryd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:01 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Please do.

A chroeso.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:01

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Mike; I am really grateful. I am summing up this debate, so I could have made this point then, but if you had attended the event that was held at the Senedd, you would have seen the layout that prevents the surge and charge through the barriers that are there for people to use and lean on. So much of what you have touched on is looking back 20 or 30 years in crowd control and stadium design—not the current offering that is available.

Diolch i chi, Mike; rwy'n ddiolchgar iawn. Rwy'n crynhoi'r ddadl hon, felly gallwn fod wedi gwneud y pwynt hwn bryd hynny, ond pe baech wedi mynychu'r digwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd, byddech wedi gweld y cynllun sy'n atal yr ymchwydd a'r hyrddio drwy'r clwydi sydd yno i bobl eu defnyddio a phwyso arnynt. Mae cymaint o'r hyn rydych wedi cyfeirio ato'n edrych yn ôl 20 neu 30 mlynedd o ran rheoli tyrfaoedd a chynllun stadia—yn hytrach na'r hyn sy'n cael ei gynig ar hyn o bryd.

16:01

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I will, hopefully, be intervening when you do your summing up on this, because I have some comments that I would like to make on that. However, if I may carry on, football grounds have become safe places. The mix of stands is far more reflective of society than the banks ever were. The banks were traditionally made up of men and boys between the ages of 12 and 40; others would be there, but it was mainly that age group.

Byddaf yn ymyrryd, gobeithio, pan fyddwch yn crynhoi ar hyn, gan fod gennyf rai sylwadau y byddwn yn hoffi eu gwneud ynghylch hynny. Fodd bynnag, os caf barhau, mae meysydd pêl-droed wedi dod yn fannau diogel. Mae'r gymysgedd o standiau yn adlewyrchu cymdeithas yn llawer gwell nag a wnaï'r llethrau erioed. Yn draddodiadol, dynion a bechgyn rhwng 12 a 40 oed a safai ar y llethrau; byddai pobl eraill yno, ond perthyn i'r grŵp oedran hwnnw oedd y rhain yn bennaf.

To quote the Premier League:

I ddyfynnu'r Uwch Gynghair:

'Since the introduction of all-seater stadia the supporter experience has improved significantly and we have seen more diverse crowds attending Premier League matches, including more women and children. The police, safety officers and licensing authorities remain clear and have consistently informed us that crowd management has improved as a result of all-seater stadiums being in place in the top two divisions in this country.'

'Ers cyflwyno stadia seddi'n unig, mae profiad y cefnogwr wedi gwella'n sylweddol ac rydym wedi gweld torfeydd mwy amrywiol yn mynychu gemau'r Uwch Gynghair, gan gynnwys mwy o ferched a phlant. Mae'r heddlu, swyddogion diogelwch ac awdurdodau trwyddedu yn dal yn glir ynglŷn â hyn ac wedi rhoi gwybod inni'n gyson bod rheoli torfeydd mewn stadia o ganlyniad i gynlluniau seddi'n unig wedi gwella yn y ddwy adran uchaf yn y wlad hon.'

I believe that it would be a serious and retrograde step to bring back standing at football grounds, although I understand that a lot of people want it.

Rwy'n credu y byddai ailgyflwyno manau sefyll mewn meysydd pêl-droed yn gam difrifol ac yn gam yn ôl i, er fy mod yn deall bod llawer o bobl am weld hynny'n digwydd.

16:02

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As we know, new stadiums with terraces are already beginning to be opened across the UK. However, what surprised me was how widespread safe standing remains in other countries. In Germany's Bundesliga, for example, as has been mentioned, all of the league's grounds allow standing and often have huge standing areas.

Fel y gwyddom, mae stadia newydd gyda therasau eisoes yn dechrau cael eu hagar ar draws y DU. Fodd bynnag, yr hyn sydd wedi fy synnu oedd pa mor gyffredin yw manau sefyll diogel mewn gwledydd eraill. Yn y Bundesliga yn yr Almaen, er enghraifft, fel y crybwyllwyd, mae pob maes yn y gynghair yn caniatáu sefyll ac yn aml, mae ganddynt fannau sefyll enfawr.

The ground belonging to Borussia Dortmund, one of Europe's biggest and most successful clubs, provides standing accommodation for 27,000 fans. In 1998, UEFA ordered that all games in its competitions had to be played in all-seater stadiums. For a club like Dortmund—I have to learn to say it—which is a participant in and winner of the Champions League, this could have been a problem. However, it and other top-flight German clubs have developed a range of solutions, including the bolting of temporary seats to the steps of terraces and removable crush barriers, which can also be easily moved afterwards, as I think has been said in an intervention. Others use seats that fold away under aluminium terrace steps.

Mae'r maes sy'n perthyn i Borussia Dortmund, un o glybiau mwyaf a mwyaf llwyddiannus Ewrop, yn darparu lle sefyll ar gyfer 27,000 o gefnogwyr. Yn 1998, gorchynnodd UEFA fod yn rhaid i bob gêm yn ei gystadlaethau gael ei chwarae mewn stadia seddi'n unig. I glwb fel Dortmund—rhaid imi ddsygu sut i'w ddweud—sy'n cymryd rhan yng Nghynghair y Pencampwyr ac wedi ennill, gallai hon fod yn broblem. Fodd bynnag, mae'r clwb hwn a chlybiau gorau'r Almaen wedi datblygu ystod o atebion, gan gynnwys bolltio seddi dros dro ar stepiau'r terasau a chwydi atal tyrfa y gellir eu tynnu a'u symud yn hawdd wedyn, fel y dywedwyd mewn ymyriad, rwy'n credu. Mae eraill yn defnyddio seddi sy'n plygu o dan stepiau teras alwminiwm.

All of us here hope for the day when our clubs take part in high-profile competitions like the Champions League. Having said that, the prospect of requiring an all-seater facility for such eventualities does not appear to have prevented Swansea City and Cardiff City supporters from supporting the safe-standing campaign, and they were present at the event that was held recently in the Senedd. Safe standing is supported by fans. The Football Supporters' Federation represents over 0.5 million fans throughout England and Wales, and nine out of 10 of those fans want to be allowed the choice of sitting or standing.

The idea that standing is unsafe has been proven to be patently untrue. Many people who claim this cite Hillsborough as a reason. We now know that that was caused by overcrowding, stadium layout and poor policing, not terraces. Nor is it true that crowd behaviour is more difficult to manage in standing areas; there is no evidence of this. If we are going to use anecdotal claims here, it could just as easily be claimed that the current law actively encourages disorder, because much of the tension at matches occurs as a result of stewards forcing fans to sit down.

Certain models of safe standing, such as the rail seating used by Dortmund, allows the identification of people in the crowd through the use of closed-circuit television and ticket information, as currently used by police—something that may alleviate Mike Hedges's fears. So, standing has a perceived correlation with hooliganism, but even if there was any evidence to support that, improvement in technology, policing tactics and crowd behaviour need to be taken into account. Let us all have an evidence-based debate on this.

I have also heard claims that the German designs that I have alluded to would require huge investment by clubs, and perhaps even the rebuilding of entire stadiums. That may be the case, but if clubs thought that it was too big an issue, I would question why 27 of them, together with the Scottish premier league, have supported this campaign. Many of them are not big-spending premierships clubs, either.

As we have seen with free entry into museums, bringing prices down can stimulate revenues elsewhere. Safe-standing areas could help to bring down ticket prices, particularly as they can accommodate almost twice as many fans as seated areas. It is also worth noting that no-one would be forcing any club to introduce or re-introduce terraces. It would not be legislated for in the same way as seated stadiums would be. All that supporters are asking for is for the ban on standing areas to be lifted.

Mae pob un ohonom yma yn gobeithio gweld y dydd pan fydd ein clybiau yn cymryd rhan mewn cystadlaethau proffil uchel fel Cynghrair y Pencampwyr. Wedi dweud hynny, nid yw'n ymddangos bod y posibilrwydd o fod angen cyfleuster seddi'n unig ar gyfer digwyddiadau o'r fath wedi atal cefnogwyr Dinas Abertawe a Dinas Caerdydd rhag cefnogi'r ymgyrch sefyll diogel, ac roeddent yn bresennol yn y digwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd yn ddiweddar. Mae cefnogwyr yn cefnogi sefyll diogel. Mae Ffederasiwn y Cefnogwyr Pêl-droed yn cynrychioli dros 0.5 miliwn o gefnogwyr ledled Cymru a Lloegr, ac mae naw o bob 10 o'r cefnogwyr hynny eisiau cael dewis rhwng eistedd neu sefyll.

Profwyd bod y syniad nad yw sefyll diogel yn hollol anghywir. Mae llawer o bobl sy'n hawlio hyn yn cyfeirio at Hillsborough fel rheswm. Rydym bellach yn gwybod mai gorlenwi, cynllun stadiwm a phlisma gwael, nid terasau, oedd yr achos dros y digwyddiad hwnnw. Nid yw'n wir fod ymddygiad torf yn anos i'w reoli mewn mannau sefyll; nid oes unrhyw dystiolaeth o hyn. Os ydym yn mynd i ddefnyddio honiadau anecdotaidd, gallai fod yr un mor hawdd honni bod y gyfraith bresennol yn mynd ati i annog anhrefn, gan fod llawer o'r tensiwn mewn gemau yn digwydd o ganlyniad i stiwardiaid yn gorfodi cefnogwyr i eistedd.

Mae rhai modelau sefyll diogel, megis y seddi rheiliau a ddefnyddir gan Dortmund, yn ei gwneud yn bosibl adnabod y bobl yn y dorf drwy ddefnyddio teledu cylch cyfng a gwybodaeth am docynnau, fel y bydd yr heddlu'n ei defnyddio ar hyn o bryd—rhywbeth a allai leddfu ofnau Mike Hedges. Felly, mae cydberthynas ganfyddedig â hwlighaniaeth, ond hyd yn oed pe bai unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny, mae angen ystyried gwelliannau technolegol, tactegau plisma ac ymddygiad torfeydd. Gadewch inni gael dadl ar sail tystiolaeth ar hyn.

Rwyf hefyd wedi clywed honiadau y byddai'r cynlluniau yn yr Almaen y cyfeiriais atynt angen buddsoddiad enfawr gan glybiau, ac ailadeiladu stadia cyfan hyd yn oed. Gallai hynny fod yn wir, ond os yw clybiau'n meddwl ei bod yn broblem rhy fawr, byddwn yn cwestiynu pam y mae 27 ohonynt, ynghyd ag uwch gynghrair yr Alban, wedi cefnogi'r ymgyrch hon. Nid yw llawer ohonynt chwaith yn glybiau uwch gynghrair mawr sy'n gwario'n helaeth.

Fel rydym wedi gweld gyda mynediad am ddim i amgueddfeydd, gall gostwng prisiau ysgogi refeniw mewn mannau eraill. Gallai mannau sefyll diogel helpu i ostwng prisiau tocynnau, yn enwedig gan y byddent yn gallu darparu lle ar gyfer dwywaith cymaint o gefnogwyr â mannau eistedd. Mae hefyd yn werth nodi na fyddai neb yn gorfodi clwb i gyflwyno neu ailgyflwyno terasau. Ni fyddai deddfu ar ei gyfer yn yr un ffordd ag ar gyfer stadia seddi'n unig. Y cyfan y mae cefnogwyr yn gofyn amdano yw codi'r gwaharddiad ar fannau sefyll.

There are plenty of myths swirling around about safe standing in football grounds. What we need now is a fact-based public debate, and that is why it is important that we are talking about this today. We need a realisation that time has moved on, and that it is a different world from the days of terraces and that we need to allow our fantastic football fans to enjoy their favourite sport in the best way they see fit. Over the years, coming from a family of football supporters, I have seen how people's passions in a positive way can be developed through sport. As was alluded to earlier, people stand when they feel passionate about a pass, a goal or something that happens in the game. That happens at the moment, and it is restrictive for some people. If you had a dedicated standing area for those people who know that they will become more passionate than other people, they can all be in that area together. You already see it in some matches: people buy season tickets so that they can sit with people of the same general mindset, and they will do that for a reason. So, I see this as a positive way forward, and to kick start the debate, I think that it is important that this National Assembly has an opinion, too.

Mae digon o fythau'n mynd o gwmpas am fannau sefyll diogel mewn meysydd pêl-droed. Yr hyn rydym ei angen yn awr yw dadl gyhoeddus sy'n seiliedig ar ffeithiau, a dyna pam ei bod yn bwysig inni siarad am hyn heddiw. Mae angen sylweddoli bod amser wedi symud ymlaen, a'i fod yn fyd gwahanol i ddyddiau'r terasau. Mae angen inni ganiatáu i'n cefnogwyr pêl-droed gwych fwynhau eu hoff gamp yn y ffordd y gwelant yn dda. Dros y blynyddoedd, a minnau'n dod o deulu o gefnogwyr pêl-droed, rwyf wedi gweld sut y gellir datblygu brwdfrydedd pobl mewn modd cadarnhaol drwy chwaraeon. Fel y dywedwyd yn gynharach, mae pobl yn sefyll pan fyddant yn teimlo'n angerddol am bàs, gôl neu rywbeth sy'n digwydd yn y gêm. Mae hynny'n digwydd ar hyn o bryd, ac mae'n cyfyngu ar rai pobl. Pe bai gennych fan sefyll penodol ar gyfer y bobl hynny sy'n gwybod y byddant yn fwy angerddol na phobl eraill, gallant i gyd fod yn y fan honno gyda'i gilydd. Rydych eisoes yn ei weld mewn rhai gemau: bydd pobl yn prynu tocynnau tymor er mwyn eistedd gyda phobl o'r un meddylfryd cyffredinol, a byddant yn gwneud hynny am reswm. Felly, rwy'n gweld hyn fel ffordd bositif ymlaen, ac i ddechrau'r ddadl, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol gael barn ar y mater hefyd.

16:07 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am a football fan as a result of my father introducing me to the delights of Wrexham Football Club when I was probably about six years of age. Therefore, I have to say, for Suzy Davies's benefit, that, as a short person myself at the age of six, standing on the kop—and there is only one kop, Mike Hedges, and that is the Wrexham kop—was little or no problem for us. [Laughter.]

Rwy'n gefnogwr pêl-droed wedi i fy nhad gyflwyno mwynhad Clwb Pêl-droed Wrecsam i mi pan oeddwn oddeutu chwe blwydd oed. Felly, rhaid imi ddweud, er budd Suzy Davies, i berson byr fel finau yn chwech oed, nid oedd sefyll ar y kop-a dim ond un kop sydd yna, Mike Hedges, a kop Wrecsam yw hwnnw-yn fawr o broblem i ni. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

What we have to make clear is that we are not suggesting that we return to the type of standing arrangements that you refer to that we had in the 1970s and 1980s. I remember going to watch Wrexham play against Arsenal in 1992, but the difference between Mike Hedges's experience of Arsenal in 1968 and mine in 1992 is that Wrexham actually beat Arsenal, rather than the other way around—

Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yn glir yw nad ydym yn awgrymu ein bod yn dychwelyd at y math o drefniadau sefyll y cyfeiriwch atynt a oedd gennym yn y 1970au a'r 1980au. Rwy'n cofio mynd i wyllo Wrecsam yn chwarae yn erbyn Arsenal yn 1992, ond y gwahaniaeth rhwng profiad Mike Hedges o Arsenal yn 1968 a fy mhrofiad innau yn 1992 yw bod Wrecsam wedi curo Arsenal, yn hytrach na'r ffordd arall rownd—

16:08 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thanks to Mickey Thomas.

Diolch i Mickey Thomas.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:08 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, it was thanks to Mickey Thomas, very much so.

Ie, diolch i Mickey Thomas, yn wir.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, we are not talking about returning to that type of standing arrangement, because most of us would recognise that there were difficulties with regard to excessive crowd numbers. I can remember being frightened for my life, watching Wrexham play Crystal Palace Football Club in 1976, when there were probably about 12,000 or 14,000 people on the kop, and where, as a youngster, I was genuinely worried about my safety.

Fodd bynnag, nid ydym yn sôn am dychwelyd i'r math hwnnw o drefniant sefyll, oherwydd byddai'r rhan fwyaf ohonom yn cydnabod bod anawsterau o ran niferoedd gormodol. Gallaf gofio dychryn am fy mywyd, wrth wyllo Wrecsam yn chwarae Clwb Pêl-droed Crystal Palace yn 1976, pan oedd tua 12,000 neu 14,000 o bobl ar y kop mae'n siŵr, a lle roeddwn i, fel llanc, yn poeni go iawn am fy niogelwch.

Bethan Jenkins has already mentioned the arrangements that they have in Germany. Borussia Dortmund has a standing area for 27,000 fans. Nearly all of the German clubs have introduced safe standing with little or no problem. In fact, the German clubs are better supported than even our Premier League clubs at the moment. It may be that the passionate support of German fans may have led to the success of their national team yesterday evening, which is more than could be said for our colleagues over the border.

However, this safe standing actually works. It is shown to work, and there are rail seats, as Ann Jones has alluded to. It is now being re-introduced in Poland. The Polish legislature has just removed similar legislation to that of our own, which was introduced when they had hooligan troubles. The issue of hooliganism has not been removed as a result of the removal of standing areas. I did not actually go to see Wrexham playing Chester this year because it was a bubble match, at Football Conference level, where people's civil liberties were severely limited because of the police response to hooliganism. The fact that there were no standing areas made no difference for those people who are hell-bent on going to football matches to create trouble. What we are looking at here is a change to the manner in which sport in this country is allowed to happen.

I believe that there is a big issue with regard to the attitude of the Premier League clubs. At the moment, if they can get £50 or £60 for a seat in a stadium, they are much more interested. If you go down to conference, second-division level, or even to the Welsh Premier League with Rhyl, you get a much more genuine experience as a football fan than you will ever get in the Premier League, where large proportions of the grounds are given over to corporate sponsorship and are not affordable to many fans. That is perhaps not the case for Swansea City, but it is certainly the case for the top Premier League clubs—I am only joking, of course—such as Manchester United et cetera.

So, we have to be careful and we have to ask questions. If we give a clear statement here this afternoon regarding our considered opinion, I hope that the FAW et cetera will have an internal discussion and, more importantly, that Conservative colleagues here can persuade their UK Government colleagues, who currently appear not to be convinced by this argument, because they have blocked legislation in the Commons, that they need to look at the experience of—[Interruption.] I am in coalition, and you will find that there is a difference within the coalition on this, as with many other issues. However, it is your Minister who has responsibility. So, I would hope that, given the newly found support from Suzy Davies and the well-established support from Andrew R.T. Davies, that they can have some influence on their UK Government colleagues to look at the situation in places such as Germany, Poland and Austria, where safe standing has been introduced with little or no problem, and has led to the reinvigoration of football in those particular countries.

Mae Bethan Jenkins eisoes wedi sôn am y trefniadau sydd ganddynt yn yr Almaen. Mae gan Borussia Dortmund fan sefyll ar gyfer 27,000 o gefnogwyr. Mae bron bob un o glybiau'r Almaen wedi cyflwyno manau sefyll diogel heb fawr o broblem, os o gwbl. Mewn gwirionedd, caiff clybiau'r Almaen eu cefnogi'n well na hyd yn oed ein clybiau Uwch Gynghrair ni ar hyn o bryd. Mae'n bosibl fod cefnogaeth angerddol cefnogwyr yr Almaen wedi arwain at lwyddiant eu tîm cenedlaethol neithiwr, sy'n fwy nag y gellid ei ddweud am ein cydweithwyr dros y ffin.

Fodd bynnag, mae'r manau sefyll diogel hyn yn gweithio, a cheir seddi rheiliau, fel y cyfeiriodd Ann Jones atynt. Maent bellach yn cael eu hailgyflwyno yng Ngwlad Pwyl. Mae deddfwrfa Gwlad Pwyl newydd ddileu deddf debyg i'r un sydd gennym ni, deddf a gyflwynwyd pan oeddent yn wynebu trafferthion hwligniaeth. Ni chafodd hwligniaeth ei ddileu o ganlyniad i gael gwared ar fannau sefyll. Nid euthum i weld Wrecsam yn chwarae Caer eleni oherwydd am mai 'gêm swigen' oedd hi, ar lefel y Gyngres Bêl-droed, lle y câi hawliau sifil pobl eu cyfyngu'n ddifrifol oherwydd ymateb yr heddlu i hwligniaeth. Nid oedd y ffaith nad oedd yna fannau sefyll yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r bobl sy'n benderfynol o fynd i gemau pêl-droed er mwyn creu trafferth. Yr hyn rydym yn edrych arno yma yw newid y modd y mae chwaraeon yn y wlad hon yn cael eu caniatáu i ddigwydd.

Rwy'n credu bod yna broblem fawr o ran agwedd clybiau'r Uwch Gynghrair. Ar hyn o bryd, os gallant gael £50 neu £60 am sedd mewn stadiwm, mae ganddynt lawer mwy o ddiddordeb. Os ewch chi lawr i lefel y gyngres, a'r ail adran, neu hyd yn oed i Uwch Gynghrair Cymru gyda'r Rhyl, byddwch yn cael profiad llawer mwy dilys fel cefnogwr pêl-droed nag a gewch yn yr Uwch Gynghrair, lle y mae rhannau helaeth o'r maes wedi'u neilltuo ar gyfer noddwyr corfforaethol ac ni all llawer o'r cefnogwyr eu fforddio. Efallai nad yw hynny'n wir yn achos Dinas Abertawe, ond mae'n bendant yn wir yn achos prif glybiau'r Uwch Gynghrair-rwy'n cellwair wrth gwrs-fel Manchester United ac yn y blaen.

Felly, mae'n rhaid inni fod yn ofalus ac mae'n rhaid inni ofyn cwestiynau. Os rhown ddatganiad dir yma y prynhawn yma am ein barn ystyriol, rwy'n gobeithio y bydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac ati yn cael trafodaeth fewnol ac yn bwysicach, y gall cydweithwyr Ceidwadol yma berswadio eu cyfeillion yn Llywodraeth y DU, sydd i'w gweld ar hyn o bryd fel pe na baent wedi'u hargyhoeddi gan y ddatl hon am eu bod wedi atal deddfwriaeth yn Nhŷ'r Cyffredin, fod angen iddynt edrych ar brofiad—[Torri ar draws.] Rwyf yn y glymblaid, a gwelwch fod gwahaniaeth barn o fewn y glymblaid ar hyn, fel gyda llawer o faterion eraill. Fodd bynnag, eich Gweinidog chi sydd â chyfrifoldeb. Felly, byddwn yn gobeithio, o ystyried y gefnogaeth newydd gan Suzy Davies a chefnogaeth hirsefydlog Andrew R.T. Davies, y gallant gael rhywfaint o ddylanwad ar eu cydweithwyr yn Llywodraeth y DU i edrych ar y sefyllfa mewn manau megis yr Almaen, Gwlad Pwyl ac Awstria, lle y cyflwynwyd manau sefyll diogel heb fawr o broblem, os o gwbl, gan arwain at ailfywiogi pêl-droed yn y gwledydd penodol hynny.

- 16:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Minister for Natural Resources, Culture and Sport, John Griffiths. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths.
- 16:12 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Natural Resources, Culture and Sport*
- First, let me say that I very much welcome this opportunity to discuss these important matters, which are obviously important to many football supporters in Wales and further afield. Yn gyntaf, gadewch imi ddweud fy mod yn croesawu'r cyfle hwn i drafod y materion pwysig hyn, sydd yn amlwg yn bwysig i lawer o gefnogwyr pêl-droed yng Nghymru a thu hwnt.
- The legislative context for the safety of supporters at football stadiums is the Football Spectators Act 1989, for England and Wales, which is dealt with by the UK Government's Department for Culture, Media and Sport, through the Sports Grounds Safety Authority, the SGSA. As Members referred to, this legislation came about as a result of the tragic events that took place at the Heysel Stadium in Brussels in 1985 and, more particularly, at Hillsborough, Sheffield, in 1989. Y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer diogelwch cefnogwyr mewn stadia pêl-droed yw Deddf Gwylwyr Pêl-droed 1989 ar gyfer Cymru a Lloegr, sy'n cael ei gweinyddu gan Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU, drwy'r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon, yr SGSA. Fel y dywedodd yr Aelodau, daeth y ddeddfwriaeth hon i fodolaeth yn sgîl y digwyddiadau trasig a welwyd yn Stadiwm Heysel ym Mrwsel ym 1985 ac yn fwy penodol, yn Hillsborough, Sheffield, ym 1989.
- Thankfully, we have seen major improvements to spectator safety and comfort as a consequence of that legislation being introduced. Premiership and Football League grounds are now safer, more comfortable and more civilised than they were 20 years ago. As a result of that—and this is very important for all of us—we have a much more diverse audience making up the spectators for those games. They have been attracted to watch live football, in part at least, I think, as a result of those improvements. Diolch byth, rydym wedi gweld gwelliannau mawr o ran diogelwch a chyfforddusrwydd y gwylwyr o ganlyniad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth. Mae meysydd Pêl-droed yr Uwch Gynghrair a'r Gynghrair Bêl-droed bellach yn fwy diogel, yn fwy cyfforddus ac yn fwy gwaraidd nag yr oeddent 20 mlynedd yn ôl. O ganlyniad i hynny—ac mae hyn yn bwysig iawn i bawb ohonom—mae gennym gynulleidfa lawer mwy amrywiol ymhlith gwylwyr y gemau hynny. Maent wedi cael eu denu i wyllo pêl-droed byw, yn rhannol o leiaf, rwy'n credu, o ganlyniad i'r gwelliannau hynny.
- However, as we know, and as this debate has touched upon, not all of the changes have found favour with all spectators. I know that the Football Supporters' Federation has been very active in campaigning through the safe-standing roadshow for that system of foldaway or rail seating, as used by some clubs in Germany, as we have heard from Members. I know that that design is intended to meet the UEFA requirements for all seated accommodation at its international Champions League and Europa League matches, while enabling clubs to convert it to standing accommodation for all non-UEFA fixtures. However, when rail seats are folded away, the seating does not comply with the current SGSA all-seater licensing conditions, so obviously there are issues there. The Football Association of Wales, of course, has been involved in the debate. Its view of the issue is that safe standing legislation primarily affects Cardiff City and Swansea City, as they are the only Welsh clubs that play in the top two tiers of English football. Fodd bynnag, fel y gwyddom, ac mae'r ddadl hon wedi cyffwrdd ar hyn, nid yw pob un o'r newidiadau wedi cael croeso gan bob gwylwr. Gwn fod Ffederasiwn y Cefnogwyr Pêl-droed wedi bod yn weithgar iawn yn ymgyrchu drwy sioe deithiol sefyll diogel dros system o seddi plygu neu seddi rheiliau a ddefnyddir gan rai clybiau yn yr Almaen fel y clywsom gan yr Aelodau. Gwn mai'r bwriad yw i'r cynllun fodloni gofynion UEFA ar gyfer meysydd seddi'n unig yn ei gemau rhyngwladol yng Nghynghrair y Pencampwyr a gemau Cynghrair Europa, gan alluogi clybiau i newid i fannau sefyll ar gyfer y gemau nad ydynt yn gemau UEFA. Fodd bynnag, pan gaiff seddi rheiliau eu plygu, nid yw'r cynllun eistedd yn cydymffurfio ag amodau trwyddedu presennol yr SGSA ar gyfer stadia seddi'n unig, felly'n amlwg mae yna faterion yn codi yn hynny o beth. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru, wrth gwrs, wedi bod yn rhan o'r drafodaeth. Ei barn ar y mater yw bod deddfwriaeth sefyll diogel yn effeithio'n bennaf ar Ddinas Caerdydd a Dinas Abertawe, gan mai dyna'r unig glybiau o Gymru sy'n chwarae yn nwy haen uchaf pêl-droed Lloegr.
- 16:15 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 16:15 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly. Yn sicr.

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I did my opening speech without mentioning a certain football club in the Welsh Premier League, which I am now going to mention. My own football club of Rhyl has played in European championship matches. All right, it was at the knock-out stage, but we have been there, nevertheless—and been knocked out, as Mike Hedges has just said. There is a requirement for some clubs within the FAW to have licences for all-seater stadiums. Is this an area where clubs like Rhyl could meet UEFA's criteria by having lock-up seats, because I think that is the way forward? You are not going to get anything further from fans if you cannot do those sorts of things.

Rhoddais fy araith agoriadol heb sôn am un clwb pêl-droed penodol yn Uwch Gynghrair Cymru, ac rwy'n mynd i sôn amdano yn awr. Mae fy nghlwb pêl-droed i, sef y Rhyl, wedi chwarae mewn gemau pencampwriaeth Ewropeaidd. Iawn, roedd hynny ar y cam bwrw allan, ond rydym ni wedi bod yno, serch hynny—ac wedi cael ein bwrw allan, fel y mae Mike Hedges newydd ei ddweud. Mae'n ofyniad i rai clybiau yng Nghymdeithas Pêl-droed Cymru gael trwyddedau ar gyfer stadia seddi'n unig. A yw hwn yn faes lle y gallai clybiau fel y Rhyl fodloni meini prawf UEFA drwy gael seddi cloi, oherwydd credaf mai dyna'r ffordd ymlaen? Nid ydych yn mynd i gael unrhyw beth pellach gan gefnogwyr os na allwch wneud y mathau hyn o bethau.

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that there is a lack of clarity on those matters, and they will need to be further explored. This debate is an example of that. As I said, the FAW's view is that these are issues for Cardiff and Swansea. My own experience as a Newport County FC fan is one of standing more often than I sit at games, although I sometimes do one or the other. However, it is currently Cardiff City and Swansea City that are currently primarily affected in Wales.

Rwy'n credu bod diffyg eglurder ar y materion hynny, a bydd angen eu harchwilio ymhellach. Mae'r ddatl hon yn enghraifft o hynny. Fel y dywedais, barn Cymdeithas Bêl-droed Cymru yw bod y rhain yn faterion ar gyfer Caerdydd ac Abertawe. Fy mhrofiad fy hun fel cefnogwr Clwb Pêl-droed Casnewydd yw sefyll yn amlach nag rwy'n eistedd mewn gemau, er fy mod weithiau'n gwneud y naill neu'r llall. Fodd bynnag, Dinas Caerdydd a Dinas Abertawe sy'n cael eu heffeithio yn bennaf ar hyn o bryd yng Nghymru.

Members will be aware of the ongoing issue at Cardiff City's ground, where a section of the crowd steadfastly refuses to sit down during matches, and they see that as their right. The club and its stewards do their best to enforce the no-standing policy, but that issue persists. I understand that Cardiff City has approached the football league seeking to amend the ground regulation by making it clear that that requirement for all-seating does not apply to what it describes as 'the singing area', and a response is awaited to that case.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r broblem barhaus ar faes Dinas Caerdydd, lle y mae rhan o'r dorf yn gwrthod yn lân ag eistedd yn ystod gemau, ac maent yn gweld hynny fel eu hawl. Mae'r clwb a'i stiwardiaid yn gwneud eu gorau i orfodi'r polisi dim sefyll, ond mae'r broblem yn parhau. Deallaf fod Dinas Caerdydd wedi cysylltu â'r gynghrair bêl-droed i geisio newid rheolau'r maes drwy ei gwneud yn glir nad yw'r gofyniad seddi'n unig yn berthnasol i'r hyn y mae'n ei ddisgrifio fel 'ardal y canu', a disgwylir ymateb i hynny.

From what has been said—we have heard a variety of views—it is clear that this is not a straightforward matter to resolve. It is difficult to keep all parties happy, but we know that safety is paramount, that these are very sensitive matters because of recent history and that there is much strong feeling surrounding them. On the one hand, we have the UK Government legislation and the UEFA regulations requiring the all-seater policy, particularly for the top divisions. On the other hand, there is a significant groundswell of supporters wishing to return to standing as an option. At the more local Welsh level, the option to sit or stand still exists. However, I understand the support for a move towards a more well-defined safe-standing area policy.

O'r hyn sydd wedi'i ddweud—rydym wedi clywed amryw o safbwyntiau—mae'n amlwg nad yw hwn yn fater syml i'w ddatrys. Mae'n anodd cadw pawb yn hapus, ond gwyddom fod diogelwch yn hollbwysig, fod y rhain yn faterion sensitif iawn oherwydd hanes diweddar a bod llawer o deimladau cryf yn gysylltiedig â hwy. Ar y naill law, mae gennym ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU a rheoliadau UEFA yn gorfodi polisi seddi'n unig, yn enwedig ar gyfer yr adrannau uwch. Ar y llaw arall, mae torf sylweddol o gefnogwyr sy'n dymuno dychwelyd at sefyll fel opsiwn. Ar lefel Cymru yn fwy lleol, mae'r opsiwn i eistedd neu sefyll yn dal i fodoli. Fodd bynnag, rwy'n deall y gefnogaeth i symud tuag at bolisi wedi'i ddiffinio'n well ar gyfer mannau sefyll diogel.

There are issues around cost, of course; Members have referred to this, but there are various views in terms of costs, including whether or not it would lead to cheaper tickets as a matter of course. There would also be the serious complications that I mentioned regarding any club wanting to enter any European competition with the requirements for safe seating.

Mae materion yn codi mewn perthynas â chost, wrth gwrs; mae'r Aelodau wedi cyfeirio at hyn, ond ceir gwahanol safbwyntiau o ran costau, gan gynnwys a fyddai'n arwain at docynnau rhatach fel mater o drefn ai peidio. Hefyd byddai cymhlethdodau difrifol, fel y crybwyllais, mewn perthynas â chlwb sydd am roi cynnig ar gystadleuaeth Ewropeaidd a'r gofynion o ran seddi diogel.

This debate, in short, is timely. The matter of a pilot of safe standing in Wales is for clubs, owners and supporters to consider. It is clear that there are many matters relevant to those considerations before we decide on the best way forward. This debate is an important contribution to that process, and it will be welcomed by all concerned with the best interests of football in Wales. As the Minister with relevant responsibility, I look forward to following the debate as it unfolds, and I hope to contribute to it in the future.

Yn gwyno, mae'r ddadl hon yn amserol. Mater i glybiau, perchnogion a chefnogwyr ei ystyried yw peilota manau sefyll diogel yng Nghymru. Mae'n amlwg fod llawer o faterion sy'n berthnasol i'r ystyriaethau hynny cyn inni benderfynu ar y ffordd orau ymlaen. Mae'r ddadl hon yn gyfraniad pwysig i'r broses honno, a bydd yn cael ei chroesawu gan bawb sy'n ymwneud â buddiannau gorau pêl-droed yng Nghymru. Fel y Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb perthnasol, rwy'n edrych ymlaen at ddilyn y ddadl wrth iddi ddatblygu ac rwy'n gobeithio cyfrannu ati yn y dyfodol.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Andrew R.T. Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:19 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to be one of the co-sponsors of this debate today, and I would like to pay tribute to my fellow sponsors for the support and advocacy that they have given to this campaign over many months and years. They have also highlighted in their contributions today their passion for the sport and for their local club. Ann Jones opened by highlighting the benefits that could be achieved, not at the major football clubs, but at the small town clubs. [Laughter.] I do not mean that in a dismissive way at all. She highlighted what a long journey it has been to move stadiums to all-seater stadiums, with Coventry City being the first. Sadly, its performance on the pitch has not mirrored some of the improvements it has made to its stadium. However, ultimately, this is a view that many fans hold very dear to their participation in the sport and their enjoyment of the sport. Ultimately, they think it would be a positive development in giving a unique experience of the football ground that fans, together, can bring with the camaraderie that they have.

Rwy'n croesawu'r cyfle i fod yn un o gyd-noddwyr y ddadl hon heddiw, a hoffwn dalu teyrnged i fy nghyd-noddwyr am y gefnogaeth a'r hwb y maent wedi'i roi i'r ymgyrch hon dros fisoedd a blynyddoedd lawer. Maent hefyd wedi tynnu sylw yn eu cyfraniadau heddiw at eu hangerdd dros y gamp a thros eu clwb lleol. Agorodd Ann Jones drwy dynnu sylw at y manteision y gellid eu cyflawni, nid yn y clybiau pêl-droed mawr, ond yn y clybiau trefol bach. [Chwerthin.] Nid wyf yn golygu hynny mewn ffordd ddiystyriol o gwbl. Tynnodd sylw at y daith hir i newid i stadia seddi'n unig, a gychwynnodd gyda Coventry City. Yn anffodus, nid yw eu perfformiad ar y cae wedi adlewyrchu rhai o'r gwelliannau a wnaeth i'w stadiwm. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae hon yn farn y mae llawer o gefnogwyr yn ei choleddu'n gadarn o ran eu hymwneud yn y gamp a'u mwynhad ohoni. Yn y pen draw, maent yn meddwl y byddai'n ddatblygiad cadarnhaol o ran rhoi profiad unigryw o'r cae pêl-droed a'r cwmnigarwch y gall cefnogwyr, gyda'i gilydd, ei gynnig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I also have to pay tribute to Vincent Bailey, my researcher, who nags me to death on this particular issue. I think it is because he is a Tottenham Hotspur supporter and he suffers a great deal of pain with the performance on the pitch. So, he is thinking about how, if ever they redevelop White Hart Lane, he might one day get safe standing at White Hart Lane, being the model for that particular stadium. We all know, obviously, that Arsenal has progressed and built that wonderful new stadium, the Emirates, which he is jumping up and down about upstairs, cursing me in heaps, because we know of the rivalry between Arsenal and Tottenham Hotspur.

Rhaid imi dalu teyrnged hefyd i Vincent Bailey, fy ymchwilydd, sy'n swnian arnaf yn dragywydd ynghylch y mater penodol hwn. Rwy'n credu ei fod yn gwneud hynny am ei fod cefnogi Tottenham Hotspur a'i fod yn dioddef llawer o boen gyda'u perfformiad ar y cae. Felly, mae'n meddwl sut y gall sicrhau man sefyll diogel yn White Hart Lane, gan mai dyna'r model ar gyfer y stadiwm hwnnw os ydynt am ei ailddatblygu o gwbl. Rydym i gyd yn gwybod, yn amlwg, fod Arsenal wedi symud ymlaen ac adeiladu stadiwm newydd gwych yr Emirates, y mae ef i fyny'r grisiau yn neidio i fyny ac i lawr yn ei gylch, gan fy mellithio'n fawr, gan ein bod yn gwybod am y gystadleuaeth rhwng Arsenal a Tottenham Hotspur.

However, seriously, in Wales, we have the opportunity to get behind this campaign. All the football league clubs, all 78 of them, have now voted to support this campaign. I appreciate that, because of the administrative structure of football with UEFA, FIFA and the domestic associations, there is a pyramid of regulation and organisations to try to convince. However, this really is a fans-led initiative. I had to be convinced in the first instance because I grew up in the era when Hillsborough struck the news headlines with the tragedies there and because of the hooliganism that used to exist in the 1970s and 1980s and, dare I say, into the 1990s. However, we are in a different place today. We are in a different era entirely and that is down, by and large, to many of the regulations that were put forward in the first instance by the development of good, solid policing tactics to deal with many of the troublemakers who, historically, used to turn up at football matches. I give way to Mike.

Fodd bynnag, o ddirif, yng Nghymru, mae gennym gyfle i gefnogi'r ymgyrch hon. Mae pob un o glybiau'r gynghair bêl-droed, 78 ohonynt, bellach wedi pleidleisio i gefnogi'r ymgyrch hon. Rwy'n sylweddoli, oherwydd strwythur gweinyddol pêl-droed gydag UEFA, FIFA a'r clybiau cartref, fod pyramid o reoliadau a sefydliadau i geisio'u hargyhoeddi. Fodd bynnag, menter yw hon sy'n cael ei harwain gan y cefnogwyr mewn gwirionedd. Roedd yn rhaid imi gael fy argyhoeddi ar y cychwyn oherwydd cefais fy magu yn y cyfnod pan oedd Hillsborough yn y penawdau newyddion oherwydd y trychinebau yno ac oherwydd yr hwligniaeth a arferai fodoli yn y 1970au a'r 1980au a mentraf ddweud, yn y 1990au. Fodd bynnag, rydym mewn lle gwahanol heddiw. Rydym mewn cyfnod cwbl wahanol ac mae hynny'n deillio, ar y cyfan, o lawer o'r rheoliadau a gyflwynwyd yn y lle cyntaf drwy ddatblygu tactegau plismona da a chadarn i ymdrin â llawer o'r rhai sy'n creu trafferthion a arferai ddod i gemau pêl-droed o'r blaen. Ildiaf i Mike.

16:22 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You mentioned the police. I was waiting for you to do that. Do you know of any police forces, safety officers or licensing authorities that support safe standing or standing?

Soniasoch am yr heddlu. Roeddwn yn aros i chi wneud hynny. A ydych yn gwybod am unrhyw heddluoedd, swyddogion diogelwch neu awdurdodau trwyddedu sy'n cefnogi sefyll diogel neu sefyll?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:22 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I have not heard of any that have objected to it, so ultimately, what I am saying to you is that the campaign has been very well organised. Ultimately, it has gone around not seeking to impose its views on people, but to win people over to the argument. I appreciate, Mike, the points that you made in your contribution. I respect those points, but actually if you look at the way that the campaign has been devised, and if you look at the examples that the campaign offers, such as Germany, as Aled Roberts and Bethan Jenkins highlighted, and the model they use in Germany, where one stadium in particular has 27,000 spaces given over to safe standing, there are examples that we can point to that show that, in a developed, commercial league, you can develop this opportunity for fans to enjoy safe standing at football matches. When you have got the national team banging in seven goals against Brazil on Brazil's home territory out in South America, you have got to ask the question of whether that enthusiasm is infectious to the players so that, ultimately, they develop an international team that can go on and seriously challenge for the World Cup. I say that in jest because, ultimately, what we need to do here in Wales is lend our support to this campaign, so that we can have, as the motion calls for, a pilot scheme, so that it can be tested here somewhere in the UK.

Wel, nid wyf wedi clywed am unrhyw rai sydd wedi gwrthwynebu, felly yn y pen draw, yr hyn rwy'n ei ddweud wrthy ch yw bod yr ymgyrch wedi'i threfnu'n dda iawn. Yn y pen draw, mae wedi ceisio denu pobl i gefnogi'r ddatl yn hytrach na cheisio gorfodi ei syniadau ar bobl. Rwy'n gwerthfawrogi'r pwyntiau a wnaethoch yn eich cyfraniad, Mike. Rwy'n parchu'r pwyntiau hynny, ond mewn gwirionedd mae gofyn edrych ar y ffordd y mae'r ymgyrch wedi'i llunio a'r enghreifftiau y mae'n eu cynnig, megis yr Almaen, fel y pwysleisiodd Aled Roberts a Bethan Jenkins, a'r model y maent yn ei ddefnyddio yno, lle y mae un stadiwm yn benodol â 27,000 o leoedd wedi'u neilltuo ar gyfer sefyll diogel. Dyma enghreifftiau y gallwn dynnu sylw atynt i ddangos y gallwch ddatblygu'r cyfle hwn i gefnogwyr fwynhau sefyll diogel mewn gemau pêl-droed mewn cynghair fasnachol ddatblygedig. Pan fydd eich tîm cenedlaethol wedi cael saith gôl yn erbyn Brasil ar dir Brasil yn Ne America, mae'n rhaid ichi ofyn y cwestiwn a yw'r brwdfrydedd hwnnw'n heintus i'r chwaraewyr fel eu bod, yn y pen draw, yn datblygu tîm rhyngwladol sy'n gallu mynd ymlaen i fod yn her wirioneddol am Gwpan y Byd. Rwy'n dweud hynny gan gellwair oherwydd, yn y pen draw, yr hyn y mae angen inni ei wneud yma yng Nghymru yw cefnogi'r ymgyrch hon inni allu cael cynllun peilot, fel y mae'r cynnig yn galw amdano, er mwyn ei dreialu yma rywle yn y DU.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I would love it to be here in Wales because we do have the stadium to do it here in Wales. In fact, I think that we have the best stadium to do it in Wales—either at Liberty stadium or Cardiff City stadium because they are medium-sized stadiums, I would suggest, or small in Liberty's case. I do not mean that in a derogatory way, but it seats around 20,000 to 22,000. Cardiff, now with the extra seating it has put in, would seat about 30,000 to 32,000. It would be more problematic, I would suggest, for Old Trafford or somewhere like that to adopt a pilot scheme, where it has a seating capacity of, I think, 76,000. There is a real opportunity here to be at the forefront of something that I think could be quite magical.

Byddwn wrth fy modd pe bai hynny'n digwydd yng Nghymru, oherwydd mae gennym y stadiwm i wneud hynny yma. Yn wir, credaf fod gennym y stadiwm gorau i wneud hynny yng Nghymru—naill ai stadiwm Liberty neu stadiwm Dinas Caerdydd oherwydd eu bod yn stadia canolig eu maint, byddwn yn awgrymu, neu fach yn achos Liberty. Nid wyf yn golygu hynny mewn ffordd ddirmygus, ond mae lle i tua 20,000 i 22,000 o bobl eistedd. Gyda'r seddi ychwanegol y mae wedi'u gosod bellach, mae gan Gaerdydd le i tua 30,000 i 32,000 o bobl eistedd. Byddai'n fwy o broblem, byddwn yn awgrymu, i Old Trafford neu rywle fel yna i fabwysiadu cynllun peilot, lle y ceir capasiti eistedd o 76,000, rwy'n credu. Mae cyfle gwirioneddol yma i fod ar flaen y gad ar fater a allai fod yn eithaf hudol.

16:24 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would say that the Kop end at Wrexham is ripe for redevelopment, if the Welsh Government was able to provide financial support. [Laughter.]

Byddwn yn dweud bod pen y kop yn Wrexham yn aeddfed ar gyfer ei ailddatblygu, pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cymorth ariannol. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:24 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that the Minister is listening with open ears and that he would be encouraging the various grant-giving bodies to negotiate with the Racecourse there and ultimately to take that proposal on board. In all seriousness, Minister, I am grateful for the way in which you entered into the discussion. I know that you have received correspondence on this particular field. As I said, I do think that it is wrong to mix up the experience people had in the 1960s, 1970s and 1980s with where we are today. It is a different ball game, and I pay tribute to Cardiff City Football Club in particular for winning family club of the year, for the second time I think. I recently had the pleasure of visiting the stadium and seeing exactly how they control crowds and give the customer the real match-day experience. You quite rightly pointed out the tolerance, shall we say, that they have within the stadium for fans to stand and enjoy the game. It is about striking the balance between what is safe, what is desirable and, ultimately, what is progressive in developing a model that will reverse, in some instances, declining fan attendance at football matches.

Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn gwranddo gyda chlustiau agored ac y byddai'n annog y gwahanol gyrff sy'n rhoi grantiau i drafod gyda'r Cae Ras yno ac yn y pen draw i fanteisio ar y cynnig. O ddifrif, Weinidog, rwy'n ddiolchgar am y modd rydych wedi ymroi i'r drafodaeth. Gwn eich bod wedi derbyn gohebiaeth ar y maes penodol hwn. Fel y dywedais, rwy'n credu ei bod yn anghywir inni gymysgu rhwng profiadau pobl yn y 1960au, y 1970au a'r 1980au a'r sefyllfa rydym ynddi heddiw. Mae'n gêm wahanol, ac rwy'n talu teyrnged i Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn benodol am ennill clwb y flwyddyn i deuluoedd, am yr eilwaith rwy'n meddwl. Yn ddiweddar, cefais y pleser o ymweld â'r stadiwm a gweld yn union sut y maent yn rheoli tyrfaoedd ac yn rhoi profiad diwrnod gêm go iawn i'r cwsmer. Eglurasoch yn gwbl deg y modd y maent yn goddef, gawn ni ddweud, i gefnogwyr sefyll a mwynhau'r gêm yn y stadiwm. Mae'n ymwneud â tharo'r cydbwysedd rhwng yr hyn sy'n ddiogel, yr hyn sy'n ddimunol ac yn y pen draw, yr hyn sy'n flaengar wrth ddatblygu model a fydd yn gwrthdroi, mewn rhai achosion, y gostyngiad yn nifer y cefnogwyr sy'n mynychu gemau pêl-droed.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is all well and good to talk about taking the many hundreds of millions of pounds from BT Sport or Sky Sports, but ultimately what people want is atmosphere. They want atmosphere in the stadium and they want that atmosphere to transfer into the homes, clubs and pubs of the country. Actually, if you have an empty stadium with no atmosphere, that is a pretty poor product for people to buy into and you will, ultimately, diminish the offering that you have. We have a guardian's role to play here, in trying to promote the whole sport from the basement right up to the top tier. It is through the grass roots that we create the Gareth Bales of this world; not just by having the prawn cocktail brigades with corporate sponsorships and hospitalities that the casual fans wish to buy into.

Mae'n ddigon hawdd siarad am gymryd y cannoedd o filiynau o bunnoedd gan BT Sport neu Sky Sports, ond yn y pen draw, yr hyn y mae pobl ei eisiau yw awyrgylch. Maent eisiau awyrgylch yn y stadiwm ac maent am i'r awyrgylch dreiddio i gartrefi, clybiau a thafarndai'r wlad. Mewn gwirionedd, os oes gennych stadiwm wag heb awyrgylch, mae'n gynnrych go wael i bobl ei brynu ac yn y pen draw, byddwch yn lleihau'r hyn rydych yn ei gynnig. Mae gennym rôl i'w chwarae yma fel gwarcheidwad, wrth geisio hybu'r gamp o'r gwaelod hyd at yr haen uchaf. Drwy'r gwreiddiau y mae creu Gareth Bales y byd hwn; nid drwy'r brigadau coctel corgimwch, a'r nawdd a lletygarwch corfforaethol y bydd cefnogwyr achlysurol yn eu dymuno.

Therefore, I hope that we can endorse this motion today, because it is not a binding motion, it just calls for exploration of the possibility. Even those who have concerns, such as Mike, I hope that they will find time, shall we say, to support the motion before us. As I say, it is not a binding motion; it calls to explore this possibility and work with the Football Association of Wales and other bodies that have an interest in football safety, so that we can, ultimately, bring to fruition a stadium design, a stadium build and a stadium regulatory environment that will give fans a twenty-first century experience when they attend a football game. We see it at rugby, we see it at horse racing tracks where fans are allowed to stand and enjoy their sport, and I fail to see why football fans should be treated differently. That is why I urge Members to support the motion before them this afternoon.

Felly, rwy'n gobeithio y gallwn gefnogi'r cynnig hwn heddiw, gan nad yw'n gynnis sy'n rhwymo; mae'n galw am archwilio'r posibilrwydd, dyna'i gyd. Rwy'n gobeithio y bydd hyd yn oed y rhai sydd â phryderon, fel Mike, yn cael amser, gawn ni ddweud, i gefnogi'r cynnig sydd ger ein bron. Fel y dywedais, nid yw'n gynnis sy'n rhwymo; mae'n galw arnom i archwilio'r posibilrwydd a gweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru a chyrrff eraill sydd â diddordeb mewn diogelwch pêl-droed, er mwyn i ni, yn y pen draw, greu cynllun stadiwm, adeilad stadiwm a safonau rheoleiddio stadiwm a fydd yn rhoi profiad yr unfed ganrif ar hugain i gefnogwyr pan fyddant yn mynychu gêm bêl-droed. Rydym yn ei weld mewn rygbi, rydym yn ei weld ar draciau rasio ceffylau lle y caniateir i gefnogwyr sefyll a mwynhau eu camp, ac ni allaf weld pam y dylai cefnogwyr pêl-droed gael eu trin yn wahanol. Dyna pam rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig sydd ger eu bron y prynhawn yma.

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are objections, therefore, I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau, felly gohiriaf y bleidlais dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

16:27 **Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy**
Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, Alun Ffred Jones.

I call on the Chair of committee, Alun Ffred Jones.

Cynnig NDM5554 Alun Ffred Jones.

Motion NDM5554 Alun Ffred Jones.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mai 2014.

Notes the report of the Environment and Sustainability Committee on its inquiry into Sustainable Land Management, which was laid in the Table Office on 19 May 2014.

16:27 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Rwy'n cynnig yr adroddiad hwn at sylw'r Cynulliad i'w nodi. Mae'r pwyllgor wedi bod yn ystyried rheoli tir yn gynaliadwy ers mis Mehefin 2013, ac er mwyn deall y mater, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda ffermwyr, rheolwyr tir, cadwraethwyr a gwyddonwyr ac wedi treulio amser ar lawr gwlad gyda nhw er mwyn dysgu mwy am y cyfleoedd a'r heriau o reolau tir yn gynaliadwy.

I bring this report to the attention of the Assembly to note. The committee has been considering sustainable land management since June 2013 and, in order to understand the issue, we have been working closely with farmers, land managers, conservationists and scientists and have spent time on the ground with them to learn more about the opportunities and challenges of sustainable land management.

Y prif ganlyniadau y mae'r pwyllgor wedi cytuno arnynt yw bod angen, yn gyntaf, cael diffiniad clir o reoli tir yn gynaliadwy. Yn ail, mae angen sicrhau canlyniadau lefel uchel ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, ond mae'n rhaid rhoi'r grym i reolwyr tir i wneud eu gwaith mewn ffordd sy'n addas i'w hamgylchiadau penodol. Hefyd, mae angen gwneud mwy i gau bylchau mewn gwybodaeth a chasglu data'n fwy cyson. Mae angen i ni wella ein ffordd o rannu gwybodaeth a defnyddio dulliau arloesol ar lawr gwlad, ac mae sefydlu marchnadoedd ar gyfer wasanaethau ecosystemau yn hanfodol i gynaliadwyedd rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym wedi gwneud 14 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Os caiff y rhain eu gweithredu, byddant yn mynd i'r afael â'r casgliadau hyn.

O ran ymateb y Llywodraeth, mae wedi derbyn, neu wedi derbyn mewn egwyddor, pob un o'r argymhellion. Rwyf yn ddiolchgar bod y Gweinidog ar y pryd wedi ymateb yn bositif i'r adroddiad hwn. Credaf fod hwn yn faes polisi lle rydym i gyd yn anelu at yr un canlyniadau. Mae gwahaniaethau o ran y manylion ynglŷn â sut i gyflawni hynny, ond ni chredaf fod gwahaniaeth barn ar y cyfeiriad.

Y prif bwynt rwyf am ei godi mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru yw nad yw'n cynnwys yr holl fanylion y gwnaethon ni ofyn amdanynt wrth wneud ein hargymhellion. Byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog mewn perthynas â rhai o'r pwyntiau penodol hyn, ond hoffwn godi rhai o'r pwyntiau mwy sylweddol yn awr.

Roedd ein hargymhelliad cyntaf yn ymwneud â diffiniad o reoli tir yn gynaliadwy. Rwy'n falch y bydd egwyddorion y pwyllgor ar gyfer diffiniad o reoli tir yn gynaliadwy yn cael eu hystyried wrth i chi gwblhau Bil yr amgylchedd. Rhaid i mi bwysleisio ei bod hi'n bwysig bod y diffiniad yn y Bil yn cynnwys gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chymorth ar gyfer busnesau gwledig proffidiol a chymunedau gwledig llewyrchus. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y diffiniad a ddarperir yn y Papur Gwyn yn cynnwys hyn yn llawn.

Wrth droi at y trydydd argymhelliad am amserlen ar gyfer datblygu'r polisi adnoddau naturiol, unwaith eto rwy'n ddiolchgar am y manylion ychwanegol sydd wedi'u darparu mewn ymateb i'r argymhelliad hwn. Byddwn yn gwerthfawrogi eglurhad pellach o'r cysylltiadau rhwng y strategaeth amaethyddiaeth a'r polisi adnoddau naturiol, o gofio y bydd y polisi yn dod ar ôl i'r strategaeth gael ei chytuno.

Mae argymhelliad 6 yn dweud y dylid mabwysiadu fframwaith tystiolaeth. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, roeddem yn rhagweld y byddai'n cynnwys materion ehangach na chasglu data amgylcheddol yn unig. Gofynnem hefyd am amserlenni manwl, goblygiadau o ran adnoddau, dangosyddion cynnydd y cytunwyd arnynt, a chynllun gweithredu wedi'i flaenoriaethu ar gyfer gwella'r modd y caiff data ei gasglu. Weinidog, a fydd y lefel hon o fanylder yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad 'Cyflwr ein Hadnoddau Naturiol'? A allwch chi ddweud wrthym pryd y gallwn ddisgwyl gweld yr adroddiad hwn?

The main findings that the committee has agreed on is that we need, first, a clear definition of sustainable land management. Secondly, we need to ensure high-level outcomes for sustainable land management at national and regional level, but we must empower land managers to do their work in a way that is appropriate to their particular circumstances. We need to do more to close gaps in knowledge and to collect data more consistently. We need to improve the way we share information and use innovative approaches on the ground, and the establishment of markets for ecosystem services is essential to the sustainability of land management in Wales in the future. We have made 14 recommendations to the Welsh Government. If these are implemented, they will address these conclusions.

In terms of the Government's response, it has accepted, or accepted in principle, all of the recommendations. I am grateful that the former Minister responded positively to this report. I think that this is an area of policy where we are all aiming for the same results. There are differences in the detail of how to achieve them, but I do not think that there is a difference of opinion on the direction.

The main point that I want to raise in relation to the Welsh Government's response is that it does not contain all the details that we asked for in making our recommendations. I will be writing to the Minister in relation to some of the specific points, but I would like to raise some of the significant points now.

Our first recommendation relates to the definition of sustainable land management. I am pleased that the committee's principles for defining sustainable land management will be considered as you complete the environment Bill. I have to stress that it is important that the definition in the Bill includes the protection and enhancement of biodiversity as well as support for profitable rural businesses and prosperous rural communities. We are not convinced that the definition provided in the White Paper includes this fully.

Turning to the third recommendation, which calls for a timetable for the development of the natural resources policy, once again I am grateful for the extra details that have been provided in response to this recommendation. I would appreciate further clarification of the links between the agriculture strategy and the natural resources policy, given that the policy will come after the strategy has been agreed.

Recommendation 6 states that an evidence framework should be adopted. In making this recommendation, we anticipated that it would include broader issues than just environmental data collection. We also asked for detailed timetables, resource implications, agreed progress indicators, and a prioritised action plan for improving the way in which data are gathered. Minister, will this level of detail be included in the 'State of Natural Resources' report? Can you tell us when we can expect to see this report?

O droi at argymhelliad 14 am ddatblygu partneriaethau i ddenu buddsoddiad o'r sector preifat, wrth dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, mae ymateb Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y gronfa natur. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog gadarnhau ei fod wedi derbyn ceisiadau i'r gronfa natur gan y sector preifat ac y bydd rhai o'r ceisiadau hyn o'r sector preifat yn cael eu derbyn.

O ran sut yr aethom ati i gasglu tystiolaeth, cawsom dystiolaeth ffurfiol i'r pwyllgor, ond aeth aelodau'r pwyllgor hefyd i bob rhan o Gymru, i ysguboriau, ceginau fferm, ffriddoedd, yr ucheldir, cefn cerbydau Land Rover, canolfannau croeso a labordai er mwyn cael y wybodaeth ar lawr gwlad a derbyn barn a sylwadau y rhanddeiliaid. Mae'n deg dweud bod y rhanddeiliaid hynny wedi cymryd rhan mewn gweithdy ar ddechrau ein hymchwiliad, a bod hynny wedyn wedi effeithio ar sut aeth y pwyllgor ati i wneud ei waith. Hefyd, aethom ati i brofi ein casgliadau a'n hargymhellion yn yr adroddiad hwn gyda rhanddeiliaid mewn gweithdy ar ddiwedd ein hymchwiliad. Mae hyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ein gwaith, ac mae'n fodel yr hoffem ei ddefnyddio eto yn y dyfodol.

O ran yr adroddiad, mae'n ddyledus arnaf i ddiolch i nifer o bobl. Rydym wedi ein cynorthwyo yn ein gwaith gan yr Athro Terry Marsden, cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd. Hoffem gydnabod ei gyfraniad gwerthfawr at ein gwaith a diolch iddo am ei arweiniad doeth a dysgedig. Wrth gwrs, mae ein gwaith ond cystal â'r dystiolaeth a ddaw ger ein bron, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at hynny. Diolch yn arbennig i'r ffermwyr, rheolwyr tir, cadwraethwyr, gwyddonwyr a swyddogion prosiect a'n croesawodd ni ar eu tir, i'w ffermydd, labordai ac, ar adegau, i'w cartrefi. Gyda phobl fel hyn ar y rheng flaen, gallwn fod yn obeithiol y bydd rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol mewn dwylo diogel.

Dyna'r sylwadau sydd gennyf ar ddechrau'r drafodaeth hon. Byddaf yn cael cyfle i gloi wedyn, ond mae'n diolchiadau ni'n fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at waith y pwyllgor ac, wrth gwrs, i aelodau'r pwyllgor ei hun.

Turning to recommendation 14 that calls for the development of partnerships to attract private sector investment, in accepting this recommendation in principle, the Welsh Government's response focuses on the nature fund. I would be grateful if the Minister could confirm that he has received applications to the nature fund from the private sector and that some of these applications from the private sector will be accepted.

In terms of how we set out to gather evidence, we had formal evidence to the committee, but committee members also went to all parts of Wales, to barns, farm kitchens, mountain pastures, the uplands, the boots of Land Rovers, tourist information centres and laboratories in order to get the information on the ground and to get the comments and opinions of stakeholders. It is fair to say that those stakeholders did take part in a workshop at the start of our inquiry, and that did influence how the committee did its work. In addition, we tested our conclusions and recommendations in this report with stakeholders at a workshop at the end of our inquiry. This has made a significant contribution to our work, and it is a model that we would like to use again in the future.

In terms of the report, it is incumbent upon me to thank a number of people. We were assisted in our work by Professor Terry Marsden, director of Cardiff University's Sustainable Places Research Institute. We would like to recognise his valuable contribution to our work and thank him for his learned leadership. Of course, our work is only as good as the evidence that comes before us, and I would like to thank everyone who has contributed to that. We give special thanks to the farmers, land managers, conservationists, scientists and project officers who welcomed us onto their land, their farms, their laboratories and, at times, into their homes. With people like this on the front line, we can be optimistic that land management in Wales in the future will be in safe hands.

Those are the comments that I have at the outset of this discussion. I will have an opportunity later on to close, but we thank everybody who has contributed to the work of the committee and, of course, the members of the committee itself.

16:35

Jenny Rathbone [Bywgraffiad Biography](#)

I just want to ask the members of the committee who were involved in this inquiry what work, if any, they did on looking at the role of blanket peat bogs, which are an essential part of sustainable land management and which can play a huge role in tackling climate change, because they act as a fantastic carbon sink, as well as improving drinking water and the diversity of plants and wildlife. I am aware of the fantastic projects that were carried out to restore the blanket bogs around Lake Vyrnwy and in the Migneint special areas, and I would like to know what consideration you gave, if any, to trying to ensure that all the blanket peat bogs in Wales are restored in due course, as a result of Government and EU policy.

A gaf fi ofyn i'r aelodau o'r pwyllgor a oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn pa waith a wnaethant, os o gwbl, ar edrych ar rôl gorgorsydd mawn, sy'n rhan hanfodol o reoli tir yn gynaliadwy ac sy'n chwarae rhan fawr wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, oherwydd eu bod yn gweithredu fel dalfeydd carbon gwych, yn ogystal â gwella dŵr yfed ac amrywiaeth planhigion a bywyd gwylt. Rwy'n ymwybodol o'r prosiectau gwych sy'n cael eu cyflawni er mwyn adfer gorgorsydd o gwmpas Llyn Efyrynwy ac yn ardaloedd arbennig y Migneint, a hoffwn wybod pa ystyriaeth a roddasoch, os o gwbl, i geisio sicrhau bod yr holl orgorsydd mawn yng Nghymru yn cael eu hadfer maes o law, o ganlyniad i bolisiau'r Llywodraeth a'r UE.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I might be able to provide some of an answer to Jenny Rathbone. We certainly look did look at the Migneint and what happened at Lake Vyrnwy. However, closer to home, what is happening in Blaenau Gwent, where 750,000 cubic metres of peat is going to be dug up, is something that, perhaps, you might want to work on within your own party. I know that Julie Morgan and I sat together around a table at a stakeholder event at the very start of this process, and that it was a very passionate group of stakeholders who we met there and there was very clear interest in the idea of sustainable land management. Again, I was with Julie Morgan, near one of the farm kitchens that were described by Alun Ffred Jones, and the genuine passion in the way that we were spoken to by that local farmer and his real frustration at some of the concerns that there are within the current system was really palpable and actually very moving. So, I would like to echo the Chair's points in thanking the stakeholders who came forward.

I would like to concentrate on recommendation 6, which looked at data and how we can pull together existing data sources and identify the gaps in knowledge. It was very clear from the 'State of Nature' report that a lot of those data were not at a Welsh level. It did not identify Welsh-level data; it was using UK data extrapolated to Wales. It was also very clear from the evidence that we had in front of the committee that there is a considerable amount of data out there on the ground and, particularly, in the local records offices. I think that organisations such as the wildlife trusts that organise days where groups of experts come into the countryside and blanket cover a particular area are fantastic. I would like to echo the Chair's concerns about the fact that the Welsh Government's response in relation to recommendation 6 has not been as full as we would like, particularly given that the records are out there. We know that they are out there, we know that the information is there, but there is very little way of accessing it centrally. The European COBWEB project as well, which is encouraging citizen science, has a huge part to play in this.

There was also great hope expressed by some of the contributors to our deliberations that this would be a real opportunity to devolve things to a really local level, while having a strategic overview, and that it would not be a one-size-fits-all approach but would look at the framework within which really devolved, on-the-ground, local decision making could happen. I think that that was very welcome evidence, and it is reflected perhaps in our recommendation 9, which says

'the Farming Connect-style approach to support services should be expanded to provide bespoke services to land managers, including the forestry sector, in relation to sustainable land management practices.'

I do think that that was an important recommendation from the committee's work.

Efallai y gallaf roi rhywfaint o ateb i Jenny Rathbone. Rydym yn sicr yn wedi edrych ar y Migneint a'r hyn a ddigwyddodd yn Llyn Efyrrwy. Fodd bynnag, yn nes at adref, mae'r hyn sy'n digwydd ym Mlaenau Gwent, lle y mae 750,000 metr ciwbig o fawn yn mynd i gael ei gloddio, efallai'n rhywbeth y byddwch am weithio arno o fewn eich plaid eich hun. Gwn fod Julie Morgan a minnau wedi eistedd o amgylch y bwrdd mewn digwyddiad i randdeiliaid ar ddechrau'r broses hon, a bod grŵp angerddol iawn o randdeiliaid wedi cyfarfod â ni yno. Roedd diddordeb amlwg iawn yn y syniad o reoli tir yn gynaliadwy. Roeddwn gyda Julie Morgan unwaith eto, ger un o'r ceginau fferm a ddisgrifiwyd gan Alun Ffred Jones, ac roedd angerdd gwirioneddol y ffordd roedd y ffermwr lleol yn siarad â ni a'i rwystredigaeth go iawn ynghylch rhai o'r pryderon ynglŷn â'r system bresennol yn amlwg ac yn deimladwy iawn mewn gwirionedd. Felly, hoffwn adleisio pwyntiau'r Cadeirydd a diolch i'r rhanddeiliaid a oedd yn bresennol.

Hoffwn ganolbwyntio ar argymhellid 6, a edrychai ar ddata a sut y gallwn gasglu ffynonellau data presennol at ei gilydd a nodi bylchau yn yr wybodaeth. Roedd yn amlwg iawn o'r adroddiad 'Sefyllfa Byd Natur' ar gyflwr natur nad oedd llawer o'r data ar lefel Cymru. Nid oedd yn nodi data lefel Cymru; roedd yn defnyddio data y DU wedi'i allosod ar gyfer Cymru. Hefyd, roedd hi'n glir iawn o'r dystiolaeth a ddaeth gerbron y pwyllgor fod cryn dipyn o ddata ar gael ar lawr gwlad ac yn arbennig, yn y swyddfydd cofnodion lleol. Rwy'n credu bod sefydliadau megis ymddiriedolaethau bywyd gwyllt sy'n trefnu dyddiau i grwpiau o arbenigwyr ddod i gefn gwlad a gorchuddio ardal benodol yn wych. Hoffwn adleisio pryderon y Cadeirydd ynglŷn â'r ffaith nad yw ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag argymhellid 6 wedi bod mor llawn ag y byddem yn ei hoffi, yn enwedig o ystyried bod y cofnodion ar gael. Rydym yn gwybod eu bod ar gael, rydym yn gwybod bod yr wybodaeth ar gael, ond ychydig iawn o fodd sydd yna o gael mynediad ato'n ganolog. Mae gan brosiect Ewropeaidd COBWEB, sydd hefyd yn annog dinasyddion i ymwneud â gwyddoniaeth, ran fawr iawn i'w chwarae yn hyn.

Hefyd, mynegwyd gobaith mawr gan rai o'r cyfranwyr y byddai ein trafodaethau yn gyfle gwirioneddol i ddatganoli pethau ar lefel leol go iawn, gyda throsolwg strategol, ac na fyddai'n ddull o weithredu ar gyfer cynnig un ateb i bawb, ond y byddai'n edrych ar y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol, gwirioneddol ddatganoledig, ar lawr gwlad. Rwy'n meddwl bod honno'n dystiolaeth i'w chroesawu'n fawr, ac efallai ei bod yn cael ei hadlewyrchu yn ein hargymhellid 9, sy'n dweud

'dylid ymestyn dull o weithio Cyswllt Ffermio o ran cynorthwyo gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau pwrpasol i reolwyr tir, gan gynnwys y sector coedwigaeth, mewn perthynas ag arferion rheoli tir yn gynaliadwy.'

Rwy'n meddwl ei fod yn argymhellid pwysig yng ngwaith y pwyllgor.

It is quite clear that a considerable amount of work needs to be done, particularly taking forward the idea of payment for ecosystem services. That work cannot be done without the support of the Welsh Government. If the Welsh Government is serious about the contribution that land managers can make in the delivery of ecosystem services, then this needs to be developed as a matter of urgency. Minister, you will see that in our recommendation 12.

We need to put sustainable land management on a sustainable footing and something that is taken forward for the future. Jenny Rathbone, you were right that there are huge advantages to blanket bogs and peat bogs being restored in terms of what they can do. I have found in my region in north Wales that land managers are very prepared to do that, but they want to know that they are going to be supported in that. In fact, I heard, on a trip in north Wales how, 20 years ago, they were being asked to install drains. Twenty years later, they are now being asked to block them up. The results have been dramatic, and they have support. Other people looking around locally see that that support is there, and that over-the-hedge syndrome—

Mae'n eithaf amlwg fod angen cryn dipyn o waith, yn enwedig bwrw ymlaen â'r syniad o daliad am wasanaethau ecosystem. Ni ellir gwneud y gwaith hwnnw heb gefnogaeth Llywodraeth Cymru. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif am y cyfraniad y gall rheolwyr tir ei wneud wrth ddarparu gwasanaethau ecosystem, yna mae angen datblygu hyn ar frys. Weinidog, byddwch yn gweld hynny yn ein hargymhelliaid 12.

Mae angen inni roi rheoli tir yn gynaliadwy ar sail gynaliadwy ac yn rhywbeth sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y dyfodol. Jenny Rathbone, rydych yn iawn fod manteision enfawr i adfer gorgorsydd a mawnogydd o ran yr hyn y gallant ei wneud. Yn fy rhanbarth yng ngogledd Cymru, gwelais fod rheolwyr tir yn barod iawn i wneud hynny, ond eu bod am wybod y cânt eu cefnogi yn hynny o beth. Yn wir, ar daith yng ngogledd Cymru, clywais sut oedd gofyn iddynt osod draeniau ugain mlynedd yn ôl. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, gofynnir iddynt eu cau yn awr. Mae'r canlyniadau wedi bod yn ddramatig, ac maent yn cael cefnogaeth. Mae pobl eraill sy'n edrych o gwmpas yn lleol yn gweld bod y gefnogaeth honno yno, a'r syndrom 'dros y gwrych'—

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Conclude quickly, please.

Dowch i ben yn gyflym, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:41 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The over-the-hedge syndrome—I have seen my neighbour do it, therefore I am more inclined to do it myself—is something that really worked. It worked by example, if I can put it that way.

Mae'r syndrom 'dros y gwrych'—rwyf wedi gweld fy nghymydog yn ei wneud, felly rwy'n fwy parod i wneud fy hun—yn rhywbeth sydd wedi gweithio mewn gwirionedd. Roedd yn gweithio drwy esiampl, os caf ei roi felly.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:41 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am also really glad to speak in this debate. I wanted to echo the sentiments expressed by the first speakers and the Chair of the committee in being really grateful for the enthusiasm and energy shown by every stakeholder that contributed to the inquiry. We were all really struck by it, and it is worth repeating. I want to concentrate, in the short time that I have, on the ecosystems and payment for ecosystems delivery approaches that we have recommended in this report and the Government's response to that, which I am very delighted to see, because it is clear that the Minister accepts the recommendations in the report, albeit with one or two tweaks about who exactly is going to deliver them. I wanted to make the same point that Antoinette Sandbach has just made, actually, about the real strength of exemplar projects and the over-the-garden-fence effect. The Pumlumon blanket bog project was a perfect example of that, where, as each individual farmer came on stream, they could see how it worked and the thing was spreading out, and real benefits were being shown both for individual farmers, but also for the prevention of flooding all the way down the river catchment area from the blanket bog in question right down the Severn estuary and so on. We should be very proud in Wales that we had that effect on some of our river flood catchment areas. So, I am glad that the Government accepts it.

Rwyf hefyd yn falch iawn i siarad yn y ddaid hon. Roeddwn i eisiau adleisio'r teimladau a fynegwyd gan y siaradwyr cyntaf a Chadeirydd y pwyllgor o ran bod yn wirioneddol ddiolchgar am y brwdfrydedd a'r egni a ddangosir gan bob rhanddeiliad a gyfrannodd at yr ymchwiliad. Cawsom i gyd ein taro gan hynny, ac mae'n werth ei ailadrodd. Rwyf am ganolbwyntio, yn yr amser byr sydd gennyf, ar yr ecosystemau a thaliad am ddulliau o gyflawni ecosystemau a argymhellwyd gennym yn yr adroddiad hwn ac ymateb Llywodraeth i hynny. Rwyf wrth fy modd gyda'r ymateb hwn gan ei bod yn amlwg bod y Gweinidog yn derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad, er bod un neu ddau o addasiadau bach ynghylch pwy'n union sy'n mynd i'w cyflawni. Roeddwn i eisiau gwneud yr un pwynt ag y mae Antoinette Sandbach newydd ei wneud, mewn gwirionedd, am gryfder gwirioneddol prosiectau enghreifftiol a'r effaith 'dros ffens yr ardd'. Roedd prosiect gorgorsydd Pumlumon yn enghraifft berffaith o hynny. Wrth i bob ffermwr unigol ddechrau cefnogi'r prosiect, gallai weld sut roedd yn gweithio ac roedd y peth yn ymestyn allan, a manteision gwirioneddol i'w gweld i ffermwyr unigol, ond hefyd o ran atal llifogydd yr holl ffordd ar hyd dalgylch yr afon o'r orgors dan sylw ar hyd aber yr Hafren ac yn y blaen. Dylem fod yn falch iawn yng Nghymru ein bod yn gallu effeithio felly ar rai o'n dalgylchoedd llifogydd afon. Felly, rwy'n falch bod y Llywodraeth yn derbyn hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I take the point about Natural Resources Wales made in recommendation 11 and the response to it. I would be pleased if the Minister would say that he will be keeping a careful eye on that working in practice and just keep an overview on it because we are all very concerned that data should be collected correctly and applied correctly to the projects as they roll out.

In terms of recommendation 12 and the acceptance in principle, again, I am delighted to see that. I understand that it is an acceptance in principle because you are awaiting the reports on the research that comes out. Minister, I would be really grateful to hear your responses as that research is known. The committee will be really interested in following that up and making sure that we really do spread this approach out. Again, I agree with all of the committee members in saying that we encountered a large number of land managers from every area of Wales, not just farmers but everyone else—the environment non-governmental organisations and everyone else who owns land, such as the Royal Society for the Protection of Birds and so on—who are really enthusiastic to get this approach going and only wanted a little bit of a hook from the Government to actually get them there. I know that the Minister, as he returns to this portfolio, will be very keen to see that happen, and I know that the Minister has also been very keen on that in a previous life.

The last point that I wanted to make was on the development of partnerships and the investment from the private sector as we take that forward. This is not just about Government leverage; this is about assisting people to make businesses out of delivering things like carbon sinks because they are planting trees, or flood prevention because they are restoring blanket bogs, or the very best possible research, as in, 'We thought it was good to drain the blanket bogs, but now we realise that that is a very bad thing, so we are actually going back on something we did 20 years ago'. So, I suppose that what I am looking for is reassurance that the Government sees this innovative new system as a real hook for driving things forward, and actually sees it as part of an invest-to-save strategy—to save financially, but also to save for the future of the Earth and the future of Wales as a clean, green country. So, I would look for that assurance, Minister.

Rwy'n derbyn y pwynt am Cyfoeth Naturiol Cymru a wneir yn argymhelliad 11 a'r ymateb iddo. Byddwn yn falch pe bai'r Gweinidog yn dweud y bydd yn cadw llygad barcud ar y gwaith yn ymarferol ac yn cadw trosolwg arno oherwydd ein bod i gyd yn bryderus iawn y dylid casglu data yn gywir a'i gymhwyso'n gywir i'r prosiectau wrth iddynt gael eu cyflwyno.

O ran derbyn argymhelliad 12 mewn egwyddor, unwaith eto, rwy'n falch iawn o weld hynny. Rwy'n deall mai derbyn mewn egwyddor ydyw oherwydd eich bod yn aros am yr adroddiadau ar yr ymchwil sy'n dod allan. Weinidog, byddwn yn ddiolchgar iawn i glywed eich ymatebion wrth i'r ymchwil ddod yn hysbys. Bydd y pwyllgor â diddordeb gwirioneddol mewn newyddion dilynol ar hynny a gwneud yn siŵr ein bod yn lledaenu'r dull hwn o weithredu mewn gwirionedd. Unwaith eto, rwy'n cytuno â phob un o aelodau'r pwyllgor wrth ddweud inni glywed gan nifer fawr o reolwyr tir o bob rhan o Gymru, nid yn unig ffermwyr ond pawb arall—sefydliadau anllywodraethol yr amgylchedd a phawb arall sy'n berchen ar dir, megis y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ac yn y blaen—sy'n wirioneddol frwd i gael y dull hwn ar ei draed ac eisiau ychydig o ysgogiad gan y Llywodraeth i'w cael yno, dyna i gyd. Gwn fod y Gweinidog, wrth iddo ddychwelyd at y portffolio hwn, yn awyddus iawn i weld hynny'n digwydd, a gwn fod y Gweinidog hefyd wedi bod yn frwd iawn ynghylch hynny yn ei waith blaenorol.

Y pwynt olaf roeddwn am ei wneud oedd un am ddatblygu partneriaethau a buddsoddiad gan y sector preifat wrth inni symud ymlaen ar hynny. Nid ymwneud ag ysgogiad y Llywodraeth yn unig y mae hyn; mae'n ymwneud â chynorthwyo pobl i wneud busnesau o ddarparu pethau fel dalfeydd carbon oherwydd eu bod yn plannu coed, neu atal llifogydd oherwydd eu bod yn adfer gorgorsydd, neu'r ymchwil gorau posibl, yn yr ystyr o 'Roeddem yn meddwl ei fod yn syniad da i ddraenio'r gorgorsydd, ond erbyn hyn rydym yn sylweddoli bod hynny'n beth drwg iawn, felly rydym yn mynd yn ôl at rywbeth y byddem yn ei wneud 20 mlynedd yn ôl'. Felly, mae'n debyg mai'r hyn rwy'n chwilio amdano yw sicrwydd bod y Llywodraeth yn gweld y system newydd arloesol hon fel ysgogiad go iawn ar gyfer gyrru pethau yn eu blaenau, ac mewn gwirionedd yn ei weld fel rhan o'r strategaeth buddsoddi i arbed—arbed arian, ond arbed ar gyfer dyfodol y Ddaear hefyd, a dyfodol Cymru fel gwlad lân, werdd. Felly, rwy'n edrych am y sicrwydd hwnnw, Weinidog.

16:45

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased also to be contributing to this debate today, and I would like to add my thanks to the clerking team, to the former committee Chair, Lord Dafydd Elis-Thomas, who presided over the early stages of this inquiry, and also to all who gave evidence to the committee during the past year. I think that it is particularly important to note, as our current Chair and other speakers have done, that it is particularly valuable that the committee undertook what I think in total were eight separate visits to inform this inquiry, and those visits were literally to all parts of this country. This is a reflection of the clear need to ensure that the Assembly is able to reach out and be relevant to all parts of Wales, and not just some metropolitan elite.

Rwy'n falch iawn hefyd o gyfrannu at y ddatl hon heddiw, a hoffwn ychwanegu fy niolch i'r tîm clericio, i gyn-Gadeirydd y pwyllgor, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, a gadeiriodd gamau cynnar yr ymchwiliad hwn, a hefyd i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n meddwl ei bod yn arbennig o bwysig nodi, fel y mae ein Cadeirydd presennol a siaradwyr eraill wedi'i wneud, pa mor werthfawr oedd yr wyth ymweliad i gyd, rwy'n meddwl, a wnaed gan y pwyllgor i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, ac roedd yr ymweliadau hynny'n llythrennol ym mhob rhan o'r wlad. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r angen clir i sicrhau bod y Cynulliad yn gallu estyn allan a bod yn berthnasol i bob rhan o Gymru, nid i elit metropolitaidd yn unig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome very much the Welsh Government's acceptance of all 14 of the report's recommendations, but note that nine have a caveat of being accepted in principle. Clearly, it will be a task for the committee in future months to scrutinise what the impact of this response, particularly with those caveats, will be, to ensure that meaningful and measurable actions are taken by the Welsh Government to deliver on those goals. One element that I would like to focus on in particular is that of the next RDP. In the general upheaval of yesterday, we had a rather limited statement on the RDP. However, we have yet to see much of the detail to fully understand what the implications are for the report's recommendations. I would appreciate any comments that the Minister might have in that regard. As such, it would be particularly helpful if the Minister could expand in his response on the Welsh Government's response to recommendation 13, in terms of what alternative payment mechanisms would be explored to reward land managers for the delivery of environmental goods and services.

In more general terms, I think it is worth reflecting on the central conclusions of the report, which highlight a lack of a clear definition of what sustainable land management actually is, how outcomes need to be articulated, both at national and regional levels, how we must do more to close knowledge gaps and then to share that knowledge and, finally, how we establish markets for ecosystems services for the time to come. While many can argue over the precise issue of the definition of sustainability, I think that we are best served by remembering that when it comes to land management, we always need to give due consideration to the primacy of food production and the vital importance of food security in relation to the agriculture sector.

Back when we began this inquiry, one of the very first points that I put to witnesses was to note that 14 August last year marked the day upon which the United Kingdom would literally run out of food if it was solely reliant on home-grown produce. While I am unsure by which date that threshold will be reached this year, it continues to serve as a powerful reminder that we need to be managing our landscapes better, that we can produce far more food than we presently do, and that our sustainability is about far more than just how we treat our local ecosystems.

Finally, I want to touch on the tremendous importance of improving mobility in the agriculture sector, and also bringing in fresh ideas to the sector in preparing the way for the crucial next generation. Clearly, the Malcolm Thomas review will play a key part in this, and I would be grateful if the Minister could offer us an update on how it plans to take that forward over the recess in the context of the next RDP.

Rwy'n croesawu'n fawr fod Llywodraeth Cymru yn derbyn pob un o 14 argymhelliad yr adroddiad, ond yn nodi bod naw yn cynnwys y cafeat o gael eu derbyn mewn egwyddor. Yn amlwg, yn ystod y misoedd i ddod, bydd yn dasg i'r pwyllgor graffu ar effaith yr ymateb hwn, yn arbennig gyda'r cafeatau hynny, er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn rhoi camau ystyrlon a mesuradwy ar waith i gyflawni'r nodau hynny. Un elfen yr hoffwn ganolbwyntio arni yn arbennig yw'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Yn y cynnwrf cyffredinol ddoe, cawsom ddatganiad braidd yn gyfyngedig ar y Cynllun Datblygu Gwledig. Fodd bynnag, rydym eto i weld llawer o'r manylion er mwyn deall yn llawn beth yw'r goblygiadau o ran argymhellion yr adroddiad. Byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau y gallai'r Gweinidog eu cynnig yn y cyswllt hwnnw. Fel y cyfryw, byddai'n arbennig o ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog ehangu yn ei ymateb ar ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 13, o ran pa ddulliau talu eraill fyddai'n cael eu harchwilio i wobrwyo rheolwyr tir am ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.

Yn fwy cyffredinol, rwy'n credu ei bod yn werth ystyried casgliadau canolog yr adroddiad, sy'n amlygu diffyg diffiniad clir o beth yw rheoli tir yn gynaliadwy mewn gwirionedd, sut y mae angen i ganlyniadau gael eu mynegi, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, sut y mae'n rhaid inni wneud mwy i gau bylchau yn yr wybodaeth ac yna rhannu'r wybodaeth honno, ac yn olaf, sut rydym yn sefydlu marchnadoedd i wasanaethau ecosystemau ar gyfer y dyfodol. Er y gall nifer ddadlau dros union fater y diffiniad o gynaliadwyedd, rwy'n meddwl mai'r hyn sydd orau inni ei wneud yw cofio bob amser, pan ddaw'n fater o reoli tir, fod yn rhaid inni roi ystyriaeth ddyledus i uchafiaeth cynhyrchu bwyd a phwysigrwydd hanfodol diogelwch bwyd mewn perthynas â'r sector amaethyddol.

Yn ôl pan ddechreuwyd yr ymchwiliad hwn, un o'r pwyntiau cyntaf a roddais i dystion oedd nodi mai 14 Awst y llynedd oedd y diwrnod y byddai'r Deyrnas Unedig yn llythrennol yn rhedeg allan o fwyd pe bai'n gwbl ddibynol ar gynnyrch wedi'i dyfu gartref. Er nad wyf yn sicr ar ba ddyddiad y bydd y trothwy hwnnw'n cael ei gyrraedd eleni, mae'n parhau i'n hatgoffa'n bwerus fod angen inni reoli ein tirweddau'n well, y gallwn gynhyrchu llawer mwy o fwyd nag a wnawn ar hyn o bryd, a bod ein cynaliadwyedd yn ymwneud â llawer mwy na'r ffordd rydym yn trin ein hecosystemau lleol.

Yn olaf, rwyf am grybwyll pwysigrwydd aruthrol gwella symudedd yn y sector amaethyddiaeth, a dod â syniadau newydd i'r sector wrth baratoi'r ffordd ar gyfer y genhedlaeth nesaf hollbwysig. Yn amlwg, bydd adolygiad Malcolm Thomas yn chwarae rhan allweddol yn hyn, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog gynnig yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â sut y mae'n bwriadu symud ymlaen ar hynny dros y toriad yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf.

16:49

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths.

I call on the Minister for Natural Resources, Culture and Sport, John Griffiths.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Natural Resources, Culture and Sport

This is my first Plenary commitment regarding my new ministerial responsibilities for natural resources, and I would like to thank Members for their good wishes and also recognise the work of my predecessor, as Minister with responsibility for natural resources, Alun Davies, for his commitment and good work in taking forward strategy and policy for natural resources in Wales.

I would also like to thank the Chair, Alun Ffred Jones, and members of the Environment and Sustainability Committee for their work in undertaking the inquiry that led to the publication of the report; I very much welcome it and the emerging recommendations, and am pleased to have the opportunity to highlight the Government's response today.

I am pleased to say that we have accepted, either in full or in principle, all 14 of the recommendations. We believe that they complement the Welsh Government's approach in this area, and many of the steps that we are already taking are supported by the findings.

An important context to my agreement to many of the committee's recommendations is that, as a Government, we are ensuring that we apply our commitment to sustainable development. This means that we must integrate the management of our natural resources and recognise the key interdependencies.

The sustainable management of natural resources, therefore, goes further than a focus on the activities on the land, and this relates to the points about definition. It must include how we sustainably use our water, air and seas. Those definitions will be put in place through the environment Bill to capture this and provide the foundation for how Wales's natural resources will be utilised, enhanced and maintained for the long term.

In terms of the points on data, fundamental to our approach is having the best available evidence. The committee has highlighted the importance of a cohesive framework within which evidence is collected and used. We know that there are some gaps in our knowledge, including the data that we require to set clear goals and ambitions, not only for the sustainable management of land but for all of our natural resources.

The environment Bill will put in place a duty on Natural Resources Wales to prepare a report on the state of natural resources. This will provide an evidence base upon which the Welsh Government will frame its national natural resources policy and, of course, monitor progress towards those objectives.

Dyma fy ymrwymiad cyntaf yn y Cyfarfod Llawn o ran fy nghyfrifoldebau gweinidogol newydd dros adnoddau naturiol, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu dymuniadau da a chydabod gwaith Alun Davies hefyd, fy rhagflaenydd, fel y Gweinidog a oedd â chyfrifoldeb dros adnoddau naturiol, am ei ymrwymiad a'i waith da yn datblygu strategaeth a pholisi ar gyfer adnoddau naturiol yng Nghymru.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Cadeirydd, Alun Ffred Jones, ac aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am eu gwaith yn cynnal yr ymchwiliad a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad; rwy'n ei groesawu'n fawr a'r argymhellion sy'n codi ohono, ac rwy'n falch o gael y cyfle i dynnu sylw at ymateb y Llywodraeth heddiw.

Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi derbyn pob un o'r 14 argymhelliad, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor. Rydym yn credu eu bod yn ategu dull Llywodraeth Cymru o weithredu yn y maes hwn, ac mae llawer o'r camau rydym eisoes yn eu cymryd wedi'u cefnogi gan y canfyddiadau.

Cyd-destun pwysig i fy nghytundeb i lawer o argymhellion y pwyllgor yw ein bod, fel Llywodraeth, yn sicrhau ein bod yn cymhwysio ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni integreiddio'r broses o reoli ein hadnoddau naturiol a chydabod y gyd-ddibyniaeth allweddol rhyngddynt.

Felly mae rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn mynd ymhellach na chanolbwyntio ar weithgareddau ar y tir, ac mae hyn yn ymwneud â'r pwyntiau ynglŷn â diffiniad. Mae'n rhaid iddo gynnwys sut rydym yn defnyddio ein dŵr, ein haer a'n moroedd yn gynaliadwy. Bydd y diffiniadau hynny yn cael eu rhoi ar waith drwy'r Bil amgylchedd i grisialu hyn ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer y modd y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu defnyddio, eu gwella a'u cynnal ar gyfer y tymor hir.

O ran y pwyntiau ynglŷn â data, rhan allweddol o'n dull o weithredu yw sicrhau bod gennym y dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae'r pwyllgor wedi tynnu sylw at bwysigrwydd fframwaith cydlynol ar gyfer casglu a defnyddio dystiolaeth. Gwyddom fod bylchau yn ein gwybodaeth, gan gynnwys y data sydd ei angen arnom i osod nodau ac amcanion clir, nid yn unig ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy, ond ar gyfer ein holl adnoddau naturiol.

Bydd Bil yr amgylchedd yn gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol. Bydd hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth i Lywodraeth Cymru allu llunio ei pholisïau adnoddau naturiol cenedlaethol ac wrth gwrs, i fonitro cynnydd tuag at yr amcanion hynny.

Following the establishment of Natural Resources Wales last year, the Bill will take the next step in establishing a modern statutory framework for the sustainable management of those natural resources. A further crucial point is that sustainable management must consign to history what we see as false trade-offs between our environment and our economy. Going forward, particularly in the context of climate change, if we are to have the prosperous economy that we want, it has to go hand in hand with health and resilience for our environment; that is something that we will be very keen to ensure.

I hear the points that Members make about land managers. Of course, it is important that we support them to deliver on a number of different fronts. Yes, food production will continue to be key, but the ability to diversify and take advantage of the opportunities presented by 'Green Growth Wales: Investing in the Future' is as vital to our future management of water and carbon as it is to the future resilience of the industry.

Of course, Glastir is a key programme in delivering those priorities and it very much links with the rural development plan. Glastir will continue to be the primary delivery model for agri-environment, forestry and climate measures under that rural development plan.

Glastir is a scheme that differs from its predecessors by being the first scheme designed with a full range of long-term challenges specifically in mind. At the same time, the design of the scheme also gives consideration to the more familiar challenges that agri-environment measures had previously aimed to address in halting the decline of our native biodiversity, enhancing our landscape and preserving our historical heritage.

I believe that it is of paramount importance that the rural development plan is used to offer support, through advice, financial reimbursement, recognition and reward, to ensure that land managers are actively engaged in action that supports the Welsh economy, society and environment, and secures future prosperity and resilience for agriculture and the wider rural economy.

We must move to a win-win situation for our economy, society and environment. That is why, last month, in London, we launched a prospectus for green growth, capturing the huge potential in Wales for that growth to enable our businesses, rural and otherwise, to thrive. That includes significant opportunities for land managers at the heart of the creation of the low-carbon economy that we must become.

Yn dilyn sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru y llynedd, bydd y Bil yn rhoi'r cam nesaf ar waith o ran sefydlu fframwaith statudol modern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Pwynt arall hanfodol yw bod yn rhaid i reoli cynaliadwy droi cefn am byth ar yr hyn a ystyriwn yn fargen ffug rhwng ein hamgylchedd a'n heconomi. Wrth edrych i'r dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd, os ydym am gael yr economi ffyniannus a ddymunwn, mae'n rhaid iddi fynd law yn llaw ag iechyd a gwydnwch ein hamgylchedd; mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn awyddus iawn i'w sicrhau.

Rwy'n dlywed y pwyntiau y mae'r Aelodau yn eu gwneud am reolwyr tir. Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn eu cefnogi i gyflawni mewn nifer o wahanol ffyrdd. Bydd, bydd cynhyrchu bwyd yn parhau'n allweddol, ond mae'r gallu i arallgyfeirio a manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan 'Twf Gwyrdd Cymru: Buddsoddi yn y Dyfodol' yr un mor hanfodol o ran y modd y byddwn yn rheoli dŵr a charbon yn y dyfodol ag y mae o ran cadernid y diwydiant yn y dyfodol.

Wrth gwrs, mae Glastir yn rhaglen allweddol o ran cyflawni'r blaenoriaethau hynny ac mae'n cysylltu'n agos â'r cynllun datblygu gwledig. Glastir fydd y model cyflawni sylfaenol o hyd ar gyfer mesurau amaeth-amgylcheddol, coedwigaeth a hinsawdd o dan y cynllun datblygu gwledig.

Mae Glastir yn gynllun gwahanol i'w ragflaenwyr am mai dyma'r cynllun cyntaf a luniwyd gydag ystod lawn o heriau mawr hirdymor mewn golwg yn benodol. Ar yr un pryd, mae lluniad y cynllun hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r heriau mwy cyfarwydd roedd mesurau amaeth-amgylcheddol wedi anelu'n flaenorol i fynd i'r afael â hwy er mwyn atal dirywiad ein bioamrywiaeth frodorol, gwella ein tirwedd a gwarchod ein treftadaeth hanesyddol.

Rwy'n credu ei bod yn hollbwysig ein bod yn defnyddio'r cynllun datblygu gwledig i gynnig cefnogaeth, drwy gyngor, ad-daliadau ariannol, cydnabod a gwobrwyo, i sicrhau bod rheolwyr tir yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith sy'n cefnogi economi Cymru, y gymdeithas a'r amgylchedd, ac yn sicrhau ffyniant a gwydnwch ar gyfer amaethyddiaeth a'r economi wledig ehangach yn y dyfodol.

Rhaid inni symud i sefyllfa lle y bydd ein heconomi, y gymdeithas a'r amgylchedd ar eu hennill. Dyna pam y lanswyd prospectws ar gyfer twf gwyrdd y mis diwethaf yn Llundain, gan grisialu'r potensial enfawr yng Nghymru i'r twf alluogi ein busnesau, gwledig ac fel arall, i ffynnu. Mae hynny'n cynnwys cyfleoedd sylweddol i reolwyr tir sydd wrth wraidd y gwaith o greu'r economi carbon isel sy'n rhaid inni ei mabwysiadu.

In developing a low-carbon economy, it is fundamentally about creating the conditions for that different type of growth that is truly sustainable, socially inclusive, resilient and environmentally sound. It is about making the growth process resource-efficient and more climate-resilient. Rather than slowing it down, we see a position whereby economic growth and prosperity is quickened and strengthened through that approach, and it is one to which the Welsh Government is very committed. I believe that all Members across the Chamber are similarly committed. I look forward to working with them as I take forward my new responsibilities.

Mae datblygu economi carbon isel yn ymwneud yn sylfaenol â chreu'r amodau ar gyfer y math gwahanol o dwf sy'n wirioneddol gynaliadwy, yn gynhwysol yn gymdeithasol, yn wydn ac yn amgylcheddol gadarn. Mae'n ymwneud â sicrhau bod y broses dyfu yn gallu gwneud defnydd effeithlon o adnoddau a gwrthsefyll yr hinsawdd yn well. Yn hytrach na'i arafu, gwelwn sefyllfa lle y caiff twf economaidd a ffyniant ei gyflymu a'i gryfhau drwy'r dull hwn o weithredu, ac mae'n un y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn iddo. Rwy'n credu bod yr holl Aelodau ar draws y Siambr wedi ymrwymo yn yr un modd. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda hwy wrth imi fwrw ymlaen gyda fy nghyfrifoldebau newydd.

16:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i ymateb i'r ddatl.

I call on the Chair of the committee to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:56

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y drafodaeth. Nid ydyw wedi bod yn ddatl hir iawn, ond mae hynny'n ddigon priodol achos, yn y bôn, does dim ots beth rydym ni'n dweud yma heddiw; yr hyn sy'n bwysig yw'r gweithredu a fydd yn dilyn. Rwy'n credu bod honno'n thema gyson trwy'r cyfraniadau, sef mae'r hyn a fydd yn deillio, nid o'r adroddiad hwn, ond o ymateb y Llywodraeth, a fydd yn y cyfrif yn y pen draw.

I thank everyone who has contributed to this debate. It has not been a very long debate, but that is appropriate because, basically, it does not matter what we say here today; what is important is the action that follows. I think that that is a consistent theme throughout the contributions, namely that what is going to stem, not from the report, but from the response of the Government, is what will count.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cychwynnwyd â chyfeiriad at fawnogydd yr ucheldir, ac rwy'n gwybod bod y pwyllgor wedi bod yn edrych ar y gwaith sy'n digwydd ar y mawnogydd hynny i gau'r ffosydd, ac, fel roedd Antoinette Sandbach yn cyfeirio, mae hynny yn gwyrddo'r polisi a gafwyd 20 mlynedd yn ôl, lle'r oedd ffermwyr yn cael eu talu i agor ffosydd. Erbyn hyn maent yn cael eu talu i'w cau, oherwydd rhesymau amgylcheddol.

There was a reference at the outset to peat bogs, and I know that the committee has looked at the work that is happening on those peat bogs to close the ditches, and that, as Antoinette Sandbach referred, overturns the policy of 20 years ago, where farmers were paid to open ditches. By now, they are paid to close them, due to environmental reasons.

Yn sicr, mae'r pwynt yr oedd Antoinette hefyd yn ei wneud ynghylch yr angen inni gael mwy o gig ar yr asgwrn, o ran ymateb y Llywodraeth, yn un cwbl deg, achos nid yw cytuno yn gyffredinol â phwyntiau, fel yr wyf wedi dysgu yn y lle hwn, yn cyflawni fawr o ddim byd. Mae angen y manylion ac mae angen gweld cynllun gweithredu, a dyna fydd yn profi a yw'r Llywodraeth o ddifrif ai peidio.

Certainly, the point that Antoinette made as well on the need for us to have more meat on the bones, in terms of the Government's response, is very fair, because agreeing in general with points, as I have learnt in this place, does not achieve much. We need the details and we need to see the action plan, and that is what will prove whether the Government is serious or not.

Fe gyfeiriodd Julie James at frwdfrydedd y rhanddeiliaid, ac rwy'n ategu hynny, yn fy mhrofiad i o ran gwaith y pwyllgor yn y cyfeiriad hwnnw. Hefyd, pwysleiswyd pwysigwydd y prosiectau ymarferol ac enghreifftiol hynny ar lawr gwlad sy'n gwneud gwahaniaeth ac sy'n annog y rhai sy'n gweithio ar y tir i ddilyn yr enghreifftiau da hynny. Mae manteision ac enillion mawr i'r economi os cawn ni hyn yn iawn.

Julie James referred to the enthusiasm of the stakeholders, and I endorse that, based on my experience in terms of the committee's work in that area. Also, there was an emphasis on the importance of the practical and the exemplary projects on the ground, which are making a difference and are encouraging those who work on the land to follow those good examples. There are big advantages and benefits for the economy if we get this right.

Pwysleisiodd William Powell wedyn bwysigrwydd a rhan ganolog y cynllun datblygu gwledig, a chyfeiriodd y Gweinidog at hynny hefyd. Yn hyn o beth, yr hyn sydd ei angen yw eglurder ynghylch yr amcanion a'r deilliannau a sut y gallwn eu cyflawni. I wneud hynny, mae angen cyfathrebu neges glir a dealladwy i'r rhai yr effeithir arnynt er mwyn arwain at weithredu effeithiol a fydd yn gwneud y gwahaniaeth ac arwain at y sefyllfa 'win-win' yr oedd y Gweinidog yn cyfeirio ati. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae'n 'win-win-win', oherwydd rydych chi'n gallu creu amgylchedd sydd yn gynaliadwy, cyfrannu at gymdeithas sydd yn gadarnach ac sy'n fwy grymus a hyderus ac, wrth wneud hynny, bydd yr economi yn cryfhau. Fodd bynnag, rydym ni'n bell iawn o hynny ar hyn o bryd. Er bod camau pwysig wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf ac er bod gweithredu cadarnhaol, rwy'n credu mai megis dechrau rydym ar y daith honno. Felly, bydd hon yn brawf ar y Llywodraeth ac ar randdeiliaid. Atgoffaf y Gweinidog y bydd y pwyllgor yn dod yn ôl i weld pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud yn ystod 2015, ac rwy'n siŵr y bydd yn falch o gael dod i adrodd ar hynny i'r pwyllgor. Diolch unwaith eto i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad.

William Powell then emphasised the importance and the central role of the rural development plan, and the Minister referred to that as well. In this sense, what we need is clarity on the objectives and the outcomes and how we can achieve them. To do that, we need to communicate a clear and coherent message to those who are impacted in order to lead to effective action, which is going to make the difference and lead to a win-win situation that the Minister referred to. However, in reality, it is win-win-win, because you can create an environment that is sustainable, contribute to a society that is more robust and more powerful and confident, and, in doing that, the economy itself can be strengthened. However, we are a long way away from that at present. Even though important steps have been taken over the last few years and there has been positive action, I think that we are only starting on that journey. Therefore, this will be a test for the Government and stakeholders. I remind the Minister that the committee will come back to this to see what progress has been made during 2015, and I am sure that he will be pleased to come back to report on that to the committee. Once again, I thank everyone who contributed to the report.

17:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The proposal is to note the Environment and Sustainability Committee's report. Does any Member object? There is no objection. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:01

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Cod Gweinidogol

Welsh Conservatives Debate: The Ministerial Code

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Andrew R.T. Davies to move the motion.

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i gynnis y cynnig.

Cynnig NNDM5555 Paul Davies, Elin Jones, Aled Roberts

Motion NNDM5555 Paul Davies, Elin Jones, Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r Cod Gweinidogol: Cod Moseg a Chanllawiau Gweithdrefnol i Weinidogion.

1. Notes the Ministerial Code: A code of Ethics and Procedural Guidance for Ministers.

2. Yn nodi disgwyliad y Prif Weinidog bod yr holl Weinidogion, Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol yn cydymffurfio â'r Cod.

2. Notes the First Minister's expectation that all Ministers, Deputy Ministers and the Counsel General adhere to the Code.

3. Yn nodi'r adroddiad i'r Prif Weinidog ar gydymffurfiaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd â'r Cod Gweinidogol mewn perthynas â Cylchfordd Cymru, sy'n cadarnhau bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi torri'r Cod Gweinidogol.

3. Notes the 'Report to the First Minister on the observance of the Ministerial Code by the Minister for Natural Resources & Food, in respect of the Circuit of Wales' which confirms the breaching of the Ministerial Code by the Minister for Natural Resources and Food.

4. Yn galw am benodi Dyfarnwr Annibynnol y Cod Gweinidogol er mwyn gwella tryloywder a, thrwy hynny, cynyddu hyder yn y rhai a gaiff eu hethol i swyddi cyhoeddus.

4. Calls for the appointment of an Independent Adjudicator of the Ministerial Code in order to improve transparency and thereby increase confidence in those elected to public office.

I move the motion.

I am formally moving the motion that is in the name of the three business managers of the three opposition parties—Paul Davies, Elin Jones and Aled Roberts. Today's debate is most probably best encapsulated by Harold Macmillan's words and his take on things: 'Events, dear boy, events'. That is, his referral to the fact that events overtake things in politics. When this debate was tabled, we were very much dealing with the issue of the response of the Government, and in particular that of the First Minister, to the Permanent Secretary's report into the activities of the then Minister for Natural Resources and Food.

It is important to consider why we have a ministerial code and, ultimately, what that ministerial code is about and what it sets out to achieve. We are all elected to this institution as individual AMs and we all have a responsibility to our constituencies and regions. Ultimately, I would hope that everyone battles hard and champions the cause of the particular area of Wales that they represent in the Chamber. Out of the Chamber, obviously, the largest party forms the Government, and it is, I am sure, a huge privilege to sit in Government and to be asked by whoever sits in the chair of the First Minister to participate in the decision-making process that that Government is undertaking, based on the manifesto that has been put before the people of Wales. That is why the ministerial code is there: to make sure that the political ideology that the governing party wishes to put into its policy, and the implementation of the policy, and the spending of the money that it has via its budget, are completely, if you like, insulated from the legitimate lobbying of individual Assembly Members. There is a huge amount of privileged information that Ministers have, and there is obviously the issue of judicial reviews and court proceedings that the Government might find itself entangled in, trying to argue the point when its decisions are challenged in court. Therefore, there needs to be that separation and insulation from the day-to-day lobbying and articulating the cause for our constituencies and regions. No-one disputes that, and any democracy and any institution in the western world, if you like, has those codes of practice.

Therefore, we are not arguing about having a ministerial code and procedural guidance for Ministers to adhere to; what we are saying is that, obviously, in this particular instance, there has been a breach, as the First Minister clearly identified. The process of arriving at that conclusion was welcome this time around, because obviously the Permanent Secretary was brought in at the opening stages by the First Minister, in response to the letter from Antoinette Sandbach requesting that the First Minister undertake a review into the dealings of the then Minister to see whether the ministerial code had been breached. There was nothing in the guidance to say that the First Minister had to do that, and I do not think that that, procedurally, had been undertaken before—that is, referral to the Permanent Secretary and a report being undertaken. I stand to be corrected on that, but I do not think that it had been done before. That was a very welcome move. What was also welcome in this whole process was that, when the report was put together, it was made available for Members and the public to see.

Cynigiau y cynnig.

Rwy'n cynnig yn ffurfiol y cynnig sydd yn enw tri rheolwr busnes y tair gwrthblaid—Paul Davies, Elin Jones ac Aled Roberts. Crynhoir dadl heddiw orau yn ôl pob tebyg gan eiriau Harold Macmillan a'i olwg ef ar bethau: 'Events, dear boy, events'. Hynny yw, ei gyfeiriad at y ffaith bod digwyddiadau'n llywio pethau mewn gwleidyddiaeth. Pan gyflwynwyd y ddadl hon, roeddem yn ymddrin i raddau helaeth ag ymateb y Llywodraeth, ac yn arbennig y Prif Weinidog, i adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol ar weithgareddau'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

Mae'n bwysig ystyried pam y mae gennym god gweinidogol ac yn y pen draw, yr hyn y mae'r cod gweinidogol yn ymwneud ag ef a'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni. Cawsom i gyd ein hethol i'r sefydliad hwn fel ACau unigol ac mae gennym oll gyfrifoldeb i'n hetholaethau a'n rhanbarthau. Yn y pen draw, byddwn yn gobeithio bod pawb yn ymladd yn galed ac yn hyrwyddo achos yr ardal benodol o Gymru y maent yn ei chynrychioli yn y Siambr. Y tu allan i'r Siambr, yn amlwg, y blaid fwyaf sy'n ffurfio'r Llywodraeth, ac rwy'n siŵr ei bod yn ffrain enfawr bod yn rhan o'r Llywodraeth a bod y sawl sy'n Brif Weinidog yn gofyn ichi gymryd rhan yn y broses o wneud y penderfyniadau sy'n wynebu'r Llywodraeth yn seiliedig ar y manifestio a roddwyd gerbron pobl Cymru. Dyna pam y mae'r cod gweinidogol yno: i wneud yn siŵr bod yr ideoleg wleidyddol y mae'r blaid lywodraethol yn dymuno ei chynnwys yn ei pholisi, a gweithrediad y polisi, a gwariant yr arian sydd ganddi yn ei chyllideb, wedi'i hinswleiddio, os hoffwch, yn gyfan gwbl rhag lobio cyfreithlon Aelodau Cynulliad unigol. Mae gan Weinidogion lawer iawn o wybodaeth freintiedig, ac yn amlwg, ceir adolygiadau barnwrol ac achosion llys y gallai'r Llywodraeth fynd yn rhan ohonynt wrth geisio dadlau'r pwynt pan gaiff ei phenderfyniadau eu herio yn y llys. Felly, mae angen ymwahanu ac inswleiddio o'r fath rhag lobio o ddydd i ddydd a mynegi'r achos dros ein hetholaethau a'n rhanbarthau. Nid oes neb yn amau hynny, ac mae gan unrhyw ddemocratiaeth ac unrhyw sefydliad yn y byd gorllewinol, os hoffwch, y codau ymarfer hynny.

Felly, nid ydym yn dadlau ynglŷn â chael cod gweinidogol ac arweiniad gweithdrefnol i Weinidogion llynu atynt; yr hyn rydym yn ei ddweud yw ei bod yn amlwg yn yr achos penodol hwn, fod y cod wedi'i dorri, fel y nododd y Prif Weinidog yn glir. Roedd y broses o ddoed i'r casgliad hwnnw i'w groesawu y tro hwn, oherwydd mae'n amlwg fod y Prif Weinidog wedi cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol ar y camau agoriadol, mewn ymateb i'r llythyr gan Antoinette Sandbach yn gofyn i'r Prif Weinidog gynnal adolygiad ar ymwneud y Gweinidog ar y pryd i weld a oedd y cod gweinidogol wedi'i dorri. Nid oedd dim yn y canllawiau i ddweud bod yn rhaid i'r Prif Weinidog wneud hynny, ac nid wyf yn credu bod hynny, yn drefniadol, wedi cael ei wneud cyn hyn—hynny yw, atgyfeirio'r mater at sylw'r Ysgrifennydd Parhaol a llunio adroddiad. Rwy'n barod i gael fy nghywiro ar hynny, ond nid wyf yn credu ei fod wedi'i wneud o'r blaen. Roedd yn weithred i'w chroesawu'n fawr. Mater arall i'w groesawu yn yr holl broses hefyd oedd bod yr adroddiad ar gael i'r Aelodau a'r cyhoedd ei weld wedi iddo gael ei lunio.

It was a damning report, to say the least—the contents of which I do not think many people could find any comfort in reading, particularly the individual Minister concerned. I will refer to some extracts, if the Chamber will indulge me. In point 36 of the report, it states that the advice was given to the Minister that he

‘should not comment on the matter, even in his AM capacity’.

It goes on to say that:

‘Welsh Ministers collectively have responsibility for determining the outcome if an application is sent to them on appeal or if it is called in.’

So, collectively, the whole Government has a responsibility in this particular field. The report also went on to point out that there was a greying of the area when the Minister challenged Natural Resources Wales in respect of the way he referred to the ministerial letter of direction that he had written. Ultimately, the code had been broken, which all of us understood.

From the opposition side, we welcome the process that led to the independent report from the Permanent Secretary. There is nothing that says that that would happen next time round, and that is what point 4 of this motion is clearly setting out: that we believe that it needs to be formalised, in that where there is a complaint or a belief that the ministerial code has been breached or broken, an independent person should step in as a matter of course to look into the procedures and processes, put a report together, lay that report before the Assembly and present it to the First Minister. It is entirely right that whoever is the First Minister picks his or her Cabinet and the Ministers that sit within the Cabinet. People can then objectively look at the report that has been put together and decide whether the First Minister has exercised good judgment in keeping that individual within the Cabinet, or is just playing raw politics by trying to hold the Cabinet together, and hold support within his or her party group in the Assembly, because there are two considerations.

On the way in today, I was listening to the phone-in on Radio Wales. Collectively, we were all being blamed for yesterday’s events. People did not discriminate between the Government and the Assembly as a whole: it was, ‘Those lot down in Cardiff bay’; it was, ‘The Assembly has done this’ or ‘Politicians have done that’. Many people outside this institution, regrettably even after 15 years, are unable to clearly understand the procedures and processes that we have. The more transparent that we can make those processes and procedures, the better and easier it will be for people to understand how Government is conducted in Wales.

Roedd yn adroddiad damniol, a dweud y lleiaf—ni fyddai llawer o bobl yn cael cysur o ddarllen ei gynnwys, yn enwedig y Gweinidog dan sylw. Rwyf am gyfeirio at rai dyfyniadau, os yw'r Siambr yn fodlon. Ym mhwynt 36 yr adroddiad, mae'n nodi bod y cyngor wedi'i roi i'r Gweinidog

‘na ddylai wneud sylwadau ar y mater, hyd yn oed yn rhinwedd ei swydd fel AC’.

Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

‘mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb ar y cyd dros benderfynu ar y canlyniad os yw cais yn cael ei anfon atynt ar apêl neu os yw'n cael ei alw i mewn.’

Felly, ar y cyd, mae gan y Llywodraeth gyfan gyfrifoldeb yn y maes penodol hwn. Aeth yr adroddiad yn ei flaen hefyd i nodi bod tir llwyd o ran y modd yr heriodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r ffordd y cyfeiriai at y llythyr cyfarwyddyd gweinidogol a ysgrifennodd. Yn y pen draw, mae'r cod wedi cael ei dorri, a deallai pawb ohonom hynny.

O ochr y gwrthbleidiau, rydym yn croesawu'r broses a arweiniodd at yr adroddiad annibynnol gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Nid oes dim sy'n dweud y byddai hynny'n digwydd y tro nesaf, a dyna'r hyn y mae pwynt 4 y cynnig hwn yn ei nodi'n eglur: ein bod yn credu bod angen iddo gael ei ffurfioli, o ran os ceir cwyn neu gred bod y cod gweinidogol wedi cael ei dramgwyddo neu ei dorri, dylai unigolyn annibynnol gamu i mewn fel mater o drefn i edrych ar y gweithdrefnau a'r prosesau, llunio adroddiad, rhoi'r adroddiad gerbron y Cynulliad a'i gyflwyno i'r Prif Weinidog. Mae'n gwbl briodol bod y sawl sy'n Brif Weinidog yn dewis ei Gabinet a bod Gweinidogion yn rhan o'r Cabinet. Yna gall pobl edrych yn wrthrychol ar yr adroddiad a luniwyd a phenderfynu a yw'r Prif Weinidog wedi arfer crebwyll da yn cadw'r unigolyn yn rhan o'r Cabinet, neu a yw'n arfer gwleidyddiaeth noeth drwy geisio dal y Cabinet at ei gilydd, a chynnal cefnogaeth o fewn grŵp ei blaid yn y Cynulliad, oherwydd ceir dwy ystyriaeth.

Ar y ffordd i mewn heddiw, roeddwn yn gwrandao ar raglen ffonio i mewn ar Radio Wales. Gyda'n gilydd, caem i gyd ein beio am ddigwyddiadau ddoe. Nid oedd pobl yn gwahaniaethu rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd: ‘y giwed yna i lawr ym mae Caerdydd’ oedd hi; ‘Mae'r Cynulliad wedi gwneud hyn’ neu ‘Mae gwleidyddion wedi gwneud y peth arall’ oedd hi. Yn anffodus, mae llawer o bobl y tu allan i'r sefydliad hwn, hyd yn oed ar ôl 15 mlynedd yn methu â deall yn glir y gweithdrefnau a'r prosesau sydd gennym. Po fwyaf tryloyw y gallwn wneud y prosesau a'r gweithdrefnau hynny, gorau oll a hawsaf yn y byd fydd hi i bobl ddeall sut y caiff busnes y Llywodraeth ei gynnal yng Nghymru.

Let us not forget that we all sit in here and talk about representing the people of Wales. Sadly, only 40-odd per cent of the electorate actually engages in those elections. The largest party here—this is not a derogatory comment; you quite rightly sit on those benches because you are the largest party—has the support of an even smaller percentage of the overall electorate to make the decisions. We, as the largest opposition party, have the support of an even smaller amount again. We are only talking of 40% of the electorate actually engaging with the Assembly electoral process. It is vital that we put the measures in place that give people confidence that the people that they elect to this institution will operate with the highest integrity, the highest honesty and, above all, with the best interests of the people of Wales at heart. If we can do that successfully, we will be a long way down the road to increasing voter turnout at Assembly elections and supporting the key decisions that are made in this building and by the Government that emanates out of the building by being the largest party.

So, the motion today is quite clear and quite straightforward. As I have mapped out, there is a reason why we have a ministerial code; it is to create the guidelines to separate a ministerial role and the legitimate role of all 60 of us as Assembly Members to canvass, lobby and promote interests within our constituencies and regions. That is perfectly legitimate. For those in this Chamber who have the huge privilege of sitting within Government and having executive responsibility, and therefore access to sensitive information, and in particular the purse strings of the Government's budget and control over where that money is spent, there has to be a clear understanding as to how that is used. We can only spend that pound once, and if a Minister is lobbying for that to go into his or her constituency on the merit that they are the Minister, rather than on the merit of the proposal, that might well mean that instead of Rhyl getting that pound, it could be spent in this instance in Blaenau Gwent or somewhere else in south Wales. You have to have a fair crack of the whip so that people have confidence.

Above all, we want to see complete transparency of the process by having this independent adjudicator introduced into the system so that, where there is a reference for a perceived breach of the code, the First Minister, as a right, refers it to that independent person, who collects the evidence and presents the report. It is not taking the responsibility away from the First Minister to make that decision because he or she—whoever sits in the middle there—has the right to ultimately determine the fate of the Minister. The public will draw its conclusions from the evidence that is presented. I hope that people will endorse the motion tabled on the explanation that I have given to the Chamber this afternoon, and I urge support of the motion before us this afternoon.

Gadewch inni beidio ag anghofio ein bod i gyd yn eistedd yma ac yn siarad am gynrychioli pobl Cymru. Yn anffodus, dim ond tua 40 y cant o'r etholwyr sy'n cymryd rhan yn yr etholiadau hynny mewn gwirionedd. Mae'r blaid fwyaf yma—nid sylw dirmygus yw hwn; rydych yn eistedd ar y meinciau hynny yn gwbl briodol am mai chi yw'r blaid fwyaf—yn cael cefnogaeth canran hyd yn oed yn llai o'r etholwyr yn gyffredinol i wneud y penderfyniadau. Rydym ni, fel yr wrthblaid fwyaf, yn cael cefnogaeth nifer hyd yn oed yn llai eto. Dim ond 40% o'r etholwyr sy'n ymwneud â phroses etholiadol y Cynulliad. Mae'n hanfodol ein bod yn rhoi mesurau ar waith sy'n rhoi hyder i bobl y bydd y bobl y maent yn eu hethol i'r sefydliad hwn yn gweithredu yn y modd mwyaf cywir a gonest, ac yn anad dim, gyda buddiannau gorau pobl Cymru yn eu calonnau. Os gallwn wneud hynny yn llwyddiannus, byddwn wedi gwneud llawer i gynyddu nifer y bobl sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ac sy'n cefnogi'r penderfyniadau allweddol a wneir yn yr adeilad hwn, ac o'r adeilad gan y Llywodraeth gan mai hi yw'r blaid fwyaf.

Felly, mae'r cynnig heddiw yn glir ac yn syml. Fel y dangosais, mae yna reswm pam y mae gennym god gweinidogol; mae'n creu canllawiau i wahanu rôl weinidogol a rôl ddilys y 60 ohonom fel Aelodau'r Cynulliad i ganfasio, lobbio a hyrwyddo buddiannau ein hetholaethau a'n rhanbarthau. Mae hynny'n berffaith gyfreithlon. Ar gyfer y rhai yn y Siambr sydd wedi cael y fraint enfawr o fod yn rhan o'r Llywodraeth a chael cyfrifoldeb gweithredol, a chael mynediad at wybodaeth sensitif, ac yn arbennig, llinyn y pwrs cyllidebol a rheolaeth dros ble y caiff yr arian ei wario, mae'n rhaid cael dealltwriaeth glir o'r modd y caiff y fraint ei defnyddio. Ni allwn ond gwario'r bunt unwaith, ac os yw Gweinidog yn lobbio iddi fynd i'w etholaeth ar sail y ffaith ei fod yn Weinidog, yn hytrach nag ar sail teilyngddod y cynnig, gallai hynny olygu bod y bunt honno'n cael ei gwario ym Mlaenau Gwent neu rywle arall yn ne Cymru yn hytrach na bod y Rhyl yn cael y bunt. Rhaid i chi gael cyfle teg er mwyn i bobl gael hyder.

Yn anad dim, rydym am weld tryloywder cyflawn yn y broses drwy gynnwys dyfarnwr annibynnol i mewn i'r system fel bod y Prif Weinidog â hawl i gyfeirio canfyddiad bod y cod wedi'i dramgwyddo ato, a bydd yr unigolyn annibynnol dan sylw yn casglu'r dystiolaeth ac yn cyflwyno'r adroddiad. Nid yw'r Prif Weinidog yn colli'r cyfrifoldeb dros wneud y penderfyniad gan y bydd hawl gan y sawl sy'n Brif Weinidog—pwy bynnag sy'n eistedd yn y canol yno—i benderfynu ar dynged y Gweinidog yn y pen draw. Bydd y cyhoedd yn ffurfio'i gasgliadau ei hun o'r dystiolaeth a gyflwynir. Rwy'n gobeithio y bydd pobl yn cymeradwyo'r cynnig a gyflwynwyd ar yr esboniad a roddais i'r Siambr y prynhawn yma, ac rwy'n eich annog i gefnogi'r cynnig a roddwyd gerbron y prynhawn yma.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

I want to begin by saying how proud I am of this institution. While I do not very often agree with very much that Welsh Government does, I absolutely believe that it is the right of the Welsh people to elect a Welsh Government and for the public policy that dictates so much of our lives to be decided here in Cardiff bay. Do I think that we have a standards problem across this institution? No, I do not. I am also very proud that, as an institution, collectively, we have avoided some of the worst excesses that we have seen in other places. When I campaigned alongside the First Minister and others in this Chamber for the establishment of a National Assembly for Wales, we did so on the basis of wanting to create a new politics in Wales, a better way of doing politics in Wales. By and large, I think that all of us who have been elected to this Chamber over the years have strived and strived again to make that a reality: a better politics, a politics that looks at and focuses on what we can agree on rather than what separates and divides us. It is a better way of doing things, one that truly listens to our constituencies and turns that into public policy.

The events of the last two weeks have been damaging. Of course, they have been damaging to the individual involved and they have been damaging to the Welsh Government, but those of us on the opposition benches would be deluded if we thought that it had not been damaging to all of us and to this institution and to the public confidence in politicians yet again. So, we must, I believe, look to ourselves and try once more to find new ways to restore the trust and to renew those bonds of trust between us and the electorate. As Welsh Liberal Democrats, we have long called for independent policing of the ministerial code, and we have tried to advance that argument at times when we have not been in the storm of a debate about the actions of one individual person. We have done that because we think that there is simple merit in that case, and it is easier to talk about those things when we are not talking about individuals. However, the First Minister has constantly rejected that call, and yet we find ourselves now in a situation where we are discussing it again, all caught up in the behaviour of one individual person.

Now, I welcome very much the involvement this time of the Permanent Secretary in providing a report to the First Minister. It is very welcome indeed. However, it does not mean that it would happen again. It does not mean that the next time somebody has concerns—whether they are Assembly Member concerns or a member of the public's concerns—about a Minister's behaviour that the First Minister will make that judgment. We have no stated way of dealing with breaches of the ministerial code, and that is in sharp contrast, Deputy Presiding Officer, to the very clear and very structured way that backbenchers are treated within this Chamber. I would argue that what is good for a backbench Assembly Member is good for somebody who has the privilege of sitting in the Welsh Government.

Rwyf am ddechrau drwy ddweud pa mor falch wyf fi o'r sefydliad hwn. Er nad wyf yn cytuno'n aml iawn gyda llawer o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, rwy'n credu'n llwyr yn hawl pobl Cymru i ethol Llywodraeth Cymru ac y dylai'r polisi cyhoeddus sy'n llywio cymaint ar ein bywydau gael ei benderfynu yma ym mae Caerdydd. A wyf fi'n meddwl bod gennym broblem safonau ar draws y sefydliad hwn? Na, nid wyf yn credu hynny. Rwyf hefyd yn falch iawn ein bod fel sefydliad ar y cyd wedi osgoi rhai o'r enghreifftiau gwaethaf o ormodedd a welsom mewn manau eraill. Pan oeddwn yn ymgyrchu ochr yn ochr â'r Prif Weinidog ac eraill yn y Siambwr hon dros sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gwnaem hynny ar y sail ein bod eisiau creu gwleidyddiaeth newydd yng Nghymru, ffordd well o ymdrin â gwleidyddiaeth yng Nghymru. Ar y cyfan, credaf fod pob un ohonom sydd wedi'i ethol i'r Siambwr hon dros y blynyddoedd wedi ymdrechu ac ymdrechu eto i wireddu hynny: gwleidyddiaeth well, gwleidyddiaeth sy'n ystyried ac yn canolbwyntio ar yr hyn y gallwn gytuno yn ei gylch yn hytrach na'r hyn sy'n ein gwahanu ac yn ein rhannu. Mae'n ffordd well o wneud pethau, un sy'n gwranddo mewn gwirionedd ar ein hetholaethau ac yn troi hynny'n bolisi cyhoeddus.

Mae digwyddiadau'r pythefnos diwethaf wedi bod yn niweidiol. Wrth gwrs eu bod wedi bod yn niweidiol i'r unigolyn dan sylw ac maent wedi bod yn niweidiol i Lywodraeth Cymru, ond byddai'r rheini ohonom sydd ar feinciau'r wrthblaid yn twyllo ein hunain pe baem yn meddwl na fu'n niweidiol i bawb ohonom ac i'r sefydliad hwn ac i hyder y cyhoedd mewn gwleidyddion unwaith eto. Felly, rwy'n credu ei bod yn rhaid inni edrych arnom ein hunain a cheisio dod o hyd i ffyrdd newydd o adfer yr ymddiriedaeth unwaith eto ac i adnewyddu'r clymaw hynny o ymddiriedaeth rhyngom a'r etholwyr. Fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rydym wedi galw ers amser am blismona'r cod gweinidogol yn annibynnol, ac rydym wedi ceisio hyrwyddo'r ddadl ar adegau pan nad ydym wedi bod ynghanol storm dadl ynghylch gweithredoedd un unigolyn. Gwnaethom hyn oherwydd ein bod yn credu bod rhinwedd syml yn hynny, ac mae'n haws siarad am y pethau hyn pan nad ydym yn trafod unigolion. Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog wedi gwrthod yr alwad honno'n gyson, ac eto cawn ein hunain yn awr mewn sefyllfa lle rydym yn ei drafod eto, ynghlwm wrth ymddygiad un unigolyn.

Yn awr, rwy'n croesawu ymwneud yr Ysgrifennydd Parhaol yn fawr y tro hwn, yn darparu adroddiad i'r Prif Weinidog. Mae i'w groesawu'n fawr iawn yn wir. Fodd bynnag, nid yw'n golygu y byddai'n digwydd eto. Nid yw'n golygu y tro nesaf y bydd gan rywun bryderon—pa un a ydynt yn bryderon Aelod Cynulliad neu'n bryderon aelod o'r cyhoedd—ynghylch ymddygiad Gweinidog, y bydd y Prif Weinidog yn gwneud y penderfyniad hwnnw. Nid oes gennym ffordd benodedig o ymdrin ag achosion o dramgwyddo'r cod gweinidogol, a hynny mewn cyferbyniad llwyr, Ddirprwy Lywydd, â'r ffordd glir a strwythuredig iawn y caiff aelodau'r meinciau cefn eu trin o fewn y Siambwr hon. Byddwn yn dadlau bod yr hyn sy'n iawn i Aelod o feinciau cefn y Cynulliad yn iawn i rywun sydd â'r fraint o gael bod yn rhan o Lywodraeth Cymru.

I absolutely uphold the right of the First Minister to hire and fire his Cabinet members. That is his ultimate right, but I do not uphold his right to decide who is independently examined or independently reported on if there is a breach of the ministerial code. There should be the right for a member of the public or a Member of this institution to make their complaints directly to a commissioner for standards, in the same way as they would for a backbench Member, and for that commissioner to evaluate that complaint, draw up a report and investigate, if necessary, and then provide that report to the First Minister to do with whatever he saw fit.

It is not just the Welsh Liberal Democrats who have said that, previously, and I am glad to have the support of the other two parties here today. It is the standards commissioner and the committee of this place that has repeatedly, when it has been asked to look at the standards regime across this institution, highlighted this inequity in the system, time and again in its reports. It has repeatedly called upon the First Minister to look again at how this system works.

What I am asking the First Minister to do today is to establish an independent person— independent of politics and the civil service—to whom the job is tasked of receiving complaints from members of the public or anyone else if they feel that a Minister has breached that code, and to independently judge and evaluate whether there is cause for an investigation and if there is, to carry out that investigation and make their findings available to the First Minister and indeed, to the members of the public. Ultimately, it will be for the First Minister to judge the future of that Minister. I find it very difficult to understand why a First Minister would resist this opportunity to help restore those bonds of trust between us and the electorate.

17:16

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it is fair to say that when the no named day motion was originally tabled last week, we, in the opposition parties, saw it as an opportunity to further scrutinise the breach of the ministerial code, which was identified in the report on the former Minister for Natural Resources and Food's behaviour, but events have moved on. The ministerial code is a bigger issue than any single Minister. Regardless of this week's decision by the First Minister and of the decision that he made last week, we do need to look at how future breaches are dealt with.

The First Minister told us yesterday that, as with the UK and Scottish Governments, he is responsible for the ministerial code. This is a fact. However, the First Minister did not point out that Wales is alone in not appointing an independent adviser or group of advisers who can investigate alleged breaches of the ministerial code, among other functions relating to Ministers, and provide a view.

Rwy'n llwyr gefnogi hawl y Prif Weinidog i benodi a diswyddo aelodau ei Gabinet. Dyna ei hawl yn y pen draw, ond nid wyf yn cefnogi ei hawl i benderfynu pwy sy'n cael ei archwilio'n annibynnol neu'n destun adroddiad annibynnol os tramgwyddir y cod gweinidogol. Dylai fod gan aelod o'r cyhoedd neu Aelod o'r sefydliad hwn hawl i gwyno'n uniongyrchol wrth gomisiynydd safonau, yn yr un modd ag y byddent yn ei wneud am Aelod o'r meinciau cefn, a dylai'r comisiynydd werthuso'r gŵyn honno, llunio adroddiad ac ymchwilio, os oes angen, yna darparu'r adroddiad ar gyfer y Prif Weinidog i wneud ag ef fel y gwêl yn dda.

Nid dim ond Democratiaid Rhyddfrydol Cymru sydd wedi dweud hynny, yn flaenorol, ac rwy'n falch o gael cefnogaeth y ddwy blaid arall yma heddiw. Pan ofynnwyd iddo edrych ar y gyfundrefn safonau ar draws y sefydliad hwn, comisiynydd a phwyllgor safonau y lle hwn sydd wedi tynnu sylw dro ar ôl tro yn ei adroddiadau at yr anghysondeb yn y system. Mae wedi galw dro ar ôl tro ar y Prif Weinidog i edrych eto ar sut y mae'r system hon yn gweithio.

Yr hyn rwy'n gofyn i'r Prif Weinidog ei wneud heddiw yw sicrhau bod unigolyn annibynnol—annibynnol o wleidyddiaeth a'r gwasanaeth sifil—yn ymgymryd â'r dasg o dderbyn cwynion gan aelodau o'r cyhoedd neu unrhyw un arall os ydynt yn teimlo bod Gweinidog wedi torri'r cod, ac i farnu a gwerthuso yn annibynnol a oes achos dros gynnal ymchwiliad ac os oes, i gynnal yr ymchwiliad a chyflwyno eu canfyddiadau i'r Prif Weinidog ac yn wir, i aelodau o'r cyhoedd. Yn y pen draw, mater i'r Prif Weinidog fydd penderfynu ar ddyfodol y Gweinidog. Rwy'n ei chael hi'n anodd iawn deall pam y byddai Prif Weinidog yn gwrthod y cyfle hwn i helpu i adfer y clymau o ymddiriedaeth rhyngom a'r etholwyr.

Pan gyflwynwyd y cynnig heb ddyddiad trafod yn wreiddiol yr wythnos diwethaf, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud ein bod ni yn y gwrthbleidiau wedi'i weld yn gyfle i graffu ymhellach ar achos o dramgwyddo'r cod gweinidogol a nodwyd yn yr adroddiad ar ymddygiad y cyn-Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ond mae digwyddiadau wedi symud ymlaen. Mae'r cod gweinidogol yn fater mwy nag unrhyw Weinidog unigol. Beth bynnag am y penderfyniad a wnaed yr wythnos hon gan y Prif Weinidog a'r penderfyniad a wnaeth yr wythnos diwethaf, mae angen inni edrych ar sut yr ymdrinnir ag achosion o dramgwyddo'r cod yn y dyfodol.

Fel yn llywodraethau'r DU a'r Alban, dywedodd y Prif Weinidog wrthym ddoe mai ef sy'n gyfrifol am y cod gweinidogol. Mae hyn yn ffaith. Fodd bynnag, ni nododd y Prif Weinidog mai Cymru yw'r unig wlad nad yw'n penodi cynghorydd annibynnol neu grŵp o gynghorwyr sy'n gallu ymchwilio achosion honedig o dramgwyddo'r cod gweinidogol, ymhlith swyddogaethau eraill mewn perthynas â Gweinidogion, a darparu safbwynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Of course, it is not the case that we have to copy other administrations, or follow what they are doing to the letter. As an example, the handling of the ministerial code by the UK Prime Minister has come under fire on several occasions. The two occasions that most of us will remember are in relation to Liam Fox and later on to Jeremy Hunt, who were his serving Ministers and the Prime Minister decided not to refer their cases to his independent adviser.

The Public Administration Select Committee later pointed to the weakness of a system where the Prime Minister retained overall control, and a point was made about the weakness of a regulator that could not launch its own investigations. I think that we should just think about that.

In terms of Scotland, the set up there involves an independent panel and the First Minister of Scotland referred himself to the panel for investigation in light of criticism over his stance on legal advice relating to whether an independent Scotland could join the EU. Now, he was cleared after a full investigation, independent of that Government, but of course, the politics of the independence referendum played a much larger role in that case than the kind of wrongdoing that we have been focusing on here.

While pointing out that, unlike Wales, the UK and Scottish Governments have independent advice in place in relation to their ministerial codes, the wider argument today is that we could actually do something better and more suitable to our own circumstances than the other administrations in question. That is what this motion does; it calls for the appointment of an independent adjudicator and we could demonstrate a high level of commitment to open government, to transparency and a new style of politics, which Kirsty Williams mentioned earlier on.

The problem for us, of course, is having to think about this and debate it when the First Minister has already turned his face against any change. Perhaps he would agree to look at this again in the future and reflect on how this is perceived as well as how it operates. That is a good thing in itself.

I do not disagree with the First Minister's argument yesterday that this week's sacking demonstrated that the current system worked and, no doubt, he will repeat that again this afternoon. It did work. However, that does not make it the best system—just because it worked. I think that we should look again at that.

I entirely agree with the First Minister—he must be free to appoint or dismiss as he sees fit. No-one else is entitled to that right, but an independent view brings strengths, which I think that we should not dismiss out of hand.

Wrth gwrs, nid yw'n wir fod yn rhaid inni efelychu gweinyddiaethau eraill, na dilyn yn union yr hyn a wnânt. Fel enghraifft, mae triniaeth Prif Weinidog y DU o'r cod gweinidogol wedi dod o dan y lach ar sawl achlysur. Y ddau achlysur y bydd y rhan fwyaf ohonom yn eu cofio oedd y rhai'n ymwneud â Liam Fox ac yn ddiweddarach â Jeremy Hunt, a oedd yn Weinidogion iddo, a phenderfynodd y Prif Weinidog beidio â chyfeirio eu hachosion at ei gynghorydd annibynnol.

Yn ddiweddarach nododd y Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus at wendid system lle'r oedd y Prif Weinidog yn cadw rheolaeth gyffredinol, a gwnaed pwynt ynghylch gwendid rheoleiddiwr na allai gychwyn ei ymchwiliadau ei hun. Rwy'n meddwl y dylem ystyried hynny.

O ran yr Alban, mae'r drefn i fyny yno yn cynnwys panel annibynnol a chyfeiriodd Prif Weinidog yr Alban ef ei hun at y panel i'w ymchwilio yng ngoleuni beirniadaeth o'i safbwynt ar gyngor cyfreithiol yn ymwneud ag a fyddai Alban annibynnol yn cael ymuno â'r UE. Yn awr, cafodd ei glirio ar ôl ymchwiliad llawn, yn annibynnol ar y Llywodraeth honno, ond wrth gwrs, chwaraeai gwleidyddiaeth y refferendwm annibyniaeth ran lawer mwy yn yr achos hwnnw na'r math o gamwedd rydym wedi bod yn canolbwyntio arno yma.

Wrth nodi bod gan lywodraethau'r DU a'r Alban gyngor annibynnol ar waith mewn perthynas â'u codau gweinidogol, yn wahanol i Gymru, y ddadl ehangach heddiw yw y gallem wneud rhywbeth gwell mewn gwirionedd a rhywbeth sy'n fwy addas i'n hamgylchiadau eu hunain na'r gweinyddiaethau eraill dan sylw. Dyna y mae'r cynnig hwn yn ei wneud; mae'n galw am benodi dyfarnwr annibynnol a gallem ddangos lefel uchel o ymrwymiad i lywodraeth agored, i dryloywder a math newydd o wleidyddiaeth, fel y soniodd Kirsty Williams yn gynharach.

Y broblem i ni, wrth gwrs, yw gorfod meddwl am hyn a'i drafod pan fo'r Prif Weinidog eisoes wedi sefyll yn erbyn newid. Efallai y byddai'n cytuno i edrych ar y mater eto yn y dyfodol ac ystyried sut y caiff hyn ei ddeall yn ogystal â sut y mae'n gweithredu. Mae hynny'n beth da ynddo'i hun.

Nid wyf yn anghytuno â dadl y Prif Weinidog ddoe fod y diswyddo yr wythnos hon wedi dangos bod y system bresennol yn gweithio, ac yn ddiau, bydd yn ailadrodd hynny eto y prynhawn yma. Mae wedi gweithio. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu mai dyma'r system orau—dim ond am ei bod yn gweithio. Rwy'n meddwl y dylem edrych ar hynny eto.

Cytunaf yn llwyr â'r Prif Weinidog—mae'n rhaid iddo fod yn rhydd i benodi neu ddiswyddo fel y gwel yn dda. Nid oes gan neb arall yr hawl honno, ond mae cryfderau i farn annibynnol, ac nid wyf yn credu y dylem fod yn rhy barod i ddiystyru hynny.

I think that one of the strengths that we should not dismiss out of hand is the fact that there is the opportunity to get very real answers to questions. It has been notable in this case that the particular breaches of the code have not been identified. They have been requested. We know that the First Minister has made a decision that the code has been breached. There were a number of potential breaches. Sir Derek Jones, in his report, has identified where the sections of breaches of the code took place, but a properly constituted report by an independent person who looked at the evidence for a particular breach and identified that breach would be key.

I also think that an independent person provides a measure of protection for the civil service. That has been important when seen in the light of subsequent events. It is particularly apparent in the circumstances facing Alun Davies that he received advice on 14 March from the civil service. The advice that he received was that he should not comment on the matter even in his AM capacity. First Minister, I know that the entire Cabinet was given advice because of the collective responsibility in respect of planning applications, and that was very clearly laid out on 28 March and is present in Sir Derek Jones's report, when all the Ministers were given advice that they should not comment because of the perceived prejudice to planning applications.

How did it look to members of the public? On 28 May, a body that had only been in existence since 1 April said to Blaenau Gwent County Borough Council:

'We have taken into consideration any mitigation proposed which will then help to offset the environmental impacts.'

It was Natural Resources Wales's view that there remained unacceptable environmental risk. That was the conclusion. This is a non-governmental body that was overseen by this particular Minister. That conclusion is what was challenged by Alun Davies. Against the advice given to him by his civil servants, he wrote to Natural Resources Wales saying:

'I am very anxious that this development goes ahead.'

He also called for a meeting, which, on 28 March, advice by civil servants said should not happen.

Sir Derek Jones noted in paragraph 59 of his report that the Minister said:

'I hope that between us we can agree a way forward.'

Sir Derek Jones said, in his report:

'In his AM capacity, Mr Davies would have had no role in agreeing a way forward in how NRW responded to its statutory planning responsibility.'

Rwy'n meddwl mai un o'r cryfderau na ddylem fod yn rhy barod i'w ddiystyru yw'r ffaith bod cyfle yma i gael atebion go iawn i gwestiynau. Agwedd nodedig o'r achos hwn yw na chafodd y tramgwyddau penodol o'r cod eu nodi. Gofynnwyd amdanynt. Gwyddom fod y Prif Weinidog wedi gwneud penderfyniad fod y cod wedi cael ei dorri. Roedd nifer o dramgwyddau posibl. Yn ei adroddiad, mae Syr Derek Jones wedi nodi'r rhannau lle y cafodd y cod ei dramgwyddo, ond byddai adroddiad wedi'i gyfansoddi'n briodol gan unigolyn annibynnol a edrychai ar y dystiolaeth am dramgwydd penodol ac a nodai'r tramgwydd yn allweddol.

Rwyf hefyd yn meddwl bod unigolyn annibynnol yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch i'r gwasanaeth sifil. Mae hynny wedi bod yn bwysig wrth edrych arno yng ngoleuni digwyddiadau dilynol. Mae'n arbennig o amlwg yn yr amgylchiadau sy'n wynebu Alun Davies ei fod wedi derbyn cyngor ar 14 Mawrth gan y gwasanaeth sifil. Y cyngor a dderbyniodd oedd na ddylai roi sylwadau ar y mater hyd yn oed yn rhinwedd ei swydd fel AC. Brif Weinidog, rwy'n gwybod bod y Cabinet cyfan wedi cael cyngor oherwydd y cydgyfrifoldeb mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. Cafodd hynny ei nodi'n eglur iawn ar 28 Mawrth ac mae i'w weld yn adroddiad Syr Derek Jones, pan roddwyd cyngor i'r holl Weinidogion na ddylent roi sylwadau oherwydd y rhagfarn ganfyddedig i geisiadau cynllunio.

Sut oedd aelodau'r cyhoedd yn gweld hyn? Ar 28 Mai, dywedodd corff nad yw ond wedi bodoli ers 1 Ebrill wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:

'Rydym wedi ystyried unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig a fydd wedyn yn helpu i wrthbwysu'r effeithiau amgylcheddol.'

Barn Cyfoeth Naturiol Cymru oedd bod risgiau amgylcheddol annerbyniol yn parhau. Dyna oedd y casgliad. Dyma gorff anllywodraethol a gâi ei oruchwyllo gan y Gweinidog penodol hwn. Y casgliad hwn roedd Alun Davies yn ei herio. Yn erbyn cyngor ei weision sifil, ysgrifennodd at Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dweud:

'Rwy'n awyddus iawn i'r datblygiad hwn fynd yn ei flaen.'

Galwodd hefyd am gyfarfod, a chafodd gyngor gan weision sifil ar 28 Mawrth yn dweud na ddylai'r cyfarfod ddigwydd.

Nododd Syr Derek Jones ym mharagraff 59 o'i adroddiad fod y Gweinidog wedi dweud:

'Rhyngom, rwy'n gobeithio y gallwn gytuno ar ffordd ymlaen.'

Dyweddodd Syr Derek Jones yn ei adroddiad:

'Yn rhinwedd ei swydd fel AC, ni fyddai gan Mr Davies unrhyw rôl yn y broses o gytuno ar y ffordd ymlaen o ran sut roedd CNC yn ymateb i'w gyfrifoldeb cynllunio statudol.'

It is a fact that Mr Davies was told not to express a view, and he did. The Minister was told not to meet with the developers, and he did. He met with developers and no notes were taken, which is in breach of common sense, let alone any ministerial or Assembly Member obligations. It is a fact that Sir Derek Jones's report said that

'Mr Davies' intervention could be interpreted as having had some influence on the way in which NRW exercised its statutory planning responsibilities from 18 June onwards'.

First Minister, I know that you accept that the code was broken, but I do not know which provisions of the code you say were broken and which you say were not. I know that you say that the advice given to Alun Davies was precautionary, but that advice existed, as Sir Derek Jones has stated, to preserve the integrity of the planning process.

I was surprised when you, First Minister, said that the Minister had not exercised sufficient care in clearly establishing the perception of full separation between his ministerial and constituency roles. What an independent person looking at this would do would be not only to look at the perception, but also to look at the acts and to make clear what the effects of those acts were. I think that the appointment of an independent person—. As Kirsty Williams says, all of us as Assembly Members are subject to referral, potentially, to the standards commissioner, so I do not see why Ministers should not be subject to the same.

17:25

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Every Government Minister has a duty to conduct himself or herself according to the highest standard of conduct in fulfilling their governmental roles, and members of the public should be secure in the knowledge that their Government is acting with integrity, objectivity and honesty. When there is an accusation that this has not been the case, this must be seen to be dealt with in the strongest possible terms, but it must be seen to be transparently dealt with as well.

The Welsh Liberal Democrats have not just been calling for this change in reaction to the recent scandals. We originally tabled a debate in November 2012 to discuss the issue and deliberately chose to do so at a time when there were no outstanding complaints, so that we could argue the case on pure principle. However, sadly, events have overtaken us and we do not have that luxury anymore. The pure principle is a very simple one: to protect the transparency of our political institutions so that the electorate at large can have confidence in them and can have faith that, when something has gone wrong, something will be done to deal with it. It is a principle that we have asked the Welsh Government to address over a long period of time, in our manifesto, in questions and in debates, only to have the First Minister rebuff the idea out of hand. I hope that the events of the last two weeks will, at least, give the First Minister cause to ponder on whether or not the independence with which these investigations are undertaken might be reviewed.

Mae'n ffaith y dywedwyd wrth Mr Davies i beidio â mynegi barn, a gwnaeth hynny. Dywedwyd wrth y Gweinidog am beidio â chyfarfod gyda'r datblygwyr, a gwnaeth hynny. Cyfarfu â datblygwyr ac ni wnaed nodiadau, sy'n dangos diffyg synnwyr cyffredin, heb sôn am rwymedigaethau fel gweinidog neu Aelod o'r Cynulliad. Mae'n ffaith bod adroddiad Syr Derek Jones yn dweud:

'Gellid dehongli bod ymyrraeth Mr Davies wedi cael peth dylanwad ar y ffordd y cyflawnodd CNC ei gyfrifoldebau cynllunio statudol o 18 Mehefin ymlaen'.

Brif Weindog, rwy'n gwybod eich bod yn derbyn bod y cod wedi torri, ond nid wyf yn gwybod pa ddarpariaethau yn y cod y dywedwch sydd wedi'u torri a pha rai nad ydynt wedi'u torri. Rwy'n gwybod eich bod yn dweud bod y cyngor a roddwyd i Alun Davies yn rhagofalus, ond roedd y cyngor hwnnw'n bodoli, fel y mae Syr Derek Jones wedi datgan, er mwyn diogelu uniondeb y broses gynllunio.

Brif Weindog, roeddwn yn synnu eich clywed yn dweud nad oedd y Gweinidog wedi bod yn ddigon gofalus wrth greu gwahaniaeth clir rhwng ei rôl weindogol ac etholaethol. Wrth edrych ar hyn, ni fyddai unigolyn annibynnol yn edrych ar y canfyddiad yn unig, ond byddai hefyd yn edrych ar y gweithredoedd ac yn egluro beth fyddai effaith y gweithredoedd hynny. Rwy'n meddwl y byddai penodi unigolyn annibynnol—. Fel y dywed Kirsty Williams, mae'n bosibl i bob un ohonom fel Aelodau Cynulliad i gael ein hatgyfeirio at y comisiynydd safonau, felly ni allaf weld pam na ddylai Gweinidogion fod yn ddarostyngedig i'r un drefn.

Mae gan bob Gweinidog Llywodraeth ddyletswydd i ymddwyn yn ôl y safon uchaf o ymddygiad wrth gyflawni ei swyddogaethau o fewn y llywodraeth, a dylai'r cyhoedd fod yn dawl eu meddwl o wybod bod eu Llywodraeth yn gweithredu gydag uniondeb, gwrthrychedd a gonestrwydd. Os ceir cyhuddiad nad felly y bu, rhaid gallu gweld bod y mater yn cael ei drin yn y modd cryfaf posibl, ond rhaid gallu gweld hefyd ei fod yn cael ei drin yn dryloyw.

Nid mewn ymateb i'r sgandalau diweddar yn unig y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn galw am y newid hwn. Yn wreiddiol, cyflwynwyd dadl gennyf ym mis Tachwedd 2012 i drafod y mater ac yn fwiadol, roeddem yn dewis gwneud hynny ar adeg pan nad oedd unrhyw gwynion ar y gweill, fel y gallem ddadlau'r achos ar egwyddor yn unig. Yn anffodus, fodd bynnag, mae digwyddiadau wedi bod yn drech na ni ac nid yw'r moethusrwydd hwnnw ar gael inni bellach. Mae'r egwyddor bur yn un syml iawn: diogelu tryloywder ein sefydliadau gwleidyddol fel y gall yr etholwyr yn gyffredinol fod yn hyderus yn eu cylch a chael hyder pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le, y bydd rhywbeth yn cael ei wneud i ymdrin â'r mater. Mae'n egwyddor rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hi ers amser hir, yn ein manifesto, mewn cwestiynau ac mewn dadleuon, ond y mae'r Prif Weindog wedi gwrthod y syniad bob tro. Rwy'n gobeithio y bydd digwyddiadau'r pythefnos diwethaf, o leiaf, yn rhoi lle i'r Prif Weindog ystyried a ddylid adolygu'r annibyniaeth sy'n sail i'r ymchwiliadau hyn ai peidio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Asking for the report by the Permanent Secretary is certainly a step in the right direction, but I would suggest that there is still a long way to go. For example, the Permanent Secretary, while impartial, is still very close to the day-to-day workings of the Government to perform such a duty. There is an issue of appearance, in that that relationship might not be seen to be independent. Also, the Permanent Secretary's report provided no recommendations for the First Minister, so it left the First Minister in a position where he had to make judgments on the basis of a simple statement of fact. We would like an independent adjudicator to go further: to be able to make recommendations to the First Minister for the First Minister then to act upon.

We have to ask ourselves a question: was the investigation by the Permanent Secretary a one-off, or will this be the normal practice from now on? As far as I can see, a precedent has been set, and I believe that that precedent is a good one, but I also believe that it needs to be formalised, so that people can be confident that the example that we have seen is not a one-off situation and that, if another incident were to occur, people would understand what the process would be, that the process is consistent from Minister to Minister and from case to case, and that people can expect a report to be published, so that everything can be seen in the public domain.

The First Minister has expressed concerns that this would mean that a non-elected official would have the ability to fire Ministers. This is not what we want to see. It is not a system that we believe would be practical. We want a system where, as Kirsty Williams said, an Assembly Member can call for an investigation by an independent adjudicator into the conduct of a Minister, and that that investigation would provide recommendations for actions for the First Minister. It would provide the First Minister with cover in the event of such an incident occurring in the future, and provide him with the confidence that the actions that he takes are ones that have been seen to be appropriate by an independent individual. It would then be up to the First Minister to justify the reasons why he had not taken the advice if he chose to decide that that was inappropriate at the time.

Mae gofyn am adroddiad gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn sicr yn gam i'r cyfeiriad iawn, ond byddwn yn awgrymu bod yna ffordd bell i fynd o hyd. Er enghraifft, er bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn ddiuedd, mae'n dal i fod yn agos iawn at waith y Llywodraeth o ddydd i ddydd i allu cyflawni dyletswydd o'r fath. Mae'n fater o ymddangosiad, yn yr ystyr y gallai ymddangos nad yw'r berthynas yn un annibynnol. Hefyd, nid oedd adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol yn darparu unrhyw argymhellion ar gyfer y Prif Weinidog, felly rhoddai'r Prif Weinidog mewn sefyllfa lle'r oedd yn rhaid iddo ffurfio barn ar sail datganiad ffeithiol syml. Byddem yn hoffi gweld dyfarnwr annibynnol yn mynd ymhellach: i allu gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog er mwyn i'r Prif Weinidog weithredu arnynt.

Mae'n rhaid inni ofyn cwestiwn i ni'n hunain: a oedd ymchwiliad yr Ysgrifennydd Parhaol yn rhywbeth a ddigwyddodd unwaith yn unig, neu ai dyma fydd yr arfer cyffredin o hyn ymlaen? Cyn belled ag y gallaf weld, mae cynsail wedi'i osod, a chredaf fod y cynsail yn un da, ond rwyf hefyd yn credu bod angen iddo gael ei ffurfioli, er mwyn i bobl fod yn hyderus nad yw'r enghraifft a welsom yn sefyllfa untro'n unig, a phe bai digwyddiad arall yn codi, byddai pobl yn deall beth fyddai'r broses, fod y broses yn gyson rhwng un Gweinidog a'r llall a rhwng un achos a'r llall, ac y gall pobl ddisgwyl i adroddiad gael ei gyhoeddi, fel y gellir gweld popeth yn gyhoeddus.

Mae'r Prif Weinidog wedi mynegi pryderon y byddai hyn yn golygu y gallai swyddog anetholedig ddiswyddo Gweinidogion. Nid dyna rydym am ei weld. Ni chredwn y byddai'n system ymarferol. Fel y dywedodd Kirsty Williams, rydym eisiau system lle y gall Aelod Cynulliad alw am ymchwiliad gan ddyfarnwr annibynnol i ymddygiad Gweinidog, ac y byddai ymchwiliad o'r fath yn darparu argymhellion i'r Prif Weinidog ar gyfer gweithredu. Byddai'n gwarchod y Prif Weinidog pe bai digwyddiad o'r fath yn digwydd yn y dyfodol, ac yn rhoi hyder iddo mai'r camau gweithredu a roddodd ar waith yw'r rhai y gwelwyd eu bod yn briodol gan unigolyn annibynnol. Mater i'r Prif Weinidog wedyn fyddai cyfiawnhau'r rhesymau pam na dderbyniodd y cyngor os yw'n penderfynu ei fod yn amhriodol ar y pryd.

Several years ago, the National Assembly agreed to a law that places the commissioner for standards on a statutory footing, and this law had support from all four parties here and from the Government. It had that support because we could see how important it was that the people of Wales could have confidence in their elected representatives. Why should Ministers not be on the same footing? All sorts of other professions have a system of regulation that is seen to be independent. Why not politicians too? At a time of growing cynicism towards politicians of all colours—and this does not help—we have a duty to make our political processes as transparent as possible, and certainly at least as transparent as our peers in other parts of this country. The current system is a long way from that. When we raised the issue for debate in November, we did so, as I say, at a time when there was no current scandal to colour the debate and force the issue, so that we could debate the issue on that principle alone and establish a system that was above suspicion and not a reactionary opportunity to change our systems in a knee-jerk way as a result of a present crisis. Well, we have a present crisis. That crisis has been dealt with, but we need to know that, when the next crisis arises, there will be a system in place that will deal with it appropriately.

Rai blynyddoedd yn ôl, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfraith sy'n gosod y comisiynydd safonau ar sail statudol, a chefnogwyd y gyfraith hon gan bob un o'r pedair plaid yma a chan y Llywodraeth. Cafodd y gefnogaeth honno am ein bod yn gallu gweld pa mor bwysig oedd hi i bobl Cymru gael hyder yn eu cynrychiolwyr etholedig. Pam na ddylai Gweinidogion gael eu trin yn yr un modd? Mae gan bob math o broffesiynau eraill systemau rheoleiddio sy'n cael eu hystyried yn annibynnol. Pam na all hynny fod yn wir i wleidyddion hefyd? Ar adeg o sinigiaeth gynyddol tuag at wleidyddion o bob lliw—ac nid yw hyn yn helpu—mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod ein prosesau gwleidyddol mor dryloyw â phosibl, ac yn sicr, o leiaf mor dryloyw â rhai ein cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r wlad hon. Mae'r system bresennol yn bell o fod yn hynny. Pan godwyd y mater gennym i'w drafod ym mis Tachwedd, gwnaethom hynny, fel y dywedais, ar adeg pan nad oedd unrhyw sgandal i liwio'r ddatl a gorfodi'r mater, er mwyn inni allu cael trafodaeth ar yr egwyddor yn unig a sefydlu system a oedd uwchben unrhyw amheuaeth yn hytrach na chyfle adweithiol i newid ein systemau mewn ffordd ddifeddwl o ganlyniad i argyfwng cyfredol. Wel, mae gennym argyfwng cyfredol. Ymdriniwyd â'r argyfwng hwnnw, ond mae angen inni wybod, pan ddaw'r argyfwng nesaf, y bydd system ar waith i ymdrin yn briodol â'r mater.

17:30

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted to take part in probably what is one of the most important debates that this Chamber has held since the creation of the Assembly.

Last week, the Welsh Conservatives told the First Minister that the position of the Welsh Labour Government's Minister for Natural Resources and Food was untenable following a report into his recent conduct, which concluded that he had broken the ministerial code. In his statement, the First Minister stated that the Minister,

'did not exercise sufficient care in clearly establishing the perception of full separation between his ministerial and constituency roles.'

He also stated:

'it is clear to me that the Ministerial Code was breached',

also saying that the Minister had apologised but that no further action would be taken.

I say that this was extremely poor judgment by the First Minister. As always, mistakes come back to haunt those ill-fated decision makers; certainly, that is my experience. Sadly, for the First Minister, his mistake did come back to haunt him less than a week later. We all now know that there are aspects of the First Minister's Cabinet that were not only lacking, but were totally inexcusable. That aside, the besieged Minister was sacked too late, some may argue, but credit where credit is due to the First Minister for finally acting.

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn yr hyn sydd, yn ôl pob tebyg, yn un o'r dadleuon pwysicaf a welwyd yn y Siambr hon ers creu'r Cynulliad.

Yr wythnos diwethaf, dywedodd y Ceidwadwyr Cymreig wrth y Prif Weinidog fod sefyllfa Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd Llywodraeth Lafur Cymru yn anghynnaladwy yn dilyn adroddiad ar ei ymddygiad diweddar a ddaeth i'r casgliad ei fod wedi torri'r cod gweinidogol. Yn ei ddatganiad, dywedodd y Prif Weinidog nad oedd y Gweinidog,

'wedi bod yn ddigon gofalus wrth greu gwahaniaeth clir rhwng ei rôl weinidogol ac etholaethol.'

Dywedodd hefyd:

'mae'n amlwg i mi fod y Cod Gweinidogol wedi ei dorri',

gan ychwanegu bod y Gweinidog wedi ymddiheuro ond na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

Rwy'n dweud bod hyn yn dangos crebwyll gwael iawn ar ran y Prif Weinidog. Fel pob amser, daw camgymeriadau yn ôl i darfu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau anffodus; yn sicr, dyna fy mhrofiad i. Yn anffodus i'r Prif Weinidog, daeth ei gamgymeriad yn ôl i darfu arno lai nag wythnos yn ddiweddarach. Rydym i gyd bellach yn gwybod bod agweddau o Gabinet y Prif Weinidog a oedd nid yn unig yn ddiffygiol, ond yn gwbl anfaddeuol. Gan roi hynny o'r neilltu, byddai rhai'n dadlau fod y Gweinidog anffodus wedi'i ddiswyddo'n rhy hwyr, ond dylid rhoi clod lle y mae'n ddyledus i'r Prif Weinidog am weithredu yn y diwedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This in itself is now why I think that this debate is significant and why I think that this debate is one of the most important debates that this Chamber has held since probably the creation of the Assembly. It is, because I frequently hear up and down Wales that people really have a mistrust of the process of government here, sadly. I will just broaden it by saying that, over the years, in my previous profession, I was engaged in central and eastern Europe in institution building and the fight against corruption, building a pathway for former countries to join a modern democratic Europe. When I look at what exists in Wales, and indeed at what has existed over the years, I am tempted to draw a comparison. Wales is stagnant and the Government needs to demonstrate its commitment to open government more regularly. That is not a throwaway soundbite; it is my considered opinion, having worked to build institutions, helping to build openness and transparency into the heart of governments of former regimes.

If, by some unimaginable fluke, the nationalists were to eventually realise their independence dream, I would be very interested to see what the European Union would impose on Wales as pre-accession conditions before Wales was allowed to join. As that is very unlikely, I do not think that we need to worry too much about it.

I am bound to say that, as an Assembly Member for the last three years, I find it very frustrating. Frankly, at times, I really find that the Government in Wales is nothing more than a wink, wink, nudge, nudge institution. I do not approve of it, nor should anyone else. Welsh civic society and some aspects of the media, as I say, are complicit if this institution is to grow and deliver for Wales, as I want it to. I hope that this sorry affair will present a wake-up call. As some Members would put it, it is time to wake up and smell the coffee. Transparency needs to be the word of the day in your statements, answers to written questions, and relationships with developers and key advisers.

In the coming months, I believe that there will be some interesting revelations on the way that this Government has performed in Wales. Chickens are coming home to roost, and I will be looking to ensure that Ministers will be held accountable for their actions, as indeed Alun Davies subsequently was.

So, Members, the ruling party here has an enormous responsibility to the people of Wales. I do not want Wales to become a poor relation of the United Kingdom. That is not something that I relish, and I will do all that I can to change it. This is not talking Wales down; it is speaking up for the people of Wales who want to know what you, as their Government, are actually doing on a day-to-day basis through their Members. They deserve to have honesty and integrity in Government. I feel that it is imperative, therefore, that the call for the appointment of an independent adjudicator of the ministerial code is supported in order that we can see improved transparency and an increase in confidence in those elected to public office. Thank you.

Dyma'n union pam rwy'n credu yn awr bod y ddadl hon yn bwysig, a pham rwy'n credu mai'r ddadl hon yw un o'r dadleuon pwysicaf yn y Siambr hon ers creu'r Cynulliad yn ôl pob tebyg. Mae'n wir, oherwydd rwy'n aml yn clywed ar hyd a lled Cymru fod pobl yn wirioneddol ddrwgdybio prosesau'r llywodraeth yma, yn anffodus. Rwyf am ehangu hynny drwy ddweud fy mod wedi cymryd rhan dros y blynyddoedd, yn fy mhroffesiwn blaenorol, ag adeiladu sefydliadau yng nghanol a dwyrain Ewrop a'r frwydr yn erbyn llygredd, gan adeiladu llwybr i gyn-wledydd ymuno ag Ewrop ddemocrataidd fodern. Pan fyddaf yn edrych ar yr hyn sy'n bodoli yng Nghymru, ac yn wir yr hyn sydd wedi bodoli dros y blynyddoedd, rwy'n cael fy nhemtio i gymharu. Mae Cymru yn farwaidd ac mae angen i'r Llywodraeth ddangos ei hymrwymiad i lywodraeth agored yn fwy rheolaidd. Nid sylw bachog difeddwl yw hwnnw; dyna fy marn ystyriol ar ôl gweithio ar adeiladu sefydliadau, a helpu i ymgorffori agwedd agored a thryloywder yn sail i lywodraethau cyn-gyfundrefnau.

Pe bai'r cenedlaetholwyr, drwy ryw hap annirnadwy, yn llwyddo i wireddu eu breuddwyd ynghylch annibyniaeth yn y pen draw, byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn gweld pa amodau fyddai'r Undeb Ewropeaidd yn eu gosod cyn i Gymru gael hawl i ymuno. Gan fod hynny'n annhebygol iawn, nid wyf yn credu bod angen inni boeni gormod am y peth.

Rhaid imi ddweud, fel Aelod Cynulliad dros y tair blynedd diwethaf, rwy'n ei gael yn waith rhwystredig iawn. A dweud y gwir, ar adegau, rwy'n meddwl nad yw'r Llywodraeth yng Nghymru yn ddim mwy na sefydliad 'wink, wink, nudge, nudge'. Nid wyf yn ei gymeradwyo, ac ni ddylai neb arall. Mae cymdeithas ddinesig Cymru a rhai agweddau ar y cyfryngau, fel y dywedais, yn rhan o hyn os yw'r sefydliad hwn i dyfu a chyflawni dros Gymru, fel rwyf eisiau iddo wneud. Rwy'n gobeithio y bydd y digwyddiad truenus hwn yn ysgytwad. Fel y byddai rhai Aelodau yn ei roi, mae'n bryd inni ddihuno ac arogl'i'r coffi. Tryloywder ddylai fod yn air y dydd yn eich datganiadau, yn eich atebion i gwestiynau ysgrifenedig, ac yn eich perthynas â datblygwyr a chynghorwyr allweddol.

Yn ystod y misoedd nesaf, rwy'n credu y bydd rhai datgeliadau diddorol ynghylch y ffordd y mae'r Llywodraeth hon wedi cyflawni yng Nghymru. Mae ein gweithredoedd yn dod yn ôl ar ein pennau, a byddaf yn ceisio sicrhau y bydd Gweinidogion yn cael eu dwyn yn atebol am eu gweithredoedd, fel yn wir y digwyddodd i Alun Davies yn y diwedd.

Felly, Aelodau, mae gan y blaid sy'n rheoli yma gyfrifoldeb enfawr tuag at bobl Cymru. Nid wyf am weld Cymru yn rhan sydd ar ei hôl hi o'r Deyrnas Unedig. Nid yw hynny'n rhywbeth rwyf yn ei fwynhau, a byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i'w newid. Nid bychanu Cymru yw hyn; mae'n ymwneud â siarad dros bobl Cymru sydd eisiau gwybod beth rydych chi, fel eu Llywodraeth, yn ei wneud mewn gwirionedd o ddydd i ddydd drwy eu Haelodau. Maent yn haeddu Llywodraeth onest a chywir. Rwy'n teimlo ei bod yn hanfodol, felly, fod yr alwad i benodi dyfarnwr annibynnol ar gyfer y cod gweinidogol yn cael ei chefnogi er mwyn inni allu gweld mwy o dryloywder a mwy o hyder yn y rhai a etholir i swyddi cyhoeddus. Diolch yn fawr.

17:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the First Minister.

Galwaf ar y Prif Weinidog.

17:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I thank Members for their contributions to what has been a debate that has dealt with the issues, and I intend to respond in kind. I think it is important to begin by offering an explanation of my thought processes over the course of the last week or two.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r hyn a fu'n ddadl sydd wedi ymdrin â'r materion, ac rwy'n bwriadu ymateb yn yr un ysbryd. Rwy'n credu ei bod yn bwysig dechrau drwy gynnig esboniad o fy mhrosesau meddwl yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf.

Antoinette Sandbach basically reiterated what was in Sir Derek Jones's report, and it is of course a report that I wholly accept. It was quite clear to me last week that the decision that I had to take was exceptionally finely balanced, and that was communicated to the Minister. I did not anticipate what would happen the following day—I do not think that anybody could have anticipated that. However, I can say to Members that I discovered on Friday morning last that there was, as was communicated to me, a problematic e-mail that had been passed on to my office by the private office of the Minister. On Monday, I became aware of the full extent of what had happened, and then, yesterday morning, I asked the Minister in and I listened to what he had to say, but the decision that I took was that he could no longer continue as a Minister in this Government. The irony, of course, is had there been a system in place at that time where everything was automatically referred to an independent person, that would have delayed the process, and so, as far as this week is concerned, a decision was taken, and it is a decision that I very much stand by.

Yn y bôn, roedd Antoinette Sandbach yn ailadrodd yr hyn a oedd yn adroddiad Syr Derek Jones, ac mae'n adroddiad rwy'n ei dderbyn yn gyfan gwbl wrth gwrs. Roedd yn eithaf amlwg i mi yr wythnos diwethaf fod y penderfyniad roedd yn rhaid imi ei wneud yn un eithriadol o anodd o ran sicrhau cydbwysedd a chafodd hynny ei gyfleu i'r Gweinidog. Ni ragwelais beth fyddai'n digwydd y diwrnod canlynol—nid wyf yn credu y gallai neb fod wedi rhagweld hynny. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrth yr Aelodau fy mod wedi darganfod fore dydd Gwener diwethaf fod e-bost problemus—fel y cafodd ei gyfleu wrthyf—wedi'i yrru ymlaen i fy swyddfa o swyddfa breifat y Gweinidog. Ddydd Llun, deuthum yn ymwybodol o'r hyn a ddigwyddodd yn llawn, yna, bore ddoe, gofynnais i'r Gweinidog ddod i mewn a gwrandawais ar yr hyn a oedd ganddo i'w ddweud, ond fy mhenderfyniad oedd na allai barhau i fod yn Weinidog yn y Llywodraeth hon mwyach. Yr eironi, wrth gwrs, yw pe bai system ar waith ar y pryd lle y câi popeth ei gyfeirio'n awtomatig i unigolyn annibynnol, byddai wedi achosi oedi yn y broses, ac felly, o ran yr wythnos hon, gwnaed penderfyniad, ac mae'n benderfyniad rwy'n glynu wrtho'n bendant.

I do not take the view that where such e-mails are communicated to me, any attempt should be made to suppress them. It was my decision to ensure that that e-mail was published. It was my decision that Members should be fully aware—and I wanted this to be as transparent as possible—of what had happened. I was not prepared to say simply that the Minister had left the Government without offering an explanation. I took the view that the only rational view that could be taken of the e-mail was that an attempt had been made to gather confidential information for use against those named Members—something that I took very seriously—and I took the view that Members in this Chamber, and indeed the public of Wales, should know that, because I do not believe that this is something that should be part of our politics here in Wales.

Pan fydd e-byst o'r fath yn cael eu hanfon ataf, nid wyf o'r farn y dylid gwneud unrhyw ymdrech i'w mygu. Fy mhenderfyniad i oedd sicrhau bod yr e-bost yn cael ei gyhoeddi. Fy mhenderfyniad i oedd sicrhau bod yr Aelodau yn gwbl ymwybodol o'r hyn a oedd wedi digwydd—ac roeddwn i eisïau i hyn fod mor dryloyw â phosibl. Nid oeddwn yn barod i ddweud yn syml fod y Gweinidog wedi gadael y Llywodraeth heb gynnig esboniad. Roeddwn o'r farn mai'r unig safbwynt rhesymegol y gellid ei ffurfio ynglŷn â'r e-bost oedd bod ymdrech wedi'i gwneud i gasglu gwybodaeth gyfrinachol i'w defnyddio yn erbyn yr Aelodau a enwyd—rhywbeth roeddwn yn ei gymryd yn wirioneddol o ddirif—a deuthum i'r farn y dylai Aelodau'r Siambr hon, ac yn wir y cyhoedd yng Nghymru, gael gwybod, oherwydd nid wyf yn credu bod hyn yn rhywbeth a ddylai fod yn rhan o'n gwleidyddiaeth yma yng Nghymru.

17:37 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very grateful for the First Minister's intervention, but if there had not been a complaint to you on the twelfth of this month, the meeting—. There was an e-mail from Alun Davies to Natural Resources Wales. There was a meeting that took place on 18 June. Were those meetings communicated to you at the time?

Rwy'n ddiolchgar iawn am ymyrraeth y Prif Weinidog, ond os na fydddech wedi cael cwyn ar y deuddegfed o'r mis hwn, byddai'r cyfarfod—. Cafwyd e-bost oddi wrth Alun Davies at Cyfoeth Naturiol Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod ar 18 Mehefin. A oeddech wedi cael gwybod am y cyfarfodydd hynny ar y pryd?

17:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Quickly, please.

Yn gyflym, os gwelwch yn dda.

17:38	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>It seems to me that it was only the complaint that triggered the inquiry that then brought this material to light.</p>	<p>Mae'n ymddangos i mi mai'r gŵyn yn unig a achosodd yr ymchwiliad a ddaeth â'r deunydd hwn i'r amlwg wedyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:38	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I think that the Member means June last year, not June this year.</p>	<p>Rwy'n meddwl bod yr Aelod yn golygu mis Mehefin y llynedd, nid mis Mehefin eleni.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:38	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes.</p>	<p>Ydw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:38	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I became aware of the situation regarding those complaints when the freedom of information request was made, and not before then. As a result of that, of course, I asked the Permanent Secretary to investigate the issue as he did.</p> <p>As I say, just to draw this particular issue to a close, I think that transparency is exceptionally important, and that is why I took the view, as I say, that Members should know what had happened. It was not sufficient, in my judgment, simply for the Minister to leave government without any explanation being given. I hope that Members understand my thought process in terms of that.</p> <p><i>Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:38.</i></p> <p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is quite clear that the system worked. The private office informed my office and informed me. If this was widespread throughout Government, then I would know about it, and private offices would be informing me of what was going on. So, I can give Members an assurance that this is not something that is common practice in Government; it is something that was an exception, but nevertheless an exception that must be dealt with.</p> <p>Could I turn to the contribution made first of all by the leader of the opposition? He is right to say that government is a privilege. It is not always a pleasure, nor is it easy, but then it is not meant to be. We accept that as we come into government. But one thing that I did notice, and I noticed it in the contributions of all Members, is that it is not clear what Members are asking for exactly. An adjudicator is a judge, simple as that: it is somebody who presides, arbitrates or judges in a formal dispute, and somebody who hands down judgments. Clearly—and I made this point in debates last week—the impression that the use of the word 'adjudicator' gives is of somebody who would actually judge the situation, and that judgment would be binding. That is not what Members have said today—I accept that—but that is what an adjudicator does. So, care must be taken with the terms that are used by Members in debates such as this.</p>	<p>Deuthum yn ymwybodol o'r sefyllfa o ran y cwynion hynny pan wnaed y cais rhyddid gwybodaeth, ac nid cyn hynny. O ganlyniad i hynny, wrth gwrs, gofynnais i'r Ysgrifennydd Parhaol ymchwilio i'r mater, fel y gwnaeth.</p> <p>Fel y dywedais, er mwyn cau pen y mwdwl ar y mater penodol hwn, credaf fod tryloywder yn eithriadol o bwysig, a dyna pam roeddwn o'r farn, fel y dywedais, y dylai'r Aelodau wybod beth oedd wedi digwydd. Nid oedd yn ddigon, yn fy marn i, i'r Gweinidog adael y llywodraeth yn syml heb i unrhyw esboniad gael ei roi. Rwy'n gobeithio bod yr Aelodau'n deall proses fy meddwl o ran hynny.</p> <p><i>The Presiding Officer took the Chair at 17:38.</i></p> <p>Mae'n gwbl glir bod y system yn gweithio. Rhoddodd y swyddfa breifat wybod i fy swyddfa a rhoddodd wybod i mi. Pe bai hyn yn digwydd yn gyffredin drwy'r Llywodraeth, yna byddwn yn gwybod am y peth, a byddai swyddfeydd preifat yn fy hysbysu ynglŷn â'r hyn a oedd yn digwydd. Felly, gallaf sicrhau'r Aelodau nad yw hyn yn rhywbeth sy'n arfer cyffredin yn y Llywodraeth; mae'n rhywbeth a oedd yn eithriad, ond serch hynny, roedd yn eithriad sy'n rhaid ymdrin ag ef.</p> <p>A gaf fi droi at y cyfraniad a wnaed yn gyntaf oll gan arweinydd yr wrthblaid? Mae'n iawn i ddweud bod llywodraeth yn ffrain. Nid yw bob amser yn bleser, ac nid yw'n hawdd, ond wedyn, nid yw i fod yn hawdd. Rydym yn derbyn hynny wrth inni ddod yn llywodraeth. Ond un peth y sylwais arno, a sylwais arno yng nghyfraniadau'r holl Aelodau, oedd nad yw'n glir beth yn union y mae'r Aelodau yn gofyn amdano. Mae dyfarnwr yn farnwr, mae mor syml â hynny: mae'n rhywun sy'n llywyddu, yn cyflafareddu neu'n barnu mewn anghydfod ffurfiol, ac yn rhywun sy'n cyflwyno dyfarniadau. Yn amlwg—a gwneuthum y pwynt hwn mewn dadleuon yr wythnos diwethaf—yr argraff y mae'r defnydd o'r gair 'dyfarnwr' yn ei roi yw rhywun a fyddai mewn gwirionedd yn barnu'r sefyllfa, a byddai'r dyfarniad hwnnw'n rhwymo. Nid dyna'r hyn y mae'r Aelodau wedi'i ddweud heddiw—rwy'n derbyn hynny—ond dyna y mae dyfarnwr yn ei wneud. Felly, rhaid bod yn ofalus gyda'r termau sy'n cael eu defnyddio gan yr Aelodau mewn dadl fel hon.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 17:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 17:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes, of course. Gwnaf, wrth gwrs.
- 17:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
As the First Minister indicated, I think that the sentiment was conveyed fully by the three parties regarding what we perceive the role to be; it is about independence, taking the evidence and putting it in a report. However, ultimately, you, as First Minister, or whoever succeeds you, would pick the Cabinet. It is not about taking that responsibility away from you. So, would you be prepared to open up discussions on this particular aspect to see whether progress can be made?
Fel y dywedodd y Prif Weinidog, rwy'n credu bod y teimlad wedi'i gyfleu'n llawn gan y tair plaid o ran yr hyn rydym yn ei ystyried yw'r swyddogaeth; mae'n ymwneud ag annibyniaeth, cymryd y dystiolaeth a'i rhoi mewn adroddiad. Fodd bynnag, yn y pen draw, chi fel Prif Weinidog, neu bwy bynnag a ddaw ar eich ôl, fyddai'n dewis y Cabinet. Nid yw'n ymwneud â chymryd y cyfrifoldeb hwnnw oddi wrthyich. Felly, a fydddech yn barod i agor trafodaethau ar yr agwedd benodol hon i weld a ellir symud ymlaen?
- 17:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Let me come to that. I know that what Members do not want is an adjudicator; it is an unfortunate use of the word, but I accept that that is not what Members have asked for. However, I know that Members have asked for different things. The leader of the opposition, for example, said that, as far as he could see, the system would work where the First Minister refers a complaint to an independent person, that person then produces a report for the public and Members here, and then the First Minister takes the decision. Basically, that is what happens in Westminster; that is the system there.
Gadewch i mi ddod at hynny. Rwy'n gwybod mai'r hyn nad yw'r Aelodau yn dymuno ei gael yw dyfarnwr; mae'n ddefnydd anffodus o'r gair, ond rwy'n derbyn nad dyna y mae'r Aelodau wedi gofyn amdano. Fodd bynnag, gwn fod yr Aelodau wedi gofyn am bethau gwahanol. Dywedodd arweinydd yr wrthblaid, er enghraifft, cyn belled ag y gallai weld, y byddai'r system yn gweithio lle y byddai Prif Weinidog yn cyfeirio cwyn at unigolyn annibynnol, byddai'r unigolyn hwnnw wedyn yn cynhyrchu adroddiad ar gyfer y cyhoedd a'r Aelodau yma, ac yna byddai'r Prif Weinidog yn gwneud penderfyniad. Yn y bôn, dyna sy'n digwydd yn San Steffan; dyna'r system yno.

The leader of the Liberal Democrats talked about independent policing of the code. I am not clear what she means by that or what would happen. She seemed to indicate that the complaint would go straight to a standards commissioner, who would investigate—the First Minister would not be the gatekeeper, as it were—and then the First Minister would take the decision. There is a subtle difference there.
Siaradodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol am blismona'r cod yn annibynnol. Nid wyf yn glir ynghylch yr hyn y mae'n ei olygu wrth hynny na beth fyddai'n digwydd. Ymddangosai fel pe bai'n awgrymu y byddai'r gŵyn yn mynd yn syth at gomisiynydd safonau, a fyddai'n ymchwilio—nid y Prif Weinidog fyddai'r porthor, fel petai—ac yna byddai'r Prif Weinidog yn gwneud y penderfyniad. Mae gwahaniaeth cynnil yno.
- 17:41 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, at present, if the Assembly wants to complain about an Assembly Member, the complaint is immediately passed to the commissioner. We know that, in the past, the commissioner has received complaints from members of the public about the actions of a Minister, which they are not allowed to look at. Those complaints have subsequently been passed on to a First Minister—I am not saying that it is you—and nothing more has been heard about them. The public needs to have a system that is equal for both individual Assembly Members and Ministers and that responds to people's concerns. At the moment, there is no way in which a member of the public can access that system.
Brif Weinidog, ar hyn o bryd, os yw'r Cynulliad yn awyddus i gwyno am Aelod Cynulliad, caiff y gŵyn ei throsglwyddo'n syth at y comisiynydd. Rydym yn gwybod bod y comisiynydd yn y gorffennol wedi cael cwynion gan aelodau o'r cyhoedd am weithredoedd Gweinidog, ac nad ydynt yn cael edrych arnynt. Cafodd y cwynion hynny eu trosglwyddo wedyn at sylw Prif Weinidog—nid wyf yn dweud mai chi oedd hwnnw—ac ni chlywyd rhagor amdanynt. Mae angen i'r cyhoedd gael system sy'n gyfartal ar gyfer Aelodau Cynulliad a Gweinidogion unigol ac sy'n ymateb i bryderon pobl. Ar hyn o bryd, nid oes ffordd y gall aelod o'r cyhoedd ddefnyddio'r system honno.

17:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I would hope that a member of the public would get a response with regard to any complaint that was made.

With regard to what Jocelyn Davies said, she talked about an adviser, a regulator or somebody with an independent view. All of those words were used. I know that what she wants to see is somebody who provides, at the very least, an independent piece of advice to the First Minister. What is not clear to me is what Members—. There is no unanimity in the Chamber among the parties that have put their names to this debate as to how exactly the system would work. That much, I think, needs to be clarified in future, although I accept that what they have asked for is for there to be, at the very least, an independent adviser who provides advice to the First Minister. I would argue that the Permanent Secretary does that.

I think that it is dangerous ground to suggest that the civil service is not independent; I can assure Members that it is. The very fact that the private office of the former Minister notified me of what was happening is a sign of that cherished independence. We do not want to be in a situation where the civil service is replaced every time there is a new Government coming into office.

I am aware of the time, Llywydd, but I know that I have taken a number of interventions, so perhaps I may be given a little more time.

Byddwn yn gobeithio y byddai aelod o'r cyhoedd yn cael ymateb mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a wnaed.

O ran yr hyn a ddywedodd Jocelyn Davies, siaradodd am gynghorydd, rheoleiddwr neu rywun sydd â barn annibynnol. Defnyddiwyd pob un o'r geiriau hynny. Rwy'n gwybod mai'r hyn y mae am ei weld yw rhywun sy'n darparu cyngor annibynnol, fan lleiaf, i'r Prif Weinidog. Yr hyn nad yw'n glir i mi yw'r hyn y mae Aelodau—. Nid oes unfrydedd yn y Siambr ymysg y pleidiau sydd wedi rhoi eu henwau at y ddadl hon ynglŷn â sut yn union y byddai'r system yn gweithio. Mae angen egluro cymaint â hynny, rwy'n meddwl, ar gyfer y dyfodol, er fy mod yn derbyn mai'r hyn y maent wedi gofyn amdano yw cynghorydd annibynnol sydd, fan lleiaf, yn darparu cyngor i'r Prif Weinidog. Byddwn yn dadlau bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn gwneud hynny.

Rwy'n meddwl bod awgrymu nad yw'r gwasanaeth sifil yn annibynnol yn mynd â ni i dir peryglus; gallaf sicrhau'r Aelodau ei fod. Mae'r ffaith bod swyddfa breifat y cyn-Weinidog wedi fy hysbysu o'r hyn a oedd yn digwydd yn arwydd o'r annibyniaeth werthfawr honno. Nid ydym am fod mewn sefyllfa lle y caiff y gwasanaeth sifil ei ddisodli bob tro y daw Llywodraeth newydd i rym.

Rwy'n ymwybodol o'r amser, Llywydd, ond rwy'n gwybod fy mod wedi cymryd nifer o ymyriadau, felly efallai y caf ychydig bach mwy o amser.

17:43

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have not indicated that your time is up yet.

Nid wyf wedi dweud bod eich amser ar ben eto.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

What I can say to Members is that I think that the point that Members make with regard to the Permanent Secretary is one that I will ponder further, and that point is whether there should be a system where the Permanent Secretary is engaged to produce a report on a regular basis. That is something that I am certainly willing to consider, having done it, of course; it was very useful to me for the Permanent Secretary to be able to do that.

I am certainly willing to consider whether there is scope for obtaining independent advice beyond that. However, as far as today's debate is concerned, because of the use of the word 'adjudicator', I think that there needs to be further thought given to how this system would actually work.

Yr hyn y gallaf ei ddweud wrth yr Aelodau yw fy mod yn credu bod y pwynt y mae'r Aelodau yn ei wneud mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Parhaol yn un y byddaf yn ei ystyried ymhellach, a'r pwynt hwnnw yw a ddylid cael system lle y byddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn cynhyrchu adroddiad yn rheolaidd. Dyna rywbeth rwy'n sicr yn barod i'w ystyried, gan fy mod wedi gwneud hynny, wrth gwrs; roedd yn ddefnyddiol iawn i mi fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi gallu gwneud hynny.

Rwy'n sicr yn barod i ystyried a oes lle i gael cyngor annibynnol y tu hwnt i hynny. Fodd bynnag, o ran y ddadl heddiw, oherwydd y defnydd o'r gair 'dyfarnwr', rwy'n meddwl bod angen inni ystyried ymhellach sut y byddai'r system hon yn gweithio mewn gwirionedd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

As far as Byron Davies is concerned, he seemed to put us in the same category as Serbia, with which I disagree. He said that the media and civic society were complicit in some kind of conspiracy against the people of Wales. I cannot accept that. I am told, although I did not hear it, that he used the word 'corruption'. I will be corrected if he did not, but that is what these benches heard. I thought that that was a wholly inappropriate contribution by him and one that was out of keeping with the contributions that were made by Members around this Chamber. I do not accept that the democratic body that we have established here is part of a conspiracy with the media and civil society in Wales to do Wales down. That is certainly the impression that I was given.

I say to Members that I welcome the contributions that have been made. I certainly think that there is scope for examining the current system, and, as far as that is concerned, I have an open mind. However, without there being clarity, it is very difficult to support a motion that needs that further clarity.

17:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Simon Thomas to reply to the debate.

O ran Byron Davies, roedd i'w weld yn ein gosod yn yr un categori â Serbia, ac rwy'n anghytuno ag ef ar hynny. Dywedodd fod y cyfryngau a'r gymdeithas ddinesig yn rhan o ryw fath o gynllwyn yn erbyn pobl Cymru. Ni allaf dderbyn hynny. Dywedir wrthyf, er na chlywais y gair, ei fod wedi defnyddio'r gair 'llygredd'. Byddaf yn cael fy nghywiro os nad yw hynny'n wir, ond dyna a glywodd y meinciau hyn. Roeddwn yn meddwl bod hynny'n gyfraniad cwbl amhriodol ganddo ef ac yn un nad oedd yn cydweddu â'r cyfraniadau a wnaed gan Aelodau yn y Siambr hon. Nid wyf yn derbyn bod y corff democrataidd rydym wedi'i sefydlu yma yn rhan o gynllwyn gyda'r cyfryngau a chymdeithas sifil yng Nghymru i wneud cam â Chymru. Yn sicr, dyna'r argraff a roddwyd i mi.

Dywedaf wrth yr Aelodau fy mod yn croesawu'r cyfraniadau a wnaed. Rwy'n sicr yn meddwl bod lle i edrych ar y system bresennol, ac o ran hynny, mae gennyf feddwl agored. Fodd bynnag, heb eglurder, mae'n anodd iawn cefnogi cynnig sydd angen eglurhad pellach o'r fath.

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:45 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Mae'n wir dweud bod y ddadl wedi bod yn bur wahanol i'r hyn yr oeddem ni'n ei ddisgwyl pan gyhoeddwyd y cynnig am y tro cyntaf. Cytunwyd ar y cynnig rhwng y tair plaid, ac, yn sicr, mae'r tair plaid sydd wedi siarad heddiw yn gytûn ar y math o bersbecif annibynnol yr ydym ei eisiau dod i mewn i'r broses hon.

Tua diwedd ei gyfraniad yntau, rwy'n credu bod y Prif Weinidog, o'r diwedd, wedi gweld y trên yn dod i lawr y lein ac wedi sylweddoli nad oes modd ymwrthod ymhellach â'r angen hwn am ryw fath o graffu annibynnol ar y cod gweinidogol. Rwy'n meddwl bod hynny'n digwydd hyd yn oed yn San Steffan, faint bynnag mor anfodddhaol yw hynny o bryd i'w gilydd. Mae'n digwydd yn benodol yng nghydestun yr Alban, fel y mae Jocelyn Davies wedi ei amlinellu. Hefyd, mae cynsail wedi ei gosod, fel yr oedd Andrew R.T. Davies a Kirsty Williams wedi ei ddweud, drwy gael adroddiad annibynnol gan yr Ysgrifennydd Parhaol y tro hwn.

Mae'r Prif Weinidog newydd dderbyn bod yr adroddiad hwnnw wedi bod o werth iddo. Felly, os ydyw wedi derbyn bod adroddiad annibynnol wedi ychwanegu gwerth i'r broses o weinyddu'r cod gweinidogol, byddwn i'n dadlau nad oes mynd yn ôl yn awr, gan fod y cynsail wedi ei gosod ac wedi bod yn werthfawr. Nid oes mynd yn ôl ar hynny.

Thank you, Presiding Officer. It is true to say that the debate has been very different from what we expected when the motion was first tabled. The motion was agreed between the three parties and, certainly, the three parties that have contributed today are agreed on the kind of independent perspective that we want to bring into this process.

Towards the end of his contribution, I think that the First Minister, at last, saw the train coming down line and realised that we can no longer reject the need for some sort of independent scrutiny of the ministerial code. I think that that happens even in Westminster, however unsatisfactory that is from time to time. It certainly happens in the Scottish context, as Jocelyn Davies outlined in her contribution. Also, a precedent has been set, as Andrew R.T. Davies and Kirsty Williams pointed out, through having an independent report from the Permanent Secretary on this occasion.

The First Minister has just accepted that that report was of great use to him. Therefore, if he has accepted that an independent report had added value to the process of administering the ministerial code, I would agree that we cannot go back now, as the precedent has been set and has been a valuable precedent. There is no going back on that.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Roedd cyfraniad Jocelyn Davies yn crisialu hyn mewn un ymadrodd Cymraeg, sef 'nid da lle gellir gwell', a dyna'r hyn yr ydym ni'n ei ddadlau yn y fan hon. Er bod y system wedi gweithio y tro hwn, mae modd ffurfiol'r hyn yr ydym wedi ei brofi ac mae modd gwella hynny. Mae wedi bod yn ddiwyddiad sydd wedi ein cleisio ni i gyd. Rwy'n gwybod ei fod wedi cleisio un Aelod mwy na neb arall, ond mae wedi gadael ôl ar bob un ohonom. Mae pob un ohonom wedi cael pobl yn trafod â ni ac yn dweud wrthym, 'Beth sy'n digwydd yn eich Senedd chi? Beth sy'n digwydd yn y Cynulliad yna? Dydych chi ddim yn gallu rhedeg pethau a dydych chi ddim yn gallu cynnal gweinyddiaeth gyfiawn.' Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y ffordd y mae pobl yn edrych arnom yn ymwneud â'n gilydd.

Mae'n wir dweud bod y ddadl heddiw wedi bod yn dipyn mwy cadarnhaol, ac, felly, rydym wedi bod mewn sefyllfa i roi o'r neilltu'r pethau penodol a ddiwyddodd gydag Alun Davies—er i Antoinette Sandbach ein hatgoffa ohonynt—gymaint a allwn heddiw er mwyn canolbwyntio ar beth allwn ni ei ddysgu fel Cynulliad a Llywodraeth o'r broses hon. Mae'n dod i gwestiwn ynghylch Llywodraeth Cymru a llywodraethu Cymru. Rydym ni, fel y dywedodd Kirsty Williams, yn awyddus i weld rhywbeth gwell yn datblygu yn y fan hon: nid yr hen ffordd o wneud pethau, ac nid galw ar yr un hen bobl i archwilio'r bobl sydd wedi gwneud y job yn y gorffennol ond rhywbeth cwbl newydd a ffres sydd yn gallu dal hyder nid yn unig ni yn Aelodau Cynulliad, ond y Llywodraeth a'r cyhoedd.

Er nad ydw i wedi bod yn llwyr argyhoeddedig o hyn yn y gorffennol, rwy'n credu bod hyn wedi ein symud tuag at sefyllfa lle mae'n rhaid cael—defnyddiaf y gair Cymraeg sydd yn y cynnig Cymraeg—dyfarnwr neu ddyfarnydd, sy'n well gair efallai yn y cyd-destun hwn, gan fod y Prif Weinidog wedi bod yn dadlau am ryw fan bwyntiau o gwmpas geiriau yn fan hon. Mae angen rhywun annibynnol sy'n gallu rhoi cyngor annibynnol i'r Llywodraeth.

Un o'r pethau anffodus am ymateb y Prif Weinidog heddiw ydy yr oedd yn ceisio negodi yn gyhoeddus gan ofyn, 'Beth ydych chi a chi yn mo'yn a beth ydym ni'n mo'yn?' Yn hytrach, rwy'n gofyn i'r Prif Weinidog dderbyn ysbryd y cynnig hwn heddiw ac agor trafodaethau gydag arweinwyr yr holl bleidiau yn y lle hwn, fel bod y negodi hyn ynghylch yr hyn yn union yw'r broses hon yn gallu cael ei setlo a'i drafod, nid ar lawr y Cynulliad, oherwydd nid yw hynny neu bwyllgor yn y Cynulliad yn gyhoeddus yw'r ffordd orau o wneud hyn, ond drwy drafod ymysg y pleidiau.

Yr hyn yr ydym ni'n awyddus i weld yw bod cyngor annibynnol ar y rhan fwyaf o achosion yn cael ei roi yn gyhoeddus i'r Prif Weinidog, bod y Prif Weinidog yn gwneud y penderfyniad ac, wedyn, ef neu hi sydd yn dal yn gyfrifol am hynny.

Jocelyn Davies's contribution encapsulated this in the Welsh phrase 'nid da lle gellir gwell'—that is, there is always room for improvement, and that is argument here. Although the system has worked on this occasion, we could formalise what we have done and improve on it. It has been an incident that has bruised us all. I know that it has bruised one Member more than anyone else, but it has left its mark on each and every one of us. Each and every one of us has had people approach us and ask us, 'What's happening in your Senedd? What's happening in that Assembly? You can't run things properly and you can't maintain a just administration.' That has been reflected in the way that people perceive us.

It is true to say that today's debate has been a lot more positive, and, therefore, we have been in a position to put to one side the specific issues that happened with Alun Davies—although Antoinette Sandbach did remind us of them—as much as we possibly can in order to concentrate on what we can learn as an Assembly and a Government from this process. It is a question about the Welsh Government and Welsh governance. We, as Kirsty Williams said, are eager to see something better developing here: not the old way of doing things, and not calling on the same people to examine the people who have done the job in the past but something new and fresh that can instil confidence not only among us as Assembly Members, but among the Government and the public.

Although I have not been fully convinced of this in the past, I think that this has moved us towards a situation where we have to have—I will use the Welsh word that is in the Welsh motion—an adjudicator or 'dyfarnydd', which a better word perhaps in this context, because the First Minister has been debating semantics here. We need an independent individual who can provide independent advice to the Government.

One of the unfortunate things about the First Minister's response today is that he was trying to negotiate publicly, asking, 'What do you and you want and what do we want?' I would ask the First Minister rather to accept the spirit of this motion today and to open negotiations with the leaders of all parties in this place, so that that negotiation in terms of what exactly this process should be can be settled and discussed, not on the floor of the Assembly, because that or a public committee of the Assembly is not the best of doing that, but through discussion among the parties.

What we are eager to see is that independent advice should be made available publicly to the First Minister on the majority of occasions, and the First Minister should take the decision and then he or she would remain responsible for that.

Mae'n iawn i fynd gam ymhellach hefyd, gan fod problem oherwydd yr ymdeimlad bod torri'r cod gweinidogol yn arwain at Weinidog yn colli ei swydd. Nid dyna yw'r gosb bob tro, byddwn i'n dadlau. Mae'n bosibl gwneud camgymeriad a thorri'r cod gweinidogol â pheidio â cholli swydd. Gwnaeth Vince Cable hynny, a cholodd rhan o'i gyfrifoldebau. Yr hyn a oedd yn syfrdanol i mi o ran ymddygiad Alun Davies oedd ei fod mor glir ei fod wedi torri'r cod ac nid oedd unrhyw fath o sancsiwn neu gosb—nid o reidrwydd fod yn rhaid iddo golli ei job, ond nad oedd unrhyw gydnabyddiaeth gan y Llywodraeth bod drwg wedi ei wneud a bod hynny wedi rhoi enw gwael nid yn unig i'r Llywodraeth ond i ddemocratiaeth a gweinyddiaeth y Cynulliad hefyd. Felly, fel rhan o'r trafodaethau hynny, byddai rhyw fath o ddealltwriaeth o'r cosbau posibl—fel y gofynnodd Leanne Wood ichi amdano ddoe, Brif Weinidog—wedi bod o help yn y cyd-destun hwn hefyd, oherwydd mae'n amlwg bod modd cael cosbau nad ydynt yn mynd mor bell â cholli swydd.

Mae'n wir yn y cyd-destun hwn bod y Gweinidog dan sylw wedi torri'r cod drachefn y diwrnod ar ôl yr union ddiwrnod y bu ichi bledio'ch cefnogaeth drosto. Mae'n amlwg, felly, os yw Gweinidog yn colli hyder y Prif Weinidog, nid oes gofyn ichi fynd i rywun annibynnol i ofyn am eu cyngor; rydych yn rhoi'r sac i'r person yn y fan a'r lle. Mae hynny'n gwbl amlwg. Fodd bynnag, ar yr achlysuron hynny lle mae'r cod wedi ei dorri ac mae cwestiynau wedi cael eu codi gan y cyhoedd neu Aelodau Cynulliad, byddai'n dda i gael rhywun annibynnol i roi barn a chynngor i chi, a hynny'n gyhoeddus.

Y pwynt olaf yr hoffwn ei wneud, os caf, yw nad wyf yn meddwl mai'r Ysgrifennydd Parhaol yw'r person i wneud hynny. Er bod cynsail gwerthfawr wedi cael ei osod heddiw, credaf fod pwynt Antoinette Sandbach yn y cyd-destun hwn yn bwysig: byddai gael rhywun annibynnol o'r tu allan i'r Cynulliad a'r Llywodraeth yn amddiffyn y gwasanaeth sifil hefyd. Yn yr Alban, cyn-Lywyddion sy'n gwneud y job honno, Lywydd, ac felly nid wyf yn gwybod a fydddech yn ystyried hynny pan ydych yn barod—rhywbryd, efallai—i ymddiswyddo o'r swydd bresennol.

It is right to go a step further too, because there is a problem in the perception that a breach of the ministerial code leads to a Minister losing their post. That is not always the penalty, I would argue. It is possible to make a mistake and to breach the ministerial code and not lose your post. Vince Cable did that, and lost some of his responsibilities. What was staggering to me with regard to Alun Davies's conduct was that he had so clearly breached the code and there was no sort of sanction whatsoever—not necessarily that he had to be dismissed, but there was no acknowledgement from Government that he had done wrong and that that had affected the reputation not only of the Government but of democracy and the administration of the Assembly too. So, as part of those negotiations, some sort of understanding of the possible penalties—as Leanne Wood asked you about yesterday, First Minister—would be of assistance in this context too, because it is clear that we can impose penalties that are not as severe as being dismissed.

It is true in this context that the Minister breached the code again the day after the very day on which you had expressed your support for him. It is clear, therefore, that, if a Minister loses the confidence of the First Minister, you do not have to go to an independent person to ask their advice; you sack that individual on the spot. That is entirely clear. However, on those occasions where the code has been breached and questions have been raised by the public or Assembly Members, it would be a positive thing to have an independent individual to advise you, and to do so publicly.

The final point that I would like to make, if I may, is that I do not think that the Permanent Secretary is the person to do that. Although a valuable precedent has been set today, I think that Antoinette Sandbach's point in this context is important: having an independent person from outwith the Assembly and outwith Government would also protect the civil service. In Scotland, former Presiding Officers do that job, Presiding Officer, and so I do not know whether you would consider that when you are ready—at some point, perhaps—to step down from your current position.

17:51

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I am glad that you qualified that last bit. [Laughter.]

Rwy'n falch eich bod wedi cymhwyso'r rhan olaf hwnnw. [Chwerthin.]

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The Business Committee has agreed that voting will be conducted at the end of business, before the short debates. I intend to move straight to the votes, unless someone objects. There are no objections.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y bydd pleidleisio yn cael ei gynnal ar ddiwedd y busnes, cyn y dadleuon byr. Rwy'n bwriadu symud yn syth at y pleidleisiau, oni bai fod rhywun yn gwrthwynebu. Nid oes unrhyw wrthwynebiad.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5552](#)

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5552](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 26, Yn erbyn 1, Ymatal 20.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5555](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.

Motion agreed: For 26, Against 1, Abstain 20.

[Result of the vote on motion NDM5555](#)

Motion not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.

17:53

Dadl Fer: Y Daith at Ddysg: Y Ddarpariaeth o Drafnidiaeth i Ysgolion a Cholegau yng Nghymru

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr i bawb sy'n aros ar gyfer y ddadl hon.

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 17:53.

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ddirprwy Lywydd, sorry, Lywydd—. Who am I speaking to today?—[Interruption.]—Lywydd dros dro. There we are; thank you very much. I am very happy to give some of my time in this debate to Simon Thomas, Eluned Parrott and Aled Roberts.

Cuts to discretionary school transport have been making the headlines in local papers in my region for most of the last school year. With the Welsh Government giving due notice of deep cuts to the local government block grant over these two years, each of the three local authorities, as well as others in Wales, have looked at school transport as fertile ground for savings. The inconsistent approach of just these three councils has led me to question the principles on which they are trying to make decisions, and that has prompted more curiosity about the way in which children and young people get to school or college. It seems crazy to me that the Welsh Government is at least attempting to deal with the challenges of standards and attendance, but that something like getting to school has barely changed since 1944.

There have been changes, of course. The Learner Travel (Wales) Measure 2008 introduced some provision around safety, and the new learner travel guidance launched only last month grew from its conception in the Chamber during my last short debate. I hope that today's efforts, Minister, prove to be more than just food for thought, too. Nevertheless, the threshold distances for free transport of two miles or three miles between school and the home of a child are celebrating their seventieth anniversary this year. While the distinction between the two distances is expressed as applying between primary school age children and secondary school age children these days, as opposed to when a child is eight years or older, the Learner Travel (Wales) Measure 2008 and all relevant legislation before and since devolution has clung to those distances found in the statutory guidance arising from an education Act passed during the second world war.

Short Debate: The Drive to Education: The Provision of Transport to Schools and Colleges in Wales

Thank you very much to everyone who is staying for this debate.

Sandy Mewies took the Chair at 17:53.

Ddirprwy Lywydd, mae'n ddrwg gennyf, Lywydd. A phwy ydw i'n siarad â heddiw—? [Torri ar draws.]—Lywydd dros dro. Dyna ni; diolch yn fawr iawn. Rwy'n hapus iawn i roi peth o fy amser yn y ddadl hon i Simon Thomas, Eluned Parrott ac Aled Roberts.

Mae toriadau i gludiant ysgol yn ôl disgrisiwn wedi bod yn cyrraedd y penawdau yn y papurau lleol yn fy rhanbarth am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ysgol ddiwethaf. Gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi rhybudd priodol o doriadau dwfn i grant bloc llywodraeth leol dros y ddwy flynedd, mae pob un o'r tri awdurdod lleol, yn ogystal ag eraill yng Nghymru, wedi edrych ar gludiant ysgol fel tir ffrwythlon ar gyfer arbedion. Mae dull anghyson y tri chyngor hwn yn unig wedi fy arwain i gwestiynu'r egwyddorion y maent yn seilio'u penderfyniadau arnynt, ac mae hynny wedi ysgogi mwy o chwilfrydedd ynghylch y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cyrraedd yr ysgol neu'r coleg. Mae'n ymddangos yn wallgof i mi fod Llywodraeth Cymru o leiaf yn ceisio ymdrin â heriau safonau a phresenoldeb, ond nad yw rhywbeth fel cyrraedd yr ysgol prin wedi newid ers 1944.

Mae newidiadau wedi bod, wrth gwrs. Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi cyflwyno peth darpariaeth yn ymwneud â diogelwch, a thyfodd y canllawiau teithio gan ddysgwyr newydd a lansiwyd y mis diwethaf o'i sefydlu yn y Siambr yn ystod fy nadl fer ddiwethaf. Rwy'n gobeithio bod ymdrechion heddiw hefyd, Weinidog, yn profi'n fwy na dim ond deunydd meddwl. Serch hynny, mae'r pellteroedd trothwy ar gyfer cludiant am ddim o ddwy filltir neu dair milltir rhwng yr ysgol a chartref y plentyn yn dathlu eu pen-blwydd yn ddeg a thrigain eleni. Er bod y gwahaniaeth rhwng y ddau bellter yn cael ei fynegi fel gwahaniaeth rhwng plant oedran ysgol gynradd a phlant oedran ysgol uwchradd y dyddiau hyn, yn hytrach na phan fydd plentyn yn wyth oed neu'n hŷn, mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol cyn ac ar ôl datganoli wedi glynu'n agos at y pellteroedd a geir mewn canllawiau statudol sy'n deillio o Ddeddf addysg a basiwyd yn ystod yr ail ryfel byd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Sian Thornthwaite, a consultant specialising in school travel, told the transport select committee in 2006 that the journey to school was important because of potential health and environmental benefits. She gave evidence that affordable and available transport, whether by bus or through options for walking and cycling, has a key impact in terms of reducing exclusion and ensuring that young people are able to continue in education. There was widespread agreement from other witnesses in that inquiry that the current two and three mile distances are no longer realistic walking distances and are merely

'an arbitrary limit which differentiates as to whether the financial burden falls on the parent or the local authority.'

As we are now in the consultation period for the secondary legislation required to make sense of the Active Travel (Wales) Act 2013, I urge all Members to consider whether we need a different perspective on distances that children might be expected to walk or cycle to school. I would be very interested to know how many of those children who do not receive free transport actually do walk or cycle to school at the moment, and what targets for improvement will be achieved as a result of the Act.

While concerns about time, safety or tiredness might undermine the appetite of a child to walk two or three miles to school, I also recognise that the cost of reducing those statutory thresholds in terms of free transport will do little for the health of stressed council officials trying to save money, for money it is that has caused the ructions in South Wales West, with all three local authorities trying to pare right back to statutory minimums: free transport to the nearest suitable relevant place of education beyond the two or three mile limit.

In our last debate, Minister, the tricky word was 'available'. In this debate, the tricky words are 'relevant' and 'suitable'. Who decides whether a school is suitable for a child? Gone are the days when it had anything to do with choice. It does not matter if your nearest school has terrible results, or if your child might be having a dreadful time there: that is the school the Welsh Government says your child should go to. If you want your child to go to another one further away, you must pay for the child to get there. While as a Welsh Conservative I may not be happy with that Hobson's choice, at least it was clear what the rules were and what might be provided at the council's discretion.

Dyweddodd Sian Thornthwaite, ymgyngorydd sy'n arbenigo ar deithio i'r ysgol, wrth y pwyllgor dethol ar drafndiaeth yn 2006 fod y daith i'r ysgol yn bwysig oherwydd y manteision iechyd ac amgylcheddol posibl. Rhoddodd dystiolaeth fod argaeledd cludiant fforddiadwy, boed ar y bus neu drwy opsiynau ar gyfer cerdded a beicio, yn cael effaith allweddol o ran lleihau allgau a sicrhau y gall pobl ifanc barhau mewn addysg. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith tystion eraill yn yr ymchwiliad nad yw'r pellteroedd dwy a thair milltir presennol yn bellteroedd cerdded realistig bellach ac yn ddim mwy na

'therfyn mympwyol sy'n gwahaniaethu ar sail pa un a yw'r baich ariannol yn disgyn ar y rhiant neu'r awdurdod lleol.'

Gan ein bod yn awr yn y cyfnod ymgyngori ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i wneud synnwyr o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, rwy'n annog yr holl Aelodau i ystyried a oes arnom angen safbwynt gwahanol ynghylch pellteroedd y gellid disgwyl i blant eu cerdded neu eu beicio i'r ysgol. Byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn gwybod faint o'r plant hynny nad ydynt yn derbyn cludiant am ddim sydd mewn gwirionedd yn cerdded neu feicio i'r ysgol ar hyn o bryd, a pha dargedau ar gyfer gwella a gaiff eu cyflawni o ganlyniad i'r Ddeddf.

Er y gallai pryderon ynghylch amser, diogelwch neu flinder danseilio awydd plentyn i gerdded dwy neu dair milltir i'r ysgol, rwyf hefyd yn cydnabod na fydd y gost o ostwng y trothwyon statudol hynny o ran cludiant am ddim yn gwneud fawr o les i iechyd swyddogion y cyngor sydd dan straen wrth geisio arbed arian, gan mai arian sydd wedi achosi'r helynt yng Ngorllewin De Cymru, gyda phob un o'r tri awdurdod lleol yn ceisio torri'n ôl i isafsymiau statudol: cludiant am ddim i'r man addysg perthnasol addas agosaf y tu hwnt i'r terfyn dwy neu dair milltir .

Yn ein dadl ddiwethaf, Weinidog, y gair anodd oedd 'ar gael'. Yn y ddadl hon, y geiriau anodd yw 'perthnasol' ac 'addas'. Pwy sy'n penderfynu a yw ysgol yn addas i blentyn? Mae'r dyddiau pan oedd gan hyn unrhyw beth i'w wneud â dewis wedi mynd. Nid oes gwahaniaeth os yw eich ysgol agosaf yn cael canlyniadau ofnadwy, neu os yw eich plentyn efallai'n cael amser ofnadwy yno: dyna'r ysgol y mae Llywodraeth Cymru yn dweud y dylai eich plentyn fynd iddi. Os ydych am i'ch plentyn fynd i ysgol arall ymhellach i ffwrdd, mae'n rhaid i chi dalu i'ch plentyn gael ei gludo yno. Fel Ceidwadwr Cymreig, er nad wyf i efallai'n hapus gyda diffyg dewis o'r fath, o leiaf roedd hi'n glir beth oedd y rheolau a beth y gellid ei ddarparu yn ôl disgrisiwn y cyngor.

I think that the Learner Travel (Wales) Measure 2008 has changed that. Although councils had always had the discretion to offer free transport to Welsh-medium schools, faith schools and sixth-form colleges, they began to treat the Measure's duty to promote access to education and training through the medium of the Welsh language more like an obligation to provide free transport to a child's nearest Welsh-medium school, if more than two or three miles away. However, it is still only a discretion. I want to be clear that I think that the Learner Travel (Wales) Measure 2008 fudged that issue. I would have preferred it to have included Welsh-medium education as one of the learning needs that a local authority must take into account. Wales is a bilingual nation, and our legislation should clearly reflect the principle that Welsh should not be treated less favourably than English. There can be no room for discrimination. Is it right to call a decision on language merely a preference? Is it right for a council to designate an English-medium school as 'suitable' just to save money on bus provision, when a child or his or her family wants Welsh-medium education? In short, when does a preference become a right?

Wales may be a bilingual country, but it is also a multi-faith country. If a council takes so much care not to offend on the grounds of language preference when exercising its discretion, should it not also take care not to offend on the grounds of religious preference? Members frequently stand up in this Chamber and talk about equality and the United Nations Convention on the Rights of the Child. Article 28 says that a child has the right to an education. Article 2 says that:

'Parties shall take all appropriate measures to ensure that the child is protected against all forms of discrimination...on the basis of the...expressed opinions, or beliefs of the child's parents, legal guardians, or family members.'

Having signed up to the UNCRC, Minister, are you completely certain that section 1(4) of the Learner Travel (Wales) Measure 2008, which excludes voluntary aided schools from the list of relevant places of education is compatible with the convention?

Article 14(3) of the convention says:

'Freedom to manifest one's religion or belief may be subject only to such limitations as are prescribed by law and are necessary to protect public safety, order, health or morals or the fundamental rights and freedoms of others.'

So, is it necessary to deprive children of a free school bus in order to protect public safety, order, health, morals or the fundamental rights and freedoms of others?

Credaf fod Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi newid hynny. Er bod cynghorau bob amser wedi cael disgrisiwn i gynnis cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion ffydd a cholegau chweched dosbarth, maent wedi dechrau trin dyletswydd y Mesur i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy fel ymrwymiad i ddarparu cludiant am ddim i ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf y plentyn, os yw'n fwy na dwy neu dair milltir i ffwrdd. Fodd bynnag, disgrisiwn yn unig ydyw o hyd. Rwyf am ei gwneud yn glir fy mod o'r farn bod Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn garbwl ar y mater hwnnw. Byddai wedi bod yn well gennyf iddo fod wedi cynnwys addysg cyfrwng Cymraeg fel un o'r anghenion dysgu sy'n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, a dylai ein deddfwriaeth adlewyrchu'n glir yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ni all fod lle i wahaniaethu. A yw'n iawn i alw penderfyniad ar sail iaith yn ddewis yn unig? A yw'n iawn i gyngor ddynodi ysgol cyfrwng Saesneg fel un 'addas', ddim ond er mwyn arbed arian ar ddarpariaeth bysiau, pan fydd plentyn neu ei deulu eisiau addysg drwy gyfrwng y Gymraeg? Yn fyr, pa bryd y mae dewis yn dod yn hawl?

Efallai fod Cymru yn wlad ddwyieithog, ond mae hefyd yn wlad aml-ffydd. Os yw cyngor yn cymryd cymaint o ofal i beidio â throeddu ar sail dewis iaith wrth ymarfer ei ddisgrisiwn, dylai hefyd ofalu rhag troeddu ar sail dewis crefyddol? Mae'r Aelodau yn aml yn sefyll yn y Siambr hon i siarad am gydraddoldeb a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae erthygl 28 yn dweud bod gan blentyn yr hawl i addysg. Mae erthygl 2 yn dweud hyn:

'Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau gymryd pob mesur priodol i sicrhau bod plentyn yn cael ei amddiffyn rhag pob ffurf ar gamwahaniaethu... ar sail... barnau datganedig, neu gredoau rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, neu aelodau teulu'r plentyn.'

Ar ôl llofnodi'r CCUHP, Weinidog, a ydych yn gwbl sicr bod adran 1(4) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sy'n eithrio ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr oddi ar y rhestr o leoedd addysg perthnasol, yn gydnaws â'r confensiwn?

Mae erthygl 14 (3) y confensiwn yn dweud:

'Yr unig gyfyngiadau y caiff rhyddid unigolyn i amlygu ei grefydd fod yn ddarostyngedig iddynt yw'r cyfyngiadau sydd wedi eu rhagnodi gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol i warchod diogelwch, trefn, iechyd neu foesau cyhoeddus, neu hawliau a rhyddiadau personau eraill.'

Felly, a oes angen amddifadu plant o fws ysgol am ddim er mwyn amddiffyn diogelwch y cyhoedd, trefn, iechyd, moesau neu hawliau sylfaenol a rhyddid pobl eraill?

Now, you may not feel persuaded to move on the two-mile and three-mile thresholds, Minister and I suspect that I do not actually blame you for that either, but I do hope that you will look closely at the Learner Travel (Wales) Measure 2008 and its relationship with the United Nations Convention on the Rights of the Child or at least offer guidance to those schools in my region that have either stopped free transport to faith schools, are still considering free transport to faith schools or have postponed making any decision because they simply cannot work out how to deal with the consultation responses. I hope also that the convention will form the core of the Welsh Government's consideration of the management of transport for children with special educational needs. It may even be something that you might want to talk to the Minister for Education and Skills about as he ponders on the direction of the additional learner needs Bill.

I just have a few observations on transport to post-16 places of education or training. I recognise that, quite often, we can be talking about greater distances to school or college, sometimes even out of county. However, at the moment, there is real confusion and inconsistency about what help there is with transport costs. With such an emphasis on, and the need for, post-16 education and training, I wonder whether the Government might be able to consider how it could help provide some clarity at least. You may already be aware of the evidence of Rhieni dros Addysg Gymraeg, which suggests that transport is a significant factor in enabling students to continue their education through the medium of Welsh. Sixth-form students in Ysgol Gyfun Ystalyfera in my region lost their free transport recently and now have to make special applications for help. At the same time, Swansea council had considered and ditched plans to charge students for travel to Gower College.

The recent NUS report on transport in Welsh further education showed that access funds at colleges are being disproportionately used to finance transport, despite the existence of the education maintenance allowance, and while I have concerns about that because it limits the amount of money that colleges have to overcome other access barriers it was also very clear that transport costs do influence the decision of students from poorer backgrounds to both start and continue in further education. Most 16 to 18-year-olds do get help with their transport costs at the moment, but 69% of respondents to the NUS survey of those young people said that they relied on that transport support in order to remain in education or training. So, you can imagine the level of drop-out that would happen if they for some reason lost that transport support.

Nawr, efallai na fyddwch yn cael eich perswadio i newid y trothwyon dwy a thair milltir, Weinidog ac rwy'n amau nad wyf mewn gwirionedd yn eich beio am hynny chwaith, ond rwy'n gobeithio y byddwch yn edrych yn fanwl ar Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'i berthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu o leiaf yn cynnig arweiniad i'r ysgolion yn fy rhanbarth sydd naill ai wedi rhoi'r gorau i gludiant am ddim i ysgolion ffydd, sy'n dal i ystyried cludiant am ddim i ysgolion ffydd neu sydd wedi gohirio gwneud unrhyw benderfyniad yn syml am na allant weithio allan sut i ymdrin â'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rwy'n gobeithio hefyd y bydd y confensiwn yn rhan greiddiol o ystyriaeth Llywodraeth Cymru o reoli cludiant i blant ag anghenion addysgol arbennig. Gall fod yn rhywbeth y byddwch eisiau ei drafod â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau hyd yn oed wrth iddo ystyried cyfeiriad y Bil anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gennyf ychydig o sylwadau ar gludiant i leodd addysg neu hyfforddiant ôl-16. Yn eithaf aml, rwy'n cydnabod y gallem siarad am bellteroedd mwy i ysgol neu goleg, weithiau y tu allan i'r sir hyd yn oed. Ond ar hyn o bryd, mae dryswch ac anghysondeb gwirioneddol o ran pa gymorth sydd ar gael gyda chostau cludiant. Gyda chymaint o bwyslais ar addysg a hyfforddiant ôl-16, a'r angen amdanynt, rwy'n meddwl tybed a allai'r Llywodraeth ystyried sut y gallai helpu i ddarparu rhywfaint o eglurder fan lleiaf. Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol o dystiolaeth Rhieni dros Addysg Gymraeg, sy'n awgrymu bod cludiant yn ffactor arwyddocaol wrth alluogi myfyrwyr i barhau eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Collodd myfyrwyr chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Ystalyfera yn fy rhanbarth eu cludiant am ddim yn ddiweddar a bellach rhaid iddynt wneud ceisiadau arbennig am gymorth. Ar yr un pryd, mae cyngor Abertawe wedi ystyried ac wedi gwrthod cynlluniau i godi tâl ar fyfyrwyr sy'n teithio i Goleg Gŵyr.

Dangosodd adroddiad diweddar yr NUS ar gludiant mewn addysg bellach yng Nghymru fod cronfeydd mynediad mewn colegau yn cael eu defnyddio'n anghymesur i ariannu cludiant, er gwaethaf bodolaeth y lwfans cynhaliath addysg, ac er fy mod yn pryderu am hynny oherwydd ei fod yn cyfyngu ar faint o arian sydd gan golegau i oresgyn rhwystrau eraill i fynediad, roedd yn amlwg iawn hefyd fod costau cludiant yn dylanwadu ar benderfyniadau myfyrwyr o gefndiroedd tlotach ynghylch dechrau a pharhau mewn addysg bellach. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn cael help gyda'u costau cludiant ar hyn o bryd, ond dywedodd 69% o'r rhai a ymatebodd i arolwg yr NUS o'r bobl ifanc hynny eu bod yn dibynnu ar y cymorth cludiant i allu parhau mewn addysg neu hyfforddiant. Felly, gallwch ddychmygu'r niferoedd a fyddai'n rhoi'r gorau i addysg a hyfforddiant pe baent yn colli'r cymorth cludiant am ryw reswm.

In preparing for this debate, Minister, I visited the website of colleges in three local authority areas in my region to try to find out what transport assistance you might expect, and not one of them provided a straight answer because, I think, there is no straight answer. It is no wonder that 20% of students experience difficulty just trying to get the information they are looking for. Now, it is right that Welsh Government does not attempt to interfere directly with these independent institutions. It may well be right that it should not be down to local authorities to take responsibility for post-16 transport to education and training. However, it is an aim of Welsh Government to widen access to education and build an appropriately skilled workforce, and I think that it is well worth you, together with the Minister for education and the Deputy Minister for Skills and Technology, exploring fully how to stop transport costs being the issue that prevents students fulfilling their potential, through whichever language, and at the institution that offers the education or training they need.

Wrth baratoi ar gyfer y ddadl hon, Weinidog, ymwelais â gwefannau colegau mewn tair ardal awdurdod lleol yn fy rhanbarth i geisio canfod pa gymorth gludiant y gallech ei ddisgwyl, ac nid oes yr un ohonynt yn cynnig ateb uniongyrchol, oherwydd nad oes ateb uniongyrchol i'w gael, rwy'n meddwl. Nid yw'n syndod bod 20% o fyfyrwyr yn cael anhawster wrth geisio dod o hyd i'r wybodaeth y maent yn chwilio amdani. Yn awr, mae'n iawn i Lywodraeth Cymru geisio peidio ag ymyrryd yn uniongyrchol â gwaith y sefydliadau annibynnol hyn. Efallai'n wir ei bod hi'n iawn na ddylai awdurdodau lleol orfod bod yn gyfrifol am gludiant i addysg a hyfforddiant ôl-16. Fodd bynnag, un o nodau Llywodraeth Cymru yw ehangu mynediad i addysg a chreu gweithlu gyda'r sgiliau priodol, ac rwy'n meddwl ei bod yn werth i chi, ynghyd â'r Gweinidog addysg a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, archwilio'n llawn sut y gellir atal costau cludiant rhag bod yn fater sy'n rhwystro myfyrwyr rhag cyflawni eu potensial, ym mha iaith bynnag, ac yn y sefydliad sy'n cynnig yr addysg neu'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt.

18:03

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank Suzy Davies for raising this important debate today. I think that she raises some particularly important issues in terms of enabling access to Welsh-medium education and the impact of transport policy in making sure that people have the choices they believe they have. The impact of policy changes in this area can be incredibly stark—that, potentially, the right to learn through the language of your choice, the language of your fathers, if you like, in a bilingual nation, could be restricted to those whose parents can afford to provide the transport. That is, of course, if public transport is indeed available in that area. On that, I would like to return to the withdrawal of the V5 service in the Vale of Glamorgan last year, which meant that pupils in Rhoose who were attending Cowbridge Comprehensive School had their only direct means of public transport withdrawn on the basis of public transport funding changes. The impact of that was that those individual children were facing a journey of 1 hour and 45 minutes, via Cardiff, in order to travel the 10 or 12 miles between Rhoose and Cowbridge, which is obviously an appalling impact. The parents in that case have clubbed together to provide a private service, but the cost of that is restrictive for parents from less well-off backgrounds. This is a case in point. We have to make sure that the transport needs of those individuals are being supported and that the transport policies are supporting the educational policies that we are also delivering.

Hoffwn ddiolch i Suzy Davies am godi'r ddadl bwysig hon heddiw. Rwy'n meddwl ei bod yn crybwyll rhai materion arbennig o bwysig o ran galluogi mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac effaith polisi cludiant o ran gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y dewisiadau y credant sydd ganddynt. Gall effaith newidiadau polisi yn y maes hwn fod yn hynod amlwg—y gallai'r hawl i ddysgu drwy gyfrwng iaith o'ch dewis, iaith eich tadau, os dymunwch, mewn cenedl ddwyieithog, gael ei chyfyngu i'r rhai y mae eu rhieni'n gallu fforddio darparu'r cludiant. Hynny yw, wrth gwrs, os oes cludiant cyhoeddus ar gael yn yr ardal honno yn wir. Ar hynny, hoffwn ddychwelyd at ddiddymu gwasanaeth V5 ym Mro Morgannwg y llynedd, a olygodd fod yr unig drafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol i ddisgyblion yn y Rhws a oedd yn mynychu Ysgol Gyfun y Bont-faen wedi'i dynnu'n ôl yn sgîl newidiadau cyllido trafnidiaeth gyhoeddus. Effaith hynny oedd bod y plant unigol hynny'n wynebu taith o 1 awr a 45 munud, drwy Gaerdydd, er mwyn teithio'r 10 neu 12 milltir rhwng y Rhws a'r Bont-faen, sy'n amlwg yn cael effaith ofnadwy. Mae'r rhieni yn yr achos hwnnw wedi dod ynghyd i ddarparu gwasanaeth preifat, ond mae cost hynny'n gyfyngol i rieni o gefndiroedd llai cefnog. Un enghraifft yw hon. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod anghenion cludiant yr unigolion hyn yn cael eu cefnogi a bod polisiau trafnidiaeth yn cefnogi'r polisiau addysgol rydym hefyd yn eu cyflawni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:05

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not think that this is a new problem. I have scars from my days in Wrexham when we tried to pull back on some of the discretionary services that were provided, even to schools within two or three miles, when money was more readily available. However, there is a danger that we have a lack of consistency as far as counties are concerned, when they all respond because of budgetary pressures. We also face a situation where, if you travel on the railway along the Marches, you will see a large number of English secondary schools that are now providing free transport in England. I think that this matter of discretion, Minister, is something that you and the Minister for education, perhaps, need to look at, because, certainly, the impact on Welsh-medium, faith and post-16 education is something that we might pay the price for in the coming years.

Nid wyf yn meddwl bod hon yn broblem newydd. Mae gen i greithiau o fy nyddiau yn Wrecsam pan geisiasom dynnu rhai o'r gwasanaethau disgresiynol a gâi eu darparu yn ôl, hyd yn oed i ysgolion o fewn dwy neu dair milltir, pan oedd mwy o arian ar gael. Fodd bynnag, mae perygl o ddiffyg cysondeb rhwng y siroedd, pan fyddant i gyd yn ymateb oherwydd pwysau cyllidebol. Rydym hefyd yn wynebu sefyllfa, os ydych yn teithio ar y rheilffordd ar hyd y Gororau, gwelwch nifer fawr o ysgolion uwchradd Saesneg sydd bellach yn darparu cludiant am ddim yn Lloegr. Credaf mai mater o ddisgresiwn yw hyn, Weinidog, rhywbeth y mae angen i chi a'r Gweinidog addysg edrych arno efallai, oherwydd yn sicr, mae'r effaith ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ysgolion ffydd ac addysg ôl-16 yn rhywbeth y gallem dalu'r pris amdano yn y blynyddoedd i ddod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:06

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth. Rwy'n cytuno â nifer o'r pwyntiau y mae Suzy wedi'u codi. Rwy'n credu ei fod yn amlwg bod addysg drwy gyfrwng Cymraeg yn ddewis sy'n flaenoriaeth gan y Llywodraeth, ac felly mae'n flaenoriaeth polisi yng Nghymru. Nid yw'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn llwyr adlewyrchu hynny. Rwy'n gwybod, fel un o ymgynghorwyr y Llywodraeth ar y pryd, mai'r rheswm pam nad yw'n adlewyrchu hynny yw'r ffaith iddo gael ei eni yn ystod y broses LCO. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn meddwl nad yw rhai awdurdodau wedi talu sylw dyledus i'r Mesur fel y mae ychwaith. Mae'n wir fod addysg yn y Gymraeg yn un o'r pethau a ddylai gael ei hyrwyddo yn ôl y Mesur hwnnw.

Thank you for the opportunity to contribute to the debate. I agree with many of the points raised by Suzy. I think that it is clear that Welsh-medium education is a choice that is a priority for the Government, and it is therefore a policy priority in Wales. The Learner Travel (Wales) Measure 2008 does not fully reflect that. I know, as one who was an adviser to the Government at the time, that the reason why it does not reflect that is the fact that it went through that LCO process. However, I also think that certain authorities have not paid due regard to the Measure as it currently stands either. It is true to say that Welsh-medium education is one of the things that should be promoted according to that Measure.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae hefyd yn wir i ddweud, wrth inni edrych ar bobl ar ôl 16 oed, y tu allan i addysg orfodol, bod yn rhaid i ni gefnogi'r bobl hynny mewn ffordd deg fel y gallant gael mynediad i addysg, hyfforddiant, prentisiaeth neu beth bynnag. Felly, mae'n amlwg bod angen adolygu'r holl becyn sy'n cael ei roi a gwneud yn siŵr bod hwn yn mynd hyd at blant 18 mlwydd oed. Mae hynny'n golygu costau ac edrych eto ar yr holl system, ond fe fyddaf i'n bersonol yn cefnogi rhyw fath o adolygiad o'r system honno nawr fod gennym bwerau mwy eang i ddeddfu yn y maes hwn.

It is also true to say that, as we look at people in the post-16 category, outwith compulsory education, we must support those people in an equitable and fair way so that they can access education, training, apprenticeships or whatever. So, it is clear that we need to review the whole package that is provided and ensure that it covers pupils up to the age of 18. That will involve costs and a need to look again at the whole system, but I would personally support some sort of review of that system now that we have the broader powers to legislate in this area.

18:07

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to reply to the debate—Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ymateb i'r ddadl—Edwina Hart.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:07

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

It is always a pleasure to reply to short debates, because the nature of the discussion of a short debate is generally one of trying to be helpful in terms of the points that are made based on Members' experiences, particularly within their own constituencies. That was certainly the case when we spoke about blue badges earlier during this session.

Mae bob amser yn bleser cael ymateb i'r dadleuon byr, oherwydd natur trafodaethau'r dadleuon byr yn gyffredinol yw ceisio bod yn ddefnyddiol o ran y pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn seiliedig ar brofiadau Aelodau, yn enwedig o fewn eu hetholaethau eu hunain. Roedd hynny'n sicr yn wir pan siaradasom am fathodynau glas yn gynharach yn ystod y sesiwn hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

May I say that I am aware of the issues around this? I think that we have all had issues where we have taken up casework on behalf of constituents regarding the arrangements for travel to work—or travel to school, which, of course, is work in itself. It is important for us to recognise that Welsh Government policy has not changed in this area, but local authorities, with the increasing budgetary pressures that they have been under, have looked to their discretionary learner travel provision.

It is important for us to recognise that there has been a particularly high level of correspondence on the issues regarding those having to travel to faith schools and Welsh-medium schools. We have looked at some of our guidance and we are giving clear, comprehensive, informed and easy-to-understand guidance, but that is not producing the right results for parents, with the use of the word 'discretion'.

In terms of the Learner Travel (Wales) Measure 2008, which defined a minimum level of statutory transport entitlement, we know that local authorities have the discretion to do more. So, it might be opportune for me to look at some of the provisions within that Measure. It is important that we keep up to date with changes in circumstances and I have no objection to discussing some of these issues further with the Minister for education.

I also think that it is important for us all to recognise the point that was made about educational maintenance allowances, which is quite interesting, and about those in receipt of them being able to afford to travel and those who perhaps do not get—. You will know what I mean. There are all sorts of issues around that that we also have to look at in terms of transport.

I am also currently funding some schemes on young persons' transport in certain areas in Wales and the results of those will be available in 2015. I am also in the process of commissioning further work on youth travel arrangements for those who are going into education and those who may go into apprenticeships and training. I hope that I will be able to report in September on the further work that I am undertaking within my department.

It is important that we recognise that this is where the lives of people start in many ways, as they develop their career and look at their future. Education and training shapes their life chances, so it is important that we give them the best opportunity to ensure that they can get on with their life chances.

In terms of this, I will take on board all the points that have been made to me today by the various speakers. I will discuss this with my colleague the Minister for Education and Skills, and I will certainly review some of the legislation that is currently around and share with Members, as soon as I am able to, the progress that I am making on the various schemes that I have asked people to look at.

A gaf fi ddweud fy mod yn ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â hyn? Credaf ein bod i gyd wedi cael materion lle rydym wedi manteisio ar waith achos ar ran etholwyr ynghylch trefniadau teithio i'r gwaith—neu i'r ysgol, sydd, wrth gwrs, yn waith ynddo'i hun. Mae'n bwysig inni gydnabod nad yw polisi Llywodraeth Cymru wedi newid yn y maes hwn, ond mae awdurdodau lleol, gyda'r pwysau cyllidebol cynyddol y maent yn eu hwynebu, wedi edrych ar eu darpariaeth deithio gan ddysgwyr yn ôl disgrisiwn.

Mae'n bwysig inni gydnabod y bu lefel arbennig o uchel o ohebiaeth ar y materion sy'n ymwneud â rhai sy'n gorfod teithio i ysgolion ffydd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi edrych ar rai o'n canllawiau ac rydym yn rhoi arweiniad clir, cynhwysfawr, gwybodus a hawdd ei deall, ond nid yw hynny'n cynhyrchu'r canlyniadau iawn i rieni, gyda'r defnydd o'r gair 'disgrisiwn'.

O ran Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a oedd yn diffinio lefel sylfaenol o hawl i gludiant statudol, rydym yn gwybod bod gan awdurdodau lleol ddisgrisiwn i wneud mwy. Felly, efallai y byddai'n amserol imi edrych ar rai o'r darpariaethau o fewn y Mesur. Mae'n bwysig ein bod yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf mewn amgylchiadau ac nid oes gennyf wrthwynebiad i drafod rhai o'r materion hyn ymhellach gyda'r Gweinidog addysg.

Rwyf hefyd yn credu ei bod yn bwysig i bawb ohonom gydnabod y pwynt a wnaed ynghylch lwfansau cynhaliaeth addysg, sydd yn eithaf diddorol, a pha mor fforddiadwy yw teithio i'r rhai sy'n eu derbyn, ac efallai'r rhai nad ydynt yn ei chael—. Byddwch yn gwybod beth rwy'n ei olygu. Mae pob math o faterion yn codi o hynny sy'n rhaid inni edrych arnynt hefyd o ran cludiant.

Ar hyn o bryd, rwyf hefyd yn ariannu rhai cynlluniau sy'n ymwneud â chludiant pobl ifanc mewn ardaloedd penodol yng Nghymru a bydd y canlyniadau hynny ar gael yn 2015. Rwyf hefyd yn y broses o gomisiynu gwaith pellach ar drefniadau teithio ieuencid ar gyfer rhai sy'n mynd i mewn i addysg a rhai a allai fod yn cychwyn ar brentisiaethau a hyfforddiant. Rwy'n gobeithio y gallaf adrodd ym mis Medi ar y gwaith pellach rwy'n ei wneud yn fy adran.

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod mai dyma lle y mae bywydau pobl yn dechrau mewn nifer o ffyrdd, wrth iddynt ddatblygu eu gyrfa ac edrych tua'r dyfodol. Mae addysg a hyfforddiant yn rhoi siâp ar eu cyfleoedd mewn bywyd, felly mae'n bwysig ein bod yn rhoi'r cyfle gorau iddynt sicrhau y gallant fynd ymlaen â'u cyfleoedd mewn bywyd.

O ran hyn, byddaf yn ystyried yr holl bwyntiau sydd wedi'u gwneud heddiw gan y gwahanol siaradwyr. Byddaf yn trafod hyn gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a byddaf yn sicrhau yn adolygu peth o'r ddeddfwriaeth sydd i'w chael ar hyn o bryd ac yn rhannu'r cynnydd a wnaed ar y gwahanol gynlluniau y gofynnais i bobl edrych arnynt gyda'r Aelodau cyn gynted ag y gallaf.

Dadl Fer a Ohiriwyd o 18 Mehefin 2014: Llais—Siarad ar ran Pobl sy'n Byw gyda Chlefyd Niwronau Motor yng Nghymru

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have agreed to requests to speak from Aled Roberts, Janet Finch-Saunders, Mick Antoniw and Mark Isherwood. I will start up by placing on record my thanks to the Motor Neurone Disease Association for the assistance that I have had in putting together this debate. The aims of the debate are: first, to raise awareness of motor neuron disease; secondly, to outline some of the challenges facing people with MND in Wales; and, thirdly, to establish more information and call on the Welsh Government to do more to support people with MND.

This debate follows MND awareness month in June and global amyotrophic lateral sclerosis MND awareness day was held on Saturday 21 June. The theme of this year's campaign was 'voice', as people with MND have made it clear that spreading the word and raising awareness can be a powerful way to keep their views being heard while their own voice may be getting fainter. Members may also have seen the MND Association's Voice campaign posters at Cardiff station. With that in mind, and the knowledge that 80% to 90% of people with MND experience communication problems as their speech deteriorates, perhaps the Minister can advise us how he will implement his decisions in response to the review of the provision of communication aides and how he will ensure sufficient funding on an ongoing basis.

Motor neurone disease is a progressive disease that attacks the motor neurones or the nerves in the brain and spinal cord. This then means that messages gradually stop reaching muscles around the body, which, in turn, leads to weakness and an increasing loss of mobility in the limbs. The effects of MND can vary enormously from person to person, from the presenting symptoms and the rate and pattern of the disease progression to the length of survival time after diagnosis. Like other neurological conditions, MND can affect how you walk, talk, eat, drink and breathe, but that is not to say that all symptoms necessarily happen to everyone, or that everyone will develop these symptoms in any specific order. Sadly, as many Members are already no doubt aware, there is currently no cure for MND. It is a progressive terminal illness. Approximately 250 people are living with motor neurone disease in Wales.

It is essential that people with MND and their carers can access the right care in the right place at the right time. Unfortunately, MND can be extremely difficult to diagnose for several reasons. Even in 2014, this condition is still little understood, and this contributes to the many people with MND not receiving the care and support that they need.

Short Debate Postponed from 18 June 2014: Voice—Speaking up for People Living with Motor Neurone Disease in Wales

Rwyf wedi cytuno i geisiadau i siarad gan Aled Roberts, Janet Finch-Saunders, Mick Antoniw a Mark Isherwood. Dechreuaf drwy gofnodi fy niolch i Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor am y cymorth a gefais yn rhoi'r ddadl hon at ei gilydd. Amcanion y ddadl yw: yn gyntaf, codi ymwybyddiaeth o glefyd niwronau motor (MND); yn ail, amlinellu rhai o'r heriau sy'n wynebu pobl â chlefyd niwronau motor yng Nghymru; ac yn drydydd, sefydlu mwy o wybodaeth a galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i gynorthwyo pobl ag MND.

Mae'r ddadl hon yn dilyn mis ymwybyddiaeth MND yn Mehefin a chynhaliwyd dydd MND sglerosis amyotroffig ochrol yn fyd-eang ar ddydd Sadwrn 21 Mehefin. Thema'r ymgyrch eleni oedd 'llais', gan fod pobl ag MND wedi ei gwneud yn glir y gall lledaenu'r gair a chodi ymwybyddiaeth fod yn ffordd bwerus o sicrhau bod eu safbwyntiau'n parhau i gael eu clywed er y gallai eu lleisiau eu hunain fod yn gwanhau. Efallai fod yr aelodau hefyd wedi gweld ymgyrch bosteri Voice y Gymdeithas MND yng ngorsaf Caerdydd. Gyda hynny mewn golwg, a'r wybodaeth fod 80% i 90% o bobl ag MND yn cael trafferth cyfathrebu wrth i'w gallu i siarad waethygu, efallai y gall y Gweinidog ein cyngori sut y bydd yn gweithredu ei benderfyniadau mewn ymateb i adolygiad o'r ddarpariaeth o gynorthwyyr cyfathrebu a sut y bydd yn sicrhau cyllid digonol ar sail barhaus.

Mae clefyd niwronau motor yn glefyd sy'n gwaethygu ac sy'n ymosod ar y niwronau motor neu'r nerfau yn yr ymennydd a llinyn asgwrn y cefn. Mae hyn wedyn yn golygu bod negeseuon yn raddol yn methu â chyrraedd cyhyrau o amgylch y corff, gan arwain yn ei dro at wendid a cholli mwyfwy o symudedd yn y coesau a'r breichiau. Gall effeithiau MND amrywio'n fawr rhwng un unigolyn a'r llall, o'r symptomau cychwynnol a chyfradd a phatrwm cynnydd y clefyd, i hyd amser goroesi ar ôl diagnosis. Fel cyflyrau niwrolegol eraill, gall MND effeithio ar sut rydych yn cerdded, yn siarad, yn bwyta, yn yfed ac yn anadlu, ond nid yw hynny'n golygu bod yr holl symptomau o reidrwydd yn digwydd i bawb, nac y byddai pawb yn datblygu'r symptomau hyn mewn unrhyw drefn benodol. Yn anffodus, fel y bydd llawer o'r Aelodau eisoes yn gwybod mae'n siŵr, nid oes unrhyw iachâd i MND ar hyn o bryd. Mae'n salwch terfynol sy'n gwaethygu. Mae tua 250 o bobl yn byw gyda chlefyd niwronau motor yng Nghymru.

Mae'n hanfodol bod pobl ag MND a'u gofalwyr yn gallu dod o hyd i'r gofal iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Yn anffodus, gall fod yn anodd iawn gwneud diagnosis o MND am nifer o resymau. Hyd yn oed yn 2014, ychydig a ddeallir am y cyflwr hwn, ac mae hyn yn cyfrannu at y ffaith nad yw llawer o bobl ag MND yn derbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

First, although MND kills five people every day, with half of people dying within 14 months of diagnosis, it is a comparatively rare disease. The early symptoms can be quite slight, such as clumsiness, mild weakness, slurred speech, all of which may have been attributed to a variety of other causes. So, it can be some time before someone feels it necessary to see their GP. Also, there is no specific test to prove that someone has MND, which means that diagnosis requires the elimination of other potential conditions. Naturally, this can take time—time that people living with MND simply do not have.

With that in mind, I welcome the recent neurological conditions delivery plan for Wales, launched on 8 May, which sets out the Welsh Government's expectations to improve services to people with neurological conditions. Within the delivery plan, there are several delivery themes, which have particular significance for people with MND.

I am pleased that the MND Association is a key member of the Wales Neurological Alliance and was actively involved in contributing to the development of the delivery plan during its draft stages. We will be working with the Wales Neurological Alliance in monitoring and holding the local health boards to account to ensure service improvement. However, in delivery theme 1 of the delivery plan, could the Minister clarify in his response how he will ensure that the awareness of motor neurone disease specifically is raised, as opposed to the general awareness raising of neurological conditions?

I also welcome in delivery theme 2 the delivery expectation of a better understanding of neurological symptoms and care among general practitioners. The Minister may be aware that the MND Association has been working with the Royal College of General Practitioners on an early diagnosis of MND and has produced a new red-flag tool, which I have here, and a range of resources, that will help to reduce inaccurate referrals and the time to diagnosis. The red-flag tool is a simple, A4-sized flowchart sent specifically to GPs and health professionals to raise awareness of MND. The first section aims to guide them through some of the symptoms of MND; it then details progression rates and factors that are not supportive of MND diagnosis in the second section. If there are 'yes' answers to more than one symptom and a progression factor, then the GP is advised to refer the patient to neurology. Progress into the treatment and care of people with MND will be boosted by faster and more accurate diagnosis with the red-flag tool.

As MND can be rapidly progressing, it is essential for an early diagnosis for a range of reasons, from removing uncertainty for the person experiencing the symptoms to enabling them to plan for the future. It also allows specialist care and support to start early and increases the window of opportunity to research into and better understand MND. Therefore, Minister, one of the key aims of today's debate is to call on the Welsh Government to make a commitment to ensuring that all local health board chief executives distribute the MND Association red-flag tool to all GPs and other health professionals, such as speech and language therapists, across Wales.

Yn gyntaf, er bod MND yn lladd pump o bobl bob dydd, gyda hanner y bobl yn marw o fewn 14 mis i gael diagnosis, mae'n glefyd cymharol brin. Gall y symptomau cynnar fod yn eithaf bach, megis lletchwithdod, gwendid ysgafn, lleferydd aneglur, y gellir priodoli pob un ohonynt i amrywiaeth o achosion eraill. Felly, gallai peth amser fynd heibio cyn y byddai rhywun yn teimlo'r angen i weld eu meddyg teulu. Hefyd, nid oes prawf penodol i brofi bod rhywun yn dioddef o MND, sy'n golygu bod diagnosis yn galw am ddileu cyflyrau posibl eraill. Yn naturiol, gall hyn gymryd amser—amser nad oes gan y bobl sy'n byw gydag MND mohono.

Gyda hynny mewn golwg, rwy'n croesawu'r cynllun cyflawni diweddar ar gyfer cyflyrau niwrolegol yng Nghymru, a lanswyd ar 8 Mai, sy'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran gwella gwasanaethau i bobl â chyflyrau niwrolegol. O fewn y cynllun cyflawni, ceir sawl thema gyflawni, sydd ag arwyddocâd arbennig i bobl ag MND.

Rwy'n falch bod Cymdeithas MND yn aelod allweddol o Gynghrair Niwrolegol Cymru a oedd â rhan weithredol yn y broses o gyfrannu at ddatblygiad y cynllun cyflawni yn ystod ei gyfnodau drafft. Byddwn yn gweithio gyda Chynghrair Niwrolegol Cymru o ran monitro a dwyn byrddau iechyd lleol i gyfrif er mwyn sicrhau gwasanaethau gwell. Fodd bynnag, yn thema gyflawni 1 y cynllun cyflawni, a allai'r Gweinidog egluro yn ei ymateb sut y bydd yn sicrhau bod codi ymwybyddiaeth o glefyd niwronau motor yn benodol yn digwydd, yn hytrach na chodi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol yn gyffredinol?

Rwyf hefyd yn croesawu yn thema gyflawni 2 y disgwyliad i sicrhau gwell dealltwriaeth o symptomau niwrolegol a gofal ymhlith ymarferwyr cyffredinol. Efallai y bydd y Gweinidog yn ymwybodol fod Cymdeithas MND wedi bod yn gweithio gyda Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ar ddiagnosis cynnar o MND ac mae wedi cynhyrchu offeryn baner goch newydd, sydd gennyf yma, ac ystod o adnoddau a fydd yn helpu i leihau atgyfeiriadau anghywir a'r amser cyn cael diagnosis. Siart llif syml maint A4 yw'r offeryn baner goch a anfonir at feddygon teulu yn benodol a gweithwyr iechyd proffesiynol i godi ymwybyddiaeth o MND. Mae'r adran gyntaf yn anelu i'w tywys drwy rai o symptomau MND; yna mae'n rhoi manylion cyfraddau a ffactorau gwaethybol nad ydynt yn cefnogi diagnosis o MND yn yr ail adran. Os ceir ateb cadarnhaol i fwy nag un symptom a ffactor gwaethybol, yna bydd y meddyg teulu yn cael ei gynghori i atgyfeirio'r claf at niwrolegydd. Bydd symud ymlaen at driniaeth a gofal i bobl ag MND yn cael ei hybu gan ddiagnosis cyflymach a mwy cywir drwy'r offeryn baner goch.

Gan fod MND yn gallu datblygu'n gyflym, mae'n hanfodol cael diagnosis cynnar am amryw o resymau, o gael gwared ar ansicrwydd i'r person sy'n dioddef symptomau i'w alluogi i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n bosibl i ofal a chymorth arbenigol ddechrau'n gynnar ac yn ymestyn y cyfle ar gyfer ymchwilio a deall MND yn well. Felly, Weinidog, un o nodau allweddol y ddadl heddiw yw galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i sicrhau bod holl brif weithredwyr y byrddau iechyd lleol yn dosbarthu offeryn baner goch Cymdeithas MND i bob meddyg teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, megis therapyddion lleferydd ac iaith, ymhob cwr o Gymru.

In terms of multidisciplinary assessment, timely access to this is of particular relevance to people with motor neurone disease due to its often rapidly progressing nature. I trust that the Minister will join me in welcoming the debate that took place on Monday about specialist nurses at the north Wales neurosciences network board meeting. The MND Association works in close partnership with the north Wales motor neurone disease specific advisory group. It is a forum where stakeholders, as the Minister may be aware, from a wide range of clinical and non-clinical groups with a direct relationship to MND services assess and plan priorities, and advise on and review the delivery of services to people with MND in north Wales.

Many people living with MND in south Wales are now receiving better co-ordinated care closer to home, thanks to an innovative care network funded by the MND Association in a long-term partnership with NHS Wales. The aim of the network is to deliver an equitable service, even for those living miles from hospital, and for all those with MND to receive the same standards of care. The network offers a multiprofessional, one-stop-shop approach, with a collaborative approach between neurology and palliative care, which results in fewer hospital visits for people with MND. Hubs are based in Swansea and Cardiff, with a number of satellite clinics spread across the rest of south Wales.

While MND may, indeed, be a disease of low prevalence, it is one of high need and high cost. Indeed, the average cost of care for someone with MND has been estimated at around £200,000 per year in the last year of life, and this cost could increase significantly if poorly planned care and care of a poor condition lead to crises and emergency hospital admissions. It is quite clear that public services in Wales are currently facing significant financial challenges and, as a result, the NHS and social services in Wales can find it challenging to meet the needs of people with MND in a timely and equitable way. In fact, the south Wales MND care network has identified a number of issues of concern regarding timely and equitable access to equipment for people with MND, such as poor access or delays to non-invasive ventilation, cough assistance and mobile arm supports, as well as long delays for assessment for major house adaptations. I would be grateful if the Minister could advise how these issues are going to be addressed.

The profile of MND issues is well and truly on the up, here and with the election of Madeleine Moon, MP for Bridgend, as chair of the established all-party parliamentary group on MND at Westminster. The APPG will be launching an inquiry into augmented communication for people with MND in the autumn, which will be calling for evidence from England, Wales, Scotland and Northern Ireland, and I would like to ask the Minister to support and provide evidence to this very worthy inquiry.

O ran yr asesiad amlddisgyblaethol, mae sicrhau mynediad amserol i hyn yn arbennig o berthnasol i bobl sydd â chlefyd niwronau motor oherwydd ei fod o ran ei natur yn aml yn datblygu'n gyflym. Hyderaf y bydd y Gweinidog yn ymuno â mi i groesawu'r ddadl a gynhaliwyd ddydd Llun am nyrsys arbenigol yng nghyfarfod bwrdd rhwydwaith niwrowyddorau gogledd Cymru. Mae Cymdeithas MND yn gweithio mewn partneriaeth agos â grŵp ymgynghorol penodol clefyd niwronau motor gogledd Cymru. Fel y gŵyr y Gweinidog, mae'n fforwm lle y bydd rhanddeiliaid o ystod eang o grwpiau clinigol ac anghlinigol gyda chysylltiad uniongyrchol â gwasanaethau MND yn asesu ac yn cynllunio blaenoriaethau, yn cynghori ar wasanaethau i bobl sy'n dioddef o MND yng ngogledd Cymru, ac yn ei hadolygu.

Mae llawer o bobl sy'n byw gyda MND yn ne Cymru yn derbyn gofal cydgysylltiedig gwell yn agosach i'r cartref, diolch i rwydwaith gofal arloesol a ariennir gan Gymdeithas MND mewn partneriaeth hirdymor â GIG Cymru. Nod y rhwydwaith yw darparu gwasanaeth teg, hyd yn oed ar gyfer y rhai sy'n byw'n bell o'r ystyby, ac er mwyn sicrhau bod pawb sydd ag MND yn profi'r un gofal safonol. Mae'r rhwydwaith yn cynnig dull siop un stop amlbroffesiynol, gyda dull cydweithredol o weithredu rhwng gofal niwrolegol a gofal lliniarol, sy'n arwain at lai o ymweliadau ag ystybai i bobl ag MND. Mae'r canolfannau wedi'u lleoli yn Abertawe a Chaerdydd, gyda nifer o glinigau lloeren wedi'u lleadaenu ar draws gweddill de Cymru.

Efallai'n wir na cheir llawer o achosion o MND, ond mae'n glefyd lle y ceir llawer o angen a chost. Yn wir, amcangyfrifwyd bod cost gofalu am rywun sy'n dioddef o MND ar gyfartaledd oddeutu £200,000 ym mlwyddyn olaf bywyd yr unigolyn, a gallai'r gost hon gynyddu'n sylweddol os yw gofal wedi'i gynllunio'n wael a gofal o ansawdd gwael yn arwain at argyfyngau a derbyniadau brys i'r ystyby. Mae'n gwbl glir bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd yn wynebu heriau ariannol sylweddol ac o ganlyniad, gall y GIG a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ei chael yn anodd diwallu anghenion pobl ag MND mewn ffordd amserol a theg. Yn wir, mae rhwydwaith gofal MND de Cymru wedi nodi nifer o faterion sy'n peri pryder o ran mynediad amserol a theg at gyfarpar ar gyfer pobl ag MND, megis mynediad gwael neu oedi cyn darparu cymorth anadlu anfwfnwthiol, cymorth peswch a chynhaliath symudol ar gyfer y breichiau, yn ogystal ag oedi hir cyn cael asesiadau ar gyfer gwneud addasiadau mawr i dai. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddweud sut yr eir i'r afael â'r materion hyn.

Mae proffil materion sy'n ymwneud ag MND yn gwella'n wirioneddol yma, a chydag ethol Madeleine Moon, AS Pen-y-bont ar Ogwr, yn gadeirydd y grŵp hollbleidiol seneddol a sefydlwyd ar MND yn San Steffan. Bydd y grŵp hollbleidiol seneddol yn lansio ymchwiliad i gyfathrebu estynedig ar gyfer pobl ag MND yn yr hydref, a fydd yn galw am dystiolaeth o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a hoffwn ofyn i'r Gweinidog gefnogi a darparu tystiolaeth i'r ymchwiliad teilwng iawn hwn.

18:19

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just wondered whether it is possible for there to be an intervention at this point, if the Member gives way.

Tybed a fyddai'n bosibl cael ymyriad ar y pwynt hwn, os yw'r Aelod yn fodlon ildio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:19 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, you can make an intervention when the Minister is speaking.

Na, gallwch ymyrryd pan fydd y Gweinidog yn siarad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:19 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry, Darren. I would also like to highlight the role of research, as highlighted in the delivery plan, in delivery theme 7, targeting research, prioritising a commitment to research, delivering improved diagnosis, management, treatment options and outcomes. The third sector is a key partner in the development of research, both as a funder and as a supporter of patient involvement in clinical trials and social research. The MND Association is currently funding two sets of research at Cardiff University at a total cost of £420,367. First, there is a three-year biomedical research project, which started in 2012, led by Professor Derek Blake and, secondly, from April this year, research led by Professor Vladimir Buchman. Professor Buchman is building on his research to extend his research team's studies of fused in sarcoma-triggered MND.

Mae'n ddrwg gennyf, Darren. Hoffwn hefyd dynnu sylw at swyddogaeth ymchwil, fel y nodir yn y cynllun cyflawni, yn thema gyflawni 7, sef targedu gwaith ymchwil, blaenoriaethu ymrwymiad i ymchwil, darparu diagnosis gwell, rheoli, opsiynau triniaeth a charlyniadau. Mae'r trydydd sector yn bartner allweddol yn natblygiad ymchwil, fel noddwr ac fel cefnogwr i gynnwys cleifion mewn treialon clinigol ac ymchwil gymdeithasol. Ar hyn o bryd mae Cymdeithas MND yn ariannu dau waith ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd am gyfanswm o £420,367. Yn gyntaf, ceir prosiect ymchwil biofeddygol tair blynedd o hyd, a ddechreuodd yn 2012, dan arweiniad yr Athro Derek Blake ac yn ail, o fis Ebrill eleni, ceir ymchwil dan arweiniad yr Athro Vladimir Buchman. Mae'r Athro Buchman yn adeiladu ar ei waith ymchwil i ymestyn astudiaethau ei dîm ymchwil o MND ymasiedig wedi'i achosi gan sarcoma.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The MND Association funds research that builds on recognised success, and Professor Buchman's research is a great example of this as his research was recognised as one of the best to be published in 2013. With this in mind, could the Minister detail the Welsh Government's own plans to support more research specifically into MND? A report—which, again, I have here—published in 2012 by the MND Association contained nine recommendations, one of which was for better cross-border arrangements to avoid the risk of people with MND falling through the gaps. We have a long, porous border in Wales, as Gerry Holtham commented, and, clearly, we need to make sure that border issues are addressed.

Mae cronfeydd ymchwil Cymdeithas MND sy'n adeiladu ar lwyddiant cydnabyddedig, ac ymchwil yr Athro Buchman yn enghraifft wych o hyn gan i'w ymchwil gael ei chydnabod yn un o'r astudiaethau gorau i'w chyhoeddi yn 2013. Gyda hyn mewn golwg, a allai'r Gweinidog roi manylion ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru ei hun i gefnogi mwy o ymchwil ar MND yn benodol? Roedd adroddiad, sydd gennyf yma eto, ac a gyhoeddwyd yn 2012 gan Gymdeithas MND, yn cynnwys naw argymhelliad, ac un ohonynt oedd sicrhau trefniadau trawsffiniol gwell er mwyn osgoi'r risg y bydd pobl ag MND yn syrthio drwy'r bylchau. Mae gennym ffin hir, hydraiddd yng Nghymru, fel y dywedodd Gerry Holtham, ac yn amlwg, mae angen inni wneud yn siŵr bod materion trawsffiniol yn cael sylw.

Perhaps Mark Isherwood, as chair of our own Assembly cross-party group for neurological conditions, could meet with the all-party parliamentary group chair, Madeleine Moon, to discuss cross-border issues as well as shared learning. As the APPG noted in its inquiry into specialist palliative care services in England, specialist palliative care services not only provide a positive experience for the patient but also reduce the burden on the NHS, which is why palliative care must always be on the Welsh Government's agenda, too. Historically, end of life and palliative care services have focused on the needs of people with cancer. As a result, the needs of people with other conditions, including progressive neurological conditions, have often been overlooked.

Efallai y gallai Mark Isherwood, fel cadeirydd grŵp trawsbleidiol y Cynulliad ei hun ar gyflyrau niwrolegol, gyfarfod â chadeirydd y grŵp hollbleidiol seneddol, Madeleine Moon, i drafod materion trawsffiniol yn ogystal â rhannu dysgu. Fel y nododd y grŵp hollbleidiol yn ei ymchwiliad i wasanaethau gofal lliniarol arbenigol yn Lloegr, y mae gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol nid yn unig yn rhoi profiad cadarnhaol i'r claf, ond hefyd yn lleihau'r baich ar y GIG, a dyna pam y mae'n rhaid cadw gofal lliniarol ar agenda Llywodraeth Cymru bob amser hefyd. Yn hanesyddol, mae gwasanaethau diwedd oes a gofal lliniarol wedi canolbwyntio ar anghenion pobl sydd â chanser. O ganlyniad, mae anghenion pobl sydd â chyflyrau eraill, gan gynnwys cyflyrau niwrolegol sy'n gwaethygu, yn aml wedi cael eu hesgeuluso.

It is essential that there is equity of access to specialist palliative care services post-diagnosis for all people in Wales with motor neurone disease. I accept that, in the past, the Welsh Government has shown some support for people with MND in Wales, and I believe, Minister, that you are a signatory of the MND charter—a five-point charter, which contains many good aspects. If we can perhaps get all 60 Members to sign this charter we can send a direct message to the rest of the UK that we are listening and that we are leading the way in recognising support for people with motor neurone disease.

Mae'n hanfodol bod cydraddoldeb mynediad at wasanaethau gofal lliniarol arbenigol ôl-diagnosis ar gyfer yr holl bobl yng Nghymru sydd â chlefyd niwronau motor. Rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi dangos rhywfaint o gefnogaeth i bobl ag MND yng Nghymru, a chredaf, Weinidog, eich bod wedi llofnodi'r siarter MND—siarter pum pwynt sy'n cynnwys nifer o agweddau da. Os gallwn efallai gael y 60 Aelod i lofnodi'r siarter, gallwn anfon neges uniongyrchol i weddill y DU ein bod yn gwrandao a'n bod yn arwain y ffordd o ran sicrhau cefnogaeth i bobl sydd â chlefyd niwronau motor.

Finally, I would like to make a very special mention of local MND Association branches across Wales, which are made up of volunteers doing a fantastic job of providing local support to people living with MND. Thank you for all that you do. This is a heart-breaking disease, and today's debate is really to ascertain the challenges that people with MND are facing and how we can best work together to support them. I hope that the Minister will give a real commitment today to support the motor neurone disease campaigns and to help make Wales a better place for all of those living with MND.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw arbennig iawn at ganghennau Cymdeithas MND lleol ledled Cymru, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith gwych yn darparu cymorth lleol i bobl sy'n byw gydag MND. Diolch i chi am y cyfan rydych yn ei wneud. Mae hwn yn glefyd torcalonnus, a bwriad y drafodaeth heddiw yw canfod yr heriau y mae pobl ag MND yn eu hwynebu a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd yn y ffordd orau i'w cefnogi. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi ymrwymiad gwirioneddol heddiw i gefnogi ymgyrchoedd y clefyd niwronau motor ac i helpu i wneud Cymru yn lle gwell i bawb sy'n byw gydag MND.

18:22 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are four speakers who will have roughly just a minute each. I call Mick Antoniw.

Mae pedwar siaradwyr a fydd yn cael munud yr un yn fras. Galwaf ar Mick Antoniw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:22 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I only want to make a short contribution, and that is because Nick has made a speech that has been completely comprehensive. My involvement with motor neurone disease was in representing people a number of years ago when we were investigating potential links between chemical exposures and so on and this particular disease. The facts of the matter—and, I suppose, the real concerns—are two things; one is the lack of awareness, even among the medical profession. Of course, there are many complications about diagnosis, so the red-flag scheme is something to be welcomed. Perhaps it would be useful to know how we can actually promote that to ensure consistency among GP practices. The other one is the limited amount of research that is actually going on. As I remember, trawling through the medical literature, it really was very limited. Most of it was foreign. So, it is very welcome that there is this work going on—this very specialist work that Cardiff University now seems to be taking upon itself. I welcome that very much. I wonder whether there is anything further that we can do in terms of promoting the research into this, and some of the other similar neurological diseases that we have, which are incredibly intensive in terms of the level of disability that they do ultimately cause.

Cyfraniad byr yn unig rwyf am ei wneud, a hynny am fod Nick wedi rhoi araith a oedd yn gwbl gynhwysfawr. Mae fy ymwneud â chlefyd niwronau motor yn deillio o gynrychioli pobl nifer o flynyddoedd yn ôl pan oeddem yn ymchwilio i gysylltiadau posibl rhwng cysylltiad â chemegau ac ati a'r clefyd penodol hwn. Mae dwy ffaith yn gysylltiedig â hyn—ac mae'n debyg, mai dyma'r gwir bryderon; un yw diffyg ymwybyddiaeth, hyd yn oed ymhlith y proffesiwn meddygol. Wrth gwrs, mae llawer o gymhlethdodau'n gysylltiedig â diagnosis, felly mae'r cynllun baner goch yn rhywbeth i'w groesawu. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gwybod sut y gallwn hybu hynny mewn gwirionedd er mwyn sicrhau cysondeb rhwng practisau meddygon teulu. Y ffaith arall yw'r gwaith ymchwil cyfyngedig sy'n digwydd mewn gwirionedd. Fel rwy'n cofio, wrth lusgo drwy'r llenyddiaeth feddygol, roedd yn gyfyngedig iawn. Mae'r rhan fwyaf ohono'n waith tramor. Felly, mae'r ffaith bod y gwaith hwn yn digwydd i'w groesawu'n fawr—y gwaith arbenigol iawn y mae Prifysgol Caerdydd bellach i'w gweld yn ymgymryd ag ef. Rwy'n croesawu hynny'n fawr iawn. Tybed a oes unrhyw beth pellach y gallwn ei wneud o ran hyrwyddo'r gwaith ymchwil ar MND a rhai o'r clefydau niwrolegol eraill tebyg sydd gennym, sy'n hynod ddwys o ran lefel yr anabledd y maent ei achosi yn y pen draw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:23 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call Aled Roberts. I must ask people to be succinct.

Galwaf yn awr ar Aled Roberts. Rhaid imi ofyn i bobl fod yn gryno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:23

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes; I will be. Nick Ramsay mentioned low prevalence. Actually, I knew very little about motor neurone disease until around two years ago, when my father-in-law was diagnosed with it; he subsequently died around three months later. Strangely, one of my mother's best friends was diagnosed last week with the disease. He lives two doors away from my where my father-in-law lived. I can only praise the palliative team in Wrexham Maelor Hospital and the neurologists from Walton. We, as a family, experienced the very difficulties that Nick Ramsay referred to as far as diagnosis was concerned. There was a lack of knowledge, as far as generic specialists at Wrexham were concerned, in the first instance. Therefore, I can only say that I too would support all that the Government can do with regard to improving early diagnosis and the red-flag scheme.

lawn, byddaf yn gryno. Soniodd Nick Ramsay am gyn lleied o achosion o'r clefyd a welir. A dweud y gwir, nid oeddwn yn gwybod fawr ddim am glefyd niwronau motor tan oddeutu dwy flynedd yn ôl, pan gafodd fy nhad yng nghyfraith ddiagnosis ei fod yn dioddef ohono; bu farw ohono wedyn tua thri mis yn ddiweddarach. Yn rhyfedd iawn, cafodd un o ffrindiau gorau fy mam ddiagnosis o'r clefyd yr wythnos diwethaf. Mae'n byw ddau ddrws i ffwrdd o'r fan lle'r oedd fy nhad yng nghyfraith yn byw. Ni allaf ond canmol y tîm lliniarol yn Ysbyty Maelor Wrecsam a niwrolegwyr o Walton. Rydym ni fel teulu wedi profi'r union anawsterau y cyfeiriodd Nick Ramsay atynt o ran diagnosis. Yn y lle cyntaf, roedd diffyg gwybodaeth o ran yr arbenigwyr generig yn Wrecsam. Felly, ni allaf ond dweud fy mod innau hefyd yn cefnogi'r cyfan y gall y Llywodraeth ei wneud o ran gwella diagnosis cynnar a'r cynllun baner goch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:24

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Member for Monmouthshire for allowing me to contribute to this debate. I have only ever known two people with motor neurone disease—one around 20 years ago and one who is suffering now, as we speak. I was really quite shocked with the way that this particular illness takes your strength, your health and, eventually, your dignity. We see it as a progressively degenerative disease and one that is often severely life shortening. While they say that the disease is, fortunately, quite rare, that in itself presents its own problems. Currently, the concerns that a friend raised with me, based on the experiences of their father who is suffering from MND, are around a lack of awareness about the disease. This connects down to the medical profession, too. When you are feeling so ill and so weak, the fact is that you cannot actually access diagnostic treatment, continued treatment and support.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod dros Sir Fynwy am ganiatáu imi gyfrannu at y ddatl hon. Dim ond dau o bobl erioed rwyf wedi'u hadnabod a ddiodefai â chlefyd niwronau motor—un tua 20 mlynedd yn ôl ac un sy'n dioddef y funud hon, wrth inni siarad. Roedd yn dipyn o sioc i mi weld y ffordd y mae'r salwch penodol hwn yn dwyn eich cryfder, eich iechyd ac yn y pen draw, eich urddas. Rydym yn ei weld fel clefyd dirywiol sy'n gwaethygu ac un sy'n aml yn byrhau bywyd yn ddifrifol. Er eu bod yn dweud bod y clefyd, yn ffodus, yn eithaf prin, mae hynny ynddo'i hun yn creu ei broblemau. Ar hyn o bryd, mae'r pryderon y tynnodd ffrind fy sylw atynt ar sail profiadau eu tad sy'n dioddef o MND yn ymwneud â diffyg ymwybyddiaeth o'r clefyd. Mae cysylltiad rhwng hyn â'r proffesiwn meddygol hefyd. Pan fyddwch yn teimlo mor sâl ac mor wan, mewn gwirionedd ni allwch gael mynediad at driniaeth ddiagnostig, triniaeth barhaus a chymorth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I just wanted to put on record my gratitude to St David's Hospice. Too often, we associate hospices with cancer treatments only, and I have to say that, in this particular instance—

Roeddwn i eisiau cofnodi fy niolch i Hosbis Dewi Sant. Yn rhy aml, rydym yn cysylltu hosbisau â thriniaethau cancer yn unig, ac mae'n rhaid i mi ddweud, yn yr achos penodol—

18:25

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can you wind up now, please?

A allwch chi ddirwyn i ben yn awr, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:25

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. In this particular instance, the person concerned, who is suffering from this illness, is really gaining tremendous support from this hospice and palliative care.

Gallaf. Yn yr achos penodol hwn, mae'r unigolyn dan sylw, sy'n dioddef o'r salwch hwn, mewn gwirionedd yn cael cefnogaeth wych gan yr hosbis a gofal lliniarol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:25

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Mark Isherwood. I must ask you to be extremely brief, Mark.

Galwaf ar Mark Isherwood. Rhaid imi ofyn i chi fod yn eithriadol o fyr, Mark.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:26

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. As Nick Ramsay indicated, I chair the cross-party group on neurological conditions, sponsored by the Wales Neurological Alliance, which is represented by the Motor Neurone Disease Association on the neurosciences network in north Wales. If they would like to contact me, I would be delighted to arrange a meeting with Madeleine Moon to see how the two groups can work together on a cross-border basis.

I will conclude by referring to the fact that Kevin asked me to host at St David's Hospice, last October, the moving film 'I Am Breathing' to health and social care professionals, raising awareness of MND and telling the story of the final months of life of Neil Platt, who found as a young man with a new child that he was dying from motor neurone disease. I commend that film to all of you as a wonderful way of understanding and sharing awareness of the condition.

lawn. Fel y nododd Nick Ramsay, rwy'n gadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar gyflyrau niwrolegol a noddir gan Gynghair Niwrolegol Cymru, ac sy'n cael ei gynrychioli gan y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor ar y rhwydwaith niwrowyddorau yng ngogledd Cymru. Os byddent yn hoffi cysylltu â mi, byddwn wrth fy modd yn trefnu cyfarfod gyda Madeleine Moon i weld sut y gall y ddau grŵp weithio gyda'i gilydd ar sail drawsffiniol.

Rwyf am gloi drwy gyfeirio at y ffaith bod Kevin wedi gofyn i mi gyflwyno'r ffilm deimladwy 'I Am Breathing' i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn Hosbis Dewi Sant fis Hydref diwethaf. Mae'n ffilm sy'n codi ymwybyddiaeth o MND ac yn adrodd hanes misoedd olaf bywyd Neil Platt, a ddarganfu pan oedd yn ddyn ifanc a newydd gael plentyn ei fod yn marw o glefyd niwronau motor. Rwy'n eich annog i gyd i wyllo'r ffilm fel ffordd wych o ddeall a rhannu ymwybyddiaeth o'r cyflwr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:26

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I call on the Minister for Health and Social Services to reply to the debate, Mark Drakeford.

Diolch yn fawr. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddadl, Mark Drakeford.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:27

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

May I thank Nick Ramsay for what I thought was a thoughtful, informative and detailed contribution to the debate? Edwina Hart said in her reply to the last short debate that short debates are often among the most useful things that happen in the Assembly, and when they are properly used, they really do make a big contribution to the quality of our debates. I thought that Nick's opening speech and, indeed, all the contributions that we have heard were really exemplary in that way. I do not suppose that I will manage to answer every question that was raised as Nick went along. I am very happy to read his contribution after today and, if there are points that I am not able to respond to immediately, to provide a response to him beyond this afternoon.

A gaf fi ddiolch i Nick Ramsay am yr hyn roeddwn i'n meddwl oedd yn gyfraniad meddylgar, llawn gwybodaeth fanwl i'r ddadl? Dywedodd Edwina Hart yn ei hymateb i'r ddadl fer ddiwethaf fod dadleuon byr yn aml ymhlith y pethau mwyaf defnyddiol sy'n digwydd yn y Cynulliad, a phan wneir defnydd cywir ohonynt, maent yn gwneud cyfraniad mawr i ansawdd ein dadleuon. Roeddwn yn meddwl bod araith agoriadol Nick, ac yn wir, yr holl gyfraniadau rydym wedi'u clywed yn wirioneddol ragorol yn y ffordd honno. Nid wyf yn tybio y byddaf yn llwyddo i ateb pob cwestiwn a gododd fel Nick wrth iddo fwrw drwyddi. Rwy'n hapus iawn i ddarllen ei gyfraniad ar ôl heddiw ac os oes pwyntiau nad wyf yn gallu ymateb iddynt ar unwaith, byddaf yn darparu ymateb iddo ar ôl y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am inevitably going to cover some of the same ground as others have mentioned, but I hope to add to what we have heard as well. Motor neurone disease, as we have heard, is a relatively rare but cruel condition. Some two people in every 100,000 are likely to develop the disease in Wales. That makes it a rare disease by the formal classification of that way of thinking about things. Here in Wales, we were the first nation in the United Kingdom to publish our rare disease plan, one of four that are to be developed across the United Kingdom and in which we will take a leading part.

Rwy'n anochel yn mynd i ymdrin â rhai o'r un pethau ag y cyfeiriodd eraill atynt, ond rwy'n gobeithio ychwanegu at yr hyn a glywsom hefyd. Mae clefyd niwronau motor, fel y clywsom, yn gyflwr cymharol brin ond yn un creulon. Tua dau o bobl ym mhob 100,000 sy'n debygol o ddatblygu'r clefyd yng Nghymru. Mae hynny'n ei wneud yn glefyd prin yn ôl dosbarthiad ffurfiol y ffordd honno o feddwl am bethau. Yma yng Nghymru, ni oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyhoeddi ein cynllun ar gyfer clefydau prin, un o bedwar sydd i'w datblygu ar draws y Deyrnas Unedig ac y byddwn yn cymryd rhan flaenllaw ynddynt.

Within that, we know that MND takes more than one form. Some 5% of MND sufferers, for example, will have a family history of the disease. It is a disease that is predominantly a condition of middle age. Onset takes place in the considerable majority of cases between the ages of 40 and 60, although it is not impossible for the disease to attack much younger and much older people. It is a disease that is more likely to develop in men than in women.

O fewn hynny, gwyddom fod mwy nag un ffurf ar MND. Bydd tua 5% o ddioddefwyr MND, er enghraifft, â hanes teuluol o'r clefyd. Mae'n glefyd sy'n gyflwr canol oed yn bennaf. Yn y mwyafrif sylweddol o achosion, bydd yn dechrau rhwng 40 a 60 oed, er nad yw'n amhosibl i'r clefyd effeithio ar bobl llawer iau a llawer hŷn. Mae'n glefyd sy'n fwy tebygol o ddatblygu mewn dynion nag mewn merched.

Once it begins, in whatever form and at whatever age, the progress of the disease can be rapid and debilitating. As you have heard, although estimates vary, in the current state of knowledge and treatment, about half the people who are diagnosed with the condition will die within 14 months of diagnosis. Such a rapid course is not inevitable; some two out of 10 MND sufferers will live for more than five years, and one in 10 will survive for 10 years and more. The causes of the condition are not known, as Mick Antoniw pointed out. It is not currently thought to be associated with precipitating conditions such as race, diet or lifestyle.

I want to pick up on something that Nick Ramsay said, because I think that there is quite a profound message for us, and for all of our fellow citizens, in the way that we think about the health service and its future. I try to say a lot, when I am speaking on public platforms, about the way in which, if we want the health service of the future to be able to respond in the way that we would like it to respond to conditions like MND, for which there is known precipitating cause, we all have to do more to avoid the harms that are avoidable. So much of what the health service deals with are harms that need not have happened, where we know that, with better and more careful attention to our own health, we could have avoided those things. If we want the health service to be able to concentrate on those things that could happen to any one of us, without anything that we could do about it, we need to find the scope for the health service to do that by all of us taking the responsibility that comes with avoiding harms that need not happen at all.

I am going to say more positive things about the developments that can help people diagnosed with this condition, but, at this point, I think that it is important to acknowledge that, for anyone who receives such a diagnosis, the immediate impact is likely to be devastating and can be little short of terrifying. We know from the literature that there is a cycle of anger, bargaining, depression and, for most people, acceptance; that is a journey that people will be likely to follow. It can be, as Aled Roberts reminded us, rapid progress, too, in which all of that has to be accomplished.

Last month was, as you have heard, Motor Neurone Disease Awareness Month. The themes that lie behind the Voice campaign map very closely onto those set out in the neurological conditions delivery plan. Awareness raising is the first part of that plan. Nick asks what the Government can do. I am very happy to say to him—

Darren Millar a gododd—

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

I am very happy to take an intervention.

Ar ôl iddo ddechrau, ar ba ffurf bynnag ac ar ba oedran bynnag, gall y clefyd waethygu'n gyflym a gall fod yn nychus. Fel rydych wedi clywed, er bod amcangyfrifon yn amrywio, o'r hyn a wyddys a'r modd y trinnir y cyflwr ar hyn o bryd, bydd tua hanner y bobl sy'n cael diagnosis o'r cyflwr yn marw o fewn 14 mis i'r diagnosis. Nid yw cyflymder o'r fath yn anochel; bydd tua dau o bob 10 sy'n dioddef o MND yn byw am fwy na phum mlynedd, a bydd un o bob 10 yn goroesi am 10 mlynedd a mwy. Ni wyddys beth sy'n achosi'r cyflwr, fel y nododd Mick Antoniw. Ni chredir ar hyn o bryd ei fod yn gysylltiedig ag amodau achosol megis hil, deiet neu ffordd o fyw.

Rwyf am gyfeirio at rywbeth a ddywedodd Nick Ramsay, gan fy mod yn credu ei bod yn neges go ddwys i ni, ac i bawb o'n cyd-ddinasyddion, o ran y ffordd rydym yn meddwl am y gwasanaeth iechyd a'i ddyfodol. Pan fyddaf yn siarad ar lwyfannau cyhoeddus, rwy'n ceisio dweud llawer am y ffordd y mae'n rhaid i bawb ohonom wneud rhagor i osgoi'r niwed y gellir ei osgoi os ydym am i'r gwasanaeth iechyd yn y dyfodol ymateb yn y ffordd y byddem yn hoffi iddo ymateb i gyflyrau na ellir eu hosgoi fel MND. Mae cymaint o'r hyn y mae'r gwasanaeth iechyd yn ei drin yn ymwneud â niwed nad oes angen iddo fod wedi digwydd, lle y gwyddom y gallem fod wedi osgoi'r pethau hynny drwy fwy o sylw a gofal gwell am ein hiechyd ein hunain. Os ydym am i'r gwasanaeth iechyd allu canolbwyntio ar y pethau hynny a allai ddigwydd i unrhyw un ohonom, heb fod unrhyw beth y gallwn ei wneud am y peth, mae angen inni alluogi'r gwasanaeth iechyd i wneud hynny drwy i bob un ohonom ysgwyddo'r cyfrifoldeb sy'n dod gydag osgoi niwed nad oes angen iddo ddigwydd o gwbl.

Rwy'n mynd i ddweud pethau mwy cadarnhaol am y datblygiadau a all helpu pobl sy'n cael diagnosis o'r cyflwr hwn, ond ar hyn o bryd, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod, i unrhyw un sy'n derbyn diagnosis o'r fath, mae'n debyg y bydd yr effaith uniongyrchol yn ddinistriol, ac yn frawychus yn wir. Rydym yn gwybod o'r llenyddiaeth am y cylch o ddicter, bargeinio, iselder ac i'r rhan fwyaf o bobl, derbyniad; honno yw'r daith y mae pobl yn debygol o'i dilyn. Fel y cawsom ein hatgoffa gan Aled Roberts, gall y gwaethygiad fod yn gyflym hefyd, a rhaid mynd drwy hyn oll o fewn amser byr.

Fel y clywsoch, y mis diwethaf oedd Mis Ymwybyddiaeth o'r Clefyd Niwronau Motor. Mae'r themâu sy'n sail i'r ymgyrch Voice yn debyg iawn i'r rhai a nodir yn y cynllun cyflawni ar gyfer cyflyrau niwrolegol. Codi ymwybyddiaeth yw rhan gyntaf y cynllun. Mae Nick yn gofyn beth y gall y Llywodraeth ei wneud. Rwy'n hapus iawn i ddweud wrtho —

Darren Millar rose—

Rwy'n fodlon iawn i gymryd ymyriad.

18:32

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you; I am grateful to you, Minister, for taking the intervention. I think that awareness of this disease is absolutely critical. Would you congratulate the many families who also work hard to raise awareness when their loved ones may have received a diagnosis, including the family of Councillor William Knightly in Towyn in North Wales, who have shown incredible resolve and determination to ensure that the local community there is aware of the devastation that this disease can cause?

Diolch i chi; rwy'n ddiolchgar ichi, Weinidog, am dderbyn yr ymyriad. Rwy'n meddwl bod ymwybyddiaeth o'r clefyd hwn yn hollol hanfodol. A wneuch chi longyfarch y teuluoedd lawer sydd hefyd yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth wedi i'w hanwyliaid gael diagnosis, gan gynnwys teulu'r Cynghorydd William Knightly yn Nhowyn, gogledd Cymru, sydd wedi dangos penderfyniad anhygoel i sicrhau bod y gymuned leol yno yn ymwybodol o'r dinistr y gall y clefyd hwn ei achosi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:33

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree with Darren Millar; I want to associate myself with what he said. I was doing my own shopping two weekends ago, and, coming out of the supermarket, there were families collecting as part of last month's activities. Knowing that this debate was going to happen, I took the chance to go over to talk to them about their experience. It was immensely moving to hear what they had to say, but immensely heartening, as well, to think how people, at such a devastating time in their lives, still find the resources to think about other people and still want to be part of making things better for others. So, I very much associate myself with what Darren Millar has said. Simply sitting there and talking to people as they went by was part of awareness raising. I think of this debate as part of a contribution to that.

Cytunaf yn llwyr â Darren Millar; rwyf am ategu'r hyn a ddywedodd. Roeddwn wrthi'n siopa ddau benwythnos yn ôl, ac wrth ddod allan o'r archfarchnad, gwelais deuluoedd yn casglu arian fel rhan o weithgareddau'r mis diwethaf. Gan wybod bod y ddadl hon yn mynd i ddiwydd, manteisiais ar y cyfle i fynd draw i siarad â hwy am eu profiadau. Roedd clywed yr hyn a oedd ganddynt i'w ddweud yn hynod deimladwy, ond yn hynod galonogol, yn ogystal, o feddwl sut y mae pobl, ar adeg mor ofnadwy yn eu bywydau, yn dal i ddod o hyd i'r adnoddau i allu meddwl am bobl eraill a dal i fod yn awyddus i gyfrannu at y gwaith o wneud pethau'n well i bobl eraill. Felly, rwy'n ategu'n gadarn yr hyn y mae Darren Millar wedi dweud. Roedd eistedd yno a siarad â phobl wrth iddynt fynd heibio yn rhan o'r gwaith o godi ymwybyddiaeth. Rwy'n meddwl am y ddadl hon fel rhan o gyfraniad at hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nick asked specifically what the Welsh Government will do. I will say a little bit more in a moment about the implementation group that has now been set up to take forward the neurological conditions delivery plan. It will be led by Dr Matt Makin, the medical director of Betsi Cadwaladr University Local Health Board. It has its first meeting planned in the next few weeks; awareness raising is one of the first things that it is going to be talking about in that first meeting.

Gofynnodd Nick yn benodol beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Byddaf yn dweud ychydig mwy mewn munud am y grŵp gweithredu sydd bellach wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â'r cynllun cyflawni ar gyfer cyflyrau niwrolegol. Bydd yn cael ei arwain gan Dr Matt Makin, cyfarwyddwr meddygol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae ei gyfarfod cyntaf i'w gynnal yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf; codi ymwybyddiaeth yw un o'r pethau cyntaf y mae'n mynd i fod yn eu trafod yn y cyfarfod cyntaf.

The second thing that the delivery plan talks about is early diagnosis, and we know that that is a particular challenge in this condition. There is no single test to diagnose MND. One of the real challenges of responding to it is that the early symptoms look so very much like other more common conditions, like a trapped nerve or peripheral neuropathy, associated with type-2 diabetes. It is why the red flag tool is so important, because it will assist GPs hugely to make that early diagnosis. It is important that the Royal College of General Practitioners is associated with that, because professional advice coming from the royal college gives it a status and significance in the eyes of the GPs, which will mean that it will be taken notice of.

Yr ail beth y mae'r cynllun cyflawni yn sôn amdano yw diagnosis cynnar, a gwyddom fod honno'n her benodol mewn perthynas â'r cyflwr hwn. Nid oes prawf penodol ar gyfer gwneud diagnosis o MND. Un o'r heriau gwirioneddol wrth ymateb iddo yw bod y symptomau cynnar yn edrych mor debyg iawn i gyflyrau eraill mwy cyffredin, fel nerf gaeth neu niwropatheg ymylol, sy'n gysylltiedig â chlefyd y siwgr math 2. Dyna pam y mae'r offeryn baner goch mor bwysig, gan y bydd yn help mawr i feddygon teulu allu gwneud diagnosis cynnar. Mae'n bwysig fod Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn gysylltiedig â hynny, oherwydd bod cyngor proffesiynol sy'n dod oddi wrth y coleg brenhinol yn rhoi statws ac arwyddocâd iddo yn llygaid meddygon teulu, a fydd yn golygu y byddant yn rhoi sylw iddo.

Nick asked if I would make sure that chief executives distribute the tool through their networks to those who need to use it. I certainly give that undertaking. I meet chief executives regularly. I will make sure that I raise this with them directly when that next takes place.

Gofynnodd Nick a allwn wneud yn siŵr bod prif weithredwyr yn dosbarthu'r offeryn drwy eu rhwydweithiau fel bod y rhai sydd ei angen yn ei ddefnyddio. Rwy'n sicr yn addo hynny. Rwy'n cyfarfod â phrif weithredwyr yn rheolaidd. Byddaf yn sicrhau fy mod yn codi hyn gyda hwy'n uniongyrchol pan fydd hynny'n digwydd nesaf.

The third key aspect of the delivery plan is providing effective care. We had an adult neurosciences review in Wales in 2008, which my colleague Edwina Hart set up. As a result of that work, care pathways were developed for some neurological conditions, including MND. There are two pathways set out under the review, for suspected MND and the management of MND. It makes it clear that a multi-disciplinary approach is essential to providing for the effective care of someone who has had that diagnosis. The involvement of the third sector in that is an integral part of how those services should be provided. It has to be done quickly and regularly because of the rate at which the disease progresses.

We talk in the delivery plan, as we do in them all, about living with a condition. Early diagnosis of MND matters for a particular reason, and that is because of how it can allow individuals to exert control and influence over their futures, even in these circumstances. We are more familiar today than we were even five years ago with the concept of advanced decision making, and that is especially pertinent in the case of motor neurone disease, where the mind remains unaffected but where the physical impact is so profound.

I was very fortunate over the last couple of months to be able to help launch a new group here in Wales, called the Dying Matters Coalition. The coalition is made up of clinicians, voluntary bodies and patients, and it aims to persuade us all to make better preparation for our own mortality. The coalition has a new chair, Hywel Francis MP, and it is led by senior clinicians, such as Dr Paul Buss, the medical director of Aneurin Bevan health board, and Baroness Iloria Finlay. It has advanced decision making as one of its central themes, and we are much assisted here in Wales, because Cardiff University law school has a group of academic lawyers who are among the leading developers of this important agenda.

For motor neurone disease sufferers, an advanced decision means making known treatment preferences in case you are unable to communicate your decisions later—that voice aspect of the campaign—because you are too ill to do so. It is about knowing in advance how you might want decisions to be made: whether to be treated at home, at a hospice or in a hospital; whether you would wish a feeding tube to be inserted if you are no longer able to swallow; whether in the case of respiratory failure you would wish resuscitation to be attempted by artificial means; or whether you are willing to donate organs when death comes, because the brain and spine of people with motor neurone disease are especially important for ongoing research.

Drug therapy currently available is only of very limited efficacy. It can increase survival for a small number of months, but the disease continues to progress and the treatment itself brings significant side effects. Responding to the condition, therefore, relies more on strong specialist and community support, with which individuals can go on leading relatively independent lives and lives of real quality.

Trydedd agwedd allweddol y cynllun cyflawni yw darparu gofal effeithiol. Cawsom adolygiad o wasanaethau niwrowyddorau i oedolion yng Nghymru yn 2008, a sefydlwyd gan fy nghydweithiwr, Edwina Hart. O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, datblygwyd llwybrau gofal ar gyfer rhai cyflyrau niwrolegol, gan gynnwys MND. Mae dau lwybr wedi'u nodi yn yr adolygiad, ar gyfer achosion lle y ceir amheuaeth o MND, a rheoli MND. Mae'n ei gwneud yn glir bod dull amlddisgyblaethol yn hanfodol er mwyn darparu gofal effeithiol i rywun sydd wedi cael diagnosis. Mae cynnwys y trydydd sector yn hyn yn rhan annatod o sut y dylid darparu'r gwasanaethau hynny. Mae'n rhaid ei wneud yn gyflym ac yn rheolaidd am fod y clefyd yn gwaethygu mor gyflym.

Rydym yn siarad yn y cynllun cyflawni, fel y gwnawn ynddynt oll, am fyw gyda chyflwr. Mae cael diagnosis cynnar o MND yn bwysig am reswm penodol, a hynny oherwydd y modd y gall ganiatáu i unigolion reoli a dylanwadu ar eu dyfodol, hyd yn oed yn yr amgylchiadau hyn. Rydym yn fwy cyfarwydd heddiw na phum mlynedd yn ôl hyd yn oed â'r cysyniad o wneud penderfyniadau uwch, ac mae hynny'n arbennig o berthnasol yn achos clefyd niwronau motor, lle y mae'r meddwl yn parhau i fod heb ei effeithio, ond lle y mae'r effaith gorfforol mor ddwys.

Roeddwn yn ffodus iawn dros y misoedd diwethaf i allu helpu i lansio grŵp newydd yma yng Nghymru, a elwir yn gynghrair 'Dying Matters'. Mae'r gynghrair yn cynnwys clinigwyr, cyrff gwirfoddol a chleifion, a'i nod yw ein perswadio ni i gyd i baratoi'n well ar gyfer ein marwolaeth ein hunain. Mae cadeirydd newydd gan y gynghrair, Hywel Francis AS, a chaiff ei harwain gan uwch glinigwyr, fel Dr Paul Buss, cyfarwyddwr meddygol bwrdd iechyd Aneurin Bevan, a'r Farwnes Iloria Finlay. Mae gwneud penderfyniadau uwch yn un o'i themâu canolog, ac rydym yn cael cryn dipyn o gymorth yma yng Nghymru, am fod gan Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerdydd grŵp o gyfreithwyr academaidd sydd ymhlith y rhai sy'n arwain ar ddatblygu'r agenda bwysig hon.

I ddiodefwyr clefyd niwronau motor, mae penderfyniad uwch yn golygu rhoi gwybod am eich dewisiadau o ran triniaethau rhag ofn na fyddwch yn gallu cyfleu eich penderfyniadau yn ddiweddarach—yr agwedd honno o'r ymgyrch sy'n ymwneud â llais—oherwydd eich bod yn rhy sâl i wneud hynny. Mae'n ymwneud â gwybod ymlaen llaw sut yr hoffech i benderfyniadau gael eu gwneud: ai cael triniaeth yn y cartref, mewn hosbis neu mewn ysbyty; a fydddech yn dymuno cael tiwb bwydo wedi'i fewnosod os nad ydych yn gallu llyncu mwyach; a fydddech eisiau cael eich dadebru drwy ddulliau artiffisial os byddwch yn methu ag anadlu; neu a ydych yn barod i roi organau pan ddaw marwolaeth, gan fod ymennydd ac asgwrn cefn pobl sydd â chlefyd niwronau motor yn arbennig o bwysig ar gyfer yr ymchwil sy'n parhau.

Cyfyngedig iawn yw effaith therapi cyffuriau sydd ar gael ar hyn o bryd. Gall ymestyn hyd oes am nifer fechan o fisoedd, ond mae'r clefyd yn parhau i waethygu ac mae'r driniaeth ei hun yn creu sgîl effeithiau sylweddol. Mae ymateb i'r cyflwr, felly, yn dibynnu mwy ar gymorth arbenigol a chymunedol cryf a gall unigolion barhau i fyw bywydau cymharol annibynnol a bywydau o ansawdd go iawn gyda chymorth o'r fath.

When the end comes, as we have heard in the debate this afternoon, palliative care is especially important. Janet Finch-Saunders made the point powerfully that palliative care and hospice care today is much more than cancer care. Here in Wales, through the board that drives that and Ilora Finlay's leadership of it, we are better placed to respond to the sorts of conditions that we are discussing here today.

For the future, research is absolutely essential. Mick Antoniw made this point, but I think that it is important to say, as a leading clinician in the field of motor neurone disease said very recently, that there is more going on in MND research today than at any other time in the past. There may not be enough, but it is certainly an agenda that has more purchase and more activity than would have been true of any previous time. Part of that is, of course, because of stem-cell research, which offer a wholly new way of thinking about the disease. It is at a very early stage, but it offers a different set of possibilities to the ones that have been there in the past. The work of Cardiff University, which we have heard about, is a really important contribution to all of this, The Medical Research Council Centre for Neuropsychiatric Genetics and Genomics is here in Cardiff and, since the fourth Assembly was elected, international research in which Cardiff has been a key partner has made a very important breakthrough in identifying a gene associated with that familial form of the disease, which I mentioned at the outset.

I see that I am out of time. I conclude by saying that I believe that we have in place some of the necessary building blocks to help us respond positively in the present to the needs of those who suffer from this awful condition and some important developments that will allow us to help improve the position in the future. I am very grateful to Nick for having raised awareness by putting motor neurone disease forward for this afternoon's debate, and to all those who have taken part.

18:42

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:43.

Pan ddaw'r diwedd, fel y clywsom yn y ddadl y prynhawn yma, mae gofal lliniarol yn arbennig o bwysig. Gwnaeth Janet Finch-Saunders y pwynt grymus fod gofal lliniarol a gofal hosbis heddiw yn llawer mwy na gofal canser. Yma yng Nghymru, drwy'r bwrdd ar gyfer gofal o'r fath ac arweinyddiaeth Ilora Finlay, rydym mewn sefyllfa well i ymateb i'r mathau o gyflyrau rydym yn eu trafod yma heddiw.

Ar gyfer y dyfodol, mae ymchwil yn gwbl hanfodol. Gwnaeth Mick Antoniw y pwynt hwn, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig dweud, fel y dywedodd clinigwr arweiniol ym maes clefyd niwronau motor yn ddiweddar iawn, fod mwy yn digwydd ym maes ymchwil i MND heddiw nag ar unrhyw adeg arall yn y gorffennol. Efallai na fydd yn ddigon, ond mae'n sicr yn agenda sydd â mwy o rym a gweithgarwch yn perthyn iddi nag ar unrhyw adeg yn y gorffennol. Deillia hynny'n rhannol, wrth gwrs, o ymchwil bôn-gelloedd, sy'n cynnig ffordd gwbl newydd o feddwl a y clefyd. Mae ar gam cynnar iawn, ond mae'n cynnig set wahanol o bosibiliadau i'r rhai a gafwyd yn y gorffennol. Mae gwaith Prifysgol Caerdydd, y clywsom amdano, yn gyfraniad pwysig iawn i hyn oll. Mae Canolfan y Cyngor Ymchwil Meddygol ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig yma yng Nghaerdydd ac ers i'r pedwerydd Cynulliad gael ei ethol, mae ymchwil ryngwladol y mae Caerdydd wedi bod yn bartner allweddol ynddi wedi gwneud camau pwysig iawn ymlaen o ran nodi genyn sy'n gysylltiedig â'r ffurf deuluol o'r clefyd, y soniais amdano ar y dechrau.

Gwelaf nad oes gennyf ragor o amser. Rwy'n cloi drwy ddweud fy mod yn credu bod gennym rai o'r cerrig sylfaen angenrheidiol yn eu lle i'n helpu i ymateb yn gadarnhaol yn y presennol i anghenion y rhai sy'n dioddef o'r cyflwr erchyll hwn a rhai datblygiadau pwysig a fydd yn ein galluogi i helpu i wella'r sefyllfa yn y dyfodol. Rwy'n ddiolchgar iawn i Nick am godi ymwybyddiaeth drwy gyflwyno clefyd niwronau motor ar gyfer y ddadl y prynhawn yma, ac i bawb sydd wedi cymryd rhan.

Diolch i chi, Weinidog. Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

The meeting ended at 18:43.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)